

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:	Dynodi Parc Cenedlaethol newydd yng Nghymru a'i roi ar waith
Adran:	Tirweddau, Natur a Choedwigaeth
Ysgrifennydd y Cabinet/Gweinidog â chyfrifoldeb:	Huw Irranca Davies (AS) Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
Dyddiad Dechrau:	Awst 2025

CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?	3
Adran 2. Beth fydd yr effaith ar lesIANT cymdeithasol?	8
Adran 3. Beth fydd yr effaith ar lesIANT diwylliannol a'r Gymraeg?	26
Adran 4. Beth fydd yr effaith ar lesIANT economaidd?	31
Adran 5. Beth fydd yr effaith ar lesIANT amgylcheddol?	36
Adran 6. Dyletswydd economaidd-gymdeithasol Beth fydd yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol?	44
Adran 7. Cofnod o asesiadau effaith llawn sy'n ofynnol	44
Adran 8. Casgliad	46
ADRAN 9. DATganiad	54
ASESIADAU EFFAITH LLAWN	55
A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT	55
B. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB	71
C. Asesiad O'R Effaith AR BrawfESUR Gwledig	85
D. SGRINIO AR GYFER ASESU'R EFFAITH AR DDIOGELU DATA	108
E. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG	108
Atodiad F Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth	118
Cynigion Polisi	118
F. ASESIAD O'R DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL	142

ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Yr ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd, yn seiliedig ar ardal bresennol Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, yw'r Parc Cenedlaethol cyntaf i gael ei ddylunio a'i ddyfeisio yng Nghymru er budd y genedl. Byddai'r Parc Cenedlaethol newydd yn gwarchod ac yn gwella harddwch naturiol yr ardal trwy gryfhau adferiad natur, rheoli pwysau hamdden a darparu manteision llesiant ehangach i gymunedau lleol ac ymwelwyr.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), fel yr awdurdod dynodi, wedi cwblhau ei waith casglu tystiolaeth, gan gynnwys asesu'r Grymoedd dros Newid, Opsiynau Rheoli a Nodweddion Tirwedd Arbennig. Daeth y gwaith hwn i'r casgliad mai sefydlu Parc Cenedlaethol gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) pwrpasol sy'n ei reoli sy'n cynnig y ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r heriau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sy'n effeithio ar yr ardal. Mae'r cynnig yn rhan bwysig o'r ymateb ar y cyd i'r argyfyngau hinsawdd a natur ac i'r pwysau a brofir gan gymunedau gwledig yn y rhanbarth.

Hirdymor

Mae tueddiadau'r dyfodol i Gymru yn dangos y bydd colli bioamrywiaeth yn digwydd yn gyflymach, y ceir effeithiau ar yr hinsawdd (llifogydd/gwres), y bydd demograffeg yn newid, ac y ceir newid mewn patrymau twristiaeth, gan effeithio ar dirweddau a chymunedau. Mae Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025 (SoNaRR 2025) yn cadarnhau mai newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth a llygredd yw'r heriau amgylcheddol mwyaf dybryd a systemig sy'n wynebu Cymru. Nid risgiau yn y dyfodol yw'r bygythiadau hyn ond maent eisoes yn siapio ecosystemau, economïau a gwydnwch cymunedol. Mae SoNaRR 2025 yn pwysleisio nad yw Cymru eto'n cyrraedd nodau hirdymor rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a bod yn rhaid i benderfyniadau polisi yn y dyfodol fod wedi'u gwreiddio'n gadarn yn y dystiolaeth hon i ddiogelu systemau naturiol a chefnogi llesiant cymunedol.

Nod dynodiad Parc Cenedlaethol yw sicrhau mecanwaith parhaol i gefnogi rhwydweithiau ecolegol gwydn, diogelu nodweddion tirwedd a chynllunio ar gyfer twristiaeth gynaliadwy trwy gynlluniau statudol, rheoli datblygu mewn modd cryfach a rhoi ystyriaeth integredig i'r materion hyn o fewn trefniadau llywodraethu a phrosesau penderfynu.

Atal

Byddai'r dynodiad Parc Cenedlaethol yn creu fframwaith llywodraethu a chynllunio integredig sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol diraddio amgylcheddol fel darnio cynefinoedd, dalgylchoedd sensitif, a phwysau ymwelwyr heb eu rheoli. Mae'r offer yn cynnwys Cynllun Rheoli statudol, rheoli mynediad wedi'i dargedu, a chynllunio gofodol i arwain datblygiad i leoliadau priodol gan hefyd hyrwyddo arferion rheoli tir sy'n cael effaith gadarnhaol ar natur.

Bydd y dull cyfunol hwn o gymorth i leihau allyriadau, gwastraff ac effeithiau ar ansawdd aer. Mae dadansoddiad 'Grymoedd dros Newid' CNC yn adnabod risgiau (e.e. pwysau hamdden, fforddiadwyedd tai, newid defnydd tir) ac opsiynau i'w hatal rhag dwysau y byddai angen eu hystyried yn fanylach pe bai'r APC newydd yn cael ei ddynodi. Mae gan yr APC ddiben cyfreithiol i hybu mwynhad o'r dirwedd ac felly gall ymdrin â materion iechyd trwy wella cyfleoedd ar gyfer mynediad, ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer grwpiau penodol a hybu amgylchedd iach, glân er budd cymunedau ac ymwelwyr.

Integreiddio

Mae'r cynnig yn cyd-fynd ag ystod o agendâu polisi gan gynnwys 30x30, datgarboneiddio a phob un o'r saith nod llesiant. Mae integreiddio dibenion Parc Cenedlaethol â pholisi cyhoeddus ehangach yn darparu cyfleoedd sylweddol i gyflawni manteision lluosog ar draws agendâu polisi, er enghraifft, ymyriad trafndiaeth neu dwristiaeth i ddwyn manteision ar y cyd ar gyfer iechyd, diwylliant a datgarboneiddio.

Bydd APC newydd yn rhan o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer yr ardal ddynodedig, gan weithio ochr yn ochr ag awdurdodau rhanbarthol a lleol. Byddai'r corff newydd yn ysgwyddo cyfrifoldebau Awdurdod Cynllunio ar gyfer yr ardal ddynodedig, gyda disgwyl i drefniadau llywodraethu ddilyn y model sefydledig ar gyfer APCau. Byddai hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o blith yr Awdurdodau Lleol cyfansoddol ochr yn ochr ag Aelodau Cenedlaethol a benodir gan Weinidogion Cymru.

Cydweithio

Fel yr awdurdod dynodi, mae CNC wedi ymgysylltu'n helaeth dros y tair blynedd ddiwethaf ag awdurdodau lleol, cymunedau ac ystod eang o randdeiliaid mewn sectorau, gan gynnwys buddiannau ffermio, ynni, twristiaeth, busnes, trafndiaeth, amgylcheddol a hamdden.

Mae ymgysylltu strategol wedi canolbwyntio'n arbennig ar y pum Awdurdod Lleol o fewn yr ardal y dynodiad arfaethedig, gan sicrhau eu bod wedi cael gwybodaeth glir, eglurhad a thystiolaeth ategol i'w galluogi i gyflawni eu rôl fel ymgynghorai statudol yn effeithiol o fewn y broses ddynodi. Mae CNC wedi gwrando ar adborth ac wedi ymateb yn briodol gan dynnu ar ddadansoddiad o'r dystiolaeth a goladwyd ganddynt.

Cynnwys

Mae CNC wedi ymgysylltu ac ymgynghori'n barhaus, mewn modd strwythuredig ag Awdurdodau Lleol, cymunedau lleol ac ystod eang o grwpiau rhanddeiliaid o fewn ardal y dynodiad arfaethedig trwy gydol y broses asesu dros 3 blynedd. Mae Awdurdodau Lleol, trigolion lleol a buddiannau sectorau, gan gynnwys cyrff ffermio, twristiaeth, ynni, trafndiaeth, amgylcheddol a hamdden yn gymuned fuddiant sylweddol, ac mae CNC wedi blaenoriaethu deialog gynnar a pharhaus gyda hwy.

Mae ymgysylltu wedi cynnwys nifer o ddigwyddiadau yn y cnawd ac ar-lein yn 2023, ac yna gweithgarwch a digwyddiadau ymgynghori pellach yn 2024 a 2025. Mae gweithio

gyda'r rhanddeiliaid hyn wedi cryfhau dealltwriaeth am effeithiau posibl y cynnig ar draws cymunedau a sectorau. Roedd themâu a gododd dro ar ôl tro gan ymatebwyr yn cynnwys gwarchod y dirwedd, rheoli ymwelwyr, pwysau ar dai a gwasanaethau, ystyriaethau i ddiwylliant a threftadaeth, mynediad a goblygiadau cynllunio.

Yn ogystal â'r pum ffordd o weithio uchod, ystyriwch y meysydd canlynol:

Effaith

Gellir crynhoi'r prif ddadleuon fel a ganlyn:

- Adferiad natur a gwydnwch yn wyneb newid hinsawdd: Ffocws a rheoli statudol cryfach i warchod nodweddion arbennig, cysylltedd cynefinoedd, adfer mawndiroedd/coetiroedd ac iechyd dalgylchoedd afonydd, gan fynd i'r afael â'r risgiau systemig a adnabyddir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (2025).
- Bydd rheoli pwysau ymwelwyr yn well trwy ddatblygu strategaethau ar gyfer y parc cyfan, trafnidiaeth gynaliadwy, a gwasgaru ymwelwyr yn lleihau tagfeydd/allyriadau ac yn diogelu safleoedd sensitif.
- Manteision diwylliannol ac ieithyddol: Mae dibenion APC yn cwmpasu treftadaeth ddiwylliannol a dehongli; mae ymgysylltu dwyieithog gwell yn ategu uchelgeisiau Cymraeg 2050 a hunaniaeth gymunedol i gadw unigrywiaeth leol.
- Manteision economaidd: Mae tystiolaeth o Barciau Cenedlaethol presennol yn awgrymu enillion lleol cadarnhaol ar ffurf Gwerth Ychwanegol Gros (GVA), manteision i iechyd a llesiant a hynny gyda buddsoddiad cymedrol; mae dadansoddiadau o ymgyrchoedd yn dadlau y ceir adenillion uchel ar fuddsoddiad os darperir adnoddau ar gyfer hynny.
- Fforddiadwyedd tai a chydlyniant cymunedol: Risg o fwy o alw allanol os na chaiff hynny ei liniaru trwy bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol, offer rheoli datblygu sy'n ymwneud â phrif breswylfa/fforddiadwyedd, a gweithio mewn partneriaeth weithredol gydag awdurdodau tai.
- Lefel uwch o fiwrocratiaeth: Amlygwyd pryderon y gallai awdurdod newydd ychwanegu cymhlethdod neu gost ar gyfer llywodraethu a chynllunio. Mae prif bryderon Awdurdodau Lleol yn ymwneud â chyflawni'r swyddogaeth gynllunio, diogelwch ariannol hirdymor APC newydd, a'r costau ychwanegol posibl y gallent eu hysgwyo, gan gynnwys darparu gwasanaethau mewn ymateb i alw cynyddol o blith ymwelwyr.

- Mae effeithiau ar gymunedau a seilwaith lleol yn cynnwys pwysau ymwelwyr ar wasanaethau fel meddygfeydd teulu, meysydd parcio mewn pentrefi, y seilwaith ffyrdd ac effeithiau posibl ar y Gymraeg.

♦ *Pa mor eang ydych chi wedi archwilio'r dadleuon hyn trwy gynnwys a chydweithio?*

Mae CNC wedi ceisio ymdrin â'r materion a godwyd trwy roi esboniad clir o rôl a chylch gwaith posibl APC a fyddai'n bodoli yn y dyfodol, gan gynnwys lle byddai gan awdurdod o'r fath yr offer statudol i ymyrryd a lle byddai gweithredu ehangach yn dod i ran cyrff rhanbarthol neu genedlaethol fel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus neu Gydbwyllgorau Corfforedig. Mae'r materion hyn wedi cael eu harchwilio trwy gydol y rhaglen o ymgysylltu, ymgynghori a chyfarfodydd rhanddeiliaid, gan alluogi CNC i archwilio pryderon, profi dulliau posibl ac adnabod ble ellid dod o hyd i ddatrysiadau priodol

Mae'r Parc Cenedlaethol arfaethedig yn ymateb hirdymor, ataliol ac integredig i argyfyngau natur a hinsawdd Cymru a gall ategu llesiant cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd cymunedau lleol. Trwy gynnal cydweithio a chynnwys dwfn; cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ynghylch hinsawdd a natur, y Ddeddf Llesiant a'r gyfundrefn lywodraethu amgylcheddol sy'n dod i'r amlwg; gall Llywodraeth Cymru gynyddu'r manteision lluosog i'r eithaf gan hefyd reoli risgiau i sicrhau tirwedd sy'n cyflawni'r addewid ar gyfer natur, pobl, diwylliant, iaith a chenedlaethau'r dyfodol.

Costau ac Arbedion

Mae Dadansoddiad o Gostau a Manteision ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi asesu costau ac arbedion disgwylidiedig sefydlu APC Glyndŵr.

Bydd creu'r Awdurdod yn galw am gyllid trosiannol a sefydlu untro, ac yna cyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru sy'n gyson â'r trefniadau ar gyfer APCau presennol Cymru. Yn seiliedig ar gostiadau cyfredol, amcangyfrifir bod cyllid blyneddol craidd yn £3.5–4 miliwn.

Mae Gweinidogion Cymru'n dal i fod yn ymrwymedig i ddull dylunio ar y cyd gydag Awdurdodau Lleol, y timau a fyddai'n rhoi'r cynnig ar waith yn Llywodraeth Cymru, APCau Cymru, CNC a rhanddeiliaid eraill wrth lunio'r trefniadau llywodraethu a swyddogaethol. Bydd hyn yn cynnwys archwilio cyfleoedd ar gyfer darparu gwasanaethau ar y cyd ar draws Awdurdodau Lleol, APCau, a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Er y bydd yr Awdurdod newydd yn ysgwyddo dibenion statudol newydd, bydd rhai swyddogaethau'n trosglwyddo o Awdurdodau Lleol presennol.

Ceir rhagor o fanylion yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a thrwy'r Dadansoddiad o Gostau a Manteision.

Mecanwaith

Mae CNC wedi cyflwyno Gorchymyn Dynodi Parc Cenedlaethol Glyndŵr gerbron trwy **ddeddfwriaeth bresennol**, sy'n darparu fframwaith ar gyfer y broses ddynodi statudol yn Neddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 a Deddf yr Amgylchedd 1995. Bydd argymhelliad CNC yn cael ei ystyried gan Weinidogion Cymru i benderfynu a ddylid cadarnhau, gwrthod neu amrywio'r gorchymyn.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac Asesiad Effaith Integredig wedi cael eu cwblhau i ategu'r broses o gyflwyno'r cynnig.

2.1 Pobl a Chymunedau

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/fach iawn), fydd y cynnig yn effeithio ar bobl a chymunedau?

Disgwylir y bydd dynodi Parc Cenedlaethol arfaethedig Glyndŵr yn cael effeithiau cadarnhaol ac, os na chânt eu lliniaru, rhai effeithiau a allai fod yn negyddol ar bobl a chymunedau sy'n byw yn yr ardal, yn gweithio ynddi, neu'n ymweld â hi. Caiff yr effeithiau hyn eu siapio gan gymeriad hynod wledig yr ardal, ei phoblogaeth sy'n heneiddio, arwyddocâd diwylliannol ac ieithyddol ei chymunedau, a'i dibyniaeth economaidd ar fentrau bychain, diwydiannau'r tir, a thwristiaeth.

1. Pobl, cymunedau a grwpiau penodol yng nghefn gwlad

Mae'r cynnig yn dwyn manteision amlwg trwy well mynediad at amgylcheddau naturiol o ansawdd da, aer a dŵr glanach, a chyfleoedd ehangach ar gyfer hamdden awyr agored, y maent i gyd yn gallu gwella llesiant meddyliol a chorfforol. Disgwylir i gymunedau gwledig gael budd o wasanaethau ecosystem cryfach a rheoli amgylcheddol gwell. Fodd bynnag, mae'r risgiau a adnabuwyd yn cynnwys pwysau o ran fforddiadwyedd tai, cynnydd posibl yn nifer yr ymwelwyr, a'r posibilrwydd o wanhau cymunedau Cymraeg eu hiaith os na chaiff y risgiau eu rheoli. Mae'r cynnig yn cydnabod y pryderon hyn ac yn rhoi cyfrifoldeb ar yr APC a fyddai'n cael ei sefydlu yn y dyfodol i ddefnyddio offer cynllunio, mecanweithiau llywodraethu, a strwythurau partneriaeth lleol i'w rheoli'n effeithiol.

2. Pobl sy'n byw mewn lleoedd penodol, sy'n gweithio ynddynt, neu sy'n gysylltiedig â hwy

Mae aneddiadau gwledig, y mae llawer ohonynt wedi'u hynysu yn ddaearyddol a heb ryw lawer o drafnidiaeth na gwasanaethau, eisoedd yn profi effeithiau negyddol o ganlyniad. Disgwylir i'r APC wella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, opsiynau teithio cynaliadwy, a chysylltedd digidol i leihau arwahanrwydd a gwella mynediad at wasanaethau. Ar yr un pryd, gall lefelau ymwelwyr uwch ddwysáu pwysau ar wasanaethau meddygon teulu, capasiti ymateb brys, parcio, a ffyrdd gwledig os na chaiff yr effeithiau eu lliniaru. Mae mannau poblogaidd presennol fel Pistyll Rhaeadr a Moel Famau yn dangos pryderon sy'n galw am reoli ymwelwyr yn well ar raddfa Parc.

3. Defnyddwyr gwasanaethau

Bydd trigolion lleol yn cael budd o well mynediad at fannau gwyrdd, hamdden, darpariaeth treftadaeth ddiwylliannol, cefnogaeth i'r Gymraeg a mynediad at swyddi o ansawdd da, lle bydd siarad Cymraeg yn fantais, ac o bosibl gwell gwasanaethau digidol a thrafnidiaeth. Mae'r cynnig yn rhagweld y bydd yr APC newydd yn gweithio gyda phartneriaid i wella hygyrchedd ar gyfer pobl o bob oedran a gallu, gan ymdrin â'r rhwystrau a wynebwr yn

gyffredin mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys yr henoed, pobl anabl, teuluoedd sy'n siarad Cymraeg, a'r rhai sy'n wynebu risg o allgau digidol neu drafnidiaeth.

I'r gwrthwyneb, fel a grybwyllir uchod, gallai niferoedd ymwelwyr uwch effeithio'n negyddol ar rai gwasanaethau os na chânt eu rheoli'n effeithiol.

4. Economi wledig

Mae'r economi wledig yn cael ei dominyddu gan fusnesau bach a chanolig ac fe allai'r cynnig effeithio ar ffermio, twristiaeth, a diwydiannau'r tir. Mae tystiolaeth yn dangos potensial ar gyfer:

- Hwb economaidd trwy dwristiaeth gynaliadwy a chadwyni cyflenwi lleol;
- Arallgyfeirio ar ffermydd a mynediad at gynlluniau amaeth-amgylcheddol ar gyfer tirweddau dynodedig fel Ffermio Bro;
- Cyfleoedd busnes sy'n gysylltiedig â brand y Parc Cenedlaethol; a
- Chyflogaeth newydd ym meysydd cadwraeth, rheoli ymwelwyr, treftadaeth ddiwylliannol, a gwasanaethau amgylcheddol.

Fodd bynnag, tynnodd busnesau sylw hefyd at risgiau sy'n ymwneud â chyfyngiadau cynllunio, mwy o fiwrocratiaeth, a phwysau ar seilwaith a achosir gan ymwelwyr. Bydd gan yr APC ddyletswydd statudol i gefnogi llesiant economaidd a chymdeithasol lleol, gan gydweithio gyda chyrff eraill i wella gwydnwch cyflogaeth ar y tir ac yn y sector gwasanaethau.

5. Cymunedau Cymraeg a llesiant diwylliannol

Mae'r ardal yn cynnwys cymunedau lle mae dros 50% o drigolion yn siarad Cymraeg. Mae Asesiad Prawfesur Gwledig yn tynnu sylw at gyfleoedd, trwy lywodraethu dwyieithog, cyflogaeth leol y mae'r Gymraeg yn ofynnol ar ei chyfer, twristiaeth ddiwylliannol, a diogelu enwau lleoedd Cymraeg ac at risgiau sy'n gysylltiedig â newid demograffig a phwysau ar dai. Mae'r cynnig yn rhagweld ymyriadau cynllunio wedi'u targedu (e.e. polisiâu prif breswylfa, cyfyngiadau ar ail gartrefi neu gartrefi gwyliau) a strategaethau cadarn ar gyfer y Gymraeg i gynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith.

6. Tlodi, mynediad at wasanaethau, a grwpiau agored i niwed

Mae tlodi tanwydd, tlodi mewn gwaith, ac anhygyrchedd gwasanaethau yn faterion gwledig hirsefydlog. Mae'r APC yn darparu cyfleoedd i helpu i liniaru'r rhain trwy well cysylltiadau trafndiaeth, cysylltedd digidol, cydweithio â sefydliadau eraill i gefnogi datrysiadau arloesol fel cartrefi solar fforddiadwy a ddatblygwyd gyda chymorth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro trwy Gronfa Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru¹, a datblygu rhaglenni

¹ Cartrefi Solar Fforddiadwy - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

hamdden a gwirfoddoli cynhwysol. Fodd bynnag, mae angen lliniaru risgiau os yw galw cynyddol o blith ymwelwyr yn rhoi mwy o ofynion ar wasanaethau gwledig cyfyngedig.

Ar y cyfan, mae'r cynnig yn debygol o gael effeithiau hirdymor sylweddol a chadarnhaol gan mwyaf ar bobl a chymunedau, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd amgylcheddol, llesiant, hunaniaeth ddiwylliannol, a datblygu economaidd gwledig cynaliadwy. Mae effeithiau negyddol posibl sy'n ymwneud yn bennaf â fforddiadwyedd tai, pwysau ymwelwyr, gwanhau'r iaith a mynediad at wasanaethau wedi cael eu dogfennu a gellir eu lliniaru trwy'r pwerau cynllunio statudol, trefniadau llywodraethu, a gweithio mewn partneriaeth trwy APC newydd.

- **Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Brawfesur Gwledig yn Atodiad C.**

2.2 Hawliau Plant

Mae'n ofynnol i weinidogion roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth arfer unrhyw un neu rai o'u swyddogaethau.

Bydd y cynnig ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd yn ysgogi camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur trwy ysgogi mecanwaith llywodraethu, ymgysylltu a chyflawni ar gyfer gwella amgylcheddol a chyflawni llesiant ar raddfa leol a chenedlaethol. Mae pryderon sy'n ymwneud â'r hinsawdd a natur yn faterion sydd wedi'u hadnabod fel rhai sy'n bwysig i blant a phobl ifanc, a gall APC newydd ddarparu cyfleoedd ychwanegol o ran prosesau penderfynu cyfranogol yn awr nad ydynt yn peryglu cynaliadwyedd yn y dyfodol. Mae'r cynigion yn rhan o strategaeth ehangach Llywodraeth Cymru i ymdrin â'r argyfyngau hinsawdd a natur a bydd methu â gwneud hynny'n effeithio'n sylweddol ar blant a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae plant yn unigryw o agored i niwed yn sgîl effeithiau difrod amgylcheddol a newid hinsawdd. Gall eu cyrff ac ymennydd datblygol fod yn fwy tueddol o brofi effeithiau niweidiol llygredd ac achosion o dywydd eithafol. Hefyd, mae plant yn treulio mwy o amser yn yr awyr agored nag oedolion, sy'n cynyddu eu cysylltiad â pheryglon amgylcheddol.

Mae'r cam cychwynnol o ran asesu a dynodi'n ffurfiol yn annhebygol o ddwyn goblygiadau uniongyrchol sy'n berthnasol i hawliau plant. Fodd bynnag, mae gan yr ail gam o ran rhoi'r APC newydd ar waith potensial i gyfrannu'n uniongyrchol trwy ddarparu cyfleoedd i blant ymweld, dysgu a chymryd rhan mewn grwpiau ceidwaid ifainc, prentisiaethau a digwyddiadau diwylliannol. Bydd opsiynau hefyd i ymgysylltu â threfniadau llywodraethu, yn enwedig trwy'r broses o adolygu'r cynllun rheoli mewn perthynas â rheoli'r Parc Cenedlaethol yn y dyfodol. Bydd hefyd yn dwyn manteision o ran llesiant i blant a'u teuluoedd trwy ddarparu gwell mynediad at amgylcheddau o ansawdd da.

Fe godwyd pryderon y gallai'r cynnig waethygu mynediad at dai fforddiadwy i bobl ifanc a theuluoedd a bod potensial iddo wanhau diwylliant. Fodd bynnag, mae'r rhain yn aml yn faterion cymdeithasol ehangach sy'n berthnasol i Gymru wledig ac y bydd gofyn defnyddio dull strategol, amlweddol i ymdrin â hwy. Bydd gan yr APC newydd rai offer i roi mesurau lliniaru ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan gynnwys trwy ei rôl fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae arfer da yn y Parciau Cenedlaethol presennol fel cyflawni Rhaglen 1,000 Diwrnod Cyntaf Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyngor Ieuenctid ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, datblygiad diweddar Porth Dysgu ac Adnoddau ar-lein Tirlun a rhaglenni wedi'u targedu i hwyluso mynediad at fyd natur, i gyd yn darparu tystiolaeth gadarnhaol o sut y mae'r Parc Cenedlaethol newydd yn debygol o gyfrannu'n gadarnhaol tuag at fywydau plant a phobl ifanc.

Gweler yr Asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant yn Atodiad A.

2.3 Cydraddoldeb

Mae'r Parc Cenedlaethol newydd yn ceisio cefnogi dyheadau Llywodraeth Cymru ynghylch diogelu'r amgylchedd a gwrthdroi colled bioamrywiaeth. Wrth wneud hynny, bydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddinasyddion yn yr ardal leol a ledled Cymru, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Ni fydd y risgiau iechyd a achosir gan newid hinsawdd yn datblygu'n gyfartal ledled y DU, o ran lleoliad a chenedlaethau. Bydd y risgiau hyn yn gwaethygu anghyfartalwch ac anghydraddoldebau iechyd presennol. Pobl sydd â rheolaeth gyfyngedig dros eu hamgylchedd, gallu cyfyngedig i addasu neu allu cyfyngedig i ymateb i fygythiadau newydd fydd yn wynebu'r risg fwyaf, gan gynnwys plant, pobl hŷn, pobl anabl, y rhai sy'n profi digartrefedd, ac unigolion sy'n byw mewn lleoliadau penodol fel carchardai, ysgolion, llety'r lluoedd arfog a chyfleusterau gofal cymdeithasol.

Bydd gan yr APC newydd ddyletswyddau cyfreithiol clir i hybu cydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a ategir gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Bydd y Ddyletswydd Gyffredinol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r APC newydd roi sylw dyladwy i dri nod wrth gyflawni ei swyddogaethau.

Hefyd, rhaid i'r APC newydd gydymffurfio â gofynion ychwanegol o dan Reoliadau 2011, gan gynnwys cyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol, cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb lle y bo'n briodol a chasglu a chyhoeddi gwybodaeth am gydraddoldeb - gan gynnwys data'r gweithlu a gwahaniaethau cyflog. Bydd angen i'r Parc Cenedlaethol newydd hefyd sicrhau bod ei waith cydraddoldeb yn cyd-fynd â deddfwriaeth berthnasol arall yng Nghymru, gan gynnwys: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru); cynlluniau gweithredu Llywodraeth Cymru (e.e., Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Cynllun Gweithredu LHDTG+); a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Mae Parciau Cenedlaethol yn dwyn ystod eang o fanteision cadarnhaol posibl i unigolion (gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig), cymunedau a chymdeithas. Mae'r rhain yn cwmpasu manteision amgylcheddol; manteision o ran iechyd a llesiant; manteision cymdeithasol a diwylliannol; manteision o ran twristiaeth a manteision economaidd lleol. Gallai pobl â nodweddion gwarchodedig wynebu rhwystrau wrth geisio mynediad at fanteision posibl Parciau Cenedlaethol ac fe godwyd pryderon yn ystod ymgynghoriadau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) am yr anfanteision posibl i rai grwpiau gan gynnwys mynediad at dai fforddiadwy, gwasanaethau lleol a'r rhwystrau ffisegol, diwylliannol ac o ran costau i fwynhau natur. Fodd bynnag, mae'n ofynnol yn gyfreithiol bod APCau yn cyflawni ystod o weithgareddau sydd wedi'u bwriadu i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae pobl â nodweddion gwarchodedig yn eu profi wrth fyw, gweithio ac ymweld â Pharciau Cenedlaethol a defnyddio eu cyfleusterau a'u gwasanaethau. Caiff y materion hyn eu harchwilio'n llawnach yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad B.

Gweler yr Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad B.

2.4 Prawfesur Gwledig

Mae amgylchedd iachach yn gwella mynediad pobl at natur trwy ddarparu aer glanach, dŵr mwy diogel a rheoli mannau gwyrdd, annog gweithgareddau awyr agored a meithrin cysylltiad dyfnach â byd natur. Gall gwell mynediad at fannau gwyrdd a thirweddau o ansawdd da wella manteision o ran llesiant fel lefelau straen is a gwell iechyd meddwl. Mae cymunedau gwledig yr awdurdod newydd hefyd yn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol ac mae cyfran uchel o weithwyr yn y diwydiannau amaethyddol a chysylltiedig yn siarad Cymraeg ac mae ganddynt rôl hanfodol wrth gynnal yr iaith yn y gymuned wledig.

Oherwydd natur wledig ardal y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig a phwysigrwydd ei thraddodiadau diwylliannol ac ieithyddol, cynhaliwyd Asesiad llawn o'r Effaith ar Brawfesur Gwledig i ystyried goblygiadau cadarnhaol a negyddol y cynnig hwn a sut y gallai APC newydd ymdrin â hwy.

Gweler yr Asesiad llawn o'r Effaith ar Brawfesur Gwledig yn Atodiad C am fanylion llawn.

2.5 Iechyd

Caiff Parciau Cenedlaethol eu creu at ddau ddiben statudol, ac un o'r rhain yw hybu cyfleoedd ar gyfer deall a mwynhau'r ardal. Mae hyn yn ymwneud â hamdden awyr agored a darparu cyfleoedd i gael mynediad at natur ac ymgysylltu â'r celfyddydau a diwylliant, y maent i gyd yn fuddiol i iechyd corfforol a meddyliol ac yn cyfrannu at lesiant ymwelwyr a chymunedau.

Bydd angen i'r APC newydd gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol a datblygu amcanion llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ceir enghreifftiau o amcanion APCau presennol yn eu Datganiad Sefyllfa a Gweithredoedd Blaenoriaeth ar y cyd² ac yn fwy diweddar yn eu Datganiadau Llesiant; gweler Datganiad Llesiant APC Eryri³. O 2027 ymlaen, bydd hi'n ofynnol i APC gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd pan fydd yn cynnig gwneud penderfyniad o natur strategol ynghylch sut i arfer ei swyddogaethau. Mae hyn yn golygu y bydd angen i APC, fel Awdurdod Cynllunio Lleol, gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wrth ddatblygu ei Gynllun Datblygu Lleol. **Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Iechyd yn canolbwyntio ar y boblogaeth breswyl yn bennaf a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, sy'n cynnwys ystyriaeth i'r gymuned ehangach.**

² Law yn Llaw er budd Iechyd a Lles [Cymraeg](#)

³ [DATGANIAD-LLES-APCE-2021-26.pdf](#)

Mae ystyried iechyd a llesiant yn rhan annatod o ddatblygu cynllun rheoli statudol ar gyfer yr ardal ac fe ystyrir hynny fel rhan o Arfarniadau o Gynaliadwyedd ehangach. Fe ymgynghorir ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, grwpiau cynrychioli buddiannau mynediad a sefydliadau perthnasol eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd a llesiant fel rhan o ddull partneriaeth o ddatblygu a gweithredu cynlluniau rheoli Parciau Cenedlaethol.

Bydd yr APC newydd yn cyflwyno cyfleoedd gwell i roi cymorth uniongyrchol ac anuniongyrchol i gyflawni rhaglen drawsnewid Llywodraeth Cymru, Cymru Iachach⁴, yn enwedig o ran y nod i 'wella iechyd a llesiant y boblogaeth'. Mae'r meysydd lle gall yr APC newydd roi cymorth i gyflawni'n cynnwys:

Iechyd a llesiant ataliol

- Hyrwyddo gweithgarwch corfforol trwy ddarparu cyfleoedd gwell i ymwelwyr a chymunedau gael mynediad i gefn gwlad trwy ddatblygu ac ehangu llwybrau cerdded, llwybrau beicio, a rhaglenni hamdden sy'n seiliedig ar natur i leihau'r risg o afiechyd – gweler Teithiau Tywys Cynhwysol er mwyn Llesiant ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.⁵
- Mae APCau yn aml yn cyflogi staff iechyd a llesiant i gydlynu camau gweithredu a sicrhau cyllid i gyflawni prosiectau iechyd – gweler adroddiad y Swyddog Iechyd a Llesiant 2025 ar fathau o weithgareddau.⁶

Cefnogi gwydnwch cymunedol

- Gall APCau gefnogi gwydnwch cymunedol trwy raglenni seiliedig-ar-natur sy'n targedu cyflyrau hirdymor (e.e. diabetes, clefyd y galon, iechyd meddwl) a gwella amgylcheddol i leihau llygredd aer a dŵr a all effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol (gweler yr enghraifft o'r dudalen ar ddarganfod Eryri'n feddylgar⁷).

Camau Datgarboneiddio sy'n Gynaliadwy ac yn Cyd-fynd â'r Hinsawdd

- Gall APCau integreiddio adfer mawndiroedd, ailgoedwigo a defnydd tir cynaliadwy fel rhan o reoli parciau, gan alinio â chynlluniau rheoli Parciau Cenedlaethol a gweithgarwch arall i ymgorffori blaenoriaethau hinsawdd ar draws systemau iechyd.

Gwella iechyd yr amgylchedd

⁴ [cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol-2024.pdf](#)

⁵ [Cerdded yn y Parc - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro](#)

⁶ Adroddiad y Swyddog Iechyd a Llesiant 2025 [APC ARFORDIR PENFRO](#)

⁷ [Darganfod Eryri'n Feddylgar | Parc Cenedlaethol Eryri](#)

- Trwy adfer cynefinoedd (e.e., gwlyptiroedd, mawndiroedd) mae APCau yn helpu i leihau llygredd aer a dŵr - gan gefnogi gwydnwch ecosystemau a deilliannau iechyd y cyhoedd.

Cymorth Integredig a Lleol i ymdrin ag anghydraddoldebau

- Gall APC bartneru â Chlystyrau Gofal Sylfaenol a gofalwyr cymunedol i wreiddio 'presgripsiynu cymdeithasol' yng ngweithgareddau'r Parciau Cenedlaethol, gan gynnwys teithiau cerdded natur ar gyfer grwpiau neu arddwriaeth therapiwtig, gan ategu model integredig, cymunedol y cynllun. Gweler Muddy Care Ecotherapy and Rehabilitation Bannau Brycheiniog.⁸
- Cefnogi iechyd menywod, plant a theuluoedd drwy ddylunio rhaglenni (e.e. teithiau cerdded cynenedigol, sesiynau lles teuluoedd) mewn amgylcheddau'r Parc Cenedlaethol i gefnogi nodau iechyd cwrs oes o cyn geni i henaint – gweler er enghraifft y Prosiect 1,000 Diwrnod Cyntaf ym Mywyd Plentyn ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.⁹
- Darparu cyfleoedd heb unrhyw gost neu â chost isel i gael mynediad at natur ac ymgysylltu â gweithgareddau diwylliannol ac amgylcheddol ar gyfer cydlyniant cymunedol, manteision i iechyd corfforol a meddyliol ac atal.
- Darparu cyfleoedd gwirfoddoli i ymdrin ag unigrwydd ac arwahanrwydd, cyfrannu at gydlyniant cymdeithasol a gwell gwerth cymdeithasol megis gwaith Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro gyda MIND.¹⁰

Mae'r ardal y cynigir ei dynodi'n rhychwantu pum awdurdod lleol sef Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam a Phowys. Oherwydd eu hagosrwydd, disgwylir mai trigolion yr ALlau hyn fydd yn ymgysylltu fwyaf â'r Parc Cenedlaethol, er y bydd pobl o weddill Cymru a'r tu hwnt hefyd yn cael mynediad ato. Mae canfyddiadau allweddol yr Adroddiad Deall Poblogaethau a Chymunedau¹¹ fel a ganlyn:

- mae gan yr ardal ddynodedig boblogaeth sy'n heneiddio. Yn unol â gweddill y wlad, mae nifer y bobl yn y grŵp oedran 65 oed neu'n hŷn wedi cynyddu yn y pum awdurdod lleol o fewn ardal y dynodiad yn y cyfnod 10 mlynedd rhwng 2011 a 2021, a rhagwelir y bydd nifer y bobl yn y grŵp oedran hwn yn parhau i gynyddu¹².

⁸ [Muddy Care | APC Bannau Brycheiniog](#)

⁹ [Prosiect 1,000 diwrnod cyntaf - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro](#)

¹⁰ [Llwybrau i Ddarganfod - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro](#)

¹¹ [asesiad-o---r-ffaith-ar-iechyd-1.pdf](#)

¹² Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), wedi'i ryddhau ar 28 Mehefin 2022, gwefan ONS, bwletin ystadegol Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd Cymru, Cyfrifiad 2021.pdf [Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd, Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

- mae nifer y cymunedau ethnig leiafrifol yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Wrecsam yw'r unig ardal awdurdod lleol lle mae nifer y cymunedau ethnig leiafrifol yn fwy unol â'r cyfartaledd cenedlaethol¹³.
- Yn Sir Ddinbych, mae 23.3% o drigolion yn wynebu problemau iechyd neu anableddau hirdymor, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 21.6%. I'r gwrthwyneb, mae'r cyfrannau'n is na chyfartaledd Cymru mewn rhanbarthau eraill: 19.1% yn Sir y Fflint, 19.2% yng Ngwynedd, 20.3% ym Mhowys, a 20.4% yn Wrecsam¹⁴.
- Mae dros 60% o aelwydydd yng Nghymru naill ai'n aelwydydd un person neu'n aelwydydd dau berson heb blant. Y mathau hyn o aelwydydd yw'r rhai mwyaf cyffredin, gyda'u niferoedd yn cynyddu'n gyson rhwng 2012 a 2023. Mae'r duedd hon yn amlwg ar draws pob un o'r pum ardal awdurdod lleol¹⁵.

Mae llawer o fanteision iechyd cydnabyddedig sy'n gysylltiedig â threulio amser ym myd natur, megis gwell iechyd meddwl, llai o straen, a gwell gweithgarwch corfforol^{16 17}.

Gallai dynodi Parc Cenedlaethol newydd effeithio'n sylweddol ar ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd, gydag effeithiau hirdymor ar y boblogaeth. Mae'n cyflwyno cyfle allweddol i leihau anghydraddoldebau iechyd a gwella llesiant corfforol a meddyliol, yn enwedig mewn ardaloedd nas gwasanaethir ddigon. Bydd Parc Cenedlaethol newydd yn galluogi manteision iechyd i'r gymuned breswyl yn y parc ac ymwelwyr. Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Iechyd yn canolbwyntio ar y boblogaeth breswyl yn bennaf, er ei fod yn cydnabod bod potensial ar gyfer manteision cymdeithasol ehangach ledled Cymru.

Er y gall rhai gwelliannau i iechyd ddigwydd hebdo, gallai dynodi Parc Cenedlaethol newydd weithredu fel sbardun, gan alinio ymdrechion, denu cyllid a chreu fframwaith strategol, cynhwysol ar gyfer newid parhaol. Mae ganddo'r potensial i ddylanwadu ar statws iechyd cyffredinol y rhai sy'n preswyl, gweithio, astudio, neu ymweld ag ardaloedd o fewn ffiniau'r Parc neu ar eu pwys. Gall hyn effeithio'n gadarnhaol ar y system gofal iechyd ehangach gan na fydd gan bobl yr un angen i gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd (fel eu meddyg teulu) os ydynt yn cadw'n iach.

Gweithgarwch corfforol

Bydd APC newydd yn rhoi'r cyfle i amlygu a gwella cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol (h.y. cerdded a beicio a gweithgareddau eraill sy'n defnyddio mannau gwyrdd a

¹³ StatsCymru (2023) – Ethnigrwydd yn ôl ardal a grŵp ethnig. [Ethnigrwydd yn ôl ardal a grŵp ethnig](#)

¹⁴ Data Nomis, Cyfrifiad 2021. [TS038 - Anabledd - Nomis - Cyfrifiad Swyddogol ac Ystadegau'r Farchnad Lafur](#)

¹⁵ Amcanestyniadau StatsCymru o aelwydydd fesul math a blwyddyn (2011) [Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl math o aelwyd a blwyddyn](#)

¹⁶ Sefydliad Iechyd y Byd (2021) Green and Blue Spaces and Mental Health: New Evidence and Perspectives for Action [Green and blue spaces and mental health: new evidence and perspectives for action](#)

¹⁷ Public Health England (2020) Improving access to greenspace A new review for 2020 Ar gael yn: Improving access to greenspace: 2020 review [Improving access to greenspace: 2020 review](#)

glas) gan y bydd y mannau hyn yn cael eu defnyddio fel rhan o hyrwyddo'r ardal gan yr Awdurdod. Fodd bynnag, mae defnyddio mannau glas yn peri risgiau i iechyd (er enghraifft, boddi a dod i gysylltiad â chlefydau a gludir gan ddŵr). Rhaid i fesurau sy'n amddiffyn pobl ac yn eu cadw'n ddiogel danategu hyn; fel arall gall fod canlyniadau anfwriadol. Ar ben hynny, mae risgiau i iechyd (fel Clefyd Lyme) yn gysylltiedig â gweithgareddau awyr agored hefyd. Bydd yn rhaid wrth negeseuon / cyfathrebu clir ynghylch y camau y gall pobl eu cymryd i leihau eu risg a bydd gofyn gweithredu hierarchaeth rheolaethau ar gyfer diogelwch galwedigaethol i staff sy'n gweithio yn yr awyr agored. Bydd y risgiau hyn a'r mesurau lliniaru cysylltiedig yn rhan o strategaethau'r APC. Ochr yn ochr â hyn yn seiliedig ar arferion gan APCau presennol yng Nghymru, byddai disgwyl y byddai'r APC newydd yn rhagweithiol o ran darparu, hyrwyddo a gwella cyfleoedd mynediad a gwella rheoli amgylcheddol i leihau llygredd ac effeithiau niweidiol eraill er budd pobl a natur.

Maeth

Mae'r Parc Cenedlaethol arfaethedig yn rhoi cyfle i gefnogi gweithgarwch cynhyrchu bwyd lleol (er enghraifft, tyfu a dosbarthu ffrwythau a llysiau yn lleol) ac mae hyn wedyn yn cefnogi'r economi leol hefyd. Gall y Parc Cenedlaethol gynnig cyfleoedd ar gyfer creu amwynderau i dwristiaid e.e. siopau bwyd. Fel awdurdod cynllunio, gall yr APC ddefnyddio ei statws fel awdurdod cynllunio i gyfyngu ar nifer y siopau sy'n darparu mynediad at fwydydd sy'n uchel mewn braster, siwgr a halen. Bydd hyn o fudd i iechyd cymunedau lleol yn ogystal ag ymwelwyr.

Llesiant meddyliol

Mae gan Barc Cenedlaethol newydd y potensial i gyfrannu'n gadarnhaol at ystod o ffactorau cymdeithasol yr ydym yn gwybod eu bod yn dda i iechyd meddwl a llesiant. Mae hyn yn cynnwys creu cymunedau cysylltiedig a gwydn; gwella mynediad at fannau naturiol ar gyfer hamdden; cysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy; a chyfleoedd ar gyfer gwaith da. Er enghraifft, bydd yn cyflwyno cyfleoedd cyflogaeth, ac yn darparu mannau, lleoedd a chyfleoedd i unigolion a grwpiau gysylltu, rhyngweithio a meithrin rhwydweithiau newydd.

Amgylcheddol

Mae mesurau sefydlogrwydd hinsawdd a gwydnwch bioamrywiaeth o fewn amgylchedd Parc Cenedlaethol yn cyflwyno amryw gyfleoedd neu "gyd-fanteision" iechyd, megis hybu teithio llesol a gallant wella mynediad at amgylcheddau gwyrdd, glas a naturiol¹⁸. Gall y camau gweithredu hyn arwain at fwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau awyr agored a hamdden, gwella ansawdd aer, a meithrin cysylltiadau â natur mewn mannau gwyrdd a

¹⁸ Active Travel England (2024) Working with National Parks Ar gael yn: Working with National Parks | Active Travel England [Working with National Parks](#) | [Active Travel England](#)

glas, gan ddwyn budd i iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant. Fodd bynnag, efallai y bydd cyfaddawdau ym manteision gwydnwch hinsawdd ac adfer bioamrywiaeth, gan arwain at ganlyniadau anfwriadol, megis gwaethygu anghydraddoldebau. Er enghraifft, efallai na fydd gan rai cymunedau neu unigolion fynediad cyfartal at fanteision iechyd y mentrau hyn, a gall aildosbarthiad effeithiau iechyd olygu eu bod yn ymestyn i wahanol ardaloedd neu grwpiau^{19 20}. Bydd y risgiau hyn a'r mesurau lliniaru cysylltiedig yn goleuo strategaethau'r APC.

Twristiaeth

Bob blwyddyn, amcangyfrifir bod tri Pharc Cenedlaethol Cymru'n denu tua 12 miliwn o ymwelwyr, gyda thri chwarter poblogaeth Cymru'n cael budd o'r awyr agored trwy ymweliadau â Pharciau Cenedlaethol²¹. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall dynodi Parc Cenedlaethol roi hwb i niferoedd yr ymwelwyr a allai, yn ei dro, gael effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth a'r amgylcheddau unigryw yn yr ardaloedd hyn, fel a welwyd ym Mharc Cenedlaethol Eryri ar ôl y cyfyngiadau Covid²². Gall gormod o dwristiaeth ddiraddio ecosystemau sensitif, gan beryglu cynaliadwyedd hirdymor y Parciau hyn ar gyfer hamdden dynol a gwarchod bioamrywiaeth. Gall yr effeithiau hyn effeithio ar ansawdd bywyd trigolion. Bydd y risgiau hyn a'r mesurau lliniaru cysylltiedig yn goleuo strategaethau'r APC.

Effaith ar wasanaethau

Bydd Parc Cenedlaethol newydd yn debygol o ddenu mwy o bobl i'r ardal gan gynnwys twristiaid, gweithwyr a'r rhai a allai ddewis byw yn yr ardal. Gallai hyn roi galw ychwanegol ar wasanaethau gofal iechyd sydd eisoes dan bwysau. Gallai fod effaith ar fynediad amserol at ofal iechyd brys i'r rhai y mae ei angen arnynt os oes parcio diystyriol yn digwydd ar ffyrdd cul neu os ceir tagfeydd trwm oherwydd ymwelwyr ychwanegol â'r ardal. Gall mwy o bwysau ar wasanaethau brys, gan gynnwys timau achub mynydd gwirfoddol,

¹⁹ Y Gymdeithas Frenhinol ac Academi'r Gwyddorau Meddygol (2021) A healthy future – tackling climate change mitigation and human health together [A healthy future – tackling climate change mitigation and human health together](#) | Y Gymdeithas Frenhinol

²⁰ Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (2023) Policy position: Climate change and women's health [policy-in-brief-climate-change-and-womens-health-final.pdf](#)

²¹ Archwilio Cymru (2022) Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru Ar gael yn: Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru [Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru](#)

²² Parc Cenedlaethol Eryri (2025) Adroddiad yn amlygu'r ffyrdd mae niferoedd ymwelwyr yn effeithio ar fywyd gwyllt yng Ngogledd Orllewin Cymru ym Mhandemig Covid 2020 [Adroddiad yn amlygu'r ffyrdd mae niferoedd ymwelwyr yn effeithio ar fywyd gwyllt yng Ngogledd-orllewin Cymru](#) | Parc Cenedlaethol Eryri

roi straen ar adnoddau, gan arwain at niwed corfforol i ymwelwyr, a pheryglu diogelwch ac ansawdd profiadau ymwelwyr, gan effeithio ar lesiant ymwelwyr a thrigolion^{23 24}.

Rhaid rheoli unrhyw effeithiau negyddol posibl yn ofalus, ac mae'r APC newydd yn darparu cyfleoedd i wneud hynny trwy strategaethau a pholisïau fel y Cod Cefn Gwlad, sy'n cynnwys hyrwyddo hamdden ddiogel. Mae'r dynodiad hefyd yn cynnig cyfle i ymdrin yn fwy effeithiol â heriau presennol. Gallai Parc Cenedlaethol newydd fod yn fecanwaith cydlynu, gan ddwyn ynghyd waith presennol o dan weledigaeth unedig, alinio blaenoriaethau, a chryfhau cydweithio ar draws sectorau. Gallai'r rôl hon helpu i greu'r amodau galluogi ar gyfer gwelliannau hirdymor, cynhwysol a chynaliadwy mewn iechyd a llesiant, yn enwedig os yw tegwch wedi'i ymgorffori mewn prosesau penderfynu o'r cychwyn cyntaf.

2.5b. A allai fod effaith wahaniaethol ar iechyd grwpiau penodol?

Grwpiau sy'n gysylltiedig ag incwm

Mae unigolion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn aml yn profi deilliannau iechyd gwaeth oherwydd ffactorau fel mynediad cyfyngedig at ofal iechyd, amodau byw gwael, a nifer uwch o achosion o glefydau cronig²⁵. Gallai creu Parc Cenedlaethol gynyddu gwerthoedd eiddo yn yr ardaloedd cyfagos, gan arwain at boneddigeiddio. Gallai hyn olygu bod grwpiau incwm is yn cael eu dadleoli, gan leihau eu mynediad at fannau gwyrdd neu dai fforddiadwy²⁶. Bydd darpariaethau lliniarol fel ffioedd is a gweithgareddau rhad-ac-am-ddim yn cael eu hystyried gan yr APC fel rhan o'i strategaethau. Rhoddwyd rhagor o ystyriaeth i'r materion hyn drwy'r Asesiad Effaith Integredig a'r asesiad economaidd-gymdeithasol i gyd.

Grwpiau sy'n gysylltiedig ag oedran

Mae oedolion hŷn yn aml yn wynebu heriau corfforol ac o ran symudedd, pryderon ynghylch iechyd meddwl fel unigrwydd neu ddementia, a mwy o dueddiad i ddatblygu

²³ Fobes (2024) Overtourism May Prompt Tourists To Rethink 2025 Travel Plans Ar gael yn: Overtourism May Prompt Tourists To Rethink 2025 Travel Plans [Overtourism May Prompt Tourists To Rethink 2025 Travel Plans](#)

²⁴ BBC (2025) Mountain rescue teams stretched to breaking point Ar gael yn: Mountain rescue: Volunteers dealing with 'unprecedented' demand – Newyddion y BBC [Mountain rescue: Volunteers dealing with 'unprecedented' demand – Newyddion y BBC](#)

²⁵ Cronfa'r Brenin (2024) Illustrating the relationship between poverty and NHS Services Ar gael yn: The Relationship Between Poverty And NHS Services | Cronfa'r Brenin [The Relationship Between Poverty And NHS Services | Cronfa'r Brenin](#)

²⁶ Wolch et al (2014) Urban green space, public health, and environmental justice: The challenge of making cities 'just green enough', Landscape and Urban Planning Ar gael yn: Urban green space, public health, and environmental justice: The challenge of making cities 'just green enough' - ScienceDirect [Urban green space, public health, and environmental justice: The challenge of making cities 'just green enough' - ScienceDirect](#)

cyflyrau cronig^{27 28}. Er y gall y Parc Cenedlaethol ddarparu cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol, gallai natur y tir neu ddiffyg seilwaith hygyrch gyfyngu ar fynediad ar gyfer unigolion hŷn. Er enghraifft, os nad yw llwybrau neu gyfleusterau yn oed-gyfeillgar, os yw mannau parcio'n anhygyrch neu os bydd trafndiaeth i'r parc yn dod yn anos, efallai y bydd oedolion hŷn yn cael eu hallgau. Os nad yw'r henoed yn gallu cael mynediad at y Parc, efallai y byddant yn colli'r manteision i iechyd sy'n gysylltiedig â threulio amser ym myd natur.

Gall mynediad at yr awyr agored neu barc cenedlaethol fod yn gryn her i rai grwpiau oherwydd rhwystrau amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys materion o ran trafndiaeth, cost, diffyg cynrychiolaeth, pryderon ynghylch diogelwch, rhwystrau ffisegol a diffyg cyfleusterau hygyrch a rhwystrau o ran gwybodaeth. Rhaid i APC ymlynu wrth ddyletswyddau cydraddoldeb a gall geisio darparu cyfleoedd hamdden sy'n diwallu anghenion pawb. Mae APCau cyfredol yn dilyn egwyddor mynediad lleiaf cyfyngol.

Mae tystiolaeth gan APCau eraill yn amlygu'r cyfleoedd ychwanegol a'r darpariaethau lliniaru y gall APC eu darparu. Mae hyn yn cynnwys:

- darparu offer addasol (e.e. e-feiciau, tramper, beiciau), arosfannau gorffwys/meinciau a thoiledau hygyrch.
- dylunio llwybrau newydd neu uwchraddio llwybrau cyfredol mewn ffordd sy'n darparu ar gyfer pobl o wahanol oedrannau a galluoedd ac mewn gwahanol gyfnodau mewn bywyd e.e. disodli camfeydd â gatiau, llwybrau bordiau.
- hyrwyddo llwybrau a theithiau hygyrch a darparu gwybodaeth mewn fformat eglur a pherthnasol.
- darparu mannau ail-lenwi ar gyfer dŵr yfed ffres.
- cysylltu â darparwyr addysg/sefydliadau gwirfoddol lleol i rannu gwybodaeth am fannau gwyrdd a glas rhad-ac-am-ddim hygyrch lleol a magu hyder i archwilio ardaloedd ar garreg drws pobl.
- gweithredu rhaglenni hybu iechyd wedi'u targedu sy'n canolbwyntio ar anghenion grwpiau agored i niwed penodol. Er enghraifft, rhaglenni lles i'r henoed, mentrau ymgysylltu â phobl ifanc, a rhaglenni diwylliannol ar gyfer lleiafrifoedd ethnig sy'n helpu i bontio bylchau mewn cyfranogiad a llesiant.

Disgwylir i Barc Cenedlaethol newydd ddarparu cyfleoedd hamdden ac ateb gofynion hygyrchedd. Bydd hyn o fudd i iechyd a llesiant pob cymuned, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion ychwanegol neu'r rhai nad ydynt o bosibl wedi bod yn ymweld â'r awyr agored yn hanesyddol. Bydd felly'n cyfrannu at welliannau i iechyd.

²⁷ Age UK (2024) You are not alone in feeling lonely: Loneliness in later life Ar gael yn: [you-are-not-alone-in-feeling-lonely.pdf](#) 'You are not alone in feeling lonely' – A new report from Age UK – Dementia Community

²⁸ Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2019) Cyflwr y Genedl: Trosolwg o heneiddio yng Nghymru [Cyflwr y Genedl 2019 - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru](#)

Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer archwiliad pellach o'r maes.

Ethnigrwydd

Mae lleiafrifoedd ethnig a phoblogaethau mudol yn aml yn profi anghydraddoldebau iechyd. Gall lleiafrifoedd ethnig a ymleiddiwyd brofi llai o gyfleoedd i gael budd o fannau gwyrdd, a gallai diffyg rhaglenni neu allgymorth sy'n briodol yn ddiwylliannol gyfyngu ar eu cyfranogiad mewn gweithgareddau sy'n hybu iechyd yn y Parc. Gall yr APC newydd ymdrin â'r pryderon hyn trwy ddatblygu rhaglenni allgymorth, cael mynediad at gyllid a chynlluniau ehangach i hwyluso mynediad ac ymgysylltiad â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol²⁹.

Grwpiau daearyddol

Gall cydweithio rhwng APCau, yr Asiantaeth Priffyrdd, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, a Chydbwyllgorau Corfforedig, sydd gyda'i gilydd yn ysgwyddo cyfrifoldebau amrywiol am gynllunio a chyflawni'r rhwydweithiau ffyrdd / trafndiaeth, helpu i gydlyn mentrau rheoli ymwelwyr a theithio cynaliadwy trwy'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg (gweler polisi CB15 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2025)³⁰ a chydweithio arall i integreiddio'r ddarpariaeth trafndiaeth. Gall y dull cydweithredol hwn arwain at ddatrysiadau wedi'u targedu ar gyfer ymdrin â thagfeydd traffig a materion parcio, gan ddwyn budd i gymunedau lleol ac ymwelwyr. Mae datrysiadau i dagfeydd traffig a phroblemau parcio'n cynnwys gweithredu systemau teithio llesol diogel, mentrau gwyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy. Mae enghreifftiau ym Mharciau Cenedlaethol Cymru'n cynnwys Sherpa'r Wyddfa³¹, yr ystyrir ei fod yn ymyriad effeithiol ar gyfer rheoli ymwelwyr a'r nod hinsawdd a Gwennol Puffin³² sy'n gwneud Llwybr Arfordir Penfro'n hygyrch heb gar.

Mae gan Barc Cenedlaethol sydd wedi'i ddatblygu gyda seilwaith teithio llesol diogel ac effeithiol y potensial i wella iechyd ei gymuned leol. Ceir tystiolaeth dda bod teithio llesol yn cynnig ystod o fanteision i iechyd y gymuned gan gynnwys mwy o weithgarwch corfforol, llai o lygredd aer, llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr, gwell cysylltedd cymunedol a chydlyniant cymdeithasol, a gwell mynediad at wasanaethau ac amwynderau lleol³³. Er mwyn annog mwy o deithio llesol, mae blaenoriaethu cerdded a beicio wrth gynllunio ac integreiddio seilwaith teithio llesol fel rhan o systemau trafndiaeth yn strategaethau allweddol a fydd yn ofynnol mewn APC newydd³⁴.

²⁹ Gwerthusiad o Brosiect MOSIAC Cymru, Campaign for National Parks, 2014 [Mosaic-Cymru-Final-Evaluation-summary.pdf](#)

³⁰ [Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru](#) Gweler Polisi CB15

³¹ Enghraifft o astudiaeth achos P14 Sherpa'r Wyddfa [Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru](#)

³² [Getting around | Croeso Sir Benfro](#)

³³ Iechyd Cyhoeddus Cymru (2018) Creu lleoedd a mannau iachach ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol

[Creu lleoedd a mannau iachach ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.pdf](#)

³⁴ Pecyn Cymorth Teithio Llesol Sustrans - [Walk Wheel Cycle Trust](#)

Amddifadedd

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2025 yn cadarnhau bod patrymau amddifadedd cymharol a adnabuwyd yn 2019 yn parhau, gyda phocedi o amddifadedd uchel yn parhau i fod yn amlwg mewn trefi arfordirol a threfi ar y ffin yng Ngogledd a Gogledd-ddwyrain Cymru. Ar y cyfan, mae dosbarthiad gofodol amddifadedd yn MALIC 2025 yn debyg i MALIC 2019

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019³⁵ yn darparu dadansoddiad manylach ac yn nodi ardaloedd arwyddocaol o amddifadedd cymharol uchel a adnabuwyd yn nhrefi arfordirol a threfi ar y ffin yng Ngogledd Cymru. Mae ardal ddynodi'r Parc Cenedlaethol arfaethedig yn cynnwys 55 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, wedi'u gwasgaru dros ardaloedd 5 awdurdod lleol: Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Powys a Wrecsam. Mae ACEHloedd yn cynnwys rhwng 400 a 1,200 o aelwydydd.

- Mae 19 ACEHI yn perthyn i'r 50% mwyaf amddifadus yng Nghymru ar y Cyfan (Gweler y map).
- Mae 15 ACEHI yn perthyn i'r 50% mwyaf amddifadus yng Nghymru ar gyfer lechyd.
- Mae 6 ACEHI yn perthyn i'r 50% mwyaf amddifadus yng Nghymru ar gyfer yr Amgylchedd Ffisegol.
- Mae 43 ACEHI yn perthyn i'r 50% mwyaf amddifadus yng Nghymru ar gyfer Mynediad at Wasanaethau.


Mae'r maes Mynediad at Wasanaethau ym MALIC yn mesur amddifadedd oherwydd anallu aelwyd i gael mynediad at ystod o wasanaethau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol ar gyfer bywyd o ddydd i ddydd, yn gorfforol ac ar-lein. Mae amseroedd teithio Gwynedd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer teithio cyhoeddus a phreifat. Ym Mhowys a Sir Ddinbych mae amseroedd teithio'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer teithio cyhoeddus. Ar gyfer teithio preifat serch hynny, mae'r amseroedd teithio ym Mhowys yn fwy unol â'r cyfartaledd cenedlaethol ond yn dal i fod yn uwch³⁶.

Sir y Fflint a Wrecsam yw'r unig ardaloedd awdurdodau lleol lle mae canran yr aelwydydd ag agosrwydd at fannau gwyrdd naturiol hygyrch yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 77%. Bydd angen i APC newydd ystyried y ffactorau hyn, gan gynnwys natur wledig yr ardal, wrth ystyried ei strategaethau trafnidiaeth. Bydd cymunedau sydd wedi'u cysylltu'n effeithiol a chanddynt lwybrau teithio llesol diogel â chymorth a mynediad at fannau gwyrdd a glas yn cefnogi cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol.

³⁵ MALIC 2019 [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 \(diweddariad llawn i'r Mynegai gyda graddfeydd\): 2019 | LLYW.CYMRU](#)

³⁶ StatsCymru (2023) Ar gael yn: Data dangosyddion yn ôl Awdurdod Lleol - Pob Parth (llyw.cymru) [Dangosyddion Allweddol yn ôl Awdurdod Lleol](#)

Overall Deprivation Profiles



Byddai APC newydd, gyda'i ddiben statudol i hybu mwynhad y cyhoedd o'r dirwedd, yn creu cyfleoedd helaeth ar gyfer gwella iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Trwy ehangu mynediad at natur, hamdden awyr agored, a phrofiadau diwylliannol, gall yr APC helpu i gynyddu gweithgarwch corfforol, a chefnogi llesiant cymunedol. Byddai ei ddyletswyddau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gwreiddio ystyriaethau i iechyd ymhellach yn yr holl weithgarwch cynllunio strategol, gan gynnwys Amcanion Llesiant statudol ac Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yn y dyfodol. Trwy ymgysylltu ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a grwpiau cymunedol, byddai'r APC yn defnyddio dull a arweinir gan bartneriaeth i roi cymorth i ddatblygu amgylcheddau iachach a ffyrdd iachach o fyw.

Byddai'r APC hefyd yn cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol, yn enwedig y rhaglen drawsnewid "Cymru iachach". Gallai hwyluso iechyd ataliol trwy ddatblygu a hyrwyddo llwybrau cerdded, llwybrau beicio, gweithgareddau sy'n seiliedig ar natur, a rhaglenni tywys cynhwysol. Trwy gyflogi staff sydd wedi'u neilltuo i iechyd a llesiant a chael mynediad at ffrydiau cyllid, gallai gydlyn ymyriadau wedi'u targedu i ymgysylltu â grwpiau anodd i'w cyrraedd a datblygu rhaglenni ar gyfer cyflyrau hirdymor neu weithgareddau seiliedig-ar-natur sy'n meithrin gwydnwch ac yn lleihau risgiau i iechyd. Byddai gwelliannau amgylcheddol, megis adfer mawndiroedd, gwlyptiroedd a choetiroedd, yn cryfhau iechyd ecosystemau, yn gwella ansawdd aer a dŵr, ac yn cyfrannu at ddatgarboneiddio sy'n cyd-fynd â'r hinsawdd, gan greu manteision cyfatebol hirdymor i iechyd pobl.

Byddai'r Parc Cenedlaethol hefyd yn cynnig cyfleoedd i ymdrin ag anghydraddoldeb trwy hyrwyddo presgripsiynu cymdeithasol, darparu mynediad at natur am gost isel neu ddim gost, a chreu rhaglenni cynhwysol ar gyfer teuluoedd, oedolion hŷn, a grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Gallai'r APC hefyd greu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n meithrin cysylltiadau cymdeithasol ac yn lleihau arwahanrwydd.

Trwy gryfhau seilwaith teithio llesol a gwella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, gallai'r APC ehangu mynediad at fannau gwyrdd a glas a chefnogi cymunedau iachach, mwy cysylltiedig. Er y gall niferoedd uwch o ymwelwyr ddod â phwysau ar wasanaethau brys, tagfeydd, ac ar yr amgylchedd, mae'r APC yn darparu mecanwaith i reoli'r effeithiau hyn yn effeithiol trwy strategaethau cydgysylltiedig, lliniaru risg, ac ymgysylltu â'r gymuned.

Ar y cyfan, mae creu APC newydd yn cynnig y potensial i sbarduno gwelliannau hirdymor yn iechyd a llesiant y boblogaeth, lleihau anghydraddoldebau iechyd, a hybu cymunedau cynaliadwy, gwydn. Bydd sicrhau cyllid priodol i gefnogi'r mesurau rheoli a lliniaru hyn yn hanfodol wrth fynd i'r afael â phryderon cymunedol a sicrhau bod pwysau ymwelwyr yn cael eu rheoli'n effeithiol.

2.5c Os ydych chi'n adnabod effeithiau sylweddol ar iechyd

Yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd yn y cwestiynau blaenorol, ystyrir nad oes angen asesiad manylach o'r effaith ar iechyd.

2.5d Dyletswydd Ansawdd (iechyd) – Dim ond os yw eich polisi'n cael unrhyw effeithiau ar ddarparu gwasanaethau iechyd neu ar ddeilliannau iechyd y bydd angen i chi gwblhau'r adran hon o'r Asesiad Effaith Integredig.

Nid yw'r adran hon yn berthnasol.

2.6 Preifatrwydd

A fydd y cynnig yn cynnwys prosesu gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unigolion?

Nid yw'r cynnig hwn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data a nodir gan Erthygl 35(1), 35(3) a 35(4) GDPR y DU.

ADRAN 3. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT DIWYLLIANNOL A'R GYMRAEG?

3.1 Llesiant diwylliannol

3.1a Sut all y cynnig gyfrannu'n weithredol at y nod i hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth ac annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden? (am y Gymraeg gweler adran 3.2)

Mae'r dirwedd wedi'i phlethu'n ddwfn â threftadaeth ddiwylliannol Cymru, sydd â rôl hanfodol yn hanes, traddodiadau a hunaniaeth y genedl.

Mae treftadaeth ddiwylliannol yn rhan annatod o'r ystyriaeth i harddwch naturiol y dirwedd mewn asesiadau dynodi statudol a gynhaliwyd gan CNC. Mae ystyriaethau i dreftadaeth ddiwylliannol mewn perthynas â harddwch naturiol ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd yn cynnwys:

- Ymdeimlad o le (bro)
- Treftadaeth adeiledig, Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau rhestredig
- Henebion Cofrestredig - cestyll, bryngaerau, meini hirion
- Adeiladau fferm, patrymau caeau, ffiniau caeau traddodiadol fel gwrychoedd, cloddiau, waliau cerrig, rheiliau haearn
- Cysylltiadau diwylliannol ag artistiaid, awduron a chyfansoddwyr
- Llên gwerin, chwedlau a thraddodiadau gan gynnwys man geni Owain Glyndŵr yn Sycharth, tirweddau a geir yn y Mabinogi a Bryngaerau Oes yr Haearn sy'n nodweddu pennau Bryniau Clwyd.
- Cymraeg – cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg gan yr Esgob William Morgan ym 1558 yn Llanrhaeadr YM.
- Mae tirweddau ysbrydoledig sy'n cyfoethogi'n ysbrydol ac yn ddiwylliannol a chyfleoedd gael mynediad iddynt a'u mwynhau yn rhan o hunaniaeth ddiwylliannol Cymru

Mae treftadaeth ddiwylliannol fel rhan annatod o harddwch naturiol wedi cael ei hasesu'n fanwl gan CNC trwy asesiad y broses ddynodi statudol ar gyfer pob ardal o dir ar sail Ardal Werthuso.³⁷ Mae cyfleoedd ar gyfer hamdden, chwaraeon awyr agored, cyfranogiad mewn diwylliant ac yn y celfyddydau hefyd wedi bod yn rhan o'r asesiadau manwl hyn. Mae'r asesiadau hyn ar gyfer pob ardal yn arwain at asesiad terfynol o dir, pa ardaloedd sy'n bodloni'r profion statudol ac felly sy'n gallu mynd ymlaen i gael eu dynodi.

³⁷ Parc Cenedlaethol arfaethedig i Gymru – Adroddiad Gwerthuso Gillespies 2025, a gomisiynwyd gan CNC [Templed Adroddiad wedi'i Rifo Waterman](#)

Mae'r tri Pharc Cenedlaethol presennol yng Nghymru yn darparu model defnyddiol ar gyfer sut y byddem yn disgwyl i Barc Cenedlaethol newydd gyrraedd y nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth ac annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.

Fel sy'n ofynnol gan eu dibenion statudol, mae gan y Parciau Cenedlaethol presennol hyn rôl allweddol o ran hyrwyddo a gwarchod treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys:

- Cyfrannu at gyrraedd Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol trwy gyflawni eu dibenion statudol ac amcanion llesiant eu Cynlluniau Corfforaethol³⁸
- Gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol trwy'r swyddogaeth gynllunio statudol sy'n ymwneud â rheoli datblygu a pholisïau cynllunio. Mae hyn yn cynnwys paratoi, gweithredu ac adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol; gweler er enghraifft y bennod yn CDLI Eryri ar Dreftadaeth a Diwylliant³⁹ a datblygu Canllawiau Cynllunio Atodol penodol e.e. CCA yr Amgylchedd Hanesyddol, Arfordir Penfro⁴⁰
- Rheoli safleoedd treftadaeth ddiwylliannol, canolfannau ymwelwyr ac atyniadau twristaidd e.e. Castell Caeriw, Sir Benfro a Chraig y Nos, Bannau Brycheiniog.
- Darparwyr sylweddol gweithgareddau dehongli, ymgysylltu ac addysg sy'n aml yn cynnwys amgylchedd hanesyddol e.e. Castell Henllys, Sir Benfro.
- Rheoli, gwarchod a diogelu'r amgylchedd hanesyddol, a chefnogi gwaith Cadw, Heneb a CBHC.
- Gweithio gyda rheolwyr tir i roi cymorth i reoli a chynnal a chadw nodweddion hanesyddol ar eu tir yn briodol.
- Diben statudol o ran darparu cyfleoedd mynediad i ymweld, profi a deall Parciau Cenedlaethol gan gynnwys nodweddion hanesyddol a thirweddau.
- Darparu adnoddau i ddysgwyr ynglŷn â'r amgylchedd naturiol a diwylliannol e.e. porth addysg Tirlun.⁴¹
- Cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd hanesyddol trwy gynlluniau rheoli statudol y Parc Cenedlaethol, sy'n cynnwys polisïau a chymau gweithredu i warchod a rheoli'r lleoedd pwysig hyn.
- Cyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol ac ieithyddol, yn y celfyddydau ac mewn chwaraeon a sicrhau dyfodol yr iaith trwy gofnodi, cadw a gwarchod enwau lleoedd Cymraeg - gweler gwaith Parc Cenedlaethol Eryri.⁴²
- Rhoi cymorth i gadw traddodiadau, diwylliant a sgiliau gwledig lleol megis arddulliau rhanbarthol ar gyfer plethu perthi, adeiladu waliau cerrig trwy hyfforddiant, prentisiaeth a gweithio gyda cholegau lleol.

³⁸ Cynllun Corfforaethol APC Arfordir Penfro [Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2023/24 - 26/27 - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro](#)

³⁹ [Cynllun Datblygu Lleol Eryri Mabwysiedig - Cynllunio a Datblygu](#)

⁴⁰ CCA Amgylchedd Hanesyddol APCAP [Canllawiau Cynllunio Atodol](#)

⁴¹ Porth Addysg Tirweddau Dynodedig Tirlun [case-study-exploring-the-preselis.pdf](#)

⁴² [Enwau Lleoedd | Parc Cenedlaethol Eryri](#)

Trwy gryfhau'r mesurau sy'n diogelu'r amgylchedd trwy ddynodiad y Parc Cenedlaethol a gwaith tebygol APC newydd, bydd y cynigion hyn yn helpu i warchod y dirwedd a thrwy wneud hynny, byddant yn sicrhau bod ein treftadaeth ddiwylliannol a'r Gymraeg yn cael eu cadw ac y cefnogir darparu gwasanaethau diwylliannol.

3.1b A yw'n bosibl y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth, neu allu pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden? Os felly, pa gamau allwch chi eu cymryd i osgoi neu leihau'r effaith honno?

Mae'n annhebygol y bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn cael effaith negyddol ar y cyfan ar hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth. Fodd bynnag, dylid nodi bod Cadw wedi amlygu rhai pryderon ynghylch dau faes:

1. gallai Parc Cenedlaethol newydd arwain at gynydd yn nifer yr ymwelwyr a allai gael effaith niweidiol ar safleoedd cofrestredig sensitif a safleoedd eraill sensitif.
2. gallai lleoliadau presennol a amlygwyd yn asesiadau CNC, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig ag enw'r Parc Cenedlaethol newydd ac sy'n gysylltiedig ag Owain Glyndŵr fel Sycharth, arwain at bwysau anghynaliadwy o du ymwelwyr. Mae pryderon yn deillio o'r ddarpariaeth bresennol i ymwelwyr gyda pharcio cyfyngedig, mynediad ar hyd ffyrdd di-ddosbarth a diffyg seilwaith twristiaeth cysylltiedig.

Mae asesiadau technegol CNC ar raddfa tirwedd yn adnabod presenoldeb neu absenoldeb nodweddion, a'u cyfraniad at harddwch naturiol neu ddarpariaeth hamdden ond nid eu cyflwr. Croesewir awgrym Cadw ar gyfer asesiad o gyflwr asedau dynodedig (Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig) a byddwn yn gweithio gyda Cadw i ddatblygu'r set ddata hon. Bydd yr asesiad manwl hwn sy'n mynd i lawr at y glo mân yn berthnasol i oleuo ystyriaethau yng Ngham 2. O ystyried ffocws a llwyddiant rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn APCau presennol, mae'n rhesymol credu y byddai APC newydd yn darparu cyfleoedd gwell i fynd ymdrin â materion a datblygu'r arlwy i ymwelwyr fel rhan o'n stori genedlaethol.

Bydd gan yr APC newydd ddibenion statudol i warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ac i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer hamdden. Felly, disgwylir y bydd APC newydd yn canolbwyntio'n fwy ar y dibenion statudol hyn ac y bydd hefyd yn gyfrifol am ymlynu wrth ddeddfwriaeth berthnasol o ran yr Amgylchedd Hanesyddol a'r Gymraeg.

Er mwyn gwireddu'r manteision hyn yn llawn, cydnabyddir y bydd angen i APC newydd gael ei ariannu'n ddigonol.

Er y cydnabyddir pwysau posibl o du ymwelwyr, at ei gilydd disgwylir y bydd Parc Cenedlaethol newydd yn cael effaith gadarnhaol ar gyrraedd y nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ddarparu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau, diwylliant a hamdden. Byddai cyfleoedd ychwanegol yn cael eu darparu gan APC newydd i

roi cymorth i warchod a diogelu'r amgylchedd hanesyddol trwy ei swyddogaeth Gynllunio, gweithgarwch cynllun rheoli a ffocws ei waith.

3.2 Y Gymraeg

Mae cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn orfodol. Mae'r asesiad ar gael yn **atodiad E** isod.

Nod strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050 a dyblu'r ganran sy'n siarad Cymraeg yn ddyddiol. Er nad yw'r Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig yn targedu'r nodau hyn yn uniongyrchol, mae'n cyd-fynd â dwy thema strategol: cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chreu amodau ffafriol. Gall Parciau Cenedlaethol, trwy eu dibenion statudol i warchod treftadaeth ddiwylliannol a hybu mwynhad gan y cyhoedd, fod â rôl sylweddol o ran cefnogi amlygrwydd y Gymraeg a defnydd o'r iaith.

Byddai APC newydd yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, sy'n ei gwneud yn ofynnol cyflawni strategaeth pum mlynedd i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau dwyieithog, polisïau iaith mewnol, a chyfleoedd i staff ddatblygu sgiliau Cymraeg. Gallai'r Awdurdod fabwysiadu Cymraeg fel ei iaith weinyddol, yn debyg i Barc Cenedlaethol Eryri, a sicrhau bod enwau lleoedd Cymraeg yn cael eu cadw a'u hegluro wrth ymwelwyr. Byddai'r mesurau hyn yn helpu i wreiddio'r iaith yn hunaniaeth a gweithrediadau'r parc.

Mae pryderon yn cynnwys y risg mai'r Saesneg fydd yn dominyddu ac y bydd ymwelwyr yn tanbrizio treftadaeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r dynodiad yn cynnig cyfleoedd ar gyfer arwyddion dwyieithog, dehongli diwylliannol, a mentrau twristiaeth sy'n amlygu'r Gymraeg a'i thraddodiadau. Mae cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg yn ystyriaeth allweddol. Mae'r ffin arfaethedig yn cynnwys ardaloedd lle mae dros 50% o drigolion yn siarad Cymraeg. Gallai dynodiad gefnogi economïau lleol a lleihau allfudo trwy greu swyddi y mae sgiliau Cymraeg yn ofynnol ar eu cyfer. I'r gwrthwyneb, gallai pwysau tai yn sgîl ail gartrefi a llety gwyliau danseilio cynaliadwyedd cymunedol. Bydd mesurau lliniaru, fel cyfyngiadau cynllunio, yn hanfodol i ymdrin â'r risgiau hyn.

Rhoddir sylw amlwg i addysg a gwasanaethau hefyd. Mae'n debygol iawn y bydd cyflogaeth o fewn yr Awdurdod yn darparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a hefyd yn cefnogi dysgu gydol oes i staff nad ydynt yn rhugl. Rhaid i bob gwasanaeth gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan sicrhau hygyrchedd a chydaddoldeb i siaradwyr Cymraeg. Bydd yr Awdurdod hefyd yn datblygu Strategaeth Hybu'r Gymraeg ac yn integreiddio ystyriaethau iaith yn ei Gynllun Rheoli a'i Gynllun Datblygu Lleol, gan atgyfnerthu ei ymrwymiad i dreftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol.

Mae yna hefyd gyfleoedd i gyflwyno elfennau o adrodd storïau, hanes a diwylliant trwy gasglu a hyrwyddo'r Gymraeg a hybu ei defnydd bob dydd. Mae blaenoriaethau

Llywodraeth Cymru i helpu i ddiogelu enwau lleoedd Cymraeg⁴³ yn arbennig o berthnasol i ystyriaethau o ran treftadaeth ddiwylliannol ac iaith yw cadw enwau lleoedd - gallant fod yn rhyngwyneb rhwng y dirwedd a diwylliant a threftadaeth ehangach.

Mae gwaith sylweddol i ddiogelu enwau tirweddol hanesyddol yn cael ei arwain gan y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, yn enwedig yn APC Eryri, sydd wedi gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg a Phrifysgol Caerdydd i safoni enwau lleoedd, eu cofnodi a chodi ymwybyddiaeth ohonynt⁴⁴. Mae hyn yn cefnogi defnydd parhaus, ymdeimlad o le a dealltwriaeth, a hefyd yn helpu i gynnal cysylltiadau rhwng cymunedau a lle.

I gloi, er bod heriau'n bodoli yn enwedig o ran tai a chynnal cynaliadwyedd cymunedol, mae gan y Parc Cenedlaethol newydd botensial sylweddol i hybu a diogelu'r Gymraeg. Trwy rwymedigaethau statudol, cynllunio strategol, ac ymgysylltu rhagweithiol, gall yr Awdurdod greu amodau sy'n cryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw ac ased diwylliannol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Gweler yr Asesiad llawn o'r Effaith ar y Gymraeg a ddarperir yn Atodiad E

⁴³ Blaenoriaethau newydd i helpu i ddiogelu enwau lleoedd Cymraeg | LLYW. CYMRU

⁴⁴ Diogelu Enwau Tirweddol Hanesyddol | Parc Cenedlaethol Eryri

ADRAN 4. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT ECONOMAIDD?

Wrth i'r cynnig symud ymlaen i sefydlu APC newydd, bydd yr asesiadau perthnasol yn cael eu diweddarau, yn ôl yr angen.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ceisio darparu amcangyfrif gorau o gost a manteision economaidd a chymdeithasol y Parc Cenedlaethol i Gymru. Mae'r dadansoddiad yn cael ei bennu gan ansawdd ac argaeledd tystiolaeth addas. Ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd, mae'r dystiolaeth yn dibynnu'n fawr ar ffynonellau eilaidd ar draws pob maes effaith. Ystyrir mai ansawdd y ffynonellau hyn yw'r gorau sydd ar gael o fewn cyfyngiadau amser a chymhlethdod y dadansoddiad. Er gwaethaf hyn, mae lefel uchel o ansicrwydd yn gysylltiedig â'r canlyniadau, yn enwedig y Gwerth Presennol Net a'r Gymhareb Costau a Manteision. Dylid defnyddio'r gwerthoedd o fewn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ofalus ac fe'u cyflwynir gyda chafeat cryf.

Cyflwynir canlyniadau yn ôl prisiau 2025 gyda 2026 fel y flwyddyn sylfaen gwerth presennol. Mae costau hanesyddol wedi'u chwyddo i brisiau 2025 gan ddefnyddio cyfres dachwyddyddion Cynnyrch Domestig Gros Trysorlys EF. 15 mlynedd yw'r cyfnod arfarnu polisi, i gael gwerth pum mlynedd o gostau pontio / sefydlu ar gyfer sefydlu'r Parc Cenedlaethol a'r APC, ac yna gwerth deng mlynedd o gostau gweithredu'r APC. Defnyddiwyd cyfradd ddisgownt o 3.5 y cant fel a argymhellir yng nghanllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF.

Er mwyn asesu effaith economaidd y Parc Cenedlaethol newydd yn effeithiol, fe wnaeth yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol asesu dau opsiwn ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd.

Opsiwn 1 yw'r opsiwn 'gwneud dim byd' (h.y. 'busnes fel arfer') ac yn erbyn yr opsiwn hwn y mae'r opsiwn a ffeirir yn cael ei asesu, a chan hynny dangosir y costau a'r manteision ychwanegol fel sero yn yr asesiad effaith hwn. Yn niffyg unrhyw ymyrraeth, byddai'r dynodiad AHNE presennol ar gyfer Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn parhau, fel y byddai gwaith i reoli'r ardal gyfagos.

Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffeirir, sef dynodi Parc Cenedlaethol newydd yn yr ardal arfaethedig o fewn ac o amgylch Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, gan amcanu at wella'r dirwedd naturiol, a pharhau i alluogi'r cyhoedd i fwynhau'r amgylchedd.

Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol yn archwilio costau a manteision y parc cenedlaethol arfaethedig mewn termau economaidd, yn erbyn sefyllfa wrth-ffeithiol Tirwedd Genedlaethol bresennol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a'r ardaloedd cyfagos (Opsiwn 1).

4.1 Busnesau, y cyhoedd ac unigolion

Mae costau ac arbedion y cynnig ynghylch Parc Cenedlaethol newydd wedi cael eu hasesu'n llawn mewn manylder fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a fydd yn ategu'r broses o gyflwyno'r cynnig.

Caiff yr effeithiau ar fusnesau, y cyhoedd ac unigolion eu crynhoi fel a ganlyn.

Bydd y cynnig yn effeithio mewn gwahanol ffyrdd ar fusnesau sy'n gweithredu o fewn y Parc Cenedlaethol newydd neu yn agos ato. Bydd y rhai sydd eisoes yn gweithredu o fewn Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn gweld effeithiau gwahanol i'r rhai sy'n gweithredu y tu allan i Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, ond o fewn ffin y Parc Cenedlaethol newydd. Bydd dynodi yn golygu newid i'r modd y rheolir y dirwedd a'r seilwaith yn yr ardal hon, a allai gael effeithiau ar feysydd fel ynni adnewyddadwy a datblygu tai.

Mae anfantais i'r sector ynni wedi'i rhannu rhwng dau faes.

Gallai'r llif o brosiectau ynni adnewyddadwy o fewn y Parc Cenedlaethol newydd, neu yn agos at ffin y Parc Cenedlaethol, brofi effaith sylweddol, a allai effeithio ar fusnesau o fewn y sector ynni adnewyddadwy a'r gadwyn gyflenwi, yn ogystal ag argaeledd cyflenwad ynni adnewyddadwy i gwsmeriaid masnachol a domestig. Gallai'r effaith net fod rhwng £280m a £560m mewn senario "gwaethaf", neu gallai'r effaith net fod rhwng £85m a £170m yn y "senario gorau".

Gallai costau'r rhwydwaith trawsyrru fod rhwng £60m a £195m, ar gyfer costau ychwanegol estyn a chryfhau rhwydwaith trawsyrru'r grid yng Nghymru a darparu ar gyfer ffin newydd y Parc Cenedlaethol.

Ar gyfer tai, efallai y bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn achosi effaith gadarnhaol bosibl ar werth y stoc dai, ond mae hyn yn sensitif iawn i natur a graddfa dybiedig yr effaith ar brisiau tai. Gan ddibynnu ar y senario, gallai'r effaith fod yn gymaint â £55m y flwyddyn. Bydd perchnogion tai yn y Parc Cenedlaethol newydd yn profi effaith gadarnhaol dynodiad ar brisiau tai. I'r gwrthwyneb, gallai'r effaith ar fforddiadwyedd i grwpiau fel prynwyr tro cyntaf fod yn sylweddol wrth iddynt gael eu prisio allan o'r farchnad. Nid yw'r effaith hon wedi cael ei meintoli yn y dadansoddiad.

Gallai aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys ymwelwyr, a busnesau brofi effeithiau cadarnhaol eraill o ganlyniad i'r Parc Cenedlaethol newydd. Mae hyn yn cynnwys y gwerth lles ychwanegol sy'n deillio o ymweliadau undydd a thros nos â'r Parc Cenedlaethol i ymwelwyr o'r tu allan i Gymru ym Mhrydain Fawr, ac ymwelwyr o dramor. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm gwerth lles net ymwelwyr dydd a dros nos â'r Parc Cenedlaethol newydd rhwng £34m a £36m dros gyfnod o 10 mlynedd. Amcangyfrifir y bydd costau amgylcheddol yr ymwelwyr yn £2.4m dros yr un cyfnod.

Mae meysydd effaith eraill sydd wedi cael eu meintoli yn y dadansoddiad yn cynnwys gwerth gwirfoddoli, cyfalaf naturiol a diwylliant a threftadaeth. Mae gan y rhain i gyd gysylltiad adnabyddadwy â'r gwerth a geir o'r meysydd effaith hyn gan unigolion a'r cyhoedd yn gyffredinol.

4.2 Y Sector Cyhoeddus gan gynnwys llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill

Mae costau ac arbedion y cynnig ynghylch y Parc Cenedlaethol newydd wedi cael eu hasesu'n llawn mewn manylder fel rhan o Ddadansoddiad Costau a Manteision ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a fydd yn darparu dadansoddiad a data i oleuo penderfyniadau ar gyfer cyflwyno'r cynnig.

Wrth i'r cynnig symud ymlaen i sefydlu APC newydd, bydd yr asesiadau perthnasol yn cael eu diweddarau, yn ôl yr angen.

Bu deialog barhaus gydag Awdurdodau Lleol a CLILC yn ystod y cam asesu, ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliwyd gan CNC. Mae Awdurdodau Lleol yn ymgynghoreion statudol yn y broses ddynodi ac felly bydd trafodaethau ac ymgynghori parhaus yn parhau.

Ar gyfer y sector cyhoeddus, mae costau'r Parc Cenedlaethol newydd wedi'u rhannu'n gostau trosiannol sefydlu Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC), a chostau rheolaidd, neu weithredol.

Mae costau sefydlu Parc Cenedlaethol newydd a ddaw i ran Llywodraeth Cymru'n cynnwys costau CNC. Tybir bod y gweithgareddau allweddol yn cynnwys:

- paratoi ar gyfer ymchwiliad (cynllunio) cyhoeddus – disgwylir ymchwiliad o ystyried y pryderon a godwyd gan randdeiliaid, yn anad neb, awdurdodau lleol
- cefnogi/cymryd rhan yn yr ymchwiliad cyhoeddus y tybir y bydd yn para 18 mis
- cynghori Gweinidogion ar sut y dylent ymateb i adroddiad yr ymchwiliad cyhoeddus
- cefnogi penderfyniadau'r Gweinidogion mewn ymateb i'r ymchwiliad
- sefydlu APC Glyndŵr – tybir y bydd hyn yn cymryd 3 blynedd arall ar ôl penderfyniad y Gweinidogion i frwr ymlaen â dynodi Glyndŵr

Yr APC fydd yn ysgwyddo costau referniw a chyfalaf wrth ei sefydlu a thrwy ei weithrediad parhaus. Gallai costau sefydlu fod hyd at £3.6m dros gyfnod o bum mlynedd, gyda chostau parhaus hyd at £34.6m dros y 10 mlynedd nesaf o weithredu.

Caiff costau awdurdodau lleol a Thirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy eu cyfeirio trwy feysydd gan gynnwys amser staff yng nghyfnod sefydlu'r APC, cost diweddarau Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlïau) i ddarparu ar gyfer ffin y Parc Cenedlaethol newydd, yn ogystal â cholli unrhyw daliadau ceisiadau cynllunio. Gall yr awdurdodau lleol osgoi rhai costau cynllunio a rheoli datblygu wrth i'r cyfrifoldeb symud i'r APC.

Mae'r tabl isod yn darparu crynodeb o'r costau economaidd i'r sector cyhoeddus yn ystod y broses o sefydlu'r APC - rhwng 2026/27 a 2030/31 - ac unrhyw gostau cylchol a ysgwyddir ar ôl ei sefydlu, rhwng 2031/32 a 2040/41. Bydd costau cylchol yn parhau ar ôl 2040/41. Cyflwynir ffigurau fel rhai gwerth presennol net (NPV), sy'n fesur allweddol o effaith a ddiffinnir fel cyfanswm gwerth manteision cynnig namyn ei gostau, wedi'i fynegi mewn gwerthoedd presennol trwy ddisgowntio.

Costau economaidd (£m, NPV, prisiau 2025/6, 2026/7 – 2040/1)			
	Sefydlu (Trosiannol)	Parhaus	Cyfanswm
Llywodraeth Cymru (a CNC)	2.5	0.5	
APC Glyndŵr	3.6	34.6	
Awdurdodau lleol	5.6	-0.4	
Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	0.0	-2.8	
Cyfanswm	11.6	32.0	43.6

4.3 Trydydd Sector

Bu deialog barhaus gyda'r trydydd sector a chyrrff cynrychiadol yn ystod y cyfnod asesu, ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliwyd gan CNC.

Nid yw sefydliadau'r trydydd sector yn cael cyllid ar gyfer gwaith tebyg, ond gall APC newydd ddewis gweithio gyda'r sector a gallai gael mynediad at ffrydiau cyllido i roi cymorth i fynd ati ar y cyd i gyflawni blaenoriaethau a rennir.

Mae'n annhebygol y bydd y cynnig yn effeithio ar bobl sydd eisoes yn cael lefel uchel o gymorth gan y trydydd sector ac nid oes unrhyw rannau penodol o'r cynnig y disgwylir iddynt gael eu cyflawni gan y trydydd sector.

Nid yw'r cynnig yn dibynnu ar wirfoddoli i'w gyflawni. Gall y cynnig ddarparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer cyfleoedd gwirfoddoli fel a welir yn y Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru.

Mae'r cynnig yn annhebygol o effeithio ar gyfleusterau / asedau cymunedol y mae sefydliadau'r trydydd sector yn berchen arnynt neu'n eu defnyddio.

Gall barn y sector hwn helpu i oleuo'r camau nesaf i sicrhau bod ystod eang o fuddiannau'n cael eu hystyried.

4.4 Effaith ar Gyfiawnder

Atebwch y canlynol mewn perthynas â'ch cynnig:

- ♦ **Ydych chi'n cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd gerbron?**

Nac ydym. Nid yw'r cynnig yn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd gerbron.

- ♦ **Ydych chi'n creu, yn dileu neu'n diwygio trosedd?**

Nac ydym. Nid yw'r cynnig yn creu, yn dileu nac yn diwygio trosedd.

- ♦ **A allai eich cynnig arwain at unrhyw effaith arall ar y system gyfiawnder e.e. trwy fwy o ymgyfreitha, angen am gymorth cyfreithiol, apelio yn erbyn penderfyniad corff cyhoeddus?**

Yn unol ag arfer da, paratowyd **adolygiad Adnabod Effaith ar y System Gyfiawnder**.

ADRAN 5. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT AMGYLCHEDDOL?

5.1 Adnoddau Naturiol

5.1a Sut fydd y cynnig yn cyflawni un neu fwy o'r Blaenoriaethau Cenedlaethol yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol?

Mae Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru (sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) yn nodi tair Blaenoriaeth Genedlaethol i helpu i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR). Mae'r Polisi ar Adnoddau Naturiol yn cydnabod bod y manteision a'r gwasanaethau y mae tirweddau ecosystemau yn eu darparu i gymdeithas yn cynnwys:

- Gwasanaethau diwylliannol: megis hamdden a manteision cysylltiedig i iechyd a llesiant; ein hamgylchedd hanesyddol a gwerthfawrogiad o'n lleoedd, tirweddau a natur hardd

Mae gan reoli tirwedd hefyd rôl sylweddol mewn gwasanaethau a systemau eraill. Mae gweithio ar raddfa tirwedd yn darparu cyfleoedd i gydweithio i ddarparu cysylltedd a chynnal cynefinoedd a rhywogaethau.

Mae'r Polisi presennol ar Adnoddau Naturiol hefyd yn cydnabod pwysigrwydd Parciau Cenedlaethol fel elfen hanfodol o arlwy twristiaeth Cymru a'r angen i:

'... roi ystyriaeth lawn i amgylchedd naturiol Cymru, sy'n ased enfawr, ac ystyried sut i ddefnyddio'i briodweddau fel bod twristiaeth yn tyfu'n gynaliadwy.'

Mae'r Polisi ar Adnoddau Naturiol yn rhan o'r ystyriaethau o ran y fframwaith amgylcheddol ehangach y bydd APCau presennol ac APC newydd Glyndŵr yn gweithredu ynddo. Mae'r canlynol yn nodi sut y gall yr APCau presennol gyflawni'r Polisi ar Adnoddau Naturiol:

Darparu Datrysiadau sy'n Seiliedig ar Natur

- Mae APCau yn gweithio ar y cyd â thirfeddianwyr a rheolwyr i roi cymorth i reoli tirweddau helaeth, cysylltiedig sy'n addas i ddarparu datrysiadau seiliedig-ar-natur sy'n ymdrin â newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth i ddatblygu gwydnwch ecosystemau.
- Trwy adfer mawndiroedd, creu coetiroedd, adfer afonydd a rheoli pridd, mae APCau yn rhoi cymorth i ddal a storio carbon, lleihau perygl llifogydd, gwella ansawdd dŵr ac adfer bioamrywiaeth.
- Mae eu swyddogaethau cynllunio, rheoli tir a phartneriaeth statudol yn galluogi ymatebion integredig i bwysau amgylcheddol yn hytrach nag ymyriadau ynysig.

Cynyddu Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Adnoddau priodol

- Mae APCau yn rhoi cymorth i bontio i economi carbon isel, sy'n effeithlon o ran adnoddau trwy alluogi mentrau ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni ac economi gylchol priodol sy'n gydnaws ag amcanion cynlluniau tirwedd a rheoli.
- Maent yn darparu arweinyddiaeth ofodol ar gyfer ynni adnewyddadwy a leolir yn briodol, micro-gynhyrchu, ac effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau a seilwaith.
- Gall APCau roi cymorth i brofi datrysiadau arloesol, defnydd tir cynaliadwy (e.e. Ffermio Bro) a lleihau llygredd, gan hefyd gynnal gweithrediad ecosystemau.⁴⁵
- Ceir rhagdybiaeth yn y polisi presennol (Polisi Cynllunio Cymru) yn erbyn datblygiadau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr, gan gynnwys ffermydd gwynt a seilwaith trawsyrru mawr lle y bo'n bosibl, o fewn Parciau Cenedlaethol dynodedig, Tirweddau Cenedlaethol/AHNE, a'u lleoliadau. Bydd ceisiadau'n parhau i gael eu penderfynu fesul achos unigol.
- Mae'r cyfyngiadau hyn eisoes yn berthnasol i Dirwedd Genedlaethol bresennol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a'u terfynau golygfeydd, ynghyd â'u terfynau golygfeydd ym Mharc Cenedlaethol Eryri drws nesaf. Er bod yr ardal y tu allan i'r dynodiadau presennol a'u terfynau golygfeydd yn gymharol fach, gall y cyd-destun polisi ddylanwadu ar nifer o gynigion cyfredol ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr. Cydnabyddir y gallai'r cyfyngiadau hyn effeithio ar dargedau lleihau carbon a mesurau lliniaru newid hinsawdd yn yr ardal arfaethedig ac ar ei phwys.

Defnyddio Dull sy'n Seiliedig ar Leoedd

- Mae Parciau Cenedlaethol yn gwreiddio dull sy'n seiliedig ar leoedd trwy integreiddio ystyriaethau amgylcheddol, diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd mewn cynlluniau rheoli a threfniadau llywodraethu.
- Maent yn gweithio'n agos gyda chymunedau, rheolwyr tir, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid i sicrhau bod penderfyniadau'n adlewyrchu cymeriad, anghenion a chyfleoedd lleol.
- Mae'r dull hwn yn cefnogi cymunedau cynaliadwy, gan gydnabod bod adnoddau naturiol yn tanategu hunaniaeth ddiwylliannol, iaith, treftadaeth, iechyd a ffyniant.

Mae Parciau Cenedlaethol yn darparu mecanwaith ymarferol ac effeithiol ar gyfer gweithredu'r Polisi ar Adnoddau Naturiol ar raddfa tirwedd, gan ddarparu manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

5.1b A yw'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd cenedlaethol canlynol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

⁴⁵ [STRATEGAETH-CARBON-ISEL-ERYRI-2024-2029.pdf](#)

Ymdrin â Heriau a Chyfleoedd Cenedlaethol ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Byddai dynodi Parc Cenedlaethol newydd a sefydlu APC wedi hynny'n darparu mecanwaith strategol, seiliedig-ar-leoedd i ymdrin â heriau a chyfleoedd cenedlaethol allweddol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae Parciau Cenedlaethol yng Nghymru'n gweithredu ar raddfa sy'n galluogi camau gweithredu integredig ar draws tir, dŵr, cymunedau ac ecosystemau, gan ategu gwydnwch a llesiant hirdymor.

- Gwrthdroi colled bioamrywiaeth a chryfhau gwydnwch ecolegol

Mae Parciau Cenedlaethol yn rhoi cymorth i reoli tirweddau cysylltiedig ar raddfa fawr sy'n addas i ddatblygu rhwydweithiau ecolegol gwydn a hynny mewn modd integredig. Trwy adfer cynefinoedd mewn modd cydgysylltiedig (gan gynnwys mawndiroedd, coetiroedd, afonydd a glaswelltiroedd sy'n gyforiog o rywogaethau), gall APCau leihau darnio, gwella cysylltedd rhwng safleoedd gwarchodedig a rhoi gymorth i gyflawni adferiad natur ac uchelgeisiau 30x30 Cymru. Mae cynllunio rheoli hirdymor, a ategir gan dystiolaeth o SoNaRR a chan Bartneriaethau Natur Lleol ac Adroddiadau Cyflwr y Parc, yn galluogi adferiad i gael ei wreiddio yn hytrach na'i gyflawni trwy brosiectau tymor byr.

- Diogelu storfeydd carbon a chefnogi gwydnwch hinsawdd

Mae biomas, mawndiroedd a phriddoedd ucheldirol o fewn Parciau Cenedlaethol yn storfeydd carbon o bwys cenedlaethol. Mae mynd ati i adfer mawn diraddiedig, creu coetiroedd brodorol, a rheoli pridd yn well yn helpu i ddiogelu a gwella'r storfeydd hyn gan hefyd roi cymorth i addasu i newid hinsawdd. Mae dulliau sy'n seiliedig ar ecosystemau'n cynyddu gwydnwch yn wyneb sychder, tanau gwyllt a glawiad eithafol, gan gyfrannu ar yr un pryd at amcanion lliniaru ac addasu.

- Cynnal capasiti cynhyrchiol a gwella priddoedd a bioddiogelwch

Mae APCau yn cefnogi tirweddau cynhyrchiol trwy weithio gyda ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir i wella ansawdd y pridd, lleihau erydiad a rheoli risgiau i fioddiogelwch. Mae cynlluniau fel dulliau rheoli tir sy'n ystyriol o natur (Ffermio Bro) ac yn gynaliadwy yn dangos sut y gellir cynnal gweithgarwch cynhyrchu bwyd gan hefyd wella gwasanaethau ecosystemau, gan gefnogi hyfywedd economaidd hirdymor diwydiannau'r tir mewn ardaloedd gwledig.

- Lleihau perygl llifogydd a gwella ansawdd dŵr a'r cyflenwad ohono

Gan weithio ar raddfa dalgylch a thirwedd, mae APCau yn rhoi cymorth i reoli llifogydd yn naturiol trwy adfer gwlyptiroedd, ail-ddolennu afonydd, adfer mawn a chlustogi coetiroedd. Mae'r mesurau hyn yn arafu llifoedd dŵr, yn lleihau perygl llifogydd i lawr yr afon, yn gwella ansawdd dŵr trwy leihau gwaddod a llygredd maethynnau, ac yn helpu i sicrhau

ansawdd cyflenwadau dŵr a sicrhau bod digon ohonynt. Gall APCau roi cymorth i gyflwyno Cynlluniau Rheoli Dalgylchoedd perthnasol.

- Lleihau llygredd a gwella ansawdd aer a seinweddau

Mae APCau yn rhoi pwyslais cryf ar dawelwch a seinweddau, ochr yn ochr â mesurau i leihau llygredd aer a sŵn. Mae mentrau trafndiaeth gynaliadwy, teithio llesol, llai o ddibyniaeth ar geir preifat, a rheoli ymwelwyr mewn modd sensitif yn cyfrannu at well ansawdd aer. Mae adfer cynefinoedd a chreu coetiroedd yn rhoi rhagor o gymorth i amsugno llygryddion a chreu amgylcheddau iachach.

- Lleihau'r pwysau ar adnoddau naturiol trwy effeithlonrwydd ynni ac adnoddau

Mae APCau yn cefnogi'r broses o bontio i economi carbon isel sy'n effeithlon o ran adnoddau trwy alluogi dulliau ynni adnewyddadwy wedi'u lleoli'n briodol, micro-gynhyrchu, ôl-osod ac economi gylchol sydd sy'n gyson ag amcanion tirwedd ac ecosystemau. Maent hefyd yn darparu safleoedd arddangos ar gyfer arloesi bach-ei-effaith mewn tirweddau gwledig a gwarchodedig. Fodd bynnag, o dan y polisi cynllunio cyfredol maent hefyd yn gosod cyfyngiadau ar ddatblygu ynni adnewyddadwy a seilwaith trawsyrru ar raddfa fawr o fewn eu ffiniau a'u terfynau golygfa; yn hytrach mae ganddynt bwyslais ar ddatblygu ynni adnewyddadwy ar raddfa lai.

- Cefnogi iechyd a llesiant ataliol

Mae mynediad o ansawdd da at fyd natur o fewn Parciau Cenedlaethol yn tanategu dulliau ataliol o ymdrin ag iechyd, yn enwedig trwy ymdrin ag anweithgarwch corfforol, iechyd meddwl gwael a chysylltiad â llygredd. Mae tystiolaeth o Barciau Cenedlaethol presennol yn dangos bod mynediad cynhwysol, rhaglenni presgripsiynu gwyrdd, trafndiaeth gynaliadwy a hamdden a reolir yn dda yn darparu manteision mesuradwy ar gyfer llesiant corfforol a meddyliol.

- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac economaidd

Mae APCau yn rhoi cymorth i weithredu ar anghydraddoldebau iechyd ac economaidd trwy wella mynediad at fannau gwyrdd a glas ar gyfer cymunedau difreintiedig, creu sgiliau a chyfleoedd hyfforddi, a chefnogi economïau lleol amrywiol. Mae buddsoddi seiliedig-ar-leoedd a rhaglennu cynhwysol ar gyfer digwyddiadau, mentrau mynediad a datblygu seilwaith mynediad yn helpu i sicrhau bod manteision y tirweddau arbennig hyn yn cael eu rhannu'n deg.

- Cefnogi cydlyniant cymunedol a gwydnwch diwylliannol

Trwy gynllunio, ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth dros yr hirdymor, mae APCau yn rhoi cymorth i gryfhau cydlyniant cymunedol, gan atgyfnerthu cysylltiadau rhwng pobl,

lleoedd, diwylliant ac iaith. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar gefnogi cymunedau Cymraeg, diogelu treftadaeth ddiwylliannol, a meithrin stiwardiaeth a rennir ar dirweddau.

- Cefnogi cyflogaeth ddiogel a sefydlog

Mae Parciau Cenedlaethol yn helpu i gynnal cyflogaeth ddiogel, wedi'i gwreiddio'n lleol ar draws sectorau cadwraeth, rheoli tir, twristiaeth, addysg, mynediad, cynllunio a threftadaeth. Trwy wreiddio cynaliadwyedd mewn gweithgarwch economaidd, maent yn cefnogi bywoliaethau sefydlog sy'n gydnaws â gwydnwch amgylcheddol hirdymor.

I grynhoi, trwy ddarparu datrysiadau sy'n seiliedig ar natur, cefnogi ynni adnewyddadwy priodol ac effeithlonrwydd adnoddau, a chymhwyso dull integredig sy'n seiliedig ar leoedd, gall APC newydd ddarparu mecanwaith cydlynol ac effeithiol i helpu i ymdrin â heriau mwyaf dybryd Cymru o ran adnoddau naturiol gan hefyd gynyddu i'r eithaf fanteision amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Wrth ddynodi Parc Cenedlaethol newydd, disgwylir y byddai prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yn cael eu heithrio ar gyfer yr ardal a'i lleoliad er mwyn gwarchod a gwella'r harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ac fe allai hyn arwain at ddadleoli neu leihau cyfraniad tuag at dargedau lleihau carbon a mesurau lliniaru newid hinsawdd.

5.2 Bioamrywiaeth

Er mwyn dangos cydymffurfiaeth ag Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid i chi gwblhau'r Atodiad F Asesiad o'r Effaith **ar Fioamrywiaeth**, yn atodiad F isod.

- **Gweler yr Asesiad llawn o'r Effaith ar Fioamrywiaeth yn Atodiad F**

5.3 Newid hinsawdd

5.3a Carbon

Sut fydd y cynnig yn effeithio ar allyriadau nwyon tŷ gwydr?

- **Paragraff A – Dim newid sylweddol mewn allyriadau**
"Mae swyddogion wedi ystyried effaith carbon y cyngor hwn. Nid ydym wedi meintoli'r allyriadau sy'n gysylltiedig ag ef oherwydd ein bod yn disgwyl iddynt fod o dan y trothwy ar gyfer dadansoddiad meintiol. Mae gennym <hyder uchel / canolig / isel> yn ein hasesiad."
- **Paragraff B – Newid sylweddol mewn allyriadau – Asesiad carbon llawn**
"Mae swyddogion wedi cynnal asesiad effaith carbon llawn o'r cyngor hwn. Rydym o'r farn y bydd <cynnydd / gostyngiad> net sylweddol mewn allyriadau o <X> tonnell CO₂e. Mae gennym hyder <uchel / canolig / isel> yn ein hasesiad."

Os ydych wedi cwblhau asesiad carbon llawn, atebwch y cwestiynau canlynol hefyd:

1. Cynllun gweithredu

A yw'r cynnig hwn yn gyson â chynllun diweddaraf Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau, [Cymru Sero Net](#)? <Ydy/~~Na~~-ydy>

2. Pontio cyfiawn

Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i bontio cyfiawn i sero net erbyn 2050. Ydych chi wedi ystyried goblygiadau'r cynnig hwn o safbwynt pontio cyfiawn? <Do/~~Naddo~~>

Os ydych, disgrifiwch sut yr ydych wedi ystyried yr angen am bontio cyfiawn neu ble yn eich Asesiad Effaith Integredig y gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon.

Caiff ystyriaeth i sut y gall Parc Cenedlaethol newydd gefnogi pontio cyfiawn ei nodi yn adran olaf yr Asesiad Effaith Integredig hwn.

5.3b Gwydnwch hinsawdd

- A fydd unrhyw un o'r risgiau a nodir yn Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU yn effeithio ar y cynnig hwn? <Bydd/~~Na fydd~~>

Os bydd, dylech ddefnyddio'r canllawiau asesu gwydnwch hinsawdd i'ch helpu i ystyried lleihau amlygiad y cynnig hwn i risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Cadarnhewch a ydych wedi gwneud unrhyw newidiadau i'r cynnig hwn ar ôl darllen y canllawiau ac, os felly, disgrifiwch hwy.

[Gwybodaeth wedi'i dileu] cytunwyd nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Newid Hinsawdd yng Ngham 1 gyda dynodi Parc Cenedlaethol Glyndŵr. Bydd angen ailystyried yng Ngham 2 pan fydd APC yn cael ei sefydlu.

- A fydd y cynnig hwn yn gwaethygu unrhyw un neu rai o'r risgiau a nodir yn Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU? <Bydd/~~Na fydd~~>

Os bydd, dylech ddefnyddio'r canllawiau asesu gwydnwch hinsawdd i'ch helpu i ystyried lleihau effaith y cynnig hwn ar risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Cadarnhewch a ydych wedi gwneud unrhyw newidiadau i'r cynnig hwn ar ôl darllen y canllawiau ac, os felly, disgrifiwch hwy.

- A fydd y cynnig hwn yn lleihau unrhyw un neu rai o'r risgiau a nodir yn Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU? <Bydd/~~Na fydd~~>

Os bydd, disgrifiwch sut.

Ni fydd Cam 1 yn gwneud ond mae gan Gam 2, gyda sefydlu APC Glyndŵr, y potensial i ymgymryd â datgarboneiddio, adfer cynefinoedd a datrysiadau sy'n seiliedig ar natur i fynd i'r afael â rhai o'r materion a adnabuwyd yn Nhrydydd Adroddiad Technegol Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU: Crynodeb ar gyfer Cymru.

5.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

Mewn trafodaeth gydag Arweinwyr Polisi, daethpwyd i'r casgliad **nad yw** Cam 1 y cynnig yn ymwneud ag unrhyw un o'r meini prawf a restrir isod. Bydd yr ymateb hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarw wrth i'r broses o ddynodi Parc Cenedlaethol newydd a sefydlu APC symud ymlaen i Gam 2.

- Gwaith adeiladu, mwyngloddio, echdynnu neu waredu gwastraff ar dir ac ar y môr (gan gynnwys datblygu trefol, priffyrdd, porthladdoedd, ynni, amaethyddiaeth a ffermio pysgod)
- Newid defnydd tir
- Coedwigo neu ddatgoedwigo
- Gwelliant amaethyddol ar ardaloedd heb eu trin neu led-naturiol
- Ailstrwythuro daliadau tir gwledig
- Echdynnu dŵr neu ddraenio tir.

5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mewn cytundeb gydag Arweinwyr Polisi, daethpwyd i'r casgliad **nad yw** Cam 1 y cynnig yn ymwneud â safleoedd gwarchodedig. Bydd yr ymateb hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarw wrth i'r broses o ddynodi Parc Cenedlaethol newydd a sefydlu APC symud ymlaen i Gam 2.

5.6 Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)

Mewn cytundeb gydag Arweinwyr Polisi, daethpwyd i'r casgliad nad yw Cam 1 y cynnig yn ymwneud ag unrhyw un o'r meini prawf a restrir isod. Bydd yr ymateb hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarw wrth i'r cynnig ddatblygu a symud i mewn i Gam 2.

- Gwaith adeiladu, mwyngloddio, echdynnu neu waredu gwastraff ar dir ac ar y môr (gan gynnwys datblygu trefol, priffyrdd, porthladdoedd, ynni, amaethyddiaeth a ffermio pysgod)
- Newid defnydd tir
- Coedwigo neu ddatgoedwigo
- Gwelliant amaethyddol ar ardaloedd heb eu trin neu led-naturiol
- Ailstrwythuro daliadau tir gwledig
- Echdynnu dŵr neu ddraenio tir.

ADRAN 6. DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL BETH FYDD YR EFFAITH AR ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL?

6.1 Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Gweler yr Asesiad llawn o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol yn Atodiad G.

ADRAN 7. COFNOD O ASESIADAU EFFAITH LLAWN SY’N OFYNNOL

Rydych bellach wedi penderfynu pa feysydd y mae asesiad effaith manylach yn ofynnol ar eu cyfer. Rhestrwch hwy isod.

Asesiad Effaith	Ydy/ Nac ydy	Os yw'n ofynnol, gwnewch fel a nodir isod
Hawliau plant	Ydw	Cwblhewch yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant isod
Cydraddoldeb	Ydy*	Cwblhewch yr Error! Reference source not found. isod
Dyletswydd economaidd-gymdeithasol	Ydy	Cwblhewch yr Asesiad o'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol isod
Prawfesur Gwledig	Ydy	Cwblhewch yr Asesiad O'R Effaith AR BrawfESUR Gwledig isod
Iechyd	Ydy	Cyfeiriwch at y Canllawiau Asesu Effaith Integredig
Preifatrwydd	Nac ydy	Cwblhewch yr Asesiad o'r Effaith ar Error! Reference source not found. isod
Cymraeg	Ydy	Cwblhewch yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
Economaidd / Asesiad Effaith Rheoleiddiol	Ydy	Cyfeiriwch at y Canllawiau Asesu Effaith Integredig. Cynghorir hynny, nid yw'n orfodol.

Cyfiawnder	Ydy	Cwblhewch y ffurflen Adnabod Effaith ar y System Gyfiawnder ar y fewnrwyd
Bioamrywiaeth	Ydy*	Cwblhewch yr Atodiad F Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth isod
Newid hinsawdd	Nac ydy	Cyfeiriwch at y Canllawiau Asesu Effaith Integredig
Asesiad Amgylcheddol Strategol	Nac ydy	Cyfeiriwch at y Canllawiau Asesu Effaith Integredig
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Nac ydy	Cyfeiriwch at y Canllawiau Asesu Effaith Integredig
Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol	Nac ydy	Cyfeiriwch at y Canllawiau Asesu Effaith Integredig

* Gorfodol ar gyfer pob cynnig er mwyn bodloni rhwymedigaethau statudol.

ADRAN 8. CASGLIAD

8.1 Sut y mae'r bobl sydd fwyaf tebygol o fod y rhai yr effeithir arnynt gan y cynnig wedi cael eu cynnwys wrth ei ddatblygu?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), fel yr awdurdod dynodi, wedi cynnal rhaglen strwythuredig tair blynedd o ymgysylltu ac ymgynghori (2023–2025) i sicrhau y gallai'r bobl yr effeithir arnynt fwyaf ymgysylltu'n ystyrlon â datblygu cynnig a ffin y Parc Cenedlaethol. Mae hyn wedi cynnwys digwyddiadau yn y cawd ac ar-lein, sesiynau rhanddeiliaid wedi'u targedu, arolygon, sesiynau galw heibio ledled yr ardal arfaethedig, ac ymgynghoriad statudol llawn ar y Gorchymyn Dynodi drafft.

- Cafodd **plant a'u cynrychiolwyr** eu cynnwys trwy amryw ddigwyddiadau, gan gynnwys cyfranogiad gan grwpiau fel y Ffermwyr Ifainc. Mae tystiolaeth o adroddiadau CNC yn tynnu sylw at faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc (e.e. tai, mynediad at swyddi, y Gymraeg). Cyfrannodd grwpiau Ceidwaid Ifanc presennol a phartneriaid addysg hefyd.
- Ymgysylltwyd â **phobl â nodweddion gwarchodedig** trwy ymgynghoriadau cyhoeddus agored, dadansoddiad â ffocws ar gydraddoldeb, ac adnabod rhwystrau (e.e., hygyrchedd, trafnidiaeth, cost). Bydd y rhain yn goleuo unrhyw ddulliau lliniaru sy'n cyd-fynd â Deddf Cydraddoldeb 2010 a chanfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
- Cafodd **siaradwyr Cymraeg a sefydliadau Cymraeg** eu cynnwys yn helaeth, gan gynnwys trwy ymgynghoriadau ar yr enw Cymraeg arfaethedig "Parc Cenedlaethol Glyndŵr". Casglwyd gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd cymunedol a gwanhau iaith ac fe ymgorfforwyd hyn wrth gynllunio mesurau lliniaru (e.e. offer cynllunio, mesurau diogelu diwylliannol) er mwyn cefnogi diwylliant ac iaith.
- Fe ymgysylltwyd â **grwpiau eraill yr effeithir arnynt** gan gynnwys trigolion, rheolwyr tir, ffermwyr, busnesau, gweithredwyr twristiaeth, grwpiau amgylcheddol ac awdurdodau lleol trwy ddigwyddiadau a phrosesau ymgynghori wedi'u targedu. Fe wnaeth eu hadborth siapio dealltwriaeth am faterion allweddol fel pwysau ymwelwyr, tai, trafnidiaeth ac effeithiau ar wasanaethau.

Ar y cyfan, mae gweithgarwch cynnwys wedi bod yn eang, yn barhaus ac wedi'i strwythuro i adlewyrchu dyletswydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gynnwys y rhai yr effeithir arnynt.

8.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, cadarnhaol a negyddol?

Disgwylir i ddynodiad arfaethedig y Parc Cenedlaethol gael effaith eang ar draws yr amgylchedd, diwylliant a'r Gymraeg, yr economi, ac ar gyfer cymunedau. Mae'r rhain yn adlewyrchu themâu a godwyd yn gyson trwy brosesau CNC ac yn cyd-fynd yn gryf â'r saith Nod Llesiant ac amcanion llesiant Llywodraeth Cymru.

1. Effeithiau Amgylcheddol

Effeithiau cadarnhaol

- Adferiad natur a bioamrywiaeth: Mae'r dynodiad yn sefydlu mecanwaith hirdymor i adfer cynefinoedd, gwella cysylltedd ecolegol, ac ymdrin â dirywiad bioamrywiaeth, gan gyfrannu at Dargedau Byd-eang 30 erbyn 30. Mae asesiadau CNC yn amlygu hyn fel budd allweddol.
- Gwydnwch hinsawdd: Mae adfer mawndiroedd, creu coetiroedd, rheoli afonydd, a rheoli llifogydd naturiol gyda'i gilydd yn rhoi cymorth i liniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd, gan gyfrannu at y nodau Cymru Gydnerth a Chymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang er budd cymunedau lleol.
- Gwell ansawdd amgylcheddol: Mae rheoli tir yn well yn gallu gwella ansawdd dŵr, lleihau llygredd, gwarchod priddoedd, a gwella gweithrediad y dirwedd ac ecosystemau.

Effeithiau negyddol / risgiau

- Effeithiau ymwelwyr a phwysau adnoddau: Gall mwy o ddefnydd o ddŵr, ymddygiad gwrthgymdeithasol lleol, a nifer uwch o ymwelwyr achosi erydiad a tharfu ar gynefinoedd sensitif, gan olygu bod angen rheoli strategol ac ymyriadau wedi'u targedu.
- Cyfyngiadau ar ynni adnewyddadwy: Mae datblygiadau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yn debygol o gael eu heithrio o fewn yr ardal a'i lleoliad, a allai effeithio ar dargedau lleihau carbon a lliniaru effeithiau newid hinsawdd.

2. Effeithiau ar Bobl a Chymunedau

Effeithiau cadarnhaol

- Llesiant gwell: Mae mwy o fynediad at fannau o ansawdd da'n cefnogi iechyd corfforol a meddyliol, a chyfleoedd ar gyfer hamdden, dysgu a gwirfoddoli yn yr awyr agored, sy'n cyd-fynd â'r nodau Cymru lachach a Chymru sy'n Fwy Cyfartal.
- Gwell llywodraethu a chynllunio hirdymor: gallai arwain at reoli cydgysylltiedig ar raddfa tirwedd, cefnogi cymunedau gwydn a llywodraethu cynrychiadol.
- Cyfleoedd i blant a phobl ifanc: mae hyn yn cynnwys gwell mynediad at addysg amgylcheddol, cynlluniau ceidwaid ieuenctid, a datblygu sgiliau, gan gefnogi'r nodau Cymru o Gymunedau Cydlynus a Chymru Lewyrchus.

Effeithiau negyddol / risgiau

- Pwysau fforddiadwyedd tai: gall cynnydd posibl mewn ail gartrefi neu yn y galw allanol am dai effeithio'n arbennig ar bobl ifanc a theuluoedd lleol. Lliniaru trwy offer cynllunio a chydweithio.
- Mwy o bwysau ar wasanaethau: Gan gynnwys tagfeydd, capasiti gwasanaethau brys, parcio, a phwysau ar seilwaith cyhoeddus. Mae'r materion hyn eisoes i'w gweld mewn ardaloedd fel Pistyll Rhaeadr a Moel Famau a bydd APC newydd yn darparu cyfleoedd i ymdrin â hwy.
- Rhwystrau o ran trafnidiaeth gyhoeddus a hygyrchedd: Gall cyfyngiadau presennol trafnidiaeth wledig effeithio'n anghymesur ar aelwydydd incwm isel, pobl anabl, a thrigolion hŷn.

3. Effeithiau ar Ddiwylliant a'r Gymraeg

Effeithiau cadarnhaol

- Cryfhau hunaniaeth Gymreig: Mae'r dynodiad yn atgyfnerthu treftadaeth ddiwylliannol, arferion rheoli tir traddodiadol, safleoedd hanesyddol, a hunaniaeth ddiwylliannol.
- Hybu'r Gymraeg: Mae llywodraethu dwyieithog, safonau'r Gymraeg, rolau sy'n ymdrin â'r cyhoedd lle mae'r Gymraeg yn ofynnol, a dehongli diwylliannol i gyd yn cefnogi'r nodau Cymru â Diwylliant Bywiog Lle Mae'r Gymraeg yn Ffynnu. Mae'r enw Cymraeg Parc Cenedlaethol 'Glyndŵr' yn adlewyrchu dewis y gymuned.
- Parhad diwylliannol yn seiliedig ar leoedd: Mae APCau yn rhoi cymorth gweithredol i warchod geirdarddiad Cymraeg ac asedau diwylliannol nodedig yn lleol.

Effeithiau negyddol / risgiau

- Pwysau cynaliadwyedd cymunedol: Codwyd pryderon am newid demograffig a gwanhad posibl cymunedau Cymraeg eu hiaith.
- Effeithiau twristiaeth ar safleoedd diwylliannol: Gall niferoedd ymwelwyr uwch greu perygl o ddifrod i safleoedd treftadaeth sensitif oni bai eu bod yn cael eu rheoli'n ofalus.

4. Effeithiau ar yr Economi

Effeithiau cadarnhaol

- Cynnydd ac arallgyfeirio economaidd: Mae tystiolaeth o Barciau Cenedlaethol presennol yn dangos cynnydd mewn Gwerth Ychwanegol Gros, twf mewn twristiaeth gynaliadwy, a chyfleoedd ar gyfer cadwyni cyflenwi, cynhyrchu bwyd, a mentrau bychain lleol.

- Swyddi a sgiliau gwyrdd: Byddai'r APC yn creu rolau mewn cyngor rheoli tirwedd, cadwraeth, rheoli ymwelwyr, a threftadaeth ddiwylliannol, gan gefnogi'r nod Cymru lewyrchus.
- Cymorth i fusnesau gwledig: Byddai diwydiannau amaethyddol yn cael mynediad at gynlluniau amaeth-amgylcheddol wedi'u targedu (e.e., Ffermio Bro) a mwy o gyfleoedd i gydweithio ar reoli tir mewn modd sy'n ystyriol o natur.

Effeithiau negyddol / risgiau

- Biwrocratiaeth gynyddol ganfyddedig: Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryderon am gymhlethdod ychwanegol yn y gyfundrefn gynllunio a beichiau gweinyddol posibl.
- Dibyniaeth ar dwristiaeth dymhorol: Heb reoli gweithredol, gall rhai enillion economaidd fod yn dymhorol.
- Mae prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yn debygol o gael eu heithrio ar gyfer yr ardal a'i lleoliad. Gallai hyn arwain at ostyngiad yn y cyfraniad tuag at dargedau carbon a mesurau lliniaru effeithiau newid hinsawdd.

5. Themâu sy'n dod i'r amlwg o gynnwys y cyhoedd

Fe wnaeth ymgysylltu â'r cyhoedd amlygu'r canlynol yn gyson:

- Cefnogaeth gref i ddiogelu'r dirwedd, bioamrywiaeth a thawelwch.
- Pryderon ynghylch fforddiadwyedd tai, cynaliadwyedd y Gymraeg, ac effeithiau ymwelwyr.
- Dyhead am well trafnidiaeth, mynediad, a llywodraethu sy'n canolbwyntio ar y gymuned.
- Pwyslais ar gynnal hunaniaeth leol, y Gymraeg, treftadaeth a thraddodiadau ffermio gan hefyd gefnogi economïau gwledig cynaliadwy.

Casgliad

Ar y cyfan, mae'r cynnig yn cynnig manteision hirdymor sylweddol i stiwardiaeth amgylcheddol, treftadaeth ddiwylliannol, hybu'r Gymraeg, economïau gwledig cynaliadwy, a llesiant cymunedol sy'n cyd-fynd â phob un o'r saith Nod Llesiant ac ymrwymïadau Llywodraeth Cymru ar yr hinsawdd, adferiad natur, cydraddoldeb, ffyniant a chymunedau cydlynus. Mae'r risgiau allweddol yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy, tai, pwysau ymwelwyr, seilwaith, a chynnal cyfanrwydd ieithyddol a diwylliannol. Cydnabyddir y rhain a gellir lliniaru'r rhan fwyaf trwy lywodraethu cryf, offer cynllunio, a gweithredu dan arweiniad partneriaeth ar gyfer ymyriadau y cytunwyd arnynt. Os bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ddynodi, bydd rhaid ystyried sut i reoli'r risgiau hyn yn effeithiol fel rhan o'r broses o sefydlu Awdurdod Parc Cenedlaethol newydd a byddai'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn cael ei adolygu/ei ddiweddarau ar yr adeg honno.

8.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a adnabuwyd, sut fydd y cynnig:

- yn cynyddu i'r eithaf y cyfraniad at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,
- yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?

1. Cynyddu i'r eithaf y cyfraniad at amcanion llesiant a'r saith nod

Cymru Ffyniannus / Economi deg, werdd

- Sefydlu'r APC gydag offer i gefnogi twf a sgiliau gwyrdd (cadwraeth, mynediad, treftadaeth ddiwylliannol, twristiaeth gynaliadwy), a chymorth/cyngor priodol i fusnesau bach a chanolig a mentrau ar y tir trwy gynlluniau wedi'u targedu (e.e., Ffermio Bro) a chadwyni cyflenwi lleol.
- Gwreiddio partneriaethau economaidd strategol (ALLau, BGCau, CNC, APCau) i gyd-ddylunio cymorth i fusnesau a chydwasanaethau, gan wella cynhyrchiant a'r gwerth a gedwir yn lleol.

Cymru Gydnerth / Adfer natur a'r hinsawdd

- Ariannu prosiectau adfer mawndiroedd, creu coetiroedd brodorol, dalgylchoedd a pherygl llifogydd aml-flwyddyn fel rhaglenni craidd yr APC i sicrhau cynnydd mewn bioamrywiaeth, dal a storio carbon a gwella gwydnwch ecosystemau.

Cymru Iachach

- Ei gwneud hi'n ofynnol i'r APC weithredu mynediad cynhwysol (mynediad lleiaf cyfyngol, llwybrau hygyrch, offer addasol) a phartneru ar bresgripsiynu cymdeithasol a rhaglenni iechyd wedi'u targedu.

Cymru sy'n Fwy Cyfartal

- Mandadu Cynllun Cydraddoldeb Strategol cadarn, gyda chymau penodol ar fforddiadwyedd trafnidiaeth, mynediad digidol, cyfranogiad a chyfathrebu yn enwedig ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i leihau bylchau mewn cyfranogiad.

Cymru o Gymunedau Cydlynus

- Sicrhau trefn rheoli ymwelwyr â ffocws ar y gymuned a chynllunio cyfranogol (Cynllun Rheoli, CDLI) i daro cydbwysedd rhwng anghenion trigolion, diogelwch a phrofiad ymwelwyr.

Cymru â Diwylliant Bywiog Lle Mae'r Gymraeg yn Ffynnu

- Mabwysiadu model sefydliadol sy'n rhoi lle blaenllaw i'r Gymraeg (e.e. Cymraeg fel iaith weinyddol, gwasanaethau dwyieithog, diogelu enwau lleoedd) a chyflwyno Strategaeth Hybu'r Gymraeg 5 mlynedd statudol.

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

- Gosod y Parc fel arddangosydd ar gyfer datrysiadau sy'n seiliedig ar natur a sero net, gan adrodd yn dryloyw yn erbyn targedau cenedlaethol/byd-eang gan gynnwys 30 erbyn 30 a safonau ardaloedd gwarchodedig rhyngwladol yr Undeb Rhyngwladol ar gyfer Cadwraeth Natur (Categori V IUCN).

2. Osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol

Fforddiadwyedd tai a chynaliadwyedd cymunedol

- Galluogi'r APC ac ALLau i ddefnyddio offer cynllunio (e.e. Cyfarwyddiadau Erthygl 4, rheolaethau prif breswylfa/ail gartref, rheoli llety gosod tymor byr) yn y CDLI i ddiogelu'r stoc dai leol; monitro effeithiau gydag awdurdodau tai.

Pwysau ymwelwyr ar wasanaethau a'r amgylchedd

- Ariannu Cynllun Rheoli Ymwelwyr Cynaliadwy ledled y Parc (rhannu'n barthau, capasiti llwybrau, diogelu cynefinoedd, prisiau meysydd parcio, toiledau/gwastraff, is-ddeddfau lle y bo angen) a phresenoldeb ceidwaid tymhorol; cyd-ariannu trafnidiaeth gyhoeddus (e.e. gwasanaethau gwennol) a chysylltiadau teithio llesol i leihau tagfeydd ac allyriadau.

Anghydraddoldebau trafnidiaeth a mynediad

- Blaenoriaethu tocynnau integredig, cardiau teithio rhatach, a thrafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw ar gyfer cymunedau gwledig; cyhoeddi safon Mynediad i Bawb a gwybodaeth am lwybrau mewn fformatau hygyrch.

Bregusrwydd safleoedd diwylliannol/treftadaeth

- Cyd-reoli asedau sensitif gyda Cadw a thirfeddianwyr gan ddefnyddio trothwyon capasiti cario, seilwaith wedi'i deilwra, a gwybodaeth briodol i wasgaru pwysau.

3. Camau penodol y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd

Hybu bioamrywiaeth a'r hinsawdd (Cymru Gydnerth / Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fydeang)

- Darparu grantiau aml-flwyddyn, sy'n seiliedig ar ddeilliannau i'r APC ar gyfer adfer mawndiroedd, coetiroedd, afonydd ac adfer rhywogaethau; alinio hynny â'r Gronfa Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, Rhwydweithiau Natur a'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd; ei gwneud hi'n ofynnol i lunio adroddiadau Cyflwr Natur ac adroddiadau dan Adran 6 i dracio enillion.

Hybu hawliau plant (Cymru Iachach / Cymru sy'n Fwy Cyfartal / Cymru o Gymunedau Cydlynus)

- Clustnodi cyllid ar gyfer ceidwaid ieuenctid, dysgu yn yr awyr agored (e.e., Tirlun), prentisiaethau, a fforwm ieuenctid fel rhan o drefniadau llywodraethu; ei gwneud hi'n ofynnol cynnal ymgynghoriadau sy'n addas i blant.

Cryfhau cydraddoldeb (Cymru sy'n Fwy Cyfartal)

- Amod cymorth grant ar gyflwyno Cynllun Cydraddoldeb Strategol, adroddiadau cydraddoldeb blynyddol, ac allgymorth wedi'i dargedu (ymwelwyr anabl, cymunedau ethnig leiafrifol, grwpiau LHDTG+), gyda gwerthuso annibynnol.

Cefnogi'r Gymraeg (Diwylliant Bywiog Lle Mae'r Gymraeg yn Ffynnu)

- Gosod disgwyliadau ar gyfer rolau y mae'r Gymraeg yn hanfodol ar eu cyfer, tir y cyhoedd dwyieithog, diogelu enwau lleoedd, a Strategaeth Hybu'r Gymraeg a ariennir; integreiddio metrigau effaith ieithyddol fel rhan o'r Cynllun Rheoli a'r CDLI.

Cryfhau cyfraniad at nodau ychwanegol

- Integreiddio'r hyn a gyflawnir gan y Parc ag amcanion llesiant Llywodraeth Cymru trwy lythyr cylch gwaith Gweinidogol, gyda nawdd draws-lywodraethol (hinsawdd/natur, trafnidiaeth, diwylliant, iechyd) ac adolygiad cynnydd blynyddol yn erbyn y saith nod.

4. Monitro, gwerthuso, ac ymyriadau

Sefydlu fframwaith perfformiad (Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer bioamrywiaeth, iaith, mynediad, tai, pwysau ymwelwyr, iechyd) a chyhoeddi adroddiad blynyddol; alinio gweithgarwch craffu â chynlluniau Archwilio Cymru a chynlluniau llesiant BGCau.

Pan fo tystiolaeth yn dangos nad oes unrhyw effaith achosol (e.e., nad yw tueddiadau cyffredinol prisiau tai'n gallu cael eu priodoli i ddynodiad yn unig), canolbwyntio camau gweithredu ar ysgogiadau mesuradwy (cynllunio/ newidiadau mewn dosbarth defnydd, darparu tai fforddiadwy) yn hytrach nag ymyriadau yn y farchnad. Os na chynigir unrhyw gamau gweithredu ar gyfer effaith a godwyd, cyhoeddi'r sylfaen dystiolaeth a'r adolygiad yn y cylch adrodd nesaf.

5. Cynnwys a thryloywder

Parhau i gynnwys mewn modd strwythuredig (dinasyddion, siaradwyr Cymraeg, ffermwyr, busnesau bach a chanolig, grwpiau cydraddoldeb) trwy ymgynghori statudol a chylchoedd y cynllun rheoli; cynnal deialog barhaus rhwng yr APC newydd a rhanddeiliaid ar gyfer adborth a dysgu parhaus.

Mae'r camau hyn gyda'i gilydd yn cynyddu i'r eithaf y cyfraniad at bob un o'r saith nod llesiant ac amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, gan hefyd ddarparu mesurau lliniaru ymarferol, cymesur ar gyfer risgiau cydnabyddedig wrth i'r cynnig symud o ddynodi i weithredu.

8.4 Sut fydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan fydd yn dod i ben?

Pa gynlluniau sydd ar waith ar gyfer adolygiad a gwerthuso ar ôl gweithredu?

Bydd APC newydd yn destun cyfundrefnau monitro a gwerthuso yn unol â'r trefniadau archwilio ac adrodd statudol presennol ar gyfer APCau yng Nghymru. Mae'r rhain wedi'u nodi yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru⁴⁶ ac fe'u crynhoir fel a ganlyn:

- Mae APCau yn cael eu harchwilio'n flynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Rhaid i APCau gydymffurfio â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, sy'n rhoi pŵer i Archwilio Cymru gynnal astudiaethau o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, ac adrodd wrthy Senedd.
- Mae APCau yn cyhoeddi Datganiadau Llywodraethu Blynnyddol, Cynlluniau Corfforaethol, Adroddiadau Perfformiad, a phapurau pwyllgorau sy'n manylu ar wneud penderfyniadau, risg a pherfformiad.
- Mae cynnydd a gweithgarwch cyflawni'n cael eu monitro trwy adolygiad statudol o Gynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol ac adroddiadau ar nodau Llesiant⁴⁷ a Dyletswydd adran 6 i gynnal a gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau⁴⁸.

⁴⁶ Llywodraethu NPA yng Nghymru, Llywodraeth Cymru 2024 [Llywodraethu Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru: Canllaw i rolau a chyfrifoldebau'r aelodau](#)

⁴⁷ Dyletswydd a3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2025 ar gyff cyhoeddus [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

⁴⁸ Dyletswydd adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 adran 6 dyletswydd [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#)

Mae APCau yn gweithredu o dan Gytundeb Fframwaith, a ategir gan lythyr cylch gwaith tymor llywodraeth sy'n nodi blaenoriaethau a chanlyniadau Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â chyllid craidd blynyddol. Mae cyflawni yn erbyn y gofynion hyn yn cael ei fonitro trwy adrodd yn rheolaidd ar berfformiad a chyfarfodydd ffurfiol gyda'r Gweinidogion Cymru perthnasol.

Ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd, gellid mabwysiadu dull arloesol trwy sefydlu set ddata sylfaenol gynhwysfawr, a honno'n cwmpasu dangosyddion fel niferoedd yr ymwelwyr, defnydd o'r Gymraeg, a nodweddion y boblogaeth, ac yna adolygiad i asesu cynnydd, effaith ac aliniad â blaenoriaethau cenedlaethol.

ADRAN 9. DATGANIAD

Datganiad

Yr wyf wedi fy argyhoeddi bod effaith y cam arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch Swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr: [Gwybodaeth wedi'i dileu]

Adran: **Y Gyfarwyddiaeth Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol**

Dyddiad: **26/02/2026**

A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

1. Amcanion polisi

- Effaith pa benderfyniad ydych chi'n ei hasesu?

Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn ystyried yr ystod o effeithiau mewn perthynas â chyflawni ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i 'Ddynodi Parc Cenedlaethol newydd i gwmpasu Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.' Mae hyn yn cynnwys sefydlu Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) newydd ar ôl dynodi a chreu Parc Cenedlaethol newydd yn gyfreithlon.

Mae Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn cael eu dynodi gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn amodol ar gadarnhad gan Weinidogion Cymru. Mae Parciau Cenedlaethol yn cael eu creu at ddau ddiben statudol:

- gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardaloedd o fewn Parciau Cenedlaethol;
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardaloedd hynny.

Mae dynodi Parc Cenedlaethol newydd a sefydlu APC newydd i lywodraethu a rheoli'r Parc Cenedlaethol newydd yn digwydd mewn dau gam:

- Cam 1 - Mae meini prawf penodol, gan gynnwys harddwch naturiol a chyfleoedd hamdden awyr agored ardal, yn cael eu hasesu gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n arwain at adnabod ardal sy'n bodloni'r profion statudol o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (Deddf 1949) i gael ei dynodi fel Parc Cenedlaethol. Yn dilyn y broses ymgynghori statudol a phenderfyniad Bwrdd CNC, mae'n debygol y bydd Gorchymyn Dynodi a map yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru. Yna bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried y gorchymyn dynodi a gyflwynwyd gan CNC ochr yn ochr â'r meini prawf a nodir yn Neddf 1949, ynghyd ag unrhyw wrthwynebiadau a sylwadau. Efallai y bydd angen cynnal ymchwiliad lleol cyhoeddus fel rhan o'r broses hon. Os gwneir penderfyniad i gadarnhau'r gorchymyn dynodi, bydd Parc Cenedlaethol newydd yn dod i fodolaeth.
- Cam 2 - Os caiff y gorchymyn ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru, bydd yr ardal a adnabuwyd yn dod yn Barc Cenedlaethol. Y bwriad yw gwneud gorchymyn sefydlu mewn cysylltiad â dynodi'r Parc Cenedlaethol newydd, gan sefydlu APC. Fel awdurdod lleol diben arbennig, bydd gan yr APC newydd swyddogaethau sy'n ymwneud â dibenion gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd

ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc hwnnw. Bydd yn gyfrifol am rai swyddogaethau a gyflawnir gan awdurdodau lleol gan gynnwys rheoli a pholisi datblygu, cynhyrchu cynllun rheoli Parc Cenedlaethol, trefniadau llywodraethu, a chyflawni polisi trwy amryw fecanweithiau rheoli tir uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Mae'r cam cychwynnol o ran asesu a dynodi'n ffurfiol yn annhebygol o ddwyn goblygiadau uniongyrchol sy'n berthnasol i hawliau plant. Fodd bynnag, mae gan yr ail gam o ran rhoi'r APC newydd ar waith botensial i gyfrannu'n uniongyrchol trwy ddarparu cyfleoedd i blant ymweld, dysgu a chymryd rhan mewn ceidwaid ifanc, digwyddiadau, prentisiaethau, ac ymgysylltu â llywodraethu trwy broses adolygu'r cynllun rheoli. Bydd hefyd yn dwyn manteision o ran llesiant i blant a'u teuluoedd trwy fynediad at amgylcheddau o ansawdd da.

Mae'r tri APC presennol yng Nghymru yn darparu templed ar gyfer sut y byddem yn disgwyl i APC newydd yng Nghymru arwain, cynllunio, rheoli a chyflawni blaenoriaethau cenedlaethol mewn cyd-destun lleol. Felly, defnyddir enghreifftiau o APCau presennol drwy'r asesiad hwn i ddangos sut mae'r APC newydd yn debygol o weithredu a chyflawni.

Bydd y cynnig hwn yn llywio camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur trwy ysgogi mecanwaith llywodraethu, ymgysylltu a chyflawni ar gyfer gwella amgylcheddol a chyflawni llesiant ar raddfa leol a chenedlaethol. Mae'r rhain yn faterion sydd a adnabuwyd fel rhai sy'n bwysig i blant a phobl ifanc ac mae'r ffocws ar wneud penderfyniadau cadarn yn awr nad ydynt yn peryglu cynaliadwyedd yn y dyfodol.

2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Mae'n bwysig nodi bod Cam 1 y cynnig hwn wedi cael ei gynnal gan CNC fel yr awdurdod dynodi. Gan mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod sy'n gwneud y penderfyniad, mae angen gwahanu dyletswyddau. Felly, mae'r asesiadau technegol, yr ymgysylltu a'r ymgynghoriadau sy'n goleuo penderfyniad CNC i wneud y gorchymyn dynodi wedi cael eu cynnal yn annibynnol gan CNC. Nid yw Gweinidogion Cymru wedi bod yn rhan o'r agweddau hyn ar Gam 1 y broses. Yng Ngham 2 yn dilyn cyflwyno Gorchymyn Dynodi Parc Cenedlaethol Glyndŵr (Chwefror 2026) a thystiolaeth ategol gan CNC, bydd Gweinidogion Cymru'n ystyried y gorchymyn a'r holl dystiolaeth a ddarparwyd, ochr yn ochr â Chyngor Gweinidogol, yr Asesiad Effaith Integredig hwn, yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac Achos Busnes Amlinellol i oleuo eu penderfyniad. Gall Gweinidogion Cymru gadarnhau, amrywio neu wrthod y gorchymyn dynodi. Os oes gwrthwynebiadau yn ystod Cyfnod yr Hysbysiad Statudol gan unrhyw Awdurdod Lleol o fewn ôl troed yr ardal arfaethedig, yna mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru alw ymchwiliad lleol. O ran unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau eraill, rhaid i Weinidogion Cymru naill ai drefnu ymchwiliad lleol neu wrandawriad lleol i roi cyfle i'r rhai sydd wedi gwneud sylwadau/gwrthwynebiadau o'r fath gyflwyno eu tystiolaeth a gwneud sylwadau.

Yn ystod Cam 1, darparodd CNC ystod o ddigwyddiadau ymgysylltu a digwyddiadau ymgynghori gan gynnwys opsiynau ar-lein ac yn y cnawd. Roedd rhai o'r rhain wedi'u

targeddu at fuddiannau penodol fel busnesau neu ffermio ond roeddent, o ran eu natur, yn hunan-ddethol. Mae rhai grwpiau fel Ffermwyr Ifainc wedi cymryd rhan. Yn ystod y camau casglu tystiolaeth, mae materion a adnabuwyd fel rhai sy'n bwysig i blant a phobl ifanc wedi cael eu hystyried fel rhan o'r broses.

Rhoddodd digwyddiadau ymgysylltu yn y cnawd a gynhaliwyd gan CNC ar adeg gynnar yn 2023 gyfle i bobl geisio rhagor o wybodaeth a chodi cwestiynau. Mae Adroddiad Ymgysylltu 2023 yn tynnu sylw at faterion a allai effeithio ar bobl ifanc megis anawsterau canfyddedig wrth geisio mynediad at swyddi a chyfleoedd tai, ac erydiad iaith a diwylliant pe bai Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ddynodi⁴⁹.

Fe wnaeth yr adroddiad a gomisiynwyd gan CNC⁵⁰ sy'n archwilio'r grymoedd dros newid sy'n effeithio ar ardal arfaethedig y Parc Cenedlaethol newydd hefyd ddarparu dadansoddiad cymharol, gan fwrw golwg ar faterion mewn Tirweddau Dynodedig eraill ledled y DU. Fe wnaeth yr adroddiad hwn adnabod materion, gan gynnwys y rhai sy'n effeithio ar bobl ifanc fel pobl ifanc yn mudo o'r ardal, llai o bobl ifanc yn y diwydiant ffermio i gymryd lle gweithlu sy'n heneiddio, a phoblogaeth sy'n heneiddio a allai arwain at golli sgiliau a gwybodaeth. Tynnwyd sylw at bryderon sy'n benodol i ardal arfaethedig y Parc Cenedlaethol sy'n ymwneud â 'diffyg cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc a chynnal cyflogaeth leol. Byddai gwell cysylltedd yn helpu hyn'. Codwyd pryderon hefyd am yr angen i ganolbwyntio ar bobl ifanc, yn enwedig er mwyn gwireddu uchelgeisiau o ran y Gymraeg (Cymraeg 2050⁵¹).

Cynhaliodd CNC ymgynghoriad cychwynnol yn 2024 ar yr ardal a oedd yn cael ei hystyried ar gyfer ei dynodi. Tynnodd yr Adroddiad Ymgynghori sylw at ystod o faterion, gyda thros 19% o'r 553 o ymatebwyr yn gwneud sylwadau ar yr effaith y gallai Parc Cenedlaethol ei chael ar bobl leol, cymunedau a'r economi leol. Roedd y pryderon yn cynnwys mynediad pobl ifanc at drafnidiaeth gyhoeddus a swyddi ac roedd yn cynnwys adran benodol ar effeithiau posibl ar y farchnad dai i bobl ifanc (t20 a t22), a allai eu hysgogi i adael yr ardal.⁵² Materion eraill a godwyd mewn perthynas â phobl ifanc oedd mynediad at dai a phryderon, pe bai'r dynodiad yn gwanhau'r Gymraeg, y byddai pobl ifanc yn symud i ffwrdd i fagu eu teulu mewn ardal lle'r oedd y Gymraeg yn dal i gael ei siarad.

Comisiynodd CNC amrywiaeth o dystiolaeth ategol i oleuo ei brosesau penderfynu hefyd. Roedd hyn yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Iechyd⁵³ a amlygodd rai materion sy'n ymwneud â fforddiadwyedd tai ond hefyd fanteision mynediad at swyddi a chynlluniau

⁴⁹ Adroddiad Ymgysylltu, CNC 2023 [WEDI CAU Cynnig Parc Cenedlaethol Cymru - Cyfnod Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2023 – Citizen Space CNC - Citizen Space](#)

⁵⁰ Adroddiad Grymoedd dros Newid, Land Use Consultants 2024 a gomisiynwyd gan CNC [Grymoedd dros Newid ar gyfer Ardal Chwilio Parc Cenedlaethol Gogledd Ddwyrain Cymru](#)

⁵¹ Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg](#)

⁵² Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar Gynigion y Parc Cenedlaethol 2024 – Resources for Change a gomisiynwyd gan CNC [cynnig-parc-cenedlaethol-cymru---adroddiad-ymgynghori-cyhoeddus-2024.pdf](#)

⁵³ Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, CNC [asesiad-o---r-effaith-ar-iechyd-2.pdf](#)

prentisiaeth o ansawdd da mewn APC newydd. Ceir adran sy'n ystyried y cyfraniad cadarnhaol posibl y gallai hyn ei wneud at wella iechyd meddwl i bobl ifanc trwy ddarparu mynediad at natur (t6) ond yn cydnabod bod angen dylunio ac ariannu hyn i wireddu'r manteision.

Mae CNC hefyd wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg⁵⁴ sy'n cydnabod yr heriau a'r cyfleoedd y gallai dynodi Parc Cenedlaethol newydd eu dwyn, gan gynnwys ystyried effeithiau ar bobl ifanc sy'n debyg i'r rhai a adnabuwyd mewn adroddiadau blaenorol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ei Hasesiad ei hun o'r Effaith ar y Gymraeg, ac mae hwn i'w gael yn Atodiad E wrth yr Asesiad Effaith Integredig hwn.

Rhagwelir y bydd yr ymatebion i Ymgynghoriad Statudol CNC ar y Gorchymyn Dynodi drafft ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd yn rhoi mewnwelediad pellach i farn pobl ifanc.

Mae'r holl dystiolaeth hon a'r dadansoddiad ymgynghori hwn wedi cael eu defnyddio i oleuo Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru, ynghyd â ffynonellau tystiolaeth a data perthnasol eraill. Bydd hyn yn helpu i oleuo ystyriaeth ddyladwy i Hawliau Plant trwy gydol y broses ac yn helpu i oleuo penderfyniad terfynol Gweinidogion Cymru.

Yng Ngham 2 (gweler uchod) gyda sefydlu APC newydd mae mwy o gyfle i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a darparu cyfleoedd i gymryd rhan. Yn y rhan hon o'r broses bydd gan yr APC newydd ddyletswyddau penodol sy'n ymwneud ag addysg amgylcheddol at yr ail ddiben statudol a bennir yn adran 5(1) Deddf 1949:

'Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardaloedd hynny.'

Mae'r APCau presennol yn defnyddio cyfleoedd ymgysylltu i wneud y canlynol:

- Darparu cyfleoedd i bawb gael mynediad at gefn gwlad a'i fwynhau er budd eu llesiant.
- Codi ymwybyddiaeth o faterion, hysbysu a cheisio dylanwadu ar ymddygiad.
- Cefnogi ymweliadau addysgol trwy ddarparu adnoddau addysgol a chyfleoedd fel dysgu awyr agored Ysgolion Coedwig⁵⁵.
- Rhoi cymorth wedi'i dargedu ar gyfer cyflwyno dysgu trwy'r Cwricwlwm Cenedlaethol gydag adnodd porth dysgu awyr agored 'Tirlun'⁵⁶ sydd newydd ei lansio.
- Darparu cyfleoedd gwirfoddoli i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored a datblygu dysgu.
- Cefnogi arolygon a chasglu data i gyfrannu at Wyddor Dinasyddion sy'n galluogi gwneud penderfyniadau amgylcheddol cadarn.

⁵⁴ Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg gan CNC [ffurflen-asesu---r-ffaith-ar-y-gymraeg-2025-1.pdf](#)

⁵⁵ Ysgol Goedwig: Yr Ysgwrn | Parc Cenedlaethol Eryri

⁵⁶ Tirlun – Porth dysgu awyr agored pwrpasol y Parciau Cenedlaethol [Hafan](#) | [Tirlun](#)

- Darparu cyfleoedd i ymuno â Grwpiau Ceidwaid Ifanc i ddatblygu hyder, dysgu sgiliau newydd a chael dealltwriaeth am yr awyr agored.
- Darparu cyfleoedd i ddweud eu dweud am ddyfodol yr ardal trwy adolygu cynllun rheoli statudol y Parc Cenedlaethol.
- Ehangu profiad trwy raglenni rhyngwladol i ymgysylltu â phobl ifanc o wledydd eraill trwy ddigwyddiadau fel digwyddiad Ceidwad Iau Rhyngwladol Europarc, a gynhaliwyd yng Nghymru yn ddiweddar ac a fu'n trafod materion sy'n bwysig i bobl ifanc mewn perthynas â thema tirweddau ar gyfer y dyfodol.⁵⁷

O ran ystyried barn plant, mae Senedd Ieuenctid Cymru yn darparu llwyfan pwysig i bobl ifanc drafod a hybu camau gweithredu ar faterion sy'n bwysig iddynt. Mae Senedd Ieuenctid Cymru wedi adnabod yr amgylchedd a newid hinsawdd fel materion sy'n galw am weithredu ar frys ac mae wedi ymrwymo i dracio cynnydd Llywodraeth Cymru tuag at Sero Net⁵⁸. Hefyd, mae arolygon misol y Comisiynydd Plant⁵⁹ gyda phlant a phobl ifanc yn adnabod ystod o faterion amgylcheddol a hinsoddol, y byddai llawer ohonynt yn berthnasol i waith APC newydd.

Mae ymchwil Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored⁶⁰ yn amlygu'r ffaith bod chwarae yn yr awyr agored yn cefnogi iechyd meddwl, gwydnwch, gweithgarwch corfforol, ac addysg gynhwysol. Gall APCau ddarparu neu gael gafael ar gyllid i gynorthwyo plant i brofi ac archwilio byd natur e.e. Prosiect Generation Green 2⁶¹ yn Lloegr rhwng y Gymdeithas Hostela Ieuenctid ac APCau Lloegr i gysylltu grwpiau difreintiedig i brofi natur fel rhan o ymdrechion APCau i sicrhau bod y cenedlaethau nesaf yn cael eu grymuso a'u cynnwys. Yng Ngham 2 gellid datblygu cyfleoedd tebyg yng Nghymru mewn perthynas â'r Parc Cenedlaethol newydd trwy gydweithio â darparwyr addysg a sefydliadau eraill fel y Gymdeithas Hostela Ieuenctid. Gellid datblygu hyn ynghyd â mentrau eraill trwy waith swydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar y cyd Tirweddau Cymru sy'n cefnogi'r holl dirweddau dynodedig yng Nghymru. Rhan o waith presennol y swydd ar y cyd hon yw cyfathrebu gyda grwpiau ac ymgysylltu â grwpiau y tu hwnt i'r cyrhaeddiad arferol, trwy waith fel datblygu'r Maniffesto Ieuenctid,⁶² a adnabu faterion allweddol sy'n effeithio ar bobl ifanc ac y bwriedir iddo fod yn ddogfen fyw i adlewyrchu barn a phrofiad pobl ifanc sy'n byw ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Fodd bynnag, cydnabyddir bod darparu'r cyfleoedd hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar gyllid trwy arian cyhoeddus. Er bod y Prosiect MOSAIC gan Campaign for National Parks

⁵⁷ [Gwersyll Ceidwaid Iau Rhyngwladol 2024 - Ffederasiwn EUROPARC](#)

⁵⁸ Crynodeb gweledol Hinsawdd ac Amgylchedd Senedd Ieuenctid Cymru [Crynodeb Gweledol o Gyfarfodydd Senedd Ieuenctid Cymru](#)

⁵⁹ Helpu'r amgylchedd – Holiadur ciplun o blant a phobl ifanc yng Nghymru, Comisiynydd Plant Cymru Tachwedd 2024 [Helpu'r Amgylchedd - Holiadur Ciplun o Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru](#)

⁶⁰ [Ymchwil Chwarae yn yr Awyr Agored | Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored / Ymchwil Dysgu mewn Natur](#)

⁶¹ [Connect with nature | Generation Green](#)

⁶² [Galwad am Newid – Maniffesto Ieuenctid - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro](#)

wedi bod yn gymharol lwyddiannus o ran galluogi mynediad at Barciau Cenedlaethol i grwpiau Pobl Dduon ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru⁶³, mae heriau strwythurol a chymdeithasol yn parhau i fodoli ar gyfer mynediad cyfartal i gefn gwlad fel a ddogfennwyd gan ymchwiliad a gomisiynwyd gan Defra yn ddiweddar⁶⁴. Mae'r ymchwiliad hon yn awgrymu y gallai grwpiau penodol o blant wynebu rhwystrau i gael mynediad at weithgareddau sy'n seiliedig ar natur, yn enwedig:

- **Plant o deuluoedd incwm isel** (oherwydd rhwystrau o ran cost a thrafnidiaeth).
- **Plant ethnig leiafrifol** (yr effeithir arnynt gan ganfyddiadau diwylliannol a rhwystrau ieithyddol).
- **Plant ag anableddau** (darpariaeth gynhwysol gyfyngedig a materion hygrychedd).
- **Plant sy'n ffoaduriaid ac yn ymfudwyr** (iaith, anghyneffindra diwylliannol, ac allgáu cymdeithasol).
- **Gall merched wynebu rhwystrau** (oherwydd stereoteipiau rhywedd am weithgareddau awyr agored).

Mae'r adroddiad yn nodi ystod o rwystrau gan gynnwys:

- **Diffyg manau naturiol cyfagos** mewn ardaloedd trefol neu ddifreintiedig.
- **Cost gweithgareddau a thrafnidiaeth**, sy'n cyfyngu ar fynediad ar gyfer teuluoedd incwm isel.
- **Darpariaeth gynhwysol gyfyngedig** ar gyfer plant ag anableddau.
- **Canfyddiadau diwylliannol** bod gweithgareddau awyr agored 'ddim i ni.'
- **Rhwystro o ran iaith a chyfathrebu** ar gyfer teuluoedd ethnig leiafrifol.
- **Stereoteipiau rhywedd** sy'n dylanwadu ar gyfranogiad.
- **Pryderon ynghylch diogelwch gan rieni**, sy'n lleihau chwarae awyr agored.
- **Diffyg hyder neu sgiliau ymhlith plant a rhieni**.
- **Cylchoedd allgáu cymdeithasol**, sy'n atgyfnerthu diffyg cyfranogiad.

Dyma'r materion y bydd angen i APC newydd eu hystyried ac ymdrin â hwy.

- **Pa waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc ydych chi wedi'i ddefnyddio i oleuo eich polisi? Os nad ydych chi wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, eglurwch pam os gwelwch yn dda.**

Fel a nodir uchod, CNC fel yr awdurdod dynodi statudol sydd wedi arwain yr ymgysylltu a'r ymgynghori hyd yma. Bydd llawer mwy o gyfleoedd ar gyfer cyfranogiad ac ymgysylltu ar gael trwy waith yr APC unwaith y bydd hwnnw wedi cael ei sefydlu yng Ngham 2.

⁶³ [Mosaic-Wales-National-Parks-Health-and-Well-being-paper-May-2015.pdf](#)

⁶⁴ Erthygl lawn: 'It's not for people like (them)': structural and cultural barriers to children and young people engaging with nature outside schooling

3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Mae'r cynnig hwn yn cyfrannu at strategaeth ehangach Llywodraeth Cymru i ymdrin â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Cydnabyddir y bydd methu â mynd i'r afael â'r rhain yn effeithio'n sylweddol ar blant a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant yn fwy agored i effeithiau niwed amgylcheddol a newid hinsawdd ⁶⁵. Gall eu cyrff ac ymennydd datblygol fod yn fwy tueddol o brofi effeithiau niweidiol llygredd ac achosion o dywydd eithafol. Hefyd, mae plant yn treulio mwy o amser yn yr awyr agored nag oedolion, sy'n cynyddu eu cysylltiad â pheryglon amgylcheddol. Mae risgiau'n cynnwys:

- Mae plant yn fwy tebygol o ddatblygu afiechydon anadlol, fel asthma a niwmonia, o lygredd aer.
- Gall newid hinsawdd amharu ar gynhyrchu a dosbarthu bwyd. Gall ieuchyd pridd gwael olygu efallai na fydd plant yn cael y maetholion y mae eu hangen arnynt i dyfu a datblygu'n iawn, a all ddwyn canlyniadau gydol oes i'w hiechyd a'u llesiant.
- Gall achosion o dywydd eithafol ddifrodi ysgolion a tharfu ar addysg. Gall hyn arwain at golli cyfleoedd dysgu a rhwystro eu cynnydd addysgol.
- Mae plant yn fwy tebygol o brofi effeithiau straen seicolegol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd.

Mae gan Lywodraeth Cymru eisoes ystod o bolisïau a deddfwriaeth i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur a lliniaru'r risgiau hyn, sy'n cynnwys Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 a'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy a gyflwynwyd yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Mae gan bobl ifanc ddiddordeb yn y modd y mae awdurdodau cyhoeddus yn cael eu dwyn i gyfrif o ran cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol amgylcheddol, gan gynnwys o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'n ofynnol i'r APCau presennol gydymffurfio â rhannau perthnasol o'r ddeddfwriaeth bresennol i liniaru a rheoli effeithiau'r materion hyn, ac mae'r rhain yn cynnwys deddfwriaeth amgylcheddol berthnasol ac ystyriaethau i gynaliadwyedd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n rhoi sylw i effeithiau ar genedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae APCau yn llunio eu Hamcanion Llesiant ac yn monitro cynnydd arnynt trwy eu Cynlluniau Corfforaethol ac maent yn rhan o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Wrth fynd ar drywydd dibenion statudol Parciau Cenedlaethol, mae dyletswydd ar APCau i feithrin llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau yn y Parc Cenedlaethol ac i weithio gydag awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus y mae eu swyddogaethau'n cynnwys hybu datblygiad economaidd neu gymdeithasol o fewn ardal y Parc Cenedlaethol (a11A(1) Deddf 1949).

⁶⁵ <https://www.epa.gov/sites/default/files/2016-10/documents/children-health-climate-change.pdf>

Gall penderfyniadau a wneir o fewn polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol neu gynllun rheoli'r Parc Cenedlaethol helpu i gefnogi gwell deilliannau amgylcheddol. Er enghraifft, gall gwell rheoli gwell yn yr ucheldiroedd helpu i leihau llyfogydd i lawr yr afon a dŵr ffo pridd. Gall hyn ddwyn manteision cysylltiedig i iechyd a llesiant ac mae'n cynnig y potensial i leihau costau cymdeithasol ac effeithiau ar gymunedau. Y manteision mwyaf uniongyrchol ac amlwg y byddai Parc Cenedlaethol newydd yn eu dwyn yw rheoli effeithiau amgylcheddol i leihau llygredd a chefnogi adferiad natur, sy'n cefnogi iechyd pobl ac yn darparu llesiant. Mae'r manteision i blant yn cynnwys darparu cyfleoedd i gael mynediad at natur, a all gefnogi llesiant plant/teuluoedd, a hefyd cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn trefniadau llywodraethu lleol/prosesau penderfynu lleol ynglŷn â dyfodol y lleoedd arbennig hyn.

Cydnabyddir bod yna hefyd effeithiau negyddol posibl yn enwedig i bobl ifanc e.e. o bosibl bod prisiau tai'n mynd yn rhy uchel iddynt, neu deuluoedd yn symud i ffwrdd oherwydd bod y Gymraeg wedi cael ei gwanhau, neu fynediad anghyfartal oherwydd bod rhai grwpiau o blant yn wynebu rhwystrau. Mae'n ddefnyddiol archwilio'r camau gweithredu a gymerir gan APCau presennol yng Nghymru i ddeall sut y gallai APC newydd ymdrin â'r rhain. Mae'n ofynnol i APCau gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a Mesurau mewn perthynas â'r amgylchedd, yr amgylcheddol hanesyddol a'r Gymraeg, sy'n darparu sylfaen gadarn ar gyfer eu gwaith i ymdrin â'r problemau sy'n wynebu plant a phobl ifanc. Mae eu dibenion statudol a'u dyletswyddau o ran eu cynlluniau rheoli hefyd yn darparu fframwaith clir ar gyfer gwneud gwaith i liniaru effeithiau'r materion hyn. Gan weithio gyda'r trydydd sector a sefydliadau addysgol, mae gan APCau hanes hir o ddarparu cyfleoedd i blant gael mynediad i gefn gwlad a mwynhau natur trwy deithiau maes addysg ffurfiol, cynlluniau fel Dug Caeredin (DOE), grwpiau gwirfoddoli / ceidwaid ifanc a chefnogi teuluoedd ifainc trwy ddarparu digwyddiadau, teithiau cerdded a gweithgareddau diwylliannol heb unrhyw gost neu am gost isel. Mae APCau fel arfer yn gweithio ar y cyd, gan ddod â gwahanol sectorau ynghyd i gael mynediad at gyllid a chymorth i alluogi gweithgareddau a dysgu i ddigwydd.

Fel a nodwyd uchod ac a amlygwyd yn ymgynghoriadau tystiolaeth ac ymatebion CNC, mae'n debygol y bydd heriau sylweddol i Barc Cenedlaethol newydd yn ymwneud ag ail gartrefi, mynediad pobl ifanc a theuluoedd at y farchnad dai a gwanhad posibl y Gymraeg. Mae'r rhain yn faterion systemig sy'n effeithio ar rai ardaloedd yng Nghymru. Bydd angen i'r APC newydd weithio'n strategol gyda'r Awdurdod Tai, Cymdeithasau Tai Lleol a mabwysiadu gwersi ac arfer da gan APCau eraill a chyrff eraill o ran sut i fynd i'r afael â'r materion hyn a liniaru eu heffeithiau. Gallai'r APC (yn ei rôl fel Awdurdod Cynllunio) ymdrin â'r effeithiau mewn perthynas ag ail gartrefi, mynediad at y farchnad dai a fforddiadwyedd trwy gyflwyno ymyriadau fel Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ystyried cymorth tai lleol a gosod cyfyngiadau cynllunio ar ail gartrefi; ar sefydlu llety gwyliau byrdymor ac ar geisiadau i newid cartrefi presennol yn fusnesau. Bydd ganddo hefyd yr opsiwn i ddefnyddio'r offer sydd ar gael iddo fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol, a thrwy broses y cynllun rheoli, bydd ganddo rôl ymgynnull posibl a bydd ganddo fynediad at ffrydiau cyllido i adnabod cyfleoedd i liniaru effeithiau'r materion hyn.

Caiff yr heriau hyn eu hystyried ymhellach mewn Asesiadau Effaith cysylltiedig gan gynnwys ar gyfer y Gymraeg, Prawfesur Gwledig, y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a thrwy Erthyglau CCUHP yn yr adrannau canlynol.

- **Sut y mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel a amodir gan erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Dewisol? Cyfeiriwch at yr [erthyglau](#) i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi chi eich hun.**

Bydd ystyriaethau i effeithiau ar blant a phobl ifanc yn parhau i gael eu harchwilio yn ystod y cyfnod gweithredu. Er mwyn cefnogi'r gweithgareddau hyn, bydd gofyn i'r Parc Cenedlaethol newydd gael ei ariannu'n ddigonol i'w alluogi i ystyried anghenion plant a phobl ifanc yn llawn; fel arall ceir risg efallai na fydd y manteision llawn yn cael eu gwireddu.

Erthyglau neu Brotocol Dewisol CCUHP	Yn gwella (X)	Yn herio (X)	Eglurhad
Erthygl 2 - Erthygl 2 Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, ei grefydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.	X	X	Bydd hi'n bwysig i'r Parc Cenedlaethol newydd ddarparu mynediad cyfartal at natur, treftadaeth ddiwylliannol a gwybodaeth ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol, addysg a'r ystod ehangach o fanteision y gall eu ddarparu. Mae'r ystod lawn o fanteision yn annhebygol o gael eu gwireddu oni bai bod yr APC newydd yn cael ei ariannu a'i reoli'n ddigonol.
<u>Erthygl 3</u> - Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.	X		Mae'r cynigion yn ceisio cefnogi llesiant plant yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol trwy ddarparu mwy o gyfleoedd i ymweld, mwynhau, ymgysylltu a dysgu am amgylchedd y Parc Cenedlaethol.
<u>Erthygl 6</u> : Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach	X		Mae'r cynigion yn ceisio hybu iechyd plant yn anuniongyrchol trwy gyflawni polisi amgylcheddol i ymdrin â'r effaith anghymesur ar iechyd plant a datblygu plant a phobl ifanc iach. Yn fwy uniongyrchol, mae'r cynnig yn ceisio darparu cyfleoedd i blant a theuluoedd gael mynediad at Barc Cenedlaethol a mwynhau Parc Cenedlaethol, gan hyrwyddo manteision iechyd a llesiant megis y Prosiect

			1,000 diwrnod cyntaf ⁶⁶ sy'n cysylltu teuluoedd â mannau gwyllt ar gyfer chwarae awyr agored ac ystyriaeth yn Asesiadau Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC).
<u>Erthygl 12:</u> Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.	X	X	Mae'r APCau yn darparu cyfleoedd i ymgysylltu trwy grwpiau fel Ceidwaid Ifanc, Fforymau Ieuencid, Ffermwyr Ifainc, Cynllun Gwobrwy Dug Caeredin, a mecanweithiau eraill gan gynnwys adolygu'r cynllun rheoli. Mae Tirwedd Genedlaethol bresennol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan yn yr adolygiad statudol o broses eu cynllun rheoli. Mae adborth anffurfiol y Dirwedd Genedlaethol yn dangos y cafwyd trafodaethau da a oedd yn pontio'r cenedlaethau a mewnbwn gwerthfawr, gyda chyfranogwyr ifainc yn awyddus i barhau i gymryd rhan yn y broses barhaus (Tachwedd 2025). Mae Cam 2 yn darparu cyfleoedd i ddatblygu a sefydlu mecanweithiau priodol i ymgysylltu â phobl ifanc a datblygu cyfleoedd tebyg i'r rhai sy'n gweithredu yn y Parciau Cenedlaethol presennol fel a amlinellir uchod. Gellid ehangu Grŵp Ceidwaid Ifainc sefydledig Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy⁶⁷ i gwmpasu'r ardal gyfan. Gellid ei ddatblygu ymhellach o ganolfan wirfoddoli gwaith maes i gwmpasu cyfranogiad mewn trefniadau llywodraethu, i ddarparu llais ar gyfer pobl ifanc ar faterion ac ar ddyfodol yr ardal.
<u>Erthygl 13:</u> Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn	X	X	Mae APCau yn cefnogi amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol gan gynnwys ymweliadau addysgol â safleoedd diwylliannol, darparu gwybodaeth, diwrnodau i'r teulu i roi cynnig ar wahanol

⁶⁶ Prosiect 1,000 diwrnod cyntaf - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

⁶⁷ Grŵp Ceidwaid Ifanc Tirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy – Ceidwaid Ifainc - AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

niweidiol iddyn nhw ac i eraill.			weithgareddau fel saethyddiaeth, crefftau a gweithdai cerddoriaeth. Yng Ngham 2 gall yr APC newydd ystyried darparu gwybodaeth mewn ffordd briodol a rhoi cyfle i blant rannu eu barn. Gallent hefyd gefnogi mynediad at wahanol brofiadau fel arforgampau, syllu ar y sêr neu'r celfyddydau creadigol a all ddatblygu hyder a chyfleoedd ar gyfer hunanfyneiant. Mae'r APC newydd yn debygol o adeiladu ar Raglen Ddigwyddiadau Tirwedd Cenedlaethol bresennol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a thrwy gyllid digonol gellid datblygu hyn ymhellach i gwmpasu ystod ehangach o weithgareddau a mwy o gyfranogiad.
<u>Erthygl 15</u> - Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, onid yw hyn yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau	X		Bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn cefnogi cyfleoedd i blant gwrdd â phlant eraill trwy gynlluniau Ceidwaid Ifainc a Grwpiau eraill, Dug Caeredin a darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu a mynediad i fwynhau cefn gwlad.
<u>Erthygl 17</u> : Mae gan blant yr hawl i wybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau torfol. Dylai teledu, radio a phapurau newydd roi gwybodaeth y gall plant ei deall ac ni ddylent hybu deunyddiau a allai niweidio plant.	X		Fel rhan o'u hail ddiben statudol (a nodir yn adran 5(1)(b) Deddf 1949) i hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau'r nodweddion arbennig, gall APCau ddarparu cyfleoedd ac adnoddau ar gyfer dysgu. Gallai un ffordd y gallai APC newydd weithredu i roi effaith i'r diben hwn gynnwys darparu adnoddau addysgol (e.e. porth Tirlun) a gwybodaeth trwy weithgareddau a digwyddiadau.

Erthygl 23: Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol	X	X	Mae APCau presennol yn rhoi cymorth ac, mewn rhai achosion, cyllid ar gyfer gweithgareddau i blant ag anableddau. Maent yn aml yn cydweithio gyda sefydliadau arbenigol ac yn darparu gwybodaeth bwrpasol am lwybrau hygyrch, bygis traeth neu Logi Tramber⁶⁸. Mae Parciau Cenedlaethol yn darparu llwybrau hygyrch (e.e. Lôn Gwyrfa⁶⁹ yn Eryri, llwybr hygyrch sy'n cysylltu dwy gymuned) a mynediad i adeiladau a chyfleusterau ond oherwydd natur y tir nid yw pobman yn hygyrch, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig anghysbell. Mae Parciau Cenedlaethol hefyd yn darparu mannau tawel a seinweddau sydd o fudd i iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc.
Erthygl 24 : Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddyn nhw gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.	X	X	Cydnabu Archwiliad Dwfn Llywodraeth Cymru o Fioamrywiaeth⁷⁰ y rôl bwysig y mae'n rhaid i Barciau Cenedlaethol ei chyflawni o ran ymdrin â'r argyfyngau hinsawdd a natur a chefnogi ecosystemau gwydn sy'n darparu'r ystod lawn o fanteision ecosystemau mewn ffordd gynaliadwy. Byddai hyn yn cynnwys cefnogi rheoli dalgylchoedd i ddarparu dŵr glân (e.e. mae Bannau Brycheiniog yn cyflenwi hanner y dŵr yfed a gyflenwir gan Ddŵr Cymru – gweler prosiect cydweithredol y Mega-ddalgylch⁷¹), tir sy'n gallu cynhyrchu bwyd maethlon (e.e. cynllun amaeth-amgylcheddol Ffermio Bro Llywodraeth Cymru⁷² sy'n cefnogi deilliannau amgylcheddol ac sydd ar gael mewn Tirweddau Dynodedig yn unig) ac amgylchedd glân. Gall y Parc Cenedlaethol newydd ehangu ar waith y Dirwedd Genedlaethol bresennol ar gyfer effaith ar ardal ehangach i gefnogi

⁶⁸ Mynediad i Bawb | Parc Cenedlaethol Eryri

⁶⁹ Lôn Gwyrfa | Teithiau Cerdded a Llwybrau Parc Cenedlaethol Eryri

⁷⁰ Archwiliad dwfn bioamrywiaeth: argymhellion [HTML] | LLYW. CYMRU

⁷¹ Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog | Dŵr Cymru Welsh Water

⁷² Ffermio Bro - Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig (Cam 1): llyfryn rheolau [HTML] | LLYW. CYMRU

			amgylchedd glân, iach i blant fyw ynddo ac ymweld ag ef. Ceir ystod o gyfleoedd i'r Parc Cenedlaethol newydd ddylanwadu ar reoli tir a dŵr, cefnogi amaethyddiaeth gynaliadwy, lleihau llygredd a rhoi cymorth i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy trwy gyllid hirdymor a chynaliadwy.
<u>Erthygl 27:</u> Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio darparu hyn.	X	X	Yn yr Asesiad Llesiant diweddaraf ar gyfer Cymru⁷³ roedd 71% o'r bobl a holwyd yn fodlon ar ansawdd eu mannau cyhoeddus, gwyrdd neu agored lleol. Fodd bynnag, dim ond 23% o'r cyfranogwyr yn y DU oedd yn hapus gydag ymdrechion i warchod yr amgylchedd. Mae Parciau Cenedlaethol yn darparu mynediad at fannau gwyrdd a glas ar gyfer cyfleoedd i blant ddiwallu anghenion llesiant meddyliol a chorfforol. Fodd bynnag, mae mwy y gellir ei wneud bob amser i alluogi grwpiau difreintiedig a heb gynrychiolaeth ddigonol i gael mynediad at fannau gwyrdd a Pharciau Cenedlaethol.
<u>Erthygl 29:</u> Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, eu diwylliant nhw ac eraill ac yr amgylchedd.	X	X	Mae'r ail ddiben statudol mewn perthynas â Pharciau Cenedlaethol (hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardaloedd hynny) yn cefnogi cyfleoedd ar gyfer addysg amgylcheddol. Fel a nodwyd, ceir ystod o ffyrdd y mae'r APCau presennol yn cynnig ac yn rhoi cymorth i gyflawni'r swyddogaeth hon. Mae llawer o'r arlwy wedi'i strwythuro o amgylch adnoddau perthnasol a chroesawu ymweliadau gan ysgolion, lle gall plant ddysgu, deall a gofalu am yr amgylchedd, gyda manteision iechyd corfforol a meddyliol cysylltiedig. Yng Ngham 2 pan sefydlir yr APC newydd, un o'r prif heriau fydd sicrhau cyllid digonol i gefnogi gwaith i gyflawni dibenion a dyletswyddau statudol. Gellid datblygu rhaglen waith wedi'i hariannu sy'n rhoi cymorth ac anogaeth i ddatblygu pobl ifanc. Mae APCau yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ond ar

⁷³ Life in the UK 2025 Wales - Carnegie UK

			hyn o bryd hefyd yn tynnu cyllid o ystod o ffynonellau eraill gan gynnwys Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ⁷⁴ a Chyllid Gwyrdd. Gallai'r APC newydd archwilio opsiynau ar gyfer Cyllid Gwyrdd i wella'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig mewn perthynas â phobl ifanc.
<u>Erthygl 30</u> : Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un ai yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl neu beidio.	X		Mae APCau presennol yn aml yn darparu cyfleoedd i blant fynegi eu hunain trwy eu dewis iaith gan gynnwys darparu digwyddiadau diwylliannol a Chymraeg. Gall yr APC newydd wreiddio dwyieithrwydd o'r dechrau yn ei drefniadau llywodraethu, ei drefniadau gweithio o ddydd i ddydd a'r modd y mae'n ymgysylltu (fel sy'n wir yn achos APC Eryri). Mae APCau yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg a rhaid darparu gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog.
<u>Erthygl 31</u> - Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.	X		Mae Parciau Cenedlaethol yn darparu dysgu anffurfiol trwy chwarae a chyfleoedd i blant fwynhau bod yn yr awyr agored. Trwy eu gwaith i wella mannau gwyrdd/glas, mae'r APCau presennol hefyd yn darparu cyfle pellach i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar natur.
<u>Erthygl 42</u> : Dylai'r Llywodraeth wneud y Confensiwn yn hysbys i bob rhiant a phlentyn.	X	X	Trwy eu gwaith mae APCau yn darparu cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant ac ar yr amod bod cyllid digonol ar gael, gall yr APC newydd gyflawni'r rôl hon hefyd.
Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymdrin â Sylwadau Cloi CCUHP wrth ddatblygu polisi perthnasol. Mae'r argymhellion canlynol yn berthnasol i'r cynnig hwn			Gall APCau helpu i gyflawni Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP): Sicrhau Mynediad Cyfartal at Natur (Erthygl 2 – Peidio â Gwahaniaethu) Darparu cyfleusterau, llwybrau a rhaglenni gwirfoddoli cynhwysol fel y gall pob plentyn, ni waeth beth fo'i

⁷⁴ Cysylltiadau Tirwedd | Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Adran 45 – Iechyd yr Amgylchedd ac effaith newid hinsawdd ar hawliau'r plentyn Sylw cyffredinol Rhif 26 (2023) ar hawliau plant a'r amgylchedd, gyda ffocws arbennig ar newid hinsawdd⁷⁵			allu, cefndir neu incwm, gael mynediad at Barciau Cenedlaethol a'u mwynhau. Blaenoriaethu Budd Pennaf Plant ym maes Cynllunio (Erthygl 3) - Ystyried effaith polisiau a datblygiadau'r Parc Cenedlaethol ar lesiant plant, eu diogelwch, a chyfleoedd i chwarae a dysgu. Hybu Cyfranogiad a Llais (Erthygl 12) - Cynnwys plant a phobl ifanc mewn ymgynghoriadau am gynlluniau rheoli'r Parc Cenedlaethol, cynorthwyo grwpiau ceidwaid ifanc i weithio ar brosiectau cadwraeth, a mynediad at wasanaethau ymwelwyr/addysg. Cefnogi Addysg ac Ymwybyddiaeth (Erthyglau 28 a 42) - Darparu rhaglenni dysgu awyr agored, addysg sy'n seiliedig ar natur, a chynorthwyo plant i ddeall eu hawliau a'r amgylchedd. Galluogi Chwarae a Hamdden (Erthygl 31) - Creu mannau diogel, hygyrch ar gyfer chwarae, antur a gweithgareddau diwylliannol o fewn Parciau Cenedlaethol. Diogelu Iechyd a Llesiant (Erthygl 24) - Annog gweithgarwch corfforol a manteision iechyd meddwl trwy ymgysylltu â natur, a gweithio gyda rheolwyr tir i sicrhau aer a dŵr glân, ac amgylcheddau diogel. Diogelu Hunaniaeth a Threftadaeth Ddiwylliannol (Erthygl 8) - Hyrwyddo treftadaeth a thraddodiadau lleol, gan sicrhau bod plant yn gallu cysylltu â thirweddau a storïau diwylliannol.
---	--	--	---

⁷⁵ tbineternet.ohchr.org/_layouts/15/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRC%2FC%2FGC%2F26&Lang=en

- Ystyriwch a yw unrhyw un neu rai o Hawliau Dinasyddion yr UE (y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.

Mae'r rhain yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

4. Cyfathrebu gyda Phlant a Phobl Ifanc

- Os ydych wedi ceisio barn plant a phobl ifanc ynglŷn â'ch cynnig, sut fyddwch yn eu hysbysu ynghylch y canlyniad?

Fel a amlinellwyd, mae Cam 2 pan weithredir APC newydd, yn darparu mwy o gyfleoedd i gyfathrebu gyda phlant a phobl ifanc ac i'w barn gael ei chlywed a'i hystyried wrth wneud penderfyniadau. Gellir ystyried darparu mwy o wybodaeth mewn fersiynau hawdd eu deall, ystyried eu hanghenion mewn ymgynghoriadau, a darparu cyfleoedd i ddeall eu barn a'u pryderon.

Mae Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol⁷⁶ fel safonau arfer da wrth ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, y gellir eu defnyddio i oleuo Cam 2 y broses.

5. Monitro ac Adolygu

Ar ôl ei weithredu, bydd yr APC newydd yn destun monitro ac adolygu rheolaidd. Mae Llywodraeth Cymru'n anfon llythyr grant strategol tymor y llywodraeth at bob APC yng Nghymru sy'n nodi ein blaenoriaethau ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd mentrau polisi a deddfwriaeth newydd. Fe wnaeth enghraifft o 2022⁷⁷ amlygu pwysigrwydd y Warrant Pobl Ifanc ac mae'n dangos gallu APCau i roi cymorth i gyflawni polisi cenedlaethol ar lefel leol.

Yn ôl yr angen, bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau i adlewyrchu unrhyw wybodaeth ychwanegol.

⁷⁶ Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol [Bilingual-Participation-Standards-poster2016.pdf](#)

⁷⁷ Llythyr Cylich Gwaith Tymor y Llywodraeth ar gyfer yr APCau oddi wrth Lywodraeth Cymru 2022 [Eich cyf](#)

B. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Cefndir

Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ystyried yr ystod o effeithiau mewn perthynas â chyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i: 'Ddynodi Parc Cenedlaethol newydd i gwmpasu Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy'. Mae hon yn broses dau gam sy'n cynnwys sefydlu Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) newydd ar ôl dynodi a chreu Parc Cenedlaethol newydd yn gyfreithlon.

Mae Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn cael eu dynodi gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn amodol ar gadarnhad gan Weinidogion Cymru. Mae Parciau Cenedlaethol yn cael eu creu at ddau ddiben statudol:

- gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardaloedd o fewn Parciau Cenedlaethol;
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardaloedd hynny.

Mae dynodi Parc Cenedlaethol newydd a sefydlu APC newydd i lywodraethu a rheoli'r Parc Cenedlaethol newydd yn digwydd mewn dau gam:

- Cam 1 - Mae meini prawf penodol, gan gynnwys harddwch naturiol a chyfleoedd hamdden awyr agored ardal, yn cael eu hasesu gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n arwain at adnabod ardal sy'n bodloni'r profion statudol o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (Deddf 1949) i gael ei dynodi fel Parc Cenedlaethol. Yn dilyn y broses ymgynghori statudol a phenderfyniad Bwrdd CNC, mae'n debygol y bydd Gorchymyn Dynodi a map yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru. Yna bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried y gorchymyn dynodi a gyflwynwyd gan CNC ochr yn ochr â'r meini prawf a nodir yn Neddf 1949, ynghyd ag unrhyw wrthwynebiadau a sylwadau. Efallai y bydd angen cynnal ymchwiliad lleol cyhoeddus fel rhan o'r broses hon. Os gwneir penderfyniad i gadarnhau'r gorchymyn dynodi, bydd Parc Cenedlaethol newydd yn dod i fodolaeth.
- Cam 2 - Os caiff y gorchymyn ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru, bydd yr ardal a adnabuwyd yn dod yn Barc Cenedlaethol. Y bwriad yw gwneud gorchymyn sefydlu mewn cysylltiad â dynodi'r Parc Cenedlaethol newydd, gan sefydlu APC. Fel awdurdod lleol diben arbennig, bydd gan yr APC newydd swyddogaethau sy'n ymwneud â dibenion gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc hwnnw. Bydd yn gyfrifol am rai

swyddogaethau a gyflawnir gan awdurdodau lleol gan gynnwys rheoli a pholisi datblygu, cynhyrchu cynllun rheoli Parc Cenedlaethol, trefniadau llywodraethu, a chyflawni polisi trwy amryw fecanweithiau rheoli tir uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Mae'r asesiadau effaith yng Ngham 1 y prosiect yn adeiladu ar waith helaeth a wnaed gan CNC fel yr awdurdod dynodi, gan gynnwys asesiadau technegol, ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgynghori. A hithau wedi cael y dystiolaeth hon, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio hyn fel man cychwyn ar gyfer asesiadau effaith pellach, gan gynnwys yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae tystiolaeth CNC wedi cael ei hystyried gyda gwybodaeth berthnasol arall gan gynnwys strategaethau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn ogystal â deddfwriaeth ac ymchwil berthnasol.

Bydd y cam cyntaf gan CNC o ran asesu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd yn cael effeithiau ymarferol cyfyngedig, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gwneud gorchymyn dynodi gan CNC yn adlewyrchu asesiad CNC, am resymau fel harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol, ei bod yn arbennig o ddymunol dynodi ardal fel Parc Cenedlaethol. Mae gan yr ail gam, sef rhoi'r APC newydd ar waith, y potensial i gael effeithiau mwy arwyddocaol ar lefel ymarferol, er enghraifft bydd gofynion ar gyfer ystyried yr anghenion i bobl â nodweddion gwarchodedig gael eu hintegreiddio fel rhan o brosesau gwneud penderfyniadau'r Awdurdod newydd. O ganlyniad, bydd yr Asesiad Effaith hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach yn ystod cam 2 y gwaith hwn gan gynnwys gweithgarwch pellach i ymgynghori a chasglu tystiolaeth mewn modd sy'n berthnasol i ddatblygu Awdurdod newydd a chyflawni ei amcanion.

Mae'r tri APC presennol yng Nghymru yn darparu templed ar gyfer sut y byddem yn disgwyl i APC newydd yng Nghymru arwain, cynllunio, rheoli a chyflawni blaenoriaethau cenedlaethol mewn cyd-destun lleol gan gynnwys ystyriaethau i gydraddoldeb. Felly, defnyddir enghreifftiau o APCau presennol drwy'r asesiad hwn i ddangos sut mae'r APC newydd yn debygol o weithredu.

Hybu Cydraddoldeb

Mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (APCau) yng Nghymru yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. O dan y ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, rhaid i APCau roi sylw dyladwy i dri nod wrth gyflawni eu swyddogaethau, sef:

- Dileu camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth.
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt. Y nodweddion gwarchodedig perthnasol yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Yn ogystal, rhaid i APCau yng Nghymru gydymffurfio â gofynion ychwanegol o dan Reoliadau 2011, sef:

Cyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb	O leiaf bob pedair blynedd, gyda chamau ac amserlenni clir.
Paratoi a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol	Egluro amcanion cydraddoldeb yr APC, sut y byddant yn cael eu cyflawni a graddfeydd amser.
Ymgysylltu â phobl sydd â nodweddion gwarchodedig	Cynnwys personau neu ymgynghori â phersonau y mae'r APC o'r farn eu bod yn cynrychioli buddiannau personau sy'n rhannu un neu fwy nag un nodwedd warchodedig ac sydd â buddiant yn sut mae'r APC yn cyflawni ei swyddogaethau.
Cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Ar gyfer polisïau ac arferion, asesu effaith debygol y cynnig ar ei allu i gydymffurfio ag adran 8 dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.
Casglu a chyhoeddi gwybodaeth am gydraddoldeb	Gan gynnwys data ynghylch y gweithlu a gwahaniaethau cyflog.
Cyhoeddi cynllun gweithredu ar fylchau cyflog rhywedd (dim ond pan fo awdurdod wedi adnabod bwlch cyflog rhywedd)	Nid yw hyn ond yn berthnasol pan fo awdurdod wedi adnabod bwlch cyflog rhywedd: cyhoeddi unrhyw amcan cydraddoldeb cyflog rhywedd sy'n ymwneud â'r angen i fynd i'r afael ag achosion unrhyw wahaniaeth cyflog neu egluro pam nad oes amcan cyfredol a darparu cynllun gweithredu.
Adrodd ar gynnydd yn flynyddol	Ar (e.e.) gyflawni amcanion a chydymffurfio.

Mae angen i APCau hefyd alinio eu gwaith cydraddoldeb â deddfwriaeth berthnasol arall yng Nghymru, gan gynnwys: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; cynlluniau gweithredu Llywodraeth Cymru (e.e., Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol, Cynllun Gweithredu LHDTTC+); a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Manteision a rhwystrau - cefndir

Ceir llenyddiaeth helaeth sy'n berthnasol i ystyried effeithiau Parciau Cenedlaethol i bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae peth ohoni'n ystyried Parciau Cenedlaethol yn uniongyrchol, tra bo ymchwil berthnasol arall yn ystyried pynciau fel mynediad at natur a/neu fannau gwyrdd yn fwy cyffredinol.

Hefyd, mae CNC wedi ymgysylltu/ymgyngori'n helaeth â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn ei waith i baratoi Gorchymyn Dynodi gan gynnwys ymarferion penodol yn 2023⁷⁸, 2024⁷⁹ a 2025.

Mae pob un o'r gwahanol ffynonellau hyn wedi cael eu hystyried wrth baratoi'r asesiad hwn, gydag ystyriaeth i fanteision, a rhwystrau/anfanteision.

Manteision

Mae Parciau Cenedlaethol yn dwyn ystod eang o fanteision cadarnhaol posibl i unigolion (gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig), cymunedau a chymdeithas. Mae'r rhain yn cwmpasu manteision amgylcheddol; manteision o ran iechyd a llesiant; manteision cymdeithasol a diwylliannol; manteision o ran twristiaeth a manteision economaidd lleol. Mae rhai enghreifftiau o'r prif fanteision posibl a sut maent yn cael eu gweithredu mewn Parciau Cenedlaethol yn cynnwys:

- **Bioamrywiaeth a gwarchod cynefinoedd, gwydnwch hinsawdd:** Mae APCau yn gweithio'n weithredol i warchod rhywogaethau ac ecosystemau prin, helpu i wrthdroi colled cynefinoedd a dirywiad rhywogaethau. Maent hefyd yn gweithio i storio carbon mewn mawndiroedd a choetiroedd ac i reoli adnoddau dŵr a lliniaru effeithiau llifogydd trwy arferion tir cynaliadwy. Fel enghraifft o'r gwaith amgylcheddol hwn, mae pob un o APCau Cymru yn cydlynu Partneriaeth Natur Leol⁸⁰ (d.s. ceir rhagor o wybodaeth am APCau yn yr Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth).

Mae amrywiaeth o dystiolaeth yn dangos bod cysylltu â natur a chymryd rhan mewn gweithgareddau amgylcheddol yn cynnig ystod o fanteision iechyd corfforol a meddyliol sy'n berthnasol i bobl ar draws ystod o nodweddion gwarchodedig. Mae *Improving access to greenspace: A new review for 2020*⁸¹, er enghraifft, yn amlinellu y gall amgylcheddau gwyrddach hybu a diogelu iechyd da (corfforol a meddyliol), a helpu i wella o salwch a helpu i reoli iechyd gwael. Mae hefyd yn amlygu bod mannau gwyrdd yn helpu i gysylltu cymunedau â'i gilydd, lleihau unigrwydd, a lliniaru effeithiau negyddol llygredd aer, sŵn gormodol, gwres a llifogydd, gan hefyd nodi bod grwpiau difreintiedig i'w gweld fel pe baent yn cael mwy o fudd i'w hiechyd a bod ganddynt lai o anghydraddoldebau iechyd sy'n ymwneud â ffactorau economaidd-gymdeithasol pan ydynt yn byw mewn cymunedau gwyrddach.

- **Cysylltiad â diwylliant, treftadaeth ac ymgysylltu â'r gymuned:** Gall Parciau Cenedlaethol ysbrydoli balchder a hunaniaeth ddiwylliannol trwy greu cysylltiadau

⁷⁸ [Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru - Cyfnod Ymgysylltu 2023](#)

⁷⁹ [Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru - Ymgynghori Cyhoeddus 2024](#)

⁸⁰ [Partneriaethau Natur Lleol - Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru](#)

⁸¹ [Improving access to greenspace: 2020 review](#)

cynhwysol rhwng cymunedau amrywiol, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, a threftadaeth ddiwylliannol. Maent yn helpu i hyrwyddo a gwarchod asedau diwylliannol, fel coetiroedd hynafol a safleoedd hanesyddol, gan eu gwneud yn fwy hygyrch i bawb, gan feithrin balchder, ymdeimlad o berthyn, a llesiant. Mae APCau Cymru yn ymgorffori cynhwysiant cymdeithasol yn eu polisïau a'u rhaglenni, gan ymgysylltu'n weithredol â lleiafrifoedd ethnig, oedolion hŷn, pobl ag anableddau, a grwpiau dan anfantais economaidd. Mae'r rhaglenni hyn yn lleihau rhwystrau—fel trafndiaeth, hyder, costau—ac yn adeiladu perchnogaeth ddiwylliannol ar draws cymdeithas.

Er enghraifft, mae gan APC Eryri gymuned Gymraeg gref ac mae'n gwarchod tirweddau a thraddodiadau hanesyddol⁸². Mae APCau hefyd yn cynnig cyfleoedd addysg a dysgu⁸³ trwy weithgareddau fel rhaglenni i ysgolion, gan hefyd gydlynw miloedd o oriau gwirfoddoli⁸⁴ bob blwyddyn.

- **Twristiaeth a'r economi leol:** Mae gan Barciau Cenedlaethol rôl bwysig yn economi eu cymunedau lleol, yn enwedig mewn perthynas â thwristiaeth. Canfu'r adroddiad *Gwerthfawrogi Parciau Cenedlaethol Cymru* (Medi 2013)⁸⁵ fod Parciau Cenedlaethol presennol Cymru'n denu tua 12 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn, gan greu incwm o fwy na £500 miliwn i economi Cymru a chefnogi bron i 30,000 o swyddi, y mae llawer ohonynt yn gysylltiedig â thwristiaeth, ffermio a chadwraeth.

Mae APCau Cymru yn gwreiddio cydraddoldeb a chynhwysiant yn weithredol trwy Gynlluniau Cydraddoldeb Strategol, sy'n helpu i sicrhau bod cyflogaeth, gwirfoddoli a chymorth busnes yn cyrraedd unigolion â nodweddion gwarchodedig. Mae'r ffocws cynhwysol hwn yn helpu i lywio twf teg ac yn cryfhau gwydnwch cymunedol.

Rhwystrau / Anfanteision

Gall pobl â nodweddion gwarchodedig wynebu rhwystrau wrth geisio mynediad at fanteision posibl Parciau Cenedlaethol. Mae ymchwil yn y maes hwn wedi adnabod y meysydd allweddol canlynol yn hyn o beth: hygyrchedd corfforol; trafndiaeth a chost; diwylliannol a chymdeithasol; a gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae mynd i'r afael â nifer o'r rhwystrau hyn, megis hygyrchedd corfforol, a gwybodaeth a chyfathrebu, yn bwysig i APCau i helpu i hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Yn yr un modd, gall mynd i'r afael â rhwystrau eraill, megis materion diwylliannol a chymdeithasol, fod yn ffordd o feithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

⁸² [Strategaeth Hamdden Parc Cenedlaethol Eryri](#)

⁸³ [Adnoddau addysgol i Gymru sy'n gysylltiedig â'r dirwedd - Tirweddau Cymru](#)

⁸⁴ [Cyfleoedd Gwirfoddoli | APC Bannau Brycheiniog](#)

⁸⁵ *Adroddiad Gwerthfawrogi Parciau Cenedlaethol Cymru*, Parc Cenedlaethol Cymru, Medi 2013.

Yn ogystal â rhwystrau i gael mynediad at fanteision, mae pryderon wedi cael eu codi am anfanteision posibl Parciau Cenedlaethol, yn enwedig o ran tai a chynllunio, a seilwaith lleol.

Mae mynd i'r afael ag unrhyw anfanteision o'r fath yn helpu Parciau Cenedlaethol i ddileu camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth.

Y prif feysydd sy'n peri pryder yw:

Rhwystrau Corfforol a Hygyrchedd: Nid yw llawer o lwybrau, canolfannau ymwelwyr, a chyfleusterau mewn Parciau Cenedlaethol yn gwbl hygyrch gyda phroblemau cyffredin yn cynnwys llwybrau anwastad neu serth sy'n anaddas ar gyfer cadeiriau olwyn neu gymhorthion symudedd, darpariaeth gyfyngedig o ran toiledau a pharcio hygyrch, ac arwyddion gwael a diffyg wynebaw botymog neu ganllawiau sain ar gyfer ymwelwyr â nam ar eu golwg. Gweler (er enghraifft): *How accessible are the UK's National Parks?*⁸⁶

Rhwystrau Trafnidiaeth a Chostau: Mae Parciau Cenedlaethol yn bennaf mewn lleoliadau gwledig sy'n golygu llai o argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus, sy'n effeithio'n anghymesur ar bobl ifanc, oedolion hŷn, a phobl ar incwm isel. Mae mynediad i Barciau Cenedlaethol fel arfer yn rhad ac am ddim, ond gall costau cysylltiedig (teithio, llety, offer) fod yn rhy ddrud i grwpiau economaidd-gymdeithasol is, sy'n aml yn croestorri â nodweddion gwarchodedig. Mae Campaign for National Parks (CNP) yn crynhoi'r materion a'r cyfleoedd mewn modd defnyddiol yn eu Datganiad Sefyllfa ar Drafnidiaeth⁸⁷.

Rhwystrau Diwylliannol a Chymdeithasol: Mae astudiaethau (er enghraifft⁸⁸) wedi canfod bod pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd, ac ethnig Ieiafrifol yn llawer llai tebygol o ymweld â Pharciau Cenedlaethol yn y DU na phobl o gefndir gwyn Prydeinig. Mae rhesymau'n cynnwys teimlo nad oes croeso iddynt neu ofn y byddant yn profi gwahaniaethu; diffyg cynrychiolaeth mewn deunyddiau hyrwyddo; canfyddiad bod Parciau Cenedlaethol "i eraill" yn hytrach nag yn fannau cynhwysol; a gall diffyg cyfleusterau priodol (e.e., mannau gweddïo, opsiynau bwyd sy'n ddiwylliannol briodol) atal rhai ymwelwyr.

Rhwystrau o ran Gwybodaeth a Chyfathrebu: Mae rhai astudiaethau⁸⁹ wedi canfod bod gwybodaeth am hygyrchedd ar gyfer Parciau Cenedlaethol yn aml yn dameidiog neu'n aneglur. Er enghraifft, efallai na fydd gwefannau'n darparu canllawiau hygyrchedd manwl; ac efallai y bydd defnydd cyfyngedig o iaith neu ddelweddau cynhwysol, a all atal grwpiau amrywiol rhag ymgysylltu.

⁸⁶ [How accessible are National Parks in the UK | Age Co Mobility](#)

⁸⁷ [Campaign for National Parks Policy Position Statement on transport](#)

⁸⁸ [‘It’s not for people like \(them\)’: structural and cultural barriers to children and young people](#)

⁸⁹ [Included outside: Evidence synthesis for engaging under-represented groups in nature](#)

Anfanteision o ran Tai a Chynllunio: Codwyd pryderon ynghylch fforddiadwyedd tai mewn Parciau Cenedlaethol a faint o stoc dai sydd naill ai'n ail gartrefi neu'n llety gwyliau, yn ogystal â chyfyngiadau cynllunio ychwanegol o fewn Parciau Cenedlaethol⁹⁰ (d.s. mae astudiaethau yn y maes hwn fel rheol yn dangos cydberthynas rhwng prisiau tai uwch a dynodiad Parc Cenedlaethol, yn hytrach na chadarnhau achosiaeth). Codwyd hyn yn arbennig ar gyfer pobl ifanc sy'n dymuno ymuno â'r farchnad dai.

Anfanteision o ran y seilwaith lleol: Codwyd pryderon hefyd bod Parciau Cenedlaethol yn rhoi pwysau ychwanegol ar seilwaith lleol fel ffyrdd, parcio, cyflenwad dŵr a systemau gwastraff. Gweler, er enghraifft, adroddiad Archwilio Cymru Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru (2022) sy'n ystyried rhai o'r heriau sy'n wynebu APCau wrth gyflawni eu dibenion a'u dyletswyddau statudol⁹¹.

Mae'r Parciau Cenedlaethol sefydledig yng Nghymru eisoes yn wynebu'r anfanteision / rhwystrau hyn, felly mae amrywiaeth o strategaethau a mentrau i ymdrin â hwy a lliniaru eu heffeithiau eisoes wedi cael eu datblygu. Caiff y rhain eu nodi'n fanylach yn yr adran nesaf.

Ymateb i rwystrau/anfanteision a monitro

Fel a amlinellir uchod, mae'n ofynnol i APCau^{92, 93, 94} gyflawni ystod o weithgareddau sydd wedi'u bwriadu i ymdrin â'r rhwystrau y mae pobl â nodweddion gwarchodedig yn eu profi wrth fyw, gweithio a / neu ymweld â Pharciau Cenedlaethol a defnyddio eu cyfleusterau a'u gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys cyhoeddi amcanion cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol, casglu a chyhoeddi gwybodaeth am gydraddoldeb ac adrodd am gynnydd bob blwyddyn. Byddai gofyn i APC newydd ddilyn yr holl ddeddfwriaeth berthnasol.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru'n nodi ei gofynion a'i disgwyliad ar gyfer APCau fel rhan o'i chytundeb ariannu sydd hefyd yn amlinellu gweithgareddau i ymdrin â'r rhwystrau a adnabuwyd ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig – mae Llythyr Cylch Gwaith cyfredol Tymor y Llywodraeth ar gyfer yr APCau⁹⁵ yn cynnwys nifer o ofynion o'r fath gan gynnwys:

- Cefnogi'r symudiad oddi wrth geir preifat i drafnidiaeth fwy cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau staff, ymwelwyr a defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn cyrraedd y targed o 45% o deithiau'n defnyddio dulliau cynaliadwy erbyn 2040;

⁹⁰ [Houses in National Parks in England and Wales sell for 25% more, research shows](#)

⁹¹ [Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru](#)

⁹² [Cynllun Cydraddoldeb Strategol | APC Bannau Brycheiniog](#)

⁹³ <https://eryri.gov.wales/wp-content/uploads/2024/03/Cynllun-Cydraddoldeb-Strategol-2024-28.pdf>

⁹⁴ [Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2025-2029 - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro](#)

⁹⁵ [Llythyr Cylch Gwaith Tymor yr Llywodraeth ar gyfer yr APCau](#)

- Cynyddu cyfleoedd i grwpiau agored i niwed, grwpiau difreintiedig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar y tirweddau rydych chi'n eu rheoli.

Fel awdurdodau lleol diben arbennig, mae APCau hefyd yn gallu mabwysiadu strategaethau a pholisïau sydd wedi'u bwriadu i ymdrin â materion sy'n gysylltiedig ag anfanteision, megis trwy gynllunio. Er enghraifft, mae APC Eryri wedi cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4⁹⁶ sydd wedi'i fwriadu i reoli'r defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau yn y Parc Cenedlaethol i ymdrin â phryderon ynghylch pwysau tai.

Mae gan APCau yng Nghymru nifer o ofynion adrodd statudol a gofynion adrodd sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu sy'n rhan o'r fframwaith monitro. Mae'r rhain wedi'u nodi mewn deddfwriaeth ac fe'u hategir gan ganllawiau Llywodraeth Cymru ac argymhellion Archwilio Cymru.

Mae'r rhain yn cynnwys paratoi adroddiad blynyddol, cynnal cyfarfodydd blynyddol ac adrodd ar gynnydd gyda blaenoriaethau Llywodraeth Cymru (e.e. adrodd ar gynnydd tuag at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), yn ogystal â bod yn destun adolygiadau gan Archwilio Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig:

Oedran

Mae astudiaethau wedi canfod y gall Parciau Cenedlaethol gynnig ystod eang o fanteision i bobl ifanc, sy'n rhychwantu addysg, iechyd, datblygiad sgiliau, a chynhwysiant cymdeithasol.

Mae treulio amser ym myd natur yn gwella iechyd meddwl, yn lleihau straen, ac yn brwydro yn erbyn gorbryder ac iselder - materion sydd wedi tyfu ymhlith pobl ifanc ar ôl y pandemig. Mae gweithgareddau corfforol fel heicio, beicio, a gwaith cadwraeth hefyd yn helpu i fynd i'r afael ag anweithgarwch a gordewdra. Gweler, er enghraifft⁹⁷.

Mae Parciau Cenedlaethol yn gweithredu fel ystafelloedd dosbarth awyr agored, gan wneud pynciau fel ecoleg, daearyddiaeth a hanes yn fwy diddorol. Gallant hefyd hybu ymwybyddiaeth amgylcheddol a helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau newydd. Mae gweithgareddau'n cynnwys profi ansawdd dŵr, arolygon bywyd gwyllt, a phrosiectau treftadaeth ddiwylliannol. Gweler er enghraifft⁹⁸. Mae rhaglenni fel cynlluniau Ceidwaid Iau, prentisiaethau, a gwirfoddoli yn meithrin hyder, gwaith tîm, a sgiliau arwain, tra bo mentrau

⁹⁶ Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn Eryri - Cynllunio a Datblygu.

⁹⁷ National Parks help improve young people's health and life chances

⁹⁸ Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - Rhaglen Ysgolion

fel Arweinwyr Gwyrdd a Phwyllgorau Ieuenctid yn rhoi llais i bobl ifanc mewn prosesau penderfynu a llunio polisi, gan feithrin stiwardiaeth ac eiriolaeth amgylcheddol⁹⁹.

Gall Parciau Cenedlaethol hefyd helpu i fynd i'r afael â materion fel anghydraddoldebau mewn mynediad at fannau gwyrdd trwy gynnig rhaglenni fel Generation Green¹⁰⁰, er y gall Parciau Cenedlaethol deimlo'n ddethol neu'n ddigroeso i bobl ifanc o gefndiroedd trefol neu leiafrifol.¹⁰¹

Gall pobl ifanc, sy'n aml yn profi cyfraddau diweithdra uwch, gael budd o'r swyddi ychwanegol a gynhyrchir gan Barc Cenedlaethol¹⁰². Adnabuwyd hyn fel un o'r manteision posibl yn ymarferion ymgysylltu/ymgyngori cyhoeddus CNC yn 2023¹⁰³ a 2024¹⁰⁴, er bod ymatebwyr eraill yn teimlo y byddai'n cael effaith gyfyngedig a/neu y byddai'r swyddi'n rhai â chyflog isel ac yn rhai tymhorol.

O ran rhwystrau ac anfanteision ychwanegol (ar ben y rhai a grybwyllwyd eisoes) gall y drafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig mewn Parciau Cenedlaethol gael effaith fwy sylweddol ar bobl ifanc, fel y gall fforddiadwyedd tai, gyda'r ddau fater hyn yn cael eu codi yng ngweithgarwch ymgysylltu/ymgyngori cyhoeddus CNC ar y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig.

Ar gyfer pobl hŷn, mae Parciau Cenedlaethol unwaith eto yn darparu'r potensial ar gyfer manteision i iechyd, cyfoethogi diwylliannol, a hamdden hygyrch, ond yn yr un modd gall heriau gynnwys fforddiadwyedd tai a chyfyngiadau trafnidiaeth.

Gall treulio amser ym myd natur ddwyn manteision penodol i iechyd pobl hŷn megis gwell iechyd cardiofasgwlaidd a lleihau'r risg o ddirywiad gwybyddol a dementia¹⁰⁵.

Mae Parciau Cenedlaethol yn aml yn cynnig teithiau cerdded grŵp¹⁰⁶, gweithgareddau gwirfoddoli¹⁰⁷, a gweithgareddau sy'n seiliedig ar natur a all helpu pobl hŷn i feithrin cysylltiadau cymdeithasol a lleihau arwahanrwydd.

Mae pobl hŷn yn wynebu rhwystrau i fynediad ac anfanteision posibl tebyg i bobl ifanc mewn perthynas â Pharciau Cenedlaethol gyda thrafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig a fforddiadwyedd tai ymhlith y materion a nodwyd, gan gynnwys yng ngweithgarwch ymgysylltu/ymgyngori cyhoeddus CNC ar y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig.

⁹⁹ [Green Leaders youth stories - National Parks](#)

¹⁰⁰ [Generation Green 2 - National Parks](#)

¹⁰¹ [‘It’s not for people like \(them\)’: structural and cultural barriers to children and young people](#)

¹⁰² Adroddiad *Gwerthfawrogi Parciau Cenedlaethol Cymru*, Parc Cenedlaethol Cymru, Medi 2013.

¹⁰³ [Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru - Cyfnod Ymgysylltu 2023](#)

¹⁰⁴ [Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru - Ymgynghori Cyhoeddus 2024](#)

¹⁰⁵ [Nature's Embrace: The Profound Benefits of Outdoor Experiences for the Elderly](#)

¹⁰⁶ Er enghraifft, [Teithiau Llesiant - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro](#)

¹⁰⁷ Er enghraifft, [Cyfleoedd Gwirfoddoli | APC Bannau Brycheiniog](#)

Anabledd

Mae Parciau Cenedlaethol yng Nghymru'n cynnig sylweddol i iechyd a gweithgarwch hamdden pobl anabl, a ategir gan fentrau fel *Milltiroedd Heb Gamfeydd*¹⁰⁸ a chyfleusterau hygyrch¹⁰⁹. Fodd bynnag, mae heriau (fel a ddisgrifir uchod) yn parhau mewn perthynas â thrafnidiaeth gyhoeddus, tir anwastad, gwybodaeth anghyflawn, a rhwystrau cymdeithasol, a all gyfyngu ar annibyniaeth a chynhwysiant.

Adlewyrchwyd hyn yng ngweithgarwch ymgysylltu¹¹⁰/ymgyngori cyhoeddus¹¹¹ CNC, gyda'r ymatebwyr yn nodi cyfyngiadau mewn mynediad presennol at gyfleusterau fel hawliau tramwy cyhoeddus, gyda sawl un hefyd yn nodi bod Parc Cenedlaethol yn gyfle i'r ardal wneud gwelliannau yn y maes hwn.

Ailbennu rhywedd (Traws ac Anneuaidd)

Mae tystiolaeth yn cyfeirio at bryderon ynghylch diogelwch, gwahaniaethu a dryswch ynghylch polisi ar gyfleusterau newid/toiledau fel ffactorau a all effeithio ar allu pobl drawsrywiol ac anneuaidd i gael mynediad at fannau gwyrdd, gan gynnwys Parciau Cenedlaethol.¹¹² Mae diben statudol Parciau Cenedlaethol i hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau eu hardaloedd, yn ogystal â'u dyletswyddau Cydraddoldeb, yn golygu bod APCau mewn sefyllfa dda i wneud profiadau awyr agored yn fwy croesawgar i ymwelwyr traws ac anneuaidd megis trwy bolisïau cynhwysol a hyfforddiant staff, gyda grwpiau awyr agored cymunedol yn rhywbeth y dangoswyd eu bod yn lleihau rhwystrau ac yn meithrin ymdeimlad o berthyn¹¹³¹¹⁴.

Rhyw a Rhywedd

Mae tystiolaeth¹¹⁵ yn dangos, er bod ymgysylltu â natur yn fuddiol i bob rhyw/rhywedd, bod menywod yn wynebu rhwystrau gwahanol mewn mannau gwyrdd cyhoeddus, gan gynnwys pryderon ynghylch diogelwch, goleuadau gwael, cyfleusterau cyfyngedig (e.e. toiledau/newid), a chyfyngiadau gofalu. Fel a amlinellir ar gyfer nodweddion gwarchodedig eraill, gellir defnyddio gweithgareddau a dibenion Parciau Cenedlaethol i hyrwyddo

¹⁰⁸ [Milltiroedd heb Gamfeydd – Gweithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth! | APC Bannau Brycheiniog](#)

¹⁰⁹ [How accessible are National Parks in the UK | Age Co Mobility](#)

¹¹⁰ [Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru - Cyfnod Ymgysylltu 2023](#)

¹¹¹ [Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru - Ymgynghori Cyhoeddus 2024](#)

¹¹² [Queering adventure: building communities outdoors to combat social and environmental injustice](#)

¹¹³ [Queering adventure: building communities outdoors to combat social and environmental injustice](#)

¹¹⁴ [Natur i Bawb: Dathlu Balchder ym Mhrydferthwch Cymru – Tirweddau Cymru](#)

¹¹⁵ Er enghraifft, [Do sex and gender modify the association between green space and physical health? A systematic review.](#)

gweithgareddau sydd wedi'u bwriadu'n benodol i hybu cyfranogiad menywod, gan yr Awdurdod ei hun a chan grwpiau eraill¹¹⁶ gan gynnwys darparwyr masnachol¹¹⁷.

Ni chofnododd CNC unrhyw ganfyddiadau ynglŷn â Rhyw a Rhywedd o'i ymarferion ymgysylltu/ymgyngori cyhoeddus.

Beichiogrwydd a Mamolaeth

Gall mynediad at fannau gwyrdd gefnogi llesiant cynenedigol ac ôl-enedigol (e.e. gweithgarwch corfforol ysgafn yn lleihau straen a/neu'n rhoi cyswllt cymdeithasol).¹¹⁸ Yng Nghymru, mae safonau mamolaeth diweddar¹¹⁹ yn pwysleisio pwysigrwydd gwrandao ar anghenion menywod a chael gwared ar rwystrau i fynediad.

O ganlyniad, gall rhwystrau i wireddu'r manteision hyn gynnwys dim digon o doiledau, mannau newid babanod a mannau gorffwys, tir sy'n anodd i bramiau, lleoedd eistedd cyfyngedig a chyfyngiadau ar drafnidiaeth i gyrraedd llwybrau addas. Yn ymarferion ymgysylltu/ymgyngori cyhoeddus CNC, soniodd ymatebwyr yn aml am ddiffyg toiledau cyhoeddus a chyfleoedd gorffwys cyfyngedig; er na chawsant eu fframio fel materion a oedd yn ymwneud yn benodol â beichiogrwydd, gall y bylchau seilwaith hyn effeithio'n anghymesur ar ymwelwyr beichiog ac ôl-enedigol a gofalwyr â babanod.

Mae diben statudol Parciau Cenedlaethol i hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau eu hardaloedd, yn ogystal â'r dyletswyddau Cydraddoldeb y mae APCau yn ddarostyngedig iddynt, yn golygu bod APCau mewn sefyllfa dda i wneud profiadau awyr agored yn groesawgar i fenywod sy'n feichiog neu famau newydd. Gall hyn gynnwys gweithio gyda byrddau iechyd lleol a grwpiau cymunedol i ddarparu teithiau cerdded ysgafn, hygyrch ar gyfer llesiant, a hwyluso darpariaeth mannau gorffwys, toiledau, cyfleusterau newid babanod, llwybrau sy'n addas ar gyfer pramiau a gwybodaeth.

Hil

Mae tystiolaeth yn dangos bod mynediad at fannau gwyrdd yn anghyfartal ymhlith gwahanol hiliau yn y DU, gyda phobl o gymunedau Pobl Dduon ac ethnig leiafrifol yn llai tebygol o ymweld â hwy, gan gynnwys Parciau Cenedlaethol¹²⁰. Mae'r rhesymau'n cynnwys rhwystrau strwythurol (e.e. trafnidiaeth, cost, gwybodaeth), rhwystrau

¹¹⁶ Er enghraifft, [Gŵyl Menywod Brycheiniog 2025 - Twristiaeth Bannau Brycheiniog](#)

¹¹⁷ Er enghraifft, [Snowdonia - SUP & Summit Weekend - all female](#)

¹¹⁸ Er enghraifft, [The role of green and blue spaces in perinatal maternal mental health outcomes during the transition to parenthood - ScienceDirect](#)

¹¹⁹ [Safonau newydd i wella gofal mamolaeth a newyddenedigol yng Nghymru | LLYW. CYMRU](#)

¹²⁰ Er enghraifft, [Access to nature in the English countryside](#)

diwylliannol/canfyddiadol (e.e. teimlo bod cefn gwlad "ddim i ni"), a phrofiadau o wahaniaethu neu ofnau ynglŷn â hynny, a all atal ymweliadau¹²¹.

Gall APCau ymdrin â'r rhwystrau hyn, trwy sicrhau bod eu strategaethau, eu polisïau a'u gweithgareddau yn ymgorffori elfennau fel ymgysylltu cymunedol rhagweithiol; darparu seilwaith a gwasanaethau cynhwysol; cynrychiolaeth gynhwysol ac amlygrwydd cynhwysol Parciau Cenedlaethol a'u gwasanaethau; a hyfforddiant staff a pholisïau gwrth-hiliaeth¹²².

Ni chofnododd CNC unrhyw ganfyddiadau ynglŷn â hil o'i ymarferion ymgysylltu/ymgyngori cyhoeddus.

Crefydd neu Gred

Gall Parciau Cenedlaethol hybu ymwybyddiaeth o safleoedd o werth crefyddol a diwylliannol, yn ogystal â chysylltiadau ehangach rhwng tirwedd, diwylliant a hunaniaeth, gyda'r rhain yn aml yn sail i deithiau cerdded¹²³. Fe wnaeth ymatebwyr i ymgysylltiad cyhoeddus CNC nodi'r potensial i safleoedd treftadaeth a phererindod yn y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig gael budd yn y modd hwn.

Gall Parciau Cenedlaethol weithio i sicrhau mynediad teg i bobl o wahanol grefyddau neu gredoau trwy ystyried eu hanghenion mewn meysydd fel gweithgareddau cynllunio a chyfathrebu.

Cyfeiriadedd rhywiol (LHDTG+)

Mae pryderon ynghylch diogelwch, gwahaniaethu a dryswch ynghylch polisi ar gyfleusterau newid/toiledau wedi cael eu hamlygu fel ffactorau a all effeithio ar allu pobl LHDTGRhA+ i gael mynediad at fannau gwyrdd, gan gynnwys Parciau Cenedlaethol¹²⁴.

Mae APCau mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn i wneud profiadau awyr agored yn fwy croesawgar trwy fentrau fel negeseuon cynhwysol, polisïau gwrth-gasineb gweladwy, a staff sydd wedi'u hyfforddi i ymateb i ddigwyddiadau. Yn arbennig, dangoswyd fod grwpiau awyr agored dan arweiniad y gymuned yn lleihau rhwystrau ac yn meithrin ymdeimlad o berthyn^{125, 126}.

¹²¹ Er enghraifft, [Exploring barriers to engagement with the environment for ethnic minority communities | National Centre for Social Research](#)

¹²² Er enghraifft, [Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - Adroddiad terfynol ar Brosiect Mosaic Cymru](#)

¹²³ Er enghraifft, [Llwybr Pererinion Gogledd Cymru | Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi](#)

¹²⁴ [Queering adventure: building communities outdoors to combat social and environmental injustice](#)

¹²⁵ [Queering adventure: building communities outdoors to combat social and environmental injustice](#)

¹²⁶ [Natur i Bawb: Dathlu Balchder ym Mhrydferthwch Cymru – Tirweddau Cymru](#)

Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

Ydych chi'n meddwl y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl?

Gan adlewyrchu'r manteision a amlinellir uchod, mae Parc Cenedlaethol newydd yng Nghymru yn cynnig y potensial i wella hawliau dynol i iechyd, diwylliant, hamdden, ansawdd amgylcheddol, a datblygiad cymdeithasol. Ceir hefyd y potensial ar gyfer anafanteision (eto fel a amlinellir uchod), trwy ofynion cynllunio ychwanegol a'r pwysau posibl ar dai.

Dangosir yr effeithiau posibl hyn yn y Tabl isod, wedi'u mapio yn erbyn Offerynnau / erthyglau allweddol y Cenhedloedd Unedig.

Maes Effaith	Effaith Bosibl	Offerynnau / Erthyglau Allweddol y Cenhedloedd Unedig CRhHECD: Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol CHD: Cyngor Hawliau Dynol CRhHSG: Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol CHP: Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn
Iechyd a Llesiant	Gwell iechyd meddwl/corfforol trwy fynediad at natur.	CRhHECD Erth.12; CHD Pend.48/13
Addysg a Hamdden	Mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu yn yr awyr agored, llythrennedd natur.	CRhHECD Celf.13; CHP Erth.31
Diwylliant ac Iaith	Cyfleoedd i ddiogelu Cymraeg, treftadaeth ddiwylliannol.	CRhHSG Celf.27; CRhHECD Erth.15

	Potensial i newidiadau demograffig a thwristiaeth gael effaith negyddol ar y Gymraeg.	
Cyfranogiad a Llywodraethu	Gwneud penderfyniadau cynhwysol, cynrychiadol trwy greu APC	CRhHECD Erth.2
Bywoliaeth a Datblygiad	Potensial ar gyfer swyddi mewn meysydd fel cadwraeth a thwristiaeth. Risg y bydd cyfyngiadau cynllunio'n effeithio ar ddatblygiadau.	CRhHECD Erth.6 a 7; Erth.11
Tai a Boneddigeiddio	Risg o brisiau cynyddol, cynnydd mewn perchnogaeth ar ail gartrefi.	CRhHECD Erth.11
Diogelu'r Amgylchedd	Potensial ar gyfer bioamrywiaeth/gwydnwch hinsawdd cryfach.	CHD Pend.48/13

Gall APC a ddyluniwyd yn dda yng Nghymru integreiddio safonau hawliau rhyngwladol trwy:

- Wreiddio cyfranogiad cyffredinol (DCHD Erth. 21; CRhHSG Erth. 25)
- Cynnal hawliau diwylliannol trwy ddiogelu'r Gymraeg a'i threftadaeth (CRhHECD Erth. 15)
- Ymarfer proses ddyladwy mewn rheoleiddio tir a thai (CRhHECD Erth. 11; CRhHSG Erth. 14)
- Sicrhau iawndal a chydysniad teg mewn newidiadau defnydd tir (CRhHSG Erth. 1–3)

Gall camau gweithredu eraill gan APC hefyd helpu i gynyddu i'r eithaf y manteision a lleihau i'r eithaf y rhwystrau / anfanteision gan gynnwys cyd-ddylunio strategaethau cadwraeth yn weithredol gyda ffermwyr a thirfeddianwyr a rheolwyr tir eraill; a rheoli twristiaeth yn gynaliadwy i daro cydbwysedd rhwng amddiffyn hawliau ac ecosystemau lleol ar y naill law ac annog ymwelwyr ar y llaw arall.

Hawliau Dinasyddion yr UE / AEE a'r Swistir

4.1 Preswyllo – yr hawl i breswyllo a hawliau eraill sy'n gysylltiedig â phreswyllo: hawliau ymadael a mynediad, ceisiadau i gael preswyllo, cyfyngiadau ar hawliau mynediad a phreswyllo;

Ar y cam hwn, ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith, ond bydd hyn yn cael ei adolygu trwy gydol yr adeg y caiff ei weithredu.

4.2 Cydnabyddiaeth gydfuddiannol i gymwysterau proffesiynol – parhau i gydnabod cymwysterau proffesiynol a gafwyd gan ddinasyddion yr UE/AEE/y Swistir yn eu gwledydd (ac a gydnabyddir eisoes yn y DU);

- Ar y cam hwn, ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith, ond bydd hyn yn cael ei adolygu trwy gydol yr adeg y caiff ei weithredu.

4.3 Mynediad at systemau nawdd cymdeithasol – mae'r rhain yn cynnwys budd-daliadau, mynediad at addysg, tai, a mynediad at ofal iechyd.

- Ar y cam hwn, ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith, ond bydd hyn yn cael ei adolygu trwy gydol yr adeg y caiff ei weithredu.

4.4 Triniaeth gyfartal – mae hyn yn cynnwys peidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal, a hawliau gweithwyr;

- Ar y cam hwn, ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith, ond bydd hyn yn cael ei adolygu trwy gydol yr adeg y caiff ei weithredu.

4.5 Hawliau gweithwyr – Gwarantir hawliau i weithwyr a phobl hunangyflogedig a gwmpesir gan y Cytundebau Hawliau Dinasyddion sydd yr un fath fwy neu lai â'r hawliau a oedd ganddynt pan oedd y DU yn Aelod-Wladwriaeth. Mae ganddynt hawl i beidio â phrofi gwahaniaethu oherwydd cenedligrwydd, a'r hawl i driniaeth gyfartal â dinasyddion y DU.

- Ar y cam hwn, ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith, ond bydd hyn yn cael ei adolygu trwy gydol yr adeg y caiff ei weithredu.

C. ASESIAD O'R EFFAITH AR BRAWFESUR GWLEDIG

Mae ein hamcanion polisi ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd yn ategu ac yn gwella'r fframwaith polisi a deddfwriaeth amgylcheddol presennol trwy:

Cam 1 - Dynodi ardal y Parc Cenedlaethol newydd yn gyfreithiol gyda'r dibenion statudol canlynol:

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol.
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardaloedd.

Cam 2 - Sefydlu APC newydd Glyndŵr a'i roi ar waith i gyflawni'r ddau ddiben statudol a pholisi cenedlaethol perthnasol arall ar lefel leol.

Mae gwaith ar Gam 1 wedi cael ei wneud i raddau helaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) fel yr awdurdod dynodi. Mae hyn yn cynnwys asesu tir i fodloni profion statudol, ymgysylltu ac ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid cyn Gorchymyn Dynodi a gyflwynir i gael ei ystyried gan Weinidogion Cymru.

Os caiff y gorchymyn ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru, bydd Cam 2 yn cael ei gychwyn a bydd yr ardal yn dod yn Barc Cenedlaethol, a bydd deddfwriaeth yn cael ei drafftio i greu APC. Fel Awdurdod Lleol Diben Arbennig, mae gan yr APC newydd gyfrifoldeb am rai swyddogaethau a gyflawnir gan awdurdodau lleol gan gynnwys polisi cynllunio datblygu (Cynllun Datblygu Lleol) a rheoli datblygu cynllunio, cynhyrchu cynllun rheoli Parc Cenedlaethol, trefniadau llywodraethu, a chyflawni polisi trwy amryw feganweithiau rheoli tir uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Mae'r tri APC presennol yng Nghymru yn darparu templed ar gyfer sut y byddem yn disgwyl i APC newydd yng Nghymru arwain, cynllunio, rheoli a chyflawni blaenoriaethau cenedlaethol perthnasol mewn cyd-destun lleol. Felly, defnyddir enghreifftiau o APCau presennol drwy'r asesiad hwn i ddangos sut mae'r APC newydd yn debygol o weithredu a chyflawni.

1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl, busnesau a chymunedau gwledig.

Mae ystyriaeth fanwl i effeithiau economaidd-gymdeithasol yn cael ei datblygu yn y Dadansoddiad o Gostau a Manteision o fewn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae Adolygiad o Effaith Economaidd CNC 2025¹²⁷ hefyd yn darparu tystiolaeth berthnasol. Fe wnaeth yr adroddiad hwn adnabod ysgogiadau allweddol ar gyfer dynodi a oedd yn cynnwys:

- Diogelu'r dirwedd, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol.
- Diogelu rhag datblygu amhriodol
- Hwb economaidd i'r ardal
- Arallgyfeirio gweithgareddau ffermio
- Dod â chydabyddiaeth a chynyddu proffil
- Mwy o adnoddau

¹²⁷ Adolygiad o'r Effaith Economaidd, ARUP ar gyfer CNC 2025 [Cyflwyniad PowerPoint](#)

Mae'r rhain yn amlinellu rhai o'r manteision canfyddedig a allai ddeillio o ddynodi i bobl wledig ac mae angen eu cydbwysu yn erbyn pryderon canfyddedig¹²⁸ sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Pwysau twristiaeth
- Fforddiadwyedd tai
- Cyfyngiadau cynllunio
- Canfyddiad am golli rheolaeth leol
- Gwrthdaro o ran mynediad
- Pontio
- Cymhlethdod gweinyddol

Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod llawer o'r materion hyn eisoes yn bresennol yn yr ardal, ac y gallai APC ddarparu mecanwaith gwahanol trwy ganolbwyntio ar ei ddyletswyddau statudol (a nodir uchod), i ymdrin â rhai o'r materion hyn. Ceir eisoes fannau sy'n hynod boblogaidd gan dwristiaid fel Pistyll Rhaeadr a Moel Famau lle mae angen ymdrin â phryderon lleol ynghylch mynediad, diogelwch a pharcio ceir.

Bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu dadansoddiad manylach ond ceir cyfleoedd ar gyfer cynnydd cymedrol disgwylidig mewn ymwelwyr a allai ddarparu cyfleoedd economaidd ar gyfer:

- llety ac atyniadau i dwristiaid, sectorau bwyd a sectorau ategol a allai ddatblygu ac elwa o fwy o ymwelwyr.
- manteision i'r economi gwasanaeth fel gorsafoedd tanwydd, safleoedd manwerthu a lletygarwch.
- cymorth ar gyfer gwasanaethau lleol megis y sector bancio, hyfywedd trenau a bysiau.
- cyfleoedd i arallgyfeirio ffermydd, trwy werthu wrth gatiau ffermydd, cynnyrch a llety lleol.

Gallai cynnydd posibl mewn ymwelwyr fodd bynnag gynyddu'r straen ar y seilwaith presennol a mynediad at wasanaethau fel apwyntiadau meddygon teulu, adrannau damweiniau ac achosion brys ac arwain at dagfeydd ar ffyrdd gwledig, y gallent i gyd gael effaith negyddol ar gymunedau gwledig heb fuddsoddiad digonol mewn gwasanaethau.

- ♦ *A fydd mynediad yn broblem i bobl wledig? Os bydd, beth fydd yn cael ei wneud i oresgyn rhwystrau i fynediad?*

¹²⁸ Manteision ac anfanteision Parc Cenedlaethol newydd, CNC 2025 [manteision-ac-anfanteision-posibl-parc-cenedlaethol-newydd.pdf](#)

Bydd pobl leol yn cael mynediad at y Parc Cenedlaethol newydd ac yn cael budd o fynediad at amgylchedd o ansawdd uchel gyda manteision cadarnhaol cysylltiedig i iechyd a llesiant. Bydd angen i'r APC newydd hefyd ystyried sut i wella mynediad i'r ardal i bob grŵp. Mae'r tri APC presennol yn cefnogi gwasanaethau bysiau ychwanegol, fel Sherpa'r Wyddfa¹²⁹, sy'n gwella'r ddarpariaeth bresennol ac sydd ar gael ar benwythnosau a Gwyliau Banc i drigolion ac ymwelwyr.

Fel a archwiliwyd yn yr Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant a Chydraddoldeb, bydd angen i'r APC newydd ystyried darparu cyfleoedd i bawb a mynd i'r afael â rhwystrau i fynediad gan grwpiau penodol. Fodd bynnag, disgwylir y bydd pobl wledig fel rheol yn cael budd o fwy o gyfleoedd mynediad, gyda manteision cysylltiedig i lesiant ac iechyd, a ddarperir gan Barc Cenedlaethol newydd a bydd hyn ar garreg eu drws.

- ♦ *Sut mae'r cynnig wedi ystyried anghenion pobl wledig e.e. poblogaeth hŷn, diffyg tai fforddiadwy, gofynion iaith?*

Mae'r materion canlynol wedi cael eu hystyried trwy'r broses a'r ymgynghoriadau hyd yma:

Sensitifrwydd Demograffig

- Mae'r **Asesiad o'r Effaith ar Iechyd** yn cydnabod poblogaeth sy'n heneiddio mewn ardaloedd gwledig ac yn pwysleisio gwell mynediad i amgylcheddau sy'n hybu iechyd, fel mannau gwyrdd a llwybrau teithio llesol, i gefnogi llesiant ar gyfer trigolion hŷn.
- Mae cynigion yn cydnabod yr angen i gynnal gwasanaethau hanfodol a chysylltedd trafnidiaeth er mwyn osgoi arwahanrwydd i gymunedau oedrannus.

Tai Fforddiadwy

- Mae **Adolygiad Cynllunio CNC** ¹³⁰ a'r **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig hwn, yn tynnu sylw at bryderon ynghylch fforddiadwyedd tai o fewn tirweddau dynodedig. Fodd bynnag, nid yw ymchwil ehangach hyd yma wedi canfod perthynas achosol rhwng dynodi a chynnydd mewn prisiau tai, yn hytrach bod y cysylltiad yn bodoli rhwng ardaloedd deniadol, sy'n aml yn arfordirol, a phremiymau ar brisiau tai.
- Mae'r cynnig yn ymrwymo i weithio gydag awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau bod **Cynlluniau Datblygu Lleol** yn ymgorffori polisïau tai fforddiadwy.
- Pwyslais ar **strategaethau tai gwledig cynaliadwy** i daro cydbwysedd rhwng cadwraeth a hyfywedd cymunedol.

Y Gymraeg a Hunaniaeth Ddiwylliannol

¹²⁹ Sherpa'r Wyddfa | Snowdon Sherpa | rhwydwaith o wasanaethau bws sy'n eich galluogi i deithio o amgylch Eryri | Parc Cenedlaethol Eryri

¹³⁰ Microsoft Word - Adolygiad o Wasanaethau Cynllunio yng nghyd-destun Parc Cenedlaethol arfaethedig Report_FINAL Rev A.pdf

- Mae **Asesiad** pwrpasol **o'r Effaith ar y Gymraeg** fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn cydnabod bod pryderon y gallai dynodiad achosi i bobl ddi-Gymraeg symud i mewn i'r ardal, gan ddisodli siaradwyr Cymraeg o bosibl a'r angen i sicrhau bod dynodiad yn cryfhau, yn hytrach na gwanhau, treftadaeth ieithyddol a diwylliannol.
- Mae'r mesurau'n cynnwys y bydd angen i'r APC newydd ymlynu wrth ofnion Safonau'r Gymraeg, er enghraifft ymgysylltu'n ddwyieithog, rhoi cymorth i ddiogelu addysg cyfrwng Cymraeg, a hyrwyddo twristiaeth ddiwylliannol sy'n parchu hunaniaeth leol.
- Dewiswyd yr enw "Glyndŵr" yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus i adlewyrchu cydnawsedd hanesyddol a diwylliannol.

Cynhwysiant Economaidd a Chymdeithasol

- Mae'r **Asesiad Economaidd**¹³¹ a gynhaliwyd gan CNC yn adnabod cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth wledig trwy dwristiaeth gynaliadwy, cyfleoedd ar gyfer cymorth i ffermwyr a rheolwyr tir trwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol (e.e., *mae Ffermio Bro*¹³² yn darparu cynllun cymorth ychwanegol sydd ar gael mewn Tirweddau Dynodedig yn unig). Mae'r cyfleoedd a adnabuwyd hefyd yn cynnwys hyrwyddo cynnyrch lleol a chadwyni cyflenwi lleol i gadw arian yn yr ardal
- Bydd angen i **strwythurau llywodraethu** sicrhau cynrychiolaeth o blith cymunedau gwledig wrth wneud penderfyniadau. Mae paratoi ac adolygu cynllun rheoli'r Parc Cenedlaethol yn darparu cyfleoedd ychwanegol i bobl ddarparu barn ynglŷn â sut mae'r ardal yn cael ei rheoli. Mae dull partneriaeth wedi cael ei ddatblygu gan y Parciau Cenedlaethol presennol fel enghraifft¹³³ a ddatblygwyd trwy ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid lleol.

Mynediad a Chysylltedd

- Dylai cynigion anelu at gefnogi **cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus** a, lle y bo'n briodol, cysylltedd digidol, i leihau arwahanrwydd gwledig, gan ddwyn budd i drigolion hŷn a grwpiau sydd dan anfantais economaidd.

Cydraddoldeb ac Ymgysylltu â'r Gymuned

- Mae'r **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** yn ymdrin â rhwystrau i grwpiau agored i niwed, ac mae hefyd yn cydnabod yr angen i sicrhau bod prosesau ymgynghori'n hygyrch ac yn gynhwysol.
- Mae ymgysylltu trwy ddigwyddiadau galw heibio a fforymau ar-lein yn darparu llwyfan i drigolion gwledig drafod a mynegi eu barn.
- Mae Parciau Cenedlaethol presennol yn darparu cyfleoedd ar gyfer cydlyniant cymunedol trwy raglenni digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol helaeth, cyfleoedd

¹³¹ Adolygiad o'r Effaith Economaidd, ARUP ar gyfer CNC [Cyflwyniad PowerPoint](#) 2025

¹³² [Ffermio Bro - Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig \(Cam 1\): llyfryn rheolau \[HTML\] | LLYW. CYMRU](#)

¹³³ [Snowdonia-Park-Plan-2020_CYMRAEG_22.09.2020.pdf](#)

gwirfoddoli a chefnogi grwpiau cymunedol fel y fenter 1,000 Diwrnod Cyntaf ym Mywyd Plentyn¹³⁴ sy'n cael ei rhedeg gan APC Arfordir Penfro.

- ♦ *A fydd y cynnig yn arwain at agor gwasanaethau newydd neu gau gwasanaethau presennol? Sut fyddwch chi'n cynyddu i'r eithaf effeithiau cadarnhaol ac yn lliniaru effeithiau negyddol?*

Ni ddisgwylir y bydd dynodi Parc Cenedlaethol Glyndŵr yn arwain at gau llawer o wasanaethau presennol. Yn hytrach, nod y cynnig yw cefnogi a, lle y bo'n bosibl, gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau gan y bydd modd darparu adnoddau ychwanegol. Bydd hi'n ofynnol yn gyfreithiol¹³⁵ i'r APC newydd weithio ar y cyd ag awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus perthnasol i gefnogi llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n gysylltiedig â chadwraeth, darparu hamdden, rheoli ymwelwyr, ac ymgysylltu â'r gymuned.

Bydd y cynnig yn ategu cynllunio integredig, diogelu diwylliannol a photensial ar gyfer arallgyfeirio economaidd i ddwyn effeithiau cadarnhaol i gymunedau gwledig. Bydd angen i'r APC newydd ymdrin â phryderon ynghylch mynediad at dai fforddiadwy. Mae hwn yn fater i lawer o ardaloedd gwledig ac yn cael sylw ar hyn o bryd gan APCau presennol yng Nghymru gan fesurau Erthygl 4¹³⁶ a Mesurau eraill. Ystyriaethau pwysig eraill fydd sicrhau llywodraethu cynhwysol sy'n cynrychioli'r holl gymdeithas gan gynnwys pobl ifanc a phoblogaethau hŷn a sicrhau gwelliannau i hygyrchedd fel trafndiaeth a seilwaith digidol i leihau arwahanrwydd gwledig a chynyddu mynediad at wasanaethau ar-lein.

- ♦ *A yw'r polisi yn ei gwneud yn ofynnol prynu neu ddefnyddio tir? Ydych chi wedi ystyried ffactorau gwledig fel gwerth tir, ei argaeledd neu ddynodiadau cyfyngol?*

Nid yw dynodi'r Parc Cenedlaethol newydd yn ei gwneud yn ofynnol prynu tir. Mae tir mewn Parciau Cenedlaethol mewn perchnogaeth breifat i raddau helaeth¹³⁷ neu'n eiddo i gyrff eraill fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ystâd Goed Llywodraeth Cymru neu Dŵr Cymru. O'r Parciau Cenedlaethol presennol yng Nghymru, mae Bannau Brycheiniog yn berchen ar oddeutu 13% o'r ardal a ddynodir, tra bod Eryri'n berchen ar lai nag 1%. Yn achlysurol, gall yr APC newydd ystyried prynu tir yn y dyfodol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau statudol fel cadwraeth neu reoli tirwedd.

- ♦ *A fydd y cynnig yn gweithio mewn tir anodd e.e. ffyrdd cul a mynyddoedd serth? Os felly, sut fyddwch chi'n goresgyn rhwystrau?*

Mae Parciau Cenedlaethol wedi'u dynodi ar gyfer harddwch naturiol eu tirwedd ac yn aml maent yn ardaloedd hynod wledig gyda thir anodd. Bydd mynediad a hygyrchedd yn ystyriaethau allweddol ar gyfer yr APC newydd mewn perthynas â diben statudol y Parc

¹³⁴ [Prosiect 1,000 diwrnod cyntaf - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro](#)

¹³⁵ Adran 11A(1) [Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949](#)

¹³⁶ Enghraifft Parc Cenedlaethol Eryri Erthygl 4 Polisi [Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn Eryri - Cynllunio a Datblygu](#)

¹³⁷ Perchnogaeth ar dir Parciau Cenedlaethol yng Nghymru [adolygiad-o-dirweddau-dynodedig-yng-nghymru.pdf](#)

Cenedlaethol i hyrwyddo cyfleoedd i bobl fwynhau nodweddion arbennig yr ardal. Bydd angen cyflawni hyn mewn ffordd sy'n galluogi mynediad heb beryglu'r rhesymau pam y dynodwyd yr ardal megis tawelwch, natur anghysbell, wledig gan hefyd gefnogi a chynnal cymunedau lleol, natur a diwylliant.

Mae'r APCau presennol yng Nghymru'n darparu ystod o enghreifftiau o'r mathau o weithgareddau a chamau gweithredu y gallai APC newydd eu cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys llogi Trammer i ddarparu mynediad i bobl llai abl, gwella cysylltiadau rhwng cymunedau fel Llwybr amlbwrpas Lôn Gwyrfa, Parc Cenedlaethol Eryri¹³⁸ rhwng Beddgelert a Rhyd Ddu a chefnogi ystod o grwpiau a galluoedd ar gyfer mynediad priodol a diogel i gefn gwlad.

Mae gan APCau hefyd bwerau cyfreithiol penodol i gyflawni cynlluniau rheoli traffig arbrofol ac mae ganddynt rai pwerau penodol i reoleiddio traffig y gellir eu defnyddio i helpu i ymdrin â materion mewn ardaloedd pot mêl.¹³⁹ Mae enghreifftiau o ddulliau arbrofol hirsefydlog yn cynnwys Dyffryn Derwent Uchaf ym Mharc Cenedlaethol Bro'r Llynnoedd. Mae'r ffordd ar gau ar benwythnosau a Gwyliau Banc ac mae wedi gweithredu ar y sail hon ers y 1980au.

Mae Parc Cenedlaethol arfaethedig Glyndŵr yn cynnwys ardaloedd anghysbell sydd â chapasiti cyfyngedig i dderbyn traffig ymwelwyr ychwanegol oherwydd diffyg ffyrdd A a B a mynychder lonydd cul heb ryw lawer o leoedd pasio—materion tebyg i'r rhai a wynebwr mewn Parciau Cenedlaethol eraill yn y DU.

Codwyd pryderon am bwysau traffig yn ystod ymgynghoriadau CNC, gan dynnu sylw at yr angen am ddull a reolir yn ofalus sydd wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth gyda chymunedau lleol, rheolwyr tir a busnesau i gefnogi mynediad trwy gerdded, beicio a marchogaeth. Efallai y bydd angen datrysiadau trafndiaeth arloesol, gan dynnu ar wersi o gynllun Sherpa'r Wyddfa ym Mharc Cenedlaethol Eryri, sydd wedi cyflawni newid sylweddol mewn dulliau teithio o ddefnyddio ceir i ddefnyddio cyfleusterau Parcio a Theithio gyda chynnydd o 79% yn nifer y teithwyr wedi'i gofnodi yn 2024 o'i gymharu â lefelau cyn Covid¹⁴⁰.

♦ *A yw'r cynnig yn berthnasol i fusnesau bach a chanolig neu ficrofusnesau?*

Bydd y Parc Cenedlaethol arfaethedig yn ymestyn dros ardal wledig fawr lle mae busnesau bach a chanolig a microfusnesau'n dominyddu sectorau fel twristiaeth, lletygarwch, ffermio, hamdden awyr agored, a chrefftau. Mae'r busnesau hyn yn rhan annatod o'r economi leol a llesiant cymunedol. Mae'r ymgynghoriad statudol yn sôn yn benodol am gefnogi cymunedau a llunio dyfodol gwell i'r economi leol, sy'n cynnwys busnesau bach.

¹³⁸ Llwybr Hyrwyddedig APCE – Lôn Gwyrfa, Rhyd Ddu

¹³⁹ A72 Rheoleiddio Traffig mewn Parciau Cenedlaethol Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006

¹⁴⁰ Mwy o deithwyr nag erioed ar wasanaeth bws Sherpa'r Wyddfa, Cyngor Gwynedd

♦ Sut ydych chi wedi ystyried eu sefyllfa?

Ymgysylltu: Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)¹⁴¹ wedi ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd ac wedi cynnal ymgynghoriadau wedi'u targedu gyda rhanddeiliaid rhwng 2023 a 2025. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau ar gyfer busnesau lleol, i ddeall effeithiau a chyfleoedd economaidd.

Adolygiad o'r Effaith Economaidd: Mae dadansoddiad annibynnol a gomisiynwyd gan CNC¹⁴² (Arup, Mehefin 2025) yn amlygu y gallai dynodiad roi hwb i dwristiaeth, creu swyddi, a denu buddsoddiad, ond mae hefyd yn cydnabod yr angen am hyblygrwydd cynllunio a chymorth busnes i osgoi effeithiau negyddol ar fusnesau bach a chanolig.

Aliniad Polisi: Mae'r cynnig yn cyd-fynd â strategaethau economi wledig Llywodraeth Cymru¹⁴³, gan bwysleisio twristiaeth gynaliadwy a chadwyni cyflenwi lleol er budd busnesau bach.

♦ *A yw'r cynnig yn disgwyl i fusnesau allu cael mynediad at gymorth? (Gall hyn fod ar ffurf cyngor, hyfforddiant, cyllid ac ati.) Os ydyw, pa rwystrau fydd busnesau gwledig yn eu hwynebu a sut fyddant yn cael eu goresgyn?*

Bydd gan yr APC newydd ddyletswydd statudol¹⁴⁴ i gefnogi llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y Parc Cenedlaethol ac i gydweithredu gydag awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus y mae eu swyddogaethau'n cynnwys hybu datblygiad economaidd neu gymdeithasol yn ardal y Parc Cenedlaethol.

Mae APCau presennol yn gweithio gyda'r gymuned busnesau bach a chanolig, yn enwedig busnesau twristiaeth a busnesau arallgyfeirio ar ffermydd. Gallant gyfeirio at gymorth megis grantiau neu ddarparu cyngor mwy uniongyrchol megis trwy gynllun amaeth-amgylcheddol Ffermio Bro¹⁴⁵, sydd ar gael mewn Tirweddau Dynodedig yng Nghymru yn unig. Efallai y bydd cyfleoedd marchnata ychwanegol i fusnesau sy'n defnyddio brand y Parc Cenedlaethol fel Wisgi Penderyn, Cig Oen Eryri, caws Eryri a Thatws Cynnar Sir Benfro (gyda statws Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig) fanteisio ar gynnyrch lleol a diddordeb y cyhoedd mewn tarddiad.

♦ *A yw'r cynnig yn dibynnu ar seilwaith fel cysylltiadau ffyrdd/rheilffyrdd da neu fand eang cyflym neu gysylltedd symudol da? Os ydyw, pa ddarpariaeth fydd yn cael ei gwneud ar gyfer cymunedau/busnesau mewn ardaloedd gwledig mwy ynysig?*

Mae'r cynnig yn cael ei wneud ar sail bodloni'r profion statudol a nodir yn adran 5 Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 ar harddwch naturiol a hamdden.

¹⁴¹ [Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru - Citizen Space CNC - Citizen Space](#)

¹⁴² Adolygiad o Effaith Economaidd Parc Cenedlaethol Newydd Cymru, ARUP ar gyfer CNC 2025 [Cyflwyniad PowerPoint](#)

¹⁴³ [Polisi a chanllawiau cynllunio: yr economi wledig | Is-bwnc | LLYW. CYMRU](#)

¹⁴⁴ [11A\(1\) Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949](#)

¹⁴⁵ [Ffermio Bro - Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig \(Cam 1\): llyfryn rheolau \[HTML\] | LLYW. CYMRU](#)

Felly, mae cyfleoedd mynediad a chysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu hystyried, ond mae'r cynnig hefyd yn ystyried cyfleoedd i wella darpariaeth. Mae pob un o'r tri APC presennol yng Nghymru yn darparu gwasanaethau bws hamdden ychwanegol i wella'r ddarpariaeth bresennol. Mae'r rhain yn rhedeg ar adegau pan allai'r ddarpariaeth arferol gael ei lleihau fel penwythnosau a gwyliau cyhoeddus ac yn cynnwys gwasanaethau bws Sherpa'r Wyddfa¹⁴⁶ a'r Pâl Gwibio.

Cydnabyddir bod amrywiad sylweddol ledled yr ardal o ran cysylltedd ffyrdd, gyda'r rhan ogleddol yn cael ei gwasanaethu gan ffyrdd deuol ac A, mewn cyferbyniad â'r rhan ddeheuol gyda dim ond mân ffyrdd a lonydd gwledig cul. Nid yw'n anghyffredin i Barciau Cenedlaethol fod â darpariaeth gymysg, ond bydd yn bwysig bod yr APC newydd yn darparu gwybodaeth briodol am fynediad â cheir dim ond lle y bo hynny'n briodol a'i fod yn hyrwyddo opsiynau trafndiaeth gyhoeddus.

Mae gorsafoedd rheilffordd y Waun a Phrestatyn o fewn pellter cerdded hawdd i Barc Cenedlaethol arfaethedig Glyndŵr a byddent yn darparu mynediad uniongyrchol. Byddai gorsafoedd cyfagos eraill, gan gynnwys Gobowen, Wrecsam a'r Flint, yn golygu bod angen teithio ymlaen. Mae gwasanaethau bysiau lleol yn bodoli ond maent yn gyfyngedig iawn mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, mae gwasanaeth bysiau dyddiol T10 Trafnidiaeth Cymru o Gorwen i Fangor trwy Fetws y Coed a Chapel Curig, yn darparu mynediad pellter hir i Barc Cenedlaethol Eryri¹⁴⁷ ac yn ddiweddar dangosodd gwelwyd mwy o ddefnydd ohono.¹⁴⁸

Mae cysylltedd band eang cyflym yn hanfodol i gymunedau a busnesau gwledig ac fel Awdurdodau Cynllunio Lleol mae'r Parciau Cenedlaethol yn ymgysylltu â hyn. Mae hefyd yn bwysig bod signal mewn ardaloedd gwledig i roi cymorth i lywio â lloeren a chefnogi gwasanaethau brys.

- ♦ *Er bod achosion sylfaenol tlodi mewn ardaloedd gwledig yr un fath ag mewn ardaloedd trefol, gall y profiad o amddifadedd fod yn wahanol mewn ardaloedd gwledig. Rhai o'r prif faterion sy'n cyfrannu at dlodi mewn ardaloedd gwledig yw tlodi tanwydd (gan gynnwys tanwydd gwresogi a thrafnidiaeth), tlodi mewn gwaith, mynediad at wasanaethau ac allgáu digidol. Sut mae eich cynnig yn helpu i fynd i'r afael â thlodi mewn ardaloedd gwledig?*

Mae tlodi gwledig yn aml yn cynnwys tlodi tanwydd, sy'n effeithio ar hyd at 25% o aelwydydd Cymru ac yn effeithio'n anghymesur ar gartrefi gwledig oddi ar y grid sy'n dibynnu ar olew neu LPG.¹⁴⁹

¹⁴⁶ Gwasanaeth Bws Sherpa'r Wyddfa [Sherpa'r Wyddfa](#) | [Snowdon Sherpa](#) | [rhwydwaith o wasanaethau bws sy'n eich galluogi i deithio o amgylch Eryri](#) | [Parc Cenedlaethol Eryri](#)

¹⁴⁷ [Gwasanaeth bws newydd T10 TrawsCymru o Fangor i Gorwen](#)

¹⁴⁸ [Outdoor adventurers bring bus boost](#)

¹⁴⁹ [Fuel Poverty in Wales - National Energy Action \(NEA\)](#)

O dan y polisi cynllunio presennol, disgwylir y byddai dynodi Parc Cenedlaethol newydd yn lleihau cyfleoedd ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr ac mewn rhai achosion datblygiadau trawsyrro o fewn yr ardal a'i therfyn golygfeydd. Mae APCau presennol eisoes yn ceisio ymdrin â materion ynni trwy ddulliau amgen, gan gynnwys mentrau a arweinir gan y gymuned megis yn aneddiadau Talybont-ar-Wysg¹⁵⁰ a Grwpiau Ynni Adnewyddadwy Lleol Cymoedd Gwyrdd Llangatwg¹⁵¹ ym Mannau Brycheiniog. Mae technolegau sy'n dod i'r amlwg, megis dal carbon, systemau tonnau a llanw, storio batris, a datrysiadau carbon isel arloesol eraill, yn cynnig potensial i'w ystyried pan fyddant wedi'u lleoli'n ofalus ac wedi'u dylunio'n briodol. Mae Cronfa Datblygu Cynaliadwy Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro hefyd wedi cefnogi prosiect arloesol ar gyfer cartrefi solar fforddiadwy, gan gynnwys datblygu prototeip o gartref sy'n cael ei bweru gan ynni solar a adeiladwyd yn gyfan gwbl o bren Cymreig, sydd wedi'i fwriadu i gynhyrchu ei holl ynni ei hun ac allforio trydan dros ben ar gyfer incwm.¹⁵²

Mae APCau presennol yn gweithio gyda chynllun Cartrefu Clyd Nyth Llywodraeth Cymru, sy'n darparu gwelliannau effeithlonrwydd ynni am ddim (inswleiddio, uwchraddio gwresogi) i aelwydydd incwm isel. Mae'r mesurau hyn yn lleihau biliau ynni ac yn gwella deilliannau iechyd. Gallai'r Parc newydd gefnogi a hyrwyddo'r cynlluniau hyn yn lleol.

Mae cynlluniau ôl-osod yn y Parciau Cenedlaethol presennol yn aml yn rhan o strategaethau ehangach i leihau biliau ynni ac allyriadau carbon. Ceir enghreifftiau o brosiectau micro-gynhyrchu preifat a chymunedol fel Ynni Anafon¹⁵³ yn Eryri sy'n cynhyrchu digon o bŵer i gyflenwi tua 230 o aelwydydd ac y disgwylir iddo wrthbwysu mwy na 19,000 o dunelli o allyriadau CO2 dros 40 mlynedd cyntaf ei oes.

Gwell cysylltedd: Mae APCau wedi cefnogi cynlluniau i uwchraddio band eang gwledig, gan alluogi trefniadau gweithio o bell a mynediad digidol i fusnesau ac addysg. Mae hyn yn lleihau arwahanrwydd ac yn agor cyfleoedd ar gyfer incwm.

Polisiâu tai fforddiadwy: Mae Parciau presennol yn cydweithio gydag awdurdodau lleol i reoli ail gartrefi a llety gwyliau, gan helpu i gynnal argaeledd tai i drigolion lleol. Gallai Awdurdod Parc Cenedlaethol Glyndŵr weithredu mesurau tebyg.

- ♦ *Pa gyswllt ydych chi wedi'i gael â rhanddeiliaid gwledig? Disgrifiwch yn fyr unrhyw ddigwyddiadau sydd wedi'u targedu at rhanddeiliaid gwledig neu unrhyw ymgysylltiad ymgynghori rydych chi wedi'i gael â rhanddeiliaid gwledig. A gododd unrhyw faterion eraill o ganlyniad i'r ymgysylltu â rhanddeiliaid neu unrhyw ymgynghoriad ynghylch y cynnig hwn? Os gwnaethant, beth oedden nhw a sut ydych chi wedi addasu eich cynnig i'w hystyried?*

¹⁵⁰ [Ynni Talybont-ar-Wysg | Pweru cymuned â dŵr](#)

¹⁵¹ [CBC Cymoedd Gwyrdd Llangatwg – Ynni cymunedol](#)

¹⁵² [Cartrefi Solar Fforddiadwy - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro](#)

¹⁵³ [Ynni Anafon Energy](#)

Fel yr awdurdod dynodi, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi ymgysylltu yn ystod 2023¹⁵⁴, ac yna ymgynghori'n helaeth yn 2024¹⁵⁵ a chynnal ymgynghoriad statudol yn 2025¹⁵⁶. Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiadau yn y cnawd mewn gwahanol leoliadau daearyddol ledled yr ardal, a gynhaliwyd ar wahanol adegau o'r dydd gan gynnwys nosweithiau i hwyluso mynediad. Ategwyd y rhain gan ddigwyddiadau ar-lein gyda chymysgedd o ddigwyddiadau cyhoeddus a sector-benodol. Mae CNC hefyd wedi darparu cyfleoedd i gael adborth trwy arolygon ar ffurf holiaduron ac wedi comisiynu dadansoddiad o'r holl ddata a gasglwyd sydd ar gael ar eu tudalennau gwe a neilltuwyd i hynny. Hefyd, mae CNC wedi ymgysylltu ac wedi ceisio barn ynghylch enwi'r Parc Cenedlaethol newydd.¹⁵⁷

Fe adnabu CNC fod y materion a'r themâu a godwyd gan ymatebwyr¹⁵⁸ yn adlewyrchu sbectwm eang o farn y cyhoedd ynglŷn â'r cynnig. Roedd cynnwys yr ymatebion yn debyg at ei gilydd i'r hyn a fynegwyd yn y cyfnod ymgysylltu cyhoeddus cynnar yn 2023, er bod newid bach yn nhrefn pwysigrwydd a'r hyn a grybwyllwyd yn fwyaf ac yn lleiaf aml. Y tair prif thema yn 2024 oedd:

1. Bywyd Gwyllt, Amaethyddiaeth, rheoli tir, Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
2. Gwarchod y dirwedd, cydnabyddiaeth i'r ardal a thawelwch
3. Cwestiynu'r angen am newid, rheoli a rheolaethau, costau, cyllid a biwrocratiaeth

Yn 2023 ar y llaw arall, y tair prif thema oedd:

1. Gwarchod y dirwedd, cydnabyddiaeth i'r ardal a thawelwch
2. Bywyd gwyllt, amaethyddiaeth a rheoli tir, yr amgylchedd a chynaliadwyedd
3. Twristiaeth, gwasanaethau cyhoeddus, a seilwaith

Mae CNC wedi ystyried y materion a godwyd ac wedi ymateb trwy gomisiynu tystiolaeth bellach i gasglu gwybodaeth am y grymoedd dros newid sy'n effeithio ar yr ardal¹⁵⁹ a darparu adroddiad sy'n nodi manteision ac anfanteision y cynnig¹⁶⁰. Mae'r materion a godwyd wedi cael eu bwydo i mewn i brosesau craffu ar lywodraethu a gwneud penderfyniadau. Bydd y materion a adnabuwyd gan y broses hon hefyd yn rhan o

¹⁵⁴ Adroddiad Ymgysylltu, CNC 2023 [cynnig-parc-cenedlaethol-newydd-cymru---adroddiad-cyfnod-ymgysyllt.pdf](#)

¹⁵⁵ Adroddiad Ymgynghori Cyhoeddus, Resources for Change ar gyfer CNC 2024 [cynnig-parc-cenedlaethol-cymru---adroddiad-ymgynghori-cyhoeddus-2024.pdf](#)

¹⁵⁶ Gorchymyn Dynodi Drafft Ymgynghoriad Statudol Parc Cenedlaethol Glyndŵr, CNC 2025 [Gorchymyn Arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr \(Dynodi\) - Ymgynghoriad Statudol 2025 – Citizen Space CNC - Citizen Space](#)

¹⁵⁷ [enwi---r-parc-cenedlaethol-newydd-arfaethedig-yng-nghymru-1.pdf](#)

¹⁵⁸ Adroddiad Ymgynghori Cyhoeddus, Resources for Change ar gyfer CNC 2024 [cynnig-parc-cenedlaethol-cymru---adroddiad-ymgynghori-cyhoeddus-2024.pdf](#)

¹⁵⁹ Grymoedd dros Newid, Land Use Consultants, 2024 [Forces for Change for North East Wales National Park Area of Search](#)

¹⁶⁰ Manteision ac Anfanteision posibl Parc Cenedlaethol newydd, CNC 2025 [manteision-ac-anfanteision-posibl-parc-cenedlaethol-newydd.pdf](#)

ystyriaeth gan Weinidogion Cymru i'r cwestiwn a yw Parc Cenedlaethol newydd yn ymateb priodol i helpu i ymdrin â'r materion sy'n wynebu'r ardal.

Mae'r materion a adnabuwyd yn berthnasol i ardaloedd gwledig a bydd gan APC newydd, pan fydd wedi cael ei sefydlu, ddibenion statudol sy'n ymwneud â chadwraeth a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol a hamdden, a dyletswydd i gydweithio gydag awdurdodau lleol a chyrff eraill i gefnogi llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau wrth gyflawni ei swyddogaethau. Bydd yn ofynnol yn gyfreithiol iddo baratoi Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol a fydd yn archwilio tystiolaeth i adnabod materion allweddol ar gyfer yr ardal, adnabod polisïau a chamau gweithredu i ymdrin â'r rhain ar gyfer y Parc Cenedlaethol a phartneriaid, gan ymgynghori yn ei gylch a'i gyhoeddi. Byddai'r holl brif faterion a adnabuwyd yn yr ymgynghoriadau yn berthnasol i'r Cynllun Rheoli fel a ddangosir gan Gynllun Rheoli Eryri¹⁶¹.

♦ *Pa dystiolaeth ydych chi wedi'i defnyddio i oleuo eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan bobl wledig neu eu cynrychiolwyr?*

Fel rhan o'r broses statudol ac fel yr awdurdod dynodi mae CNC wedi ymgynghori ac ymgysylltu'n helaeth â chymunedau gwledig, eu cynrychiolwyr fel Cynghorau Sir, Tref a Chymuned a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys yr undebau ffermio, gyrff anllwyodraethol amgylcheddol a grwpiau cymunedol.

Mae CNC hefyd wedi cynnal a chomisiynu dadansoddiad sylweddol o'r dystiolaeth ac wedi ystyried tystiolaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid eraill. Mae'r adroddiadau, y dystiolaeth a'r dadansoddiad ar gael ar dudalennau gwe dynodi CNC. Caiff hyn ei nodi uchod ac fe'i dangosir ag enghreifftiau y cyfeirir atynt o'r Parciau Cenedlaethol presennol.

♦ *Pa dystiolaeth arall fyddai'n goleuo'r asesiad?*

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu trydydd parti i asesu costau a manteision y cynigion, a bydd yr asesiad hwnnw'n cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Achos Busnes Amlinellol.

Bydd yr Asesiad Effaith Integredig hwn, yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Achos Busnes Amlinellol yn rhan o becyn o gyngor i'w ystyried gan Weinidogion Cymru i helpu i oleuo eu penderfyniad ynglŷn â dynodi Parc Cenedlaethol newydd. Bydd hyn yn cael ei ategu gan y dystiolaeth gynhwysfawr a'r argymhelliad gan CNC fel a nodir.

¹⁶¹ Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Eryri 2020 [Snowdonia-Park-Plan-2020_CYMRAEG_22.09.2020.pdf](#)

Asesiad o'r Effaith ar Reoli Tir yn Gynaliadwy

1. A yw eich polisi / gweithgaredd yn effeithio ar Amaethyddiaeth?

Ydy, mae dynodi Parc Cenedlaethol newydd a sefydlu APC yn debygol o arwain at rai effeithiau posibl ar amaethyddiaeth trwy roi cymorth i reoli tirweddau, ecosystemau a dalgylchoedd yn gynaliadwy i gyflawni deilliannau diben statudol i bobl a natur.

2. A yw'r polisi / gweithgaredd yn gysylltiedig â chefnogi amaethyddiaeth, gweithgareddau eraill a gynhelir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu weithgareddau ategol?

Nid yw'r polisi ei hun yn uniongyrchol gysylltiedig â chefnogi amaethyddiaeth. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd, bydd yr ardal honno'n gymwys i gael unrhyw gymorth perthnasol ychwanegol wedi'i dargedu at Dirweddau Dynodedig e.e. cynllun Ffermio Bro¹⁶² Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

3. A yw'r polisi / gweithgaredd yn gysylltiedig â rheoleiddio amaethyddiaeth, gweithgareddau eraill a gynhelir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu weithgareddau ategol?

Nid yw'r cynnig yn uniongyrchol gysylltiedig â rheoleiddio amaethyddiaeth. Fodd bynnag, bydd gan yr APC newydd swyddogaethau cynllunio, gyda Hawliau Datblygu a Ganiateir gwahanol i ardaloedd y tu allan i'r dynodiad. Yn aml, ceir canfyddiad bod caniatâd cynllunio yn anos i'w gael; fodd bynnag, mae gwaith a gomisiynwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn awgrymu bod cyfraddau cymeradwyo ac amserlenni penderfynu ceisiadau cynllunio mewn Parciau Cenedlaethol yn debyg i Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yng Nghymru¹⁶³.

Gall y polisi ddwyn goblygiadau ar gyfer 'gweithgareddau ategol' fel y'u diffinnir yn adran 52 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 megis 'gweithredu, ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth i greu a rheoli cynefinoedd, neu at ddibenion eraill sy'n ymwneud â chadwraeth natur, neu weithredu ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, i liniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd neu i gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau. Bydd angen i APC newydd ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur trwy gyflawni ei ddyletswyddau statudol, ac felly ceisio dylanwadu ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar gyfer ecosystemau gwydn. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw effaith uniongyrchol o ganlyniad i ddynodi nes bod yr APC newydd yn cael ei sefydlu gan Weinidogion Cymru o dan Gam 2 y broses a bod swyddogaethau wedi cael eu trosglwyddo i'r awdurdod newydd.

¹⁶² Ffermio Bro - Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig (Cam 1): llyfryn rheolau [HTML] | LLYW. CYMRU

¹⁶³ Adolygiad o Gynllunio, ARUP 2025 Microsoft Word - Planning Services Review in the context of a proposed National Park Report_FINAL Rev A.pdf

Gweler D. Asesiad o'r Effaith ar Brawfesur Gwledig am fanylion proses ddynodi CNC yng Ngham 1 a chadarnhau'r gorchymyn dynodi gan Lywodraeth Cymru a sefydlu prosesau newydd yr APC yng Ngham 2.

Os yw'r ateb i unrhyw un o'r uchod yn gadarnhaol, bydd angen i chi ystyried effaith eich polisi (cefnogi neu reoleiddio) yn unol ag amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy a'r ddyletswydd Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

Asesiad o'r Effaith ar Reoli Tir yn Gynaliadwy:

Cwestiwn 2: Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar amaethyddiaeth, neu weithgareddau eraill a wneir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu weithgareddau ategol, yn erbyn yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

1. Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy

Mae Parciau Cenedlaethol yn arbennig ac unigryw ac mae angen eu rheoli, eu gwella a'u gwarchod gan hefyd gefnogi'r ffermwyr a'r cymunedau sy'n gweithio ynddynt. Mae amcangyfrifon ar gyfer 2024 yn dangos bod dros 90% ¹⁶⁴o arwynebedd tir Cymru yn cael ei neilltuo i ddefnydd tir amaethyddol.

Mae Deddf Amaethyddiaeth 1986¹⁶⁵ yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gydbwyso'r buddiannau wrth arfer swyddogaethau amaethyddol i geisio taro cydbwysedd rhesymol rhwng nifer o ystyriaethau gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, gwarchod a gwella harddwch naturiol ac amwynder cefn gwlad (gan gynnwys ei fflora a'i ffawna a'i nodweddion daearegol a ffisiograffig) ac unrhyw nodweddion o ddiddordeb archeolegol yno, a hyrwyddo mwynhad o gefn gwlad gan y cyhoedd. Mae'r rhain yn cyd-fynd â dibenion statudol yr APC.

Gan y gall gweithgarwch amaethyddol fod yn brif sbardun ar gyfer diraddiad amgylcheddol, mae'r cynnig hwn yn darparu rhai cyfleoedd i leihau neu liniaru effeithiau amaethyddol ar yr amgylchedd a rhoi cymorth i reoli ecosystemau'n effeithiol yn yr ardal arfaethedig¹⁶⁶. Mae lleihau'r effeithiau hyn yn bwysig i sicrhau parhad ein cyflenwad bwyd a gallu ein sector ffermio i addasu i'r hinsawdd sy'n newid. Mae lleihau effeithiau sy'n niweidiol i'r amgylchedd hefyd yn unol â'r uchelgais a nodir gan yr egwyddorion hyn ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Mae Parciau Cenedlaethol o ran eu natur yn aml yn wledig iawn, gyda'r tir yn cael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer ffermio a choedwigaeth. Nodweddir yr ardaloedd hyn gan gymunedau gwledig, a hwythau'n aml yn gymunedau clòs traddodiadol, ac yn aml maent

¹⁶⁴ Arolwg o'r cyfrifiad amaethyddol a garddwrol: Mehefin 2024 [HTML] | LLYW. CYMRU

¹⁶⁵ Adran 17 Deddf Amaethyddiaeth 1986

¹⁶⁶ Food system impacts on biodiversity loss | UNEP - Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig

yn ardaloedd â niferoedd uchel o ymwelwyr sy'n dwyn manteision o ganlyniad i incwm twristiaid a hefyd pwysau ar seilwaith a gwasanaethau. Mae gweithio gyda'r sector amaethyddol i gyflawni deilliannau amgylcheddol a lliniaru/addasu i effeithiau newid hinsawdd yn bwysig i'r APCau er mwyn cyflawni dibenion statudol y Parc Cenedlaethol i warchod a gwella harddwch naturiol y dirwedd, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol a hyrwyddo mwynhad o'r tirweddau arbennig hyn.

2. Lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd

Gweler Adran 5.3b Gwydnwch hinsawdd yn yr Asesiad Effaith Integredig hwn.

Trwy gyflwyno'r cynnig hwn, bydd cynnwys ardaloedd ychwanegol o dan warchodaeth statws Parc Cenedlaethol yn helpu i gefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol. O ystyried y gall gweithgarwch amaethyddol effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd, bydd y polisi hwn yn helpu i gefnogi arferion amaethyddol cynaliadwy i leihau neu liniaru effeithiau newid hinsawdd a niweidiau amgylcheddol eraill yn yr ardal arfaethedig. Mae lleihau'r effeithiau negyddol hyn yn hanfodol i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor ein cyflenwad bwyd a gwydnwch ein sector ffermio yn wyneb newid hinsawdd. Mae ecosystemau iach, sy'n gyfoethog o ran eu bioamrywiaeth, yn fwy gwydn i effeithiau newid hinsawdd. Gallant barhau i ddarparu gwasanaethau ecosystemau hanfodol, megis peillio, ffrwythlondeb pridd, a rheoleiddio dŵr, hyd yn oed yn wyneb amrywioldeb hinsawdd cynyddol a digwyddiadau tywydd eithafol.

Mae nifer o ffyrdd y gallai'r APC newydd gael effaith ar ddatblygu gwydnwch hinsawdd. Mae APCau presennol yng Nghymru'n gweithio i liniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd mewn perthynas ag amaethyddiaeth a rheoli tir:

A. Camau Lliniaru (Lleihau Allyriadau)

- Adfer Mawndiroedd - Adfer torlannau mawn diraddiedig, cau ffosydd ac ail-wlychu i gloi carbon i mewn a lleihau allyriadau. Mae enghreifftiau'n cynnwys prosiectau mawndiroedd ar raddfa fawr yn Eryri a Bannau Brycheiniog¹⁶⁷
- Creu Coetiroedd a Phlannu Coed - Plannu coed brodorol a chreu coetiroedd dwysedd isel ar dir fferm i ddal a storio carbon. Cefnogir hyn trwy gynlluniau fel Ffermio Bro mewn Parciau Cenedlaethol, Cynlluniau Creu Coetiroedd a chanllawiau gan APCau.¹⁶⁸
- Ynni Adnewyddadwy Priodol a Ffermio Carbon Isel – Rhoi anogaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy ar ffermydd (solar, hydro ar raddfa fach) ac effeithlonrwydd ynni.

¹⁶⁷ [CNP_29_ClimateReportFull.indd](#)

¹⁶⁸ [PCNP-Tree-Woodland-Guidance-accepted-Cy.pdf](#)

Mae APCau wedi ymrwymo i dargedau lleihau carbon cenedlaethol a Thargedau Sero Net ac maent yn ymgymryd â rhaglen o gamau gweithredu datgarboneiddio.¹⁶⁹ Fodd bynnag, o dan Bolisi Cynllunio Cymru, pe bai'n cael ei ddynodi, byddai'r PC newydd yn golygu mesurau amddiffyn ychwanegol a rhagdybiaeth yn erbyn prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yn yr ardal a'i derfyn golygfgeydd.

- Pori a Rheoli Pridd yn Gynaliadwy - Hyrwyddo arferion sy'n gwella iechyd y pridd ac yn lleihau allyriadau o dda byw. Gallai hyn gynnwys pori er mwyn cadwraeth, prosiectau rheoli glaswelltir ucheldirol fel ym Mannau Brycheiniog¹⁷⁰

B. Camau Addasu (Adeiladu Gwydnwch)

- Rheoli Llifogydd a Chadw Dŵr - Adfer gwlyptiroedd a gwella dalgylchoedd afonydd i leihau perygl llifogydd a storio dŵr yn ystod sychder. Mae enghreifftiau fel Rheoli Llifogydd yn Naturiol yn Nalgylch Wnion fel rhan o'r Rhaglen Sbarduno ar gyfer Rheoli Llifogydd yn Naturiol gan Lywodraeth Cymru yn dangos gallu APCau i gyflawni ar lawr gwlad yn seiliedig ar berthynas weithio gadarn â rheolwyr tir a chymunedau. Roedd y gwaith yn cynnwys adfer gwlyptiroedd a mawndiroedd ac adfer afonydd i leihau perygl llifogydd ar gyfer aneddiadau i lawr yr afon, gan hefyd wella bioamrywiaeth, dal carbon a gwella ansawdd dŵr.¹⁷¹
- Datblygu Cynefinoedd sy'n Wydn yn wyneb Newid Hinsawdd - Creu dolydd gwair a chynefinoedd amrywiol i wrthsefyll patrymau tywydd sy'n newid. Prosiectau cynefinoedd ar raddfa tirwedd ledled Parciau Cenedlaethol Cymru, megis prosiect adfer mawndiroedd cyntaf Cymru a ariennir gan garbon a gynhaliwyd gan Barc Cenedlaethol Eryri a Forest Carbon, fel rhan o Grantiau'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd a chyllid preifat. Fe wnaeth y prosiect, a oedd yn rhychwantu 66 hectar ar orgors ucheldirol, atgyweirio wynebau a oedd wedi erydu (torlannau a gyliau) yn ystod gaeaf 2020–2021 gan ddefnyddio contractwyr arbenigol.¹⁷²
- Cynorthwyo rheolwyr tir gyda Gwybodaeth am yr Hinsawdd a gwybodaeth arall - Rhoi cyngor a chyllid ar gyfer ffermio ac arallgyfeirio sy'n ddoeth o ran yr hinsawdd. Cynlluniau cydweithredol rhwng APCau a chymunedau ffermio lleol. Mae Eryri er enghraifft yn rhoi cyngor cynllunio busnes wedi'i deilwra i roi cymorth i arallgyfeirio ar ffermydd. Mae Canllawiau Cynllunio Arallgyfeirio ar Ffermydd: Canllawiau

¹⁶⁹ [Datgarboneiddio Tirweddau Dynodedig Cymru – Tirweddau Cymru](#)

¹⁷⁰ [Newid Hinsawdd | APC Bannau Brycheiniog](#)

¹⁷¹ [Datganiad Ysgrifenedig: Lansio'r Rhaglen Sbarduno ar gyfer Rheoli Llifogydd yn Naturiol \(25 Hydref 2023\) | LLYW. CYMRU](#)

¹⁷² [Prosiect adfer mawndir cyntaf Cymru i'w ariannu gan garbon wedi ei gwblhau! Datganiad i'r Wasg ar y cyd rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Forest Carbon](#)

Cynllunio Atodol (CCA 9) yn amlinellu ystyriaethau ymarferol, megis trawsnewid adeiladau segur, datblygu twristiaeth ar ffermydd, neu sefydlu siopau fferm, gan bwysleisio effaith amgylcheddol ac economïau gwledig cynaliadwy.¹⁷³

C. Monitro ac Ymchwil

- Mae APCau yn adrodd ar gynnydd fel Sero Net, blaenoriaethau'r Llythyr Grant Strategol (sy'n cynnwys datgarboneiddio), Adrodd ar Fioamrywiaeth dan Adran 6 ac asesiad 5 mlynedd fel rhan o'u Hasesiad o Gyflwr yr Amgylchedd. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio i dracio effeithiau newid hinsawdd a goleuo cyngor rheoli tir. Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'r Asesiad o Gyflwr yr Amgylchedd yn helpu i adnabod tystiolaeth o dueddiadau i ddatblygu polisiau a chamau gweithredu i fynd i'r afael â materion. Gweler er enghraifft Adroddiad Cyflwr y Parc Bannau Brycheiniog 2020.¹⁷⁴

3. Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd atynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.

Ar gyfer effeithiau ar:

- Lesiant cymdeithasol, cyfeiriwch at Adran 2 o'r Asesiad Effaith Integredig hwn
- Treftadaeth Ddiwylliannol, cyfeiriwch at Adran 3 o'r Asesiad Effaith Integredig hwn.
- Iechyd, cyfeiriwch at Adran 2.5
- Cydraddoldeb, cyfeiriwch at Atodiad B o'r asesiad effaith integredig hwn.
- Y Gymraeg cyfeiriwch at Adran E o'r asesiad effaith integredig hwn.

Cwestiwn 3: Ystyriwch sut y bydd eich polisi'n cael ei weithredu yn y ffordd sy'n cyfrannu orau at gyflawni amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (i'r graddau y bo'n gyson ag arfer y swyddogaeth yn briodol).

1. Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy

Bydd dynodi Parc Cenedlaethol newydd yn golygu sefydlu APC newydd o dan Gam 2. Er mwyn deall sut y bydd yr APC newydd yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol, gan gynnwys dyletswydd benodol sy'n ymwneud â Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ac ystyried sut y gallai gefnogi amaethyddiaeth gynaliadwy a nwyddau eraill, mae'n ddefnyddiol bwrw golwg ar weithgareddau'r tri APC presennol yng Nghymru.

¹⁷³ CCA Arallgyfeirio ar Fferm APC Eryri 2012 [Canllaw-Cynllunio-Atodol-9-%E2%80%93-Arallgyfeirio-ar-Fferm.pdf](#)

¹⁷⁴ Adroddiad Cyflwr y Parc APC Bannau Brycheiniog 2020 [Approved-SoPR-2020-Cym.pdf](#)

Mae gan Barciau Cenedlaethol yng Nghymru rôl allweddol o ran cefnogi amaethyddiaeth gynaliadwy trwy gyfuniad o gyllid, cydweithio a mentrau ymarferol. Wrth ystyried cynhyrchu bwyd a nwyddau mewn modd cynaliadwy, mae'r APCau presennol yng Nghymru'n gwneud y canlynol:

A. Dull cydweithredol

Mae APCau yn gweithio'n agos gyda ffermwyr a thirfeddianwyr i weithredu prosiectau ar raddfa tirwedd. Mae'r model partneriaeth hwn yn sicrhau bod gwybodaeth leol ffermwyr yn cael ei hintegreiddio fel rhan o ymdrechion cadwraeth a chynaliadwyedd. Maent yn sicrhau cyllid i weithio mewn partneriaeth gyda thirfeddianwyr, rheolwyr, a Chominwyr i gyflawni gweithgarwch ar gyfer deilliannau amgylcheddol fel adfer mawndiroedd, rheoli cynefinoedd neu welliannau i fynediad. Mae'r gweithgareddau hyn yn darparu ystod o nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, gan gynnwys rheoleiddio, darparu a gwasanaethau diwylliannol, gan helpu i ategu dull ehangach o fynd ar drywydd amaethyddiaeth gynaliadwy neu adfywiol.

B. Cyllid a Chynlluniau wedi'u Neilltuo

Lansiodd Llywodraeth Cymru'r cynllun Ffermio Bro (£1.8 miliwn) i annog ffermio sy'n gyfeillgar i natur mewn Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol. Mae'r cynllun hwn yn ariannu prosiectau sy'n taro cydbwysedd rhwng cynhyrchu bwyd a nodau bioamrywiaeth a hinsawdd. Mae'n rhoi cyfle ychwanegol i reolwyr tir gael gafael ar gyllid i gefnogi amcanion penodol o ran Rheoli Tir yn Gynaliadwy: Ffermio Bro - Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig¹⁷⁵.

C. Mesurau Ymarferol ar gyfer Cynaliadwyedd

Mae APCau yn cydweithio, yn darparu hyfforddiant ac yn rhoi cyngor gan weithio gyda rheolwyr tir i roi cymorth i reoli cynefinoedd a rhywogaethau mewn modd gwydn i ategu rheoli a deilliannau amgylcheddol da. Maent hefyd yn gweithio gyda rheolwyr tir mewn perthynas â mynediad a gallant wneud gwelliannau i Hawliau Tramwy neu gynghori/helpu i ddatrys problemau mynediad.

Mae'r prosiectau a gefnogir yn cynnwys:

- Adfer cynefinoedd: Plannu coetiroedd dwysedd isel, creu dolydd gwair, a gwella glaswelltiroedd ucheldir.
- Rheoli dŵr a phridd: Mesurau i wella afonydd, gwlyptiroedd a mawndiroedd.
- Lleihau carbon: Mentrau i leihau allyriadau ffermydd.

¹⁷⁵ [Ffermio Bro - Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig \(Cam 1\): llyfryn rheolau \[HTML\] | LLYW. CYMRU](#)

- Gwarchod y dirwedd: Cynnal a chadw gwrychoedd, waliau cerrig, a nodweddion traddodiadol.
- Gwelliannau i fynediad: Gwella llwybrau at ddefnydd cyhoeddus.
- Cefnogi sgiliau gwledig fel codi waliau cerrig, plygu perthi, coedlannu ac ati trwy brentisiaethau, cyfleoedd gwirfoddoli, comisiynu crefftwyr medrus a gweithio gyda cholegau.

D. Cyfraniad at Nodau Cenedlaethol

Mae APCau yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 (i bennu a chyhoeddi amcanion llesiant) a gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gyflawni polisi cenedlaethol ar lefel leol trwy eu dibenion statudol. Mae hyn yn cyd-fynd â'u gweithgareddau mewn perthynas â tharged 30 erbyn 30 Cymru (diogelu 30% o dir a dŵr ar gyfer natur erbyn 2030) a chefnogi rheolwyr tir gyda'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd, sy'n hybu gwydnwch yn wyneb newid hinsawdd a bioamrywiaeth ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd.

E. Cynhyrchu Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol

Mae gan APCau ddyletswydd statudol o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i baratoi Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol sy'n rhoi arweiniad ar gyfer cynllunio a rheoli'r ardal i gyflawni deilliannau y cytunwyd arnynt, gan ymgynghori yn ei gylch a'i gyhoeddi. Mae cyfranogiad y sector rheoli tir amaethyddol yn ystyriaethau pwysig ac yn rhan o'r Cynllun Rheoli er enghraifft dull Parc Cenedlaethol Eryri o ymdrin â phroses y cynllun rheoli.¹⁷⁶

Fel rhan o broses y cynllun rheoli, mae a66(7A)(c) Deddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud hi'n ofynnol i APC roi sylw i'r adroddiad rheoli tir yn gynaliadwy a gyhoeddwyd o dan adran 6 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

2. Lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd

Byddai APC newydd, yn dilyn ei sefydlu, yn cael Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth oddi wrth Lywodraeth Cymru, a hwnnw'n nodi'r blaenoriaethau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhoi cymorth grant. Mae Llythyr Tymor y Llywodraeth at yr APCau presennol a anfonwyd ym mis Mai 2022¹⁷⁷ yn nodi y dylai gwaith APCau gyd-fynd ag Amcanion Llesiant allweddol, gan gynnwys:

- Adeiladu economi gryfach, wyrddach wrth i ni wneud y cynnydd mwyaf posibl tuag at ddatgarboneiddio.

¹⁷⁶ Cynllun Eryri - Awdurdod y Parc

¹⁷⁷ Eich cyf

- Gwreiddio ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.
- Cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu.

Mae hyn yn nodi uchelgeisiau Gweinidogion Cymru i'r 'Parciau Cenedlaethol ddod yn batrymau enghreifftiol o ran ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur'. Mae'r angen am ddull cydweithredol ar draws y Tirweddau Dynodedig yn cael ei ategu trwy nifer o swyddi strategol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu capasiti a chynghor strategol mewn perthynas ag adfer natur a datgarboneiddio. Bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn cael budd o weithio ar y cyd a chymorth i ddarparu capasiti ac arbenigedd ar gyfer cyflawni'r ddau faes hyn sy'n flaenoriaeth.

Yn ogystal â chyllid craidd gan Lywodraeth Cymru i APCau, ategir y ffocws blaenoriaethol hwn hefyd trwy'r gronfa buddsoddi cyfalaf Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy sy'n wedi'i bwriadu i gyflymu datgarboneiddio, adferiad natur, cefnogi cymunedau gwydn a thwristiaeth gynaliadwy. Mae APCau hefyd mewn sefyllfa dda i gyflawni mewn ymateb i heriau'r hinsawdd trwy'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, Rhwydweithiau Natur a mecanweithiau cyflawni eraill.

Mae Canllawiau Cynlluniau Rheoli CNC (2024)¹⁷⁸ yn nodi'r flaenoriaeth i APCau liniaru ac addasu i heriau newid hinsawdd, ochr yn ochr ag ymateb i'r argyfwng adfer natur.

Er mwyn cefnogi datblygiad ecosystemau a chymunedau gwydn trwy reoli tir yn gynaliadwy, mae APCau yn gweithio ar y cyd gyda rheolwyr tir i liniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd a datgarboneiddio. Yn gryno, byddai'r rhain yn cynnwys:

Gwella iechyd y pridd i leihau diraddiad ac erydiad

Gall rhai arferion amaethyddol, yn enwedig ar lethrau serth a chnydau ungnwd fel indrawn, arwain at gywasgu pridd, lleihau deunydd organig, ac erydiad.

- Mae datrysiadau sy'n seiliedig ar natur yn cynnwys cyflwyno clustogfeydd glannau afonydd, cnydau gorchudd, ac amaeth-goedwigaeth yn y lleoliad priodol a all wella strwythur y pridd a sefydlogi banciau.
- Mae'r Rhwydwaith Ffermio sy'n Gyfeillgar i Natur yn darparu gwybodaeth ac astudiaethau achos fel Fferm Glanllyn¹⁷⁹ yn Nyffryn Elwy ym Mharc Cenedlaethol Eryri, sydd wedi plannu gwyndynnydd llysieuol a choed ar gyfer gwell ymdreiddiad pridd ac wedi lleihau colled pridd o'r fferm i'r afon yn sylweddol.

Lleihau perygl llifogydd a llifoedd dŵr brig

Mae gorlifoedd sydyn mewn dalgylchoedd ucheldirol yn niweidio ffermydd, cartrefi a seilwaith.

¹⁷⁸ [Canllawiau Cynlluniau Rheoli Tirweddau Dynodedig](#)

¹⁷⁹ [Preventing flood damage on a farm in North Wales | Nature Friendly Farming Network, NFFN](#)

- Mae datrysiadau sy'n seiliedig ar natur fel mawnogydd wedi'u hail-wlychu, gwlyptiroedd wedi'u hadfer, a gorlifdiroedd wedi'u hehangu yn arafu dŵr ffo.
- Mae ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn darparu bron i hanner y dŵr yfed y mae Dŵr Cymru yn ei gyflenwi bob dydd. Mae prosiect Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog¹⁸⁰ yn gydweithrediad rhwng Dŵr Cymru, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a rheolwyr tir. Mae'n ddull integredig, sy'n gweithio ar reoli dalgylch ar raddfa tirwedd i wella ansawdd dŵr a lleihau llifoedd brig.

Ansawdd dŵr gwael o ddŵr ffo sy'n cynnwys maethynnau a gwaddod

Gall dŵr ffo amaethyddol gario nitradau, ffosffadau a gwaddodion i afonydd, sy'n gallu achosi niwed i gynefinoedd a dalgylchoedd.

- Mae atebion sy'n seiliedig ar natur yn cynnwys creu coridorau coed, sribedi clustogi wedi'u ffensio i ryng-gipio dŵr ffo fferm cyn iddo fynd i mewn i'r afon ac ailgysylltu afonydd â'u gorlifdiroedd.
- Enghraifft: Yn Ardal Cadwraeth Arbennig Cleddau Wen ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro,¹⁸¹ plannodd CNC 6,500 o goed ac 1 km o ffensys, gan hidlo maetholynnau'n sylweddol cyn iddynt gyrraedd yr afon.

Dirywiad bioamrywiaeth a darnio cynefinoedd

Mae rhai defnyddiau tir yn lleihau amrywiaeth rhywogaethau ac yn tarfu ar rwydweithiau ecolegol. Ceir pwysau eraill gan gynnwys rhywogaethau goresgynnol, dirywiad peillwyr, tymheredd sy'n cynhesu a risg uwch o danau gwyllt.

- Mae datrysiad sy'n seiliedig ar natur yn cynnwys creu coridorau cynefinoedd, adfer mawndiroedd a choetiroedd, a chysylltu tirweddau lled-naturiol.
- Argymhellodd Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru y dylid treblu targedau adfer mawndiroedd (i 1,800 ha/flwyddyn) a gwella cysylltedd ar draws Parciau Cenedlaethol.
- Gan ddefnyddio Cyllid Gwyrdd ac ehangu ar waith blaenorol yn y Migneint, mae Parc Cenedlaethol Eryri a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gwneud gwaith adfer gorgorsydd¹⁸² sy'n anelu at ail-wlychu tua 12 hectar o fawndiroedd dros y tair blynedd nesaf, gan roi hwb i gadw dŵr a lleihau brigau llifogydd.

Gwydnwch yn wyneb newid hinsawdd a dal a storio carbon

Mae ffermydd yn wynebu patrymau tywydd ansicr, a'r angen i ddatgarboneiddio'r sector a lleihau costau mewnbwn.

- Mae datrysiadau sy'n seiliedig ar natur yn cynnwys adfer mawndiroedd, creu coetiroedd, ac ail-wlychu tiroedd i storio carbon a chlustogi rhag eithafion hinsawdd. Mae hyn yn cefnogi trawsnewid i arferion ffermio cynaliadwy.

¹⁸⁰ [Preventing flood damage on a farm in North Wales | Nature Friendly Farming Network, NFFN](#)

¹⁸¹ [CNC / Afon Cleddau yn elwa o ddau brosiect adfer cynefinoedd afon](#)

¹⁸² [Admiral yn ariannu gwaith adfer mawndiroedd yn Eryri | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol](#)

- Enghraifft: Mae rhaglenni adfer mawndiroedd ar draws Parciau Cenedlaethol Cymru yn dal carbon, yn gwella gwydnwch yn wyneb sychder, ac yn cefnogi bioamrywiaeth yn yr ucheldir.

3. Cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu;

Mae cefnogi adferiad natur ac ymdrin â newid hinsawdd yn ddaliadau craidd yn y cynnig hwn fel y'u nodir yn Argymhelliad yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth(2018):¹⁸³

- Sicrhau bod dynodi Parc Cenedlaethol posibl newydd yng ngogledd-ddwyrain Cymru yn cynnig cyfleoedd i liniaru ar effeithiau newid hinsawdd ac adfer natur fel blaenoriaethau cyflawni allweddol i'r Parc newydd.

Mae Asesiad llawn o'r Effaith ar Fioamrywiaeth ar gael yn Atodiad F o'r Asesiad Effaith Integredig hwn.

4. Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd atynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.

Ymdrinnir â'r agweddau hyn fel a ganlyn:

- Llesiant cymdeithasol, cyfeiriwch at Adran 2 o'r asesiad effaith integredig hwn
- Treftadaeth Ddiwylliannol, cyfeiriwch at Adran 3 o'r asesiad effaith integredig hwn.
- Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, cyfeiriwch at adran 2.5 o'r asesiad effaith integredig hwn.
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, cyfeiriwch at Atodiad B o'r asesiad effaith integredig hwn.
- Y Gymraeg, cyfeiriwch at Adran E o'r asesiad effaith integredig hwn.

Bydd hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardal o fewn y Parc Cenedlaethol yng nghefn gwlad yn un o ddibenion statudol y Parc Cenedlaethol newydd ac felly bydd yn cefnogi'r Amcan hwn o ran Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Mae'r Parciau Cenedlaethol presennol yng Nghymru'n gwneud gwaith i ddatblygu cefn gwlad mwy croesawgar trwy gyfuno gwelliannau i'r seilwaith pwrpasol, cynllunio cynhwysol, a chynnal a chadw parhaus i uwchraddio mynediad. Mae enghreifftiau o brosiectau mynediad a mentrau o'r Parciau Cenedlaethol presennol yn cynnwys:

Parc Cenedlaethol Eryri – menter Mynediad i Bawb

Mae Eryri yn cynnig Rhaglen Mynediad i Bawb pwrpasol, sy'n darparu gwybodaeth fanwl am lwybrau, teithiau a chyfleusterau ymwelwyr hygyrch. Mae'n cynnwys canllawiau ar lwybrau addas ar gyfer cadeiriau olwyn a chymhorthion symudedd ac yn cysylltu'n

¹⁸³ Archwiliad dwfn bioamrywiaeth: argymhellion [HTML] | LLYW. CYMRU

uniongyrchol ag ymwelwyr i deilwra cymorth gan gynnwys llogi Tramper. Mae'r fenter yn sicrhau y gall unigolion ag anableddau fwynhau tirweddau fel Aber y Fawddach, llwybrau coedwigoedd, a dyffrynnoedd yr ucheldir.¹⁸⁴

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Gwelliannau i Lwybr Arfordir Penfro

Mae gwaith yr Awdurdod ar y Llwybr Cenedlaethol¹⁸⁵ yn cynnwys arolygon blynyddol, clirio, atgyweiriadau strwythurol, ac uwchraddio gatiau a chamfeydd—gan ddisodli dros 400 o gamfeydd â gatiau, gwella wynebau a draenio, ac ailgyfeirio rhannau o lwybrau yr effeithir arnynt. Mae'r uwchraddiadau hyn yn gwella mynediad yn sylweddol, yn enwedig i deuluoedd, ymwelwyr oedrannus, a'r rhai sydd â symudedd cyfyngedig.

Bydd cyflwyno'r cynnig i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd a sefydlu APC newydd yn helpu i gyflawni ystod o flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru. Er y cydnabyddir y gallai fod rhai effeithiau mewn perthynas â gwahanol Hawliau Datblygu a Ganiateir, amgylchedd cynllunio mwy cyfyngol, pwysau yn sgîl niferoedd ymwelwyr uwch, ceir hefyd gyfleoedd ar gyfer cydweithio rhwng yr APC newydd a'r sector amaethyddol. Ceir manteision ehangach hefyd o ran cael mynediad at gyfleoedd cyllid newydd i gefnogi ffermio sy'n gyfeillgar i natur, lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd a chynghor arbenigol.

¹⁸⁴ [Mynediad i Bawb | Parc Cenedlaethol Eryri](#)

¹⁸⁵ [Mynediad a Hawliau Tramwy - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro](#)

D. SGRINIO AR GYFER ASESU'R EFFAITH AR DDIOGELU DATA

Daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen Asesiad Effaith Diogelu Data yng ngham cyntaf y broses. Byddai hyn yn cael ei adolygu pe bai'r cynnig yn symud i'r ail gam.

E. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu cwrpas y gweithgareddau a all effeithio ar yr iaith.

Fel rheol gyffredinol, os oes gan eich polisi'r potensial i effeithio ar bobl, bydd yn effeithio mewn rhyw ffordd ar siaradwyr Cymraeg ac felly ar y Gymraeg.

1. A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – [Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr](#) a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026? [Cymraeg 2050: rhaglen waith 2021-2026](#)

Yn ei Rhaglen Lywodraethu (2021-2026), nododd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd yn seiliedig ar Dirwedd Genedlaethol bresennol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Mae Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn cael eu dynodi gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn amodol ar gadarnhad gan Weinidogion Cymru. Mae Parciau Cenedlaethol yn cael eu creu at ddau ddiben statudol:

- gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardaloedd o fewn Parciau Cenedlaethol;
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardaloedd hynny.

Bu gan amgylchedd naturiol Cymru rôl bwysig wrth siapio'r Gymraeg. Mae'r tirweddau garw, gan gynnwys mynyddoedd, cymoedd ac arfordiroedd, wedi ynysu cymunedau'n hanesyddol, gan alluogi'r Gymraeg i ddatblygu tafodieithoedd unigryw a chynnal ei hunigrywiaeth.¹⁸⁶ Hefyd, mae harddwch naturiol Cymru wedi ysbrydoli traddodiad cyfoethog o farddoniaeth a llenyddiaeth Gymraeg, gan wreiddio'r iaith ymhellach yn hunaniaeth ddiwylliannol y rhanbarth. Mae ymdrechion i warchod y Gymraeg wedi'u cysylltu'n agos â pholisïau amgylcheddol, gan bod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

¹⁸⁶ [Hanes y Gymraeg | Croeso Cymru](#)

yn hanfodol i gynnal treftadaeth ddiwylliannol a llesiant cymunedau ledled Cymru, gan gynnwys cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Mae'r strategaeth 'Cymraeg 2050' ar gyfer y Gymraeg yn cynnwys dau brif darged:

- nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd miliwn erbyn 2050; a
- chanran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10% (yn 2013-2015) i 20% erbyn 2050.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, mae *Cymraeg 2050* yn seiliedig ar dair thema strategol:

1. cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg;
2. cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; a
3. creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.

Nid yw dynodiad arfaethedig Parc Cenedlaethol newydd yn ceisio cyfrannu'n uniongyrchol at gyrraedd dau brif darged *Cymraeg 2050*. Fodd bynnag, gellir ei gysylltu â thema 2 – *cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg* – a thema 3 – *creu amodau ffafriol*.

Bydd APC newydd yn cyfrannu at nodau ac amcanion Cymraeg 2050, trwy ei waith craidd fel awdurdod cyhoeddus yng Nghymru, yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg, diwylliant a threftadaeth yr iaith, yn cyflogi siaradwyr Cymraeg, yn darparu cyfleoedd i staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, ac yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg i'r cyhoedd, cwsmeriaid, rhanddeiliaid a staff.

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn gwneud safonau'n benodol berthnasol i APCau yng Nghymru fel categori o gyrff. Felly, mae gan Gomisiynydd y Gymraeg bwerau i osod safonau sydd o fewn y Rheoliadau hynny ar unrhyw APC yng Nghymru a gallai ddechrau'r broses o gyhoeddi hysbysiad cydymffurfio i Barc Cenedlaethol newydd unwaith y bydd wedi'i sefydlu. Mae'n debygol felly y bydd yr APC newydd yn ymuno â'r APCau eraill¹⁸⁷ yng Nghymru ac yn dod yn ddarostyngedig i Safonau. Mae Safonau Hyrwyddo yn berthnasol i APCau ac yn cynnwys dyletswydd i fabwysiadu Strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn y Parc Cenedlaethol.

Yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus¹⁸⁸, ymatebodd 749 (49%) o blaid defnyddio Parc Cenedlaethol - Glyndŵr - fel enw'r Parc Cenedlaethol. Bydd enw Cymraeg yn unig yn cynorthwyo'r Awdurdod i fod â hunaniaeth Gymraeg o'r cychwyn cyntaf. Gall y Parc hefyd

¹⁸⁷ [awdurdod-parc-cenedlaethol-eryri.pdf](#) ac [awdurdod-parc-cenedlaethol-arfordir-penfro.pdf](#) a [parc-cenedlaethol-bannau-brycheiniog.pdf](#)

¹⁸⁸ [Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru - Ymgynghoriad Cyhoeddus 2024 - Citizen Space CNC - Citizen Space](#)

fod o dan ddyletswyddau statudol trwy safonau darparu gwasanaethau i fod â hunaniaeth gorfforaethol Gymraeg. Fel y Parc Cenedlaethol cyntaf yng Nghymru a ddyfeisiwyd yn bennaf er budd cymunedau yng Nghymru, mae hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer gwreiddio'r Gymraeg a'i diwylliant yng ngwaith a threfniadau llywodraethu beunyddiol yr Awdurdod.

2. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella deilliannau ar gyfer y Gymraeg. Sut fydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (yn effeithiau cadarnhaol a/neu anffafriol)? Dylech nodi eich ymatebion i'r canlynol yn eich ateb i'r cwestiwn hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

Yn ymgynghoriad 2024, roedd 144 (12.8%) o ymatebwyr yn teimlo y byddai dynodi Parc Cenedlaethol yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, trwy hyrwyddo'r iaith a'i diwylliant yn fwy i gynulleidfa ehangach. Byddai staff Cymraeg sy'n ymdrin â'r cyhoedd, a gyflogir gan yr APC a'r diwydiant twristiaeth yn yr ardal o fewn ei ffiniau, yn cael eu hannog i siarad mwy o Gymraeg e.e. *'Cynyddu effeithiau cadarnhaol trwy amlygu mwy o bobl i'r iaith a diwylliant Cymraeg'*.

Fodd bynnag, roedd 201 (17.9%) o ymatebwyr yn teimlo y byddai effaith negyddol ar y Gymraeg. Mae ymatebwyr yn credu na fyddai'r dynodiad yn helpu'r defnydd o'r iaith, oherwydd bod y ffin arfaethedig yn agos at y ffin gyda Lloegr a dinasoedd mawr Lloegr. Maen nhw'n teimlo mai Saesneg fyddai'r iaith a ddefnyddir fynychaf, gan arwain at lai o ddefnydd o'r Gymraeg. Ni fyddai ymwelwyr yn gwerthfawrogi pwysigrwydd yr iaith i ddiwylliant a threftadaeth Cymru ychwaith.

Mae data'r cyfrifiad yn dangos bod y Gymraeg yn dirywio ledled Cymru. Byddai dynodi Parc Cenedlaethol newydd yn darparu cyfleoedd newydd i warchod y Gymraeg yn yr ardal. Byddai'r rhai sy'n ymweld â'r ardal yn agored i'r iaith ac elfennau o ddiwylliant Cymraeg, trwy arwyddion a gwybodaeth yn Gymraeg, mewn trafodaeth gyda'r Is-adran Drafnidiaeth, Croeso Cymru ac Awdurdodau Lleol. Mae hyn o gymorth i gadw'r defnydd o enwau Cymraeg i sicrhau nad ydynt yn cael eu colli:-

Mae sicrhau defnydd o enwau lleoedd Cymraeg yn rhoi cyfle i ymgysylltu ac esbonio eu hystyr. Byddai datblygu atyniadau i ymwelwyr yn gwella amlygrwydd yr iaith ymhellach, gyda chyfle i ymwelwyr ddysgu geiriau ac ymadroddion Cymraeg sylfaenol. Mae hyn yn ychwanegu gwerth o ran diwylliant a threftadaeth, gan helpu pobl i ddeall ystyron enwau lleoedd, sut i'w ynganu, ac atal enwau answyddogol rhag disodli enwau Cymraeg.

Byddai siaradwyr Cymraeg lleol yn cael cyfle i hyrwyddo a dathlu eu hiaith a'u treftadaeth gydag eraill. Byddai ganddynt hefyd obeithion i gael eu recriwtio trwy'r gofyniad i APC newydd fod â rolau lle siaredir Cymraeg a darparu cyfleoedd hyfforddi. Gallai'r cynnig felly gynyddu nifer y siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn yr ardal. Bydd yr Awdurdod yn


gweithredu'n ddwyieithog ac yn ystod y broses o'i sefydlu bydd yn ystyried ai Cymraeg ddylai iaith weinyddol yr Awdurdod fod, fel APC Eryri.

Mae gan yr APC, fel sefydliad a chyflogwr newydd, y potensial i gael effaith gadarnhaol ar ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn ei ffiniau, oherwydd ei bwrpas, ei rolau a'i gyfrifoldebau fel sefydliad. Trwy weithredu ei bolisiâu a'i strategaethau deddfwriaethol (y byddai'n ofynnol iddynt fod ar waith) byddai hyn yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn gadarnhaol.

Ni fyddai'r dynodiad ei hun yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

Sut fydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith¹⁸⁹ (effeithiau cadarnhaol a/neu anffafriol)?

¹⁸⁹ Gall y rhain fod yn gymunedau gwledig clòs, yn rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn lleoliadau trefol, ac mewn cymunedau rhithwir sy'n ymestyn ar draws mannau daearyddol [troednodyn o'r Asesiad Effaith Integredig nid cyfeirnod]



Mae'r map o'r ffin arfaethedig yn dangos y ceir sawl cymuned lle mae dros 50% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg, a lle mae'r iaith yn cael ei defnyddio fel iaith gymunedol. Mae'r dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg i'w gael yn y cymunedau ffermio a gwledig traddodiadol o fewn y ffin arfaethedig. Mae dynodi Parc Cenedlaethol yn darparu cyfleoedd ar gyfer arallgyfeirio i ddarparu ar gyfer y diwydiant twristiaeth a allai roi cyfle i gefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg. Byddai APC newydd hefyd yn cefnogi cyfleoedd ar gyfer mwy o ddefnydd o'r iaith mewn cymunedau â <50% o siaradwyr Cymraeg, megis cymryd rhan mewn digwyddiadau dwyieithog neu i ddysgwyr/siaradwyr Cymraeg. Mae enghreifftiau o Barciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru'n cynnwys gŵyl gymunedol Tir a Môr ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro lle

mae'r Gymraeg yn amlwg iawn¹⁹⁰ neu Wyl Awyr Dywyll Bannau Brycheiniog sy'n cyfuno seryddiaeth, diwylliant a dysgu.¹⁹¹

Rhaid i APC roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ynghylch sut y gall rhai cyrff, gan gynnwys APCau yng Nghymru, gyfrannu at gasglu cofnodion yr amgylchedd hanesyddol a chynorthwyo i'w cynnal, a defnyddio'r cofnodion hyn wrth arfer eu swyddogaethau. Bydd y gwaith hwn yn helpu i sicrhau bod Enwau Lleodedd Hanesyddol Cymru'n parhau i gael eu defnyddio ar lafar a'u bod ar gof a chadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae gweithgarwch i ddiogelu enwau tirweddol hanesyddol yn cael ei arwain gan yr APCau yng Nghymru, gan gynnwys APC Eryri, sydd wedi gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Phrifysgol Caerdydd i safoni, cofnodi a chodi ymwybyddiaeth o enwau lleoedd. Mae'r ffocws hwn yn cefnogi defnydd parhaus, ymdeimlad o le, yn codi ymwybyddiaeth, a hefyd yn helpu i gynnal cysylltiadau rhwng cymunedau a lleoedd.

Cyhoeddodd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ei adroddiad 'Grymuso Cymunedau, cryfhau'r Gymraeg' ym mis Awst 2024. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 57 o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru a sefydliadau cyhoeddus eraill. Argymhellion craidd yr adroddiad oedd yr angen i ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uchel. Argymhellodd y Comisiwn drothwy o 40% (yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2021). Byddai hyn yn golygu y gallai cyfran fawr o ardal Parc Cenedlaethol Glyndŵr berthyn i'r dynodiad hwn. Felly, bydd adroddiad y Comisiwn yn cael ei ystyried yn llawn i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor yr iaith yn ardal yr APC. Hefyd, cyhoeddwyd adroddiad am Gynllunio Gwlad a Thref gan y Comisiwn ym mis Chwefror 2025, sy'n cynnig diwygio polisi a chanllawiau cynllunio mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'n briodol unwaith eto ystyried yr adroddiad a'i ganfyddiadau'n llawn ar ddechrau sefydlu'r awdurdod newydd.

Yn ymgynghoriad 2024, roedd 118 (10.5%) o ymatebion o'r farn y byddai'r dynodiad yn cael effaith ar yr iaith ac ar y gymuned a'r economi leol, neu newidiadau ynddi (gydag ymatebwyr yn gweld effeithiau cadarnhaol a negyddol).

Yn gadarnhaol, teimlwyd y byddai'r dynodiad yn arwain at fwy o falchder yn yr ardal ar gyfer cenedlaethau i ddod. Gallai hefyd ddarparu swyddi i bobl ifanc, gan eu helpu i aros yng Nghymru ac yn eu hardal leol. Byddai hyn yn helpu cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Roedd 172 (15.3%) o'r ymatebwyr o'r farn y byddai dynodiad yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg oherwydd newidiadau mewn argaeledd, costau a defnydd tai. Roedd pryderon a godwyd yn awgrymu y gallai fod cynnydd yn yr arfer o brynu'r stoc dai i'w defnyddio fel llety gosod byrdymor neu ail gartref gan bobl o'r tu allan i'r ardal. Byddai hyn yn lleihau argaeledd y stoc dai i bobl leol ac yn cynyddu prisiau tai. Byddai'n arwain at anawsterau i

¹⁹⁰ Tir a Môr - Gŵyl Tir a Môr | Ymweld â Sir Benfro

¹⁹¹ Gŵyl Awyr Dywyll 2025 ym Mannau Brycheiniog

bobl leol o ran gallu fforddio prynu cartref yn eu cymunedau a byddai felly'n effeithio ar gynaliadwyedd hirdymor cymunedau Cymraeg eu hiaith. Gallai o bosibl olygu bod siaradwyr Cymraeg, yn enwedig pobl ifanc, yn gadael yr ardal, a godwyd fel pryder yn ystod digwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori CNC¹⁹². Gallai'r APC (yn ei rôl fel Awdurdod Cynllunio) ymdrin â'r effaith hon trwy gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ystyried cymorth tai lleol a gosod cyfyngiadau cynllunio ar ail gartrefi; ar sefydlu llety gwyliau byrdymor a cheisiadau i newid cartrefi presennol yn fusnesau.

Codwyd rhai pryderon y bydd ymwelwyr yn siaradwyr Saesneg, ac felly y byddai'r gwasanaethau a'r arwyddion yn Saesneg, yn hytrach na bod y ffocws ar ddefnyddio arwyddion ac enwau lleoedd Cymraeg. Byddai APC newydd yn cyfrannu at nodau ac amcanion Cymraeg 2050, yn ogystal â bod yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg. Byddai hynny felly'n ymdrin â'r pryderon a godwyd.

Un o'r dibenion statudol sy'n sail i greu Parc Cenedlaethol newydd yw gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal. Bydd gwneud hyn o fudd yn anuniongyrchol i **gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg**. Bydd gweithgarwch adfer amgylcheddol yn cynyddu yn yr ardal. Bydd y gwasanaethau ecosystemau a ddarperir gan amgylchedd iachach yn cael effaith gadarnhaol ar y cymunedau lleol. Gall y manteision hyn gynnwys gwella llesiant, sicrhau dyfroedd glanach, gwella iechyd y pridd ac arwain at fwy o beillwyr, a fydd o fudd yn anuniongyrchol i'r Gymraeg trwy well ansawdd bywyd.

Mae APC newydd fel cyflogwr yn debygol o apelio at ystod eang o bobl. Mae nifer o'r rolau hyn yn rolau sy'n ymdrin â'r cyhoedd a fyddai'n cynnwys gofyniad am sgiliau Cymraeg. Mae APC newydd yn debygol o ddarparu cyflogaeth dda, yn ogystal â chyfleoedd datblygiad gyrfa. Gall hefyd helpu i leihau niferoedd y bobl ifanc a'r rhai â sgiliau Cymraeg sy'n allfudo o'u cymunedau lleol.

Sut fydd y cynnig yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu anffafriol)?

Ymatebodd 121 (10.8%) gan ddweud y byddai'r dynodiad yn effeithio ar yr iaith oherwydd addysg Gymraeg. Dylid nodi bod y farn hon yn adlewyrchu'r sylwadau a wnaed gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad; fodd bynnag, nid ystyrir bod hyn yn adlewyrchiad cywir o effeithiau dynodi ar addysg Gymraeg.

Mae'n bosibl y bydd ar rieni, ac yn enwedig y rhai sy'n datblygu eu sgiliau iaith ac sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal (megis trwy'r cyfleoedd cyflogaeth a gynigir gan yr Awdurdod newydd), eisiau i'w plant gael addysg cyfrwng Cymraeg gan helpu i gynnal y cymunedau hynny a'r iaith ar gyfer y dyfodol.

¹⁹² Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru - Citizen Space CNC - Citizen Space

Mae'r safonau o fewn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (rhif 1) 2015 yn cynnwys dyletswydd i asesu pob rôl newydd neu wag o fewn yr Awdurdod ar sail yr angen am sgiliau Cymraeg. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd i'r rhai sydd â sgiliau Cymraeg sicrhau rolau o fewn yr Awdurdod a chyfleoedd i eraill ddatblygu'r sgiliau hyn tra ydynt yn eu rolau.

Gallai fod dyletswyddau ar yr Awdurdod o dan safonau i fod â pholisi iaith mewnol sy'n esbonio sut y bydd yn darparu cyfleoedd i staff ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Fel sefydliad cyhoeddus newydd, mae gan yr Awdurdod y potensial i ddatblygu ei hun fel gweithle dwyieithog yn ei ffyrdd o weithio o'r cychwyn cyntaf.

Sut fydd y cynnig yn effeithio ar wasanaethau¹⁹³ sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu anffafriol)? (e.e. gwasanaethau iechedd a chymdeithasol, trafndiaeth, tai, digidol, ieuenctid, seilwaith, yr amgylchedd, llywodraeth leol ac ati)

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, bydd Safonau'r Gymraeg yn cael eu gosod ar yr Awdurdod gan Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd hyn yn sicrhau y bydd unrhyw wasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod yn cael eu darparu yn unol â gofynion y Safonau. Hefyd, bydd angen i unrhyw drydydd partion sy'n darparu gwasanaethau ar ran yr Awdurdod trwy drefniant ddarparu'r gwasanaethau hynny yn unol â Safonau'r Gymraeg a osodir ar yr Awdurdod¹⁹⁴. Mae'r gofynion o dan y Safonau hefyd yn debygol o gynnwys polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn y sefydliad at ddibenion hyrwyddo, hwyluso a chryfhau'r defnydd o'r iaith yn fewnol ac yn allanol. Byddai'n ofynnol i'r polisi gael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod, gan esbonio pa wasanaethau y byddai'n eu darparu i'r cyhoedd a'i staff ei hun yn Gymraeg a sut.

Mae'n debygol y bydd y Safonau hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Awdurdod ddatblygu Strategaeth Hybu'r Gymraeg¹⁹⁵ sy'n nodi sut mae'n bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn ei ardal, ar ei wefan, gan gynnwys y canlynol o bosibl:

- Targed i gynyddu (neu o leiaf gynnal) canran y siaradwyr Cymraeg yn ei ardal,
- Strategaeth sy'n esbonio sut mae'n bwriadu cyrraedd y targed hwn,
- Ar ôl pum mlynedd, asesu cynnydd (sy'n cwmpasu niferoedd siaradwyr cyfredol, proffiliau oedran, a gweithgareddau hyrwyddo) a chyhoeddi'r canfyddiadau.

Byddai Deddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r APC baratoi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Byddai'r cynllun yn cynnwys sut y byddai'r Awdurdod yn gofalu am gefn gwlad, cadwraeth a bywyd gwyllt, diwylliant a threftadaeth ac unrhyw nodweddion arbennig eraill o fewn ffin y parc. Byddai ystyriaethau

¹⁹³Mae Strategaeth y Gymraeg yn amcanu at gynyddu'r ystod o wasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a dwyn cynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg. [troednodyn o'r Asesiad Effaith Integredig]

¹⁹⁴ Adran 1. (5) (a) a (b) Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (rhif 1) 2015 [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 1\) 2015](#)

¹⁹⁵ <https://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/media/tz5jfy1u/20181031-gc-safonau-yngghylch-hybur-gymraeg-cymraeg-terfynol.pdf>

o ran y Gymraeg yn cael eu hystyried fel rhan o ddatblygu'r cynllun fel thema drawsbynciol yn ogystal â gofynion Safonau Llundain Polisi o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Byddai'r Awdurdod dan rwymedigaeth statudol i ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) sy'n nodi fframwaith cynllunio defnydd tir ar gyfer y Parc Cenedlaethol ac yn darparu sylfaen i benderfynu ar geisiadau cynllunio o fewn ffin y parc. Wrth ei ddatblygu, byddai angen i'r cynllun ystyried strategaethau, materion ac amcanion lleol ac ystyried sut y byddai'r cynllun yn debygol o effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg a chynaliadwyedd cymunedau. Byddai'r cynllun yn dod â chysondeb i ddatblygiadau o fewn ffin y parc sydd ar hyn o bryd yn gyfrifoldeb i'r 5 awdurdod lleol o fewn ffin arfaethedig y parc. Ar hyn o bryd, mae gan bob un ohonynt eu CDLI eu hunain a blaenoriaethau ac amcanion gwahanol mewn perthynas â diogelu'r Gymraeg, ei threftadaeth a'i diwylliant, a diogelu cymunedau Cymraeg rhag dirywiad pellach. Bydd yr awdurdod newydd yn adeiladu ar arferion gorau'r CDLIau presennol sy'n gweithredu yn yr ardal ar hyn o bryd ac yn eu hymgorffori, gan dynnu ar werthoedd a methodolegau arfarniadau o gynaliadwyedd awdurdodau cynllunio perthnasol sydd â nifer uchel o ardaloedd Cymraeg dwysedd uwch (h.y. Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri).

Bydd y Gymraeg yn rhan annatod o waith y Parc Cenedlaethol o'r cychwyn cyntaf. Bydd ei sefydlu'n codi ymwybyddiaeth o'r iaith a'i diwylliant i gynulleidfa ehangach nag ar hyn o bryd ac yn helpu i'w gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd yn sicrhau bod cynaliadwyedd y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw yn cael ei gefnogi fel un o uchelgeisiau craidd yr awdurdod newydd, gan felly gofleidio'n llawn y nodau yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i ddarparu'r amodau cywir i'r Gymraeg ffynnu.

Sut fyddwch chi'n sicrhau bod pobl yn gwybod am wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg ac yn gallu eu cyrchu a'u defnyddio mor hawdd ag y gallant yn Saesneg? Pa dystiolaeth / data ydych chi wedi'i d(d)efnyddio i oleuo eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau buddiant y Gymraeg?

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn cynnwys dyletswydd sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gorff hyrwyddo unrhyw wasanaethau Cymraeg y mae'n eu darparu a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg¹⁹⁶. Byddai hyn wrth gwrs yn dibynnu ar Safonau'r Gymraeg y mae'r Comisiynydd yn eu gosod ar yr Awdurdod.

Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?

Mae defnyddio tystiolaeth APCau presennol a CNC wedi helpu i gwblhau'r asesiad. Rydym yn fodlon bod y dystiolaeth yn adlewyrchu cwrdd cynhwysfawr o safbwyntiau.

Gan weithredu ar ran Llywodraeth Cymru, cynhaliodd CNC gyfnod o ymgysylltu cynnar yn 2023 a oedd wedi'i fwriadu i rannu'r ardal astudiaeth, gwrandao ar farn a chasglu gwybodaeth am faterion lleol. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cyfnod ymgysylltu trwy

¹⁹⁶ Safon 81 ac 82 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (rhif 1) 2015 [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 1\) 2015](#)

dudalen we a chyfyngau'r prosiect. Cafwyd 966 o ymatebion i'r holiadur ac fe luniwyd adroddiad cryno.¹⁹⁷ Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024.

Sut fyddwch chi'n gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?

Byddai'n ofynnol i APC newydd lunio a chyhoeddi cynllun corfforaethol ac adroddiad blynyddol. Dyma ffyrdd y gellir craffu ar yr Awdurdod a'i ddwyn i gyfrif.

Rhaid i APCau fod â strwythur llywodraethu fel a nodir yn Atodlen 7 Deddf yr Amgylchedd 1995. Bydd trefniadau llywodraethu penodol ar gyfer APC newydd yn cael eu nodi yn y Gorchymyn Sefydlu perthnasol. Mae Parciau Cenedlaethol yn cael eu llywodraethu gan aelodau, sy'n cynnwys aelodau awdurdodau lleol ac aelodau a benodir gan Weinidogion Cymru, i sicrhau atebolrwydd. Mae gan yr APCau presennol raniad sy'n golygu bod dwy ran o dair o'u haelodau'n cynrychioli awdurdodau lleol a thraean yn rhai a benodir gan Weinidogion Cymru fel bod yr holl weithrediadau'n atebol.

¹⁹⁷ [Cynnig%20Parc%20Cenedlaethol%20Newydd%20Cymru%20%20Adroddiad%20Cyfnod%20Ymgysylltu%202023.pdf](#)

Atodiad F Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth

Cynigion Polisi

Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn ystyried yr ystod o effeithiau mewn perthynas â chyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i 'Ddynodi Parc Cenedlaethol newydd i gwmpasu Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.' Mae hyn yn cynnwys sefydlu Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) newydd ar ôl dynodi a chreu Parc Cenedlaethol newydd yn gyfreithlon.

Mae Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn cael eu dynodi gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn amodol ar gadarnhad gan Weinidogion Cymru. Mae Parciau Cenedlaethol yn cael eu creu at ddau ddiben statudol:

- gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardaloedd o fewn Parciau Cenedlaethol;
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardaloedd hynny.

Mae dynodi Parc Cenedlaethol newydd a sefydlu APC newydd i lywodraethu a rheoli'r Parc Cenedlaethol newydd yn digwydd mewn dau gam:

Cam 1

Mae meini prawf penodol, gan gynnwys harddwch naturiol a chyfleoedd hamdden awyr agored ardal, yn cael eu hasesu gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n arwain at adnabod ardal sy'n bodloni'r profion statudol o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (Deddf 1949) i gael ei dynodi fel Parc Cenedlaethol. Yn dilyn y broses ymgynghori statudol a phenderfyniad Bwrdd CNC, mae'n debygol y bydd Gorchymyn Dynodi a map yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru. Yna bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried y gorchymyn dynodi a gyflwynwyd gan CNC ochr yn ochr â'r meini prawf a nodir yn Neddf 1949, ynghyd ag unrhyw wrthwynebiadau a sylwadau. Efallai y bydd angen cynnal ymchwiliad lleol cyhoeddus fel rhan o'r broses hon. Os gwneir penderfyniad i gadarnhau'r gorchymyn dynodi, bydd Parc Cenedlaethol newydd yn dod i fodolaeth.

Cam 2

Os caiff y gorchymyn ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru, bydd yr ardal a adnabuwyd yn dod yn Barc Cenedlaethol. Y bwriad yw gwneud gorchymyn sefydlu mewn cysylltiad â dynodi'r Parc Cenedlaethol newydd, gan sefydlu APC. Fel awdurdod lleol diben arbennig, bydd gan yr APC newydd swyddogaethau sy'n ymwneud â dibenion gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc hwnnw. Bydd yn gyfrifol am rai swyddogaethau a gyflawnir gan awdurdodau lleol gan gynnwys rheoli a pholisi datblygu, cynhyrchu cynllun rheoli Parc Cenedlaethol, trefniadau llywodraethu, a chyflawni polisi trwy amryw fecanweithiau rheoli tir uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Mae'r cam cychwynnol yn annhebygol o fod â chyfleoedd uniongyrchol ar lawr gwlad i gynnal a gwella bioamrywiaeth; fodd bynnag, mae'n dynodi bod angen rhoi ystyriaeth arbennig i'r maes hwn wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau. Mae gan yr ail gam gyda rhoi'r APC newydd ar waith botensial i gyfrannu'n fwy uniongyrchol, ar lefel ymarferol, at wireddu ein huchelgeisiau bioamrywiaeth, cynyddu proffil bioamrywiaeth ac integreiddio hynny fel rhan o wneud penderfyniadau.

Mae'r Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ddynodi am resymau sy'n cynnwys ei harddwch naturiol, a'i werth hamdden a thirwedd, er nad dynodiad cadwraeth megis Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, sydd er mwyn cadwraeth natur ac at y diben hwnnw yn unig, mohono. Mae Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn cael eu cydnabod gan yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur fel Ardaloedd Gwarchodedig Categori V¹⁹⁸ (tirweddau byw, sy'n gweithio). Ar y sail hon, bydd rhai rhannau o'r Parc Cenedlaethol newydd hefyd yn cyfrif tuag at Darged 30 erbyn 30 Cymru, er na fydd pob ardal yn gymwys.

Mae'r tri APC presennol yng Nghymru'n darparu templed ar gyfer sut y byddem yn disgwyl i APC Glyndŵr newydd yng Nghymru arwain, cynllunio, rheoli a chyflawni blaenoriaethau cenedlaethol mewn cyd-destun lleol. Felly, defnyddir enghreifftiau o APCau presennol drwy'r asesiad hwn i ddangos sut y mae'r APC newydd yn debygol o weithredu a chyflawni.

Fframwaith Deddfwriaethol

Bydd yn ofynnol i'r APC newydd gydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol bresennol ac mewn rhai achosion bydd ganddo ddyletswyddau penodol o dan y ddeddfwriaeth honno. Mae'r gyfres o ddeddfwriaeth bresennol sy'n berthnasol i Barciau Cenedlaethol yng Nghymru'n cynnwys:

- Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949
- Deddf Cefn Gwlad 1968
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- Deddf yr Amgylchedd 1995
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

¹⁹⁸ Categoriâu Rheoli'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur [IUCN-Protected-Areas-Categories-.pdf](#) Nodyn Mae Parc Cenedlaethol Categori II yn llai priodol ar gyfer Parc Cenedlaethol yn y DU oherwydd bod peth o'r ardal yn cynnwys aneddiadau a chymunedau, ac yn peidio â chynnwys ardaloedd mawr o brosesau ecosystemau naturiol. Felly, mae Parciau Cenedlaethol yn y DU a rhai rhannau o Ewrop yn aml yn rhai Categori V.

- Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) (gan dybio y rhoddir cydsyniad iddo)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LICD) rhaid i'r APC newydd nodi a chyhoeddi amcanion sydd wedi'u bwriadu i gynyddu i'r eithaf ei gyfraniad at gyflawni pob un o'r nodau llesiant. Rhaid iddo hefyd gymryd pob cam rhesymol (wrth arfer ei swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny. Mae'r nodaun cynnwys: 'Cymru gydnerth - Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).' Mae APC ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru'n dod o fewn ystyr 'corff cyhoeddus' yn Neddf 2015, a bydd yr APC newydd felly'n ddarostyngedig i ddyletswyddau a osodir ar gorff cyhoeddus o dan y Ddeddf. Mae APCau presennol yn llunio cynlluniau corfforaethol sydd wedi'u fframio ar sail cyrraedd y Nodau Llesiant ac yn datblygu eu hamcanion llesiant eu hunain. Er enghraifft, Amcan Llesiant cyntaf Cynllun Corfforaethol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yw:

'Amcan Llesiant Cadwraeth – Cyflawni adferiad natur a chysylltedd ar raddfa, fel bod natur yn ffynnu yn y Parc, gan gyfrannu at ddiogelu 30% o'n tir a'n moroedd ar gyfer natur erbyn 2030.'

Mae hyn yn dangos perthnasedd APCau mewn perthynas ag ystyriaethau i fioamrywiaeth. Disgwylir y byddai Parc Cenedlaethol newydd yn dilyn egwyddorion cynllunio corfforaethol tebyg, gan wneud Deddf LICD yn greiddiol i'r modd y mae'n cynllunio gwaith a'i ffocws ar gyfer cyflawni.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Rhaid i'r APC newydd gydymffurfio â'r gofyniad yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (adran 6) bod rhaid i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, a thrwy hynny hyrwyddo gwydnwch ecosystemau, hyd y bo'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.

Unwaith y bydd wedi cael ei sefydlu, bydd angen i'r APC newydd baratoi a chyhoeddi cynllun adran 6 i nodi sut y bydd yn cydymffurfio ag adran 6. Bydd hyn yn cynnwys nodi sut y bydd yn gwreiddio ystyriaeth i fioamrywiaeth ac ecosystemau mewn syniadau a chynlluniau busnes ar adeg gynnar, gan gynnwys unrhyw bolisiâu, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau yn ogystal â gweithgareddau o ddydd i ddydd. Bydd cynlluniau adran 6 yn y dyfodol yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd a chyflawni a bydd y cynllun adran 6 yn cael ei adolygu yng ngoleuni'r adroddiad. Gall y dull hwn gael ei wreiddio yng Nghynllun Corfforaethol y Parc Cenedlaethol newydd neu fel dogfen gysylltiedig. Yn ogystal ag adroddiad adran 6, gall yr APC newydd gynhyrchu Cynllun Gweithredu Adfer Natur sy'n nodi sut y bydd yn cyflawni'r 6 amcan i gynnal a gwella bioamrywiaeth.

Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

Mae'r Bil yn sefydlu rhai egwyddorion amgylcheddol penodol ac amcan amgylcheddol ac yn diwygio Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gyflwyno fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth sydd wedi'i fwriadu i atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus penodol, gan gynnwys APCau, i roi sylw i'r egwyddorion amgylcheddol wrth gyflawni eu swyddogaethau ac i sicrhau bod diogelu'r amgylchedd yn cael ei integreiddio wrth gynnal asesiad amgylcheddol (sy'n ymwneud yn gyfan gwbl â Chymru neu unrhyw ran o Gymru) o dan Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol sy'n disodli'r Rheoliadau hynny.

Mae'r Bil yn nodi bwriad Gweinidogion Cymru i gynnwys mewn rheoliadau rai awdurdodau cyhoeddus penodol a fydd yn gorfod adrodd ar eu cyfraniadau tuag at dargedau perthnasol. Disgwylir i APCau fod yn rhan o'r fframwaith adrodd ar dargedau bioamrywiaeth.

Gan nad yw'r Bil hwn yn rhan o'r llyfr statud eto, gall hyn gael ei ailystyried a'i ddiweddarau lle y bo angen os byddir yn bwrw ymlaen â Cham 2 y cynnig hwn.

Deddfwriaeth y DU

Mae cyfres o ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer Cymru a Lloegr sy'n ymwneud â Pharciau Cenedlaethol ac APCau. Y mwyaf nodedig yw Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 sef y darn sylfaenol ar gyfer dynodi Parc Cenedlaethol. Mae Adran 114 Deddf 1949 yn darparu bod cyfeiriadau at warchod neu ddiogelu 'harddwch naturiol' ardal yn cynnwys ystyriaeth i'w 'fflora, ei ffawna, a'i nodweddion daearegol a ffisiograffig'. Mae Adran 11A Deddf 1949 (a ychwanegwyd gan adran 62 Deddf yr Amgylchedd 1995) yn gosod dyletswydd ar gyrff penodol ac ymgymerydd statudol i roi sylw i ddibenion Parciau Cenedlaethol wrth arfer neu gyflawni unrhyw swyddogaethau mewn perthynas â thir mewn Parc Cenedlaethol yng Nghymru, neu sy'n effeithio arno, ac mae hefyd yn ymgorffori 'Egwyddor Sandford' (1A) sy'n rhoi blaenoriaeth i ddiben cyntaf Parciau Cenedlaethol (gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol) lle ceir gwrthdaro rhwng y dibenion.

Fframwaith Polisi

Y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol

Mae Polisi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar Adnoddau Naturiol (sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) yn nodi tair Blaenoriaeth Genedlaethol i helpu i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy:

- Darparu atebion sy'n seiliedig ar natur;
- Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau; a
- Defnyddio dull sy'n seiliedig ar leoedd.

Mae'r Polisi ar Adnoddau Naturiol yn cydnabod bod y manteision a'r gwasanaethau y mae tirweddau ecosystemau yn eu darparu i gymdeithas yn cynnwys:

- Gwasanaethau diwylliannol: megis hamdden a manteision cysylltiedig i iechyd a llesiant; ein hamgylchedd hanesyddol a gwerthfawrogiad o'n lleoedd, tirweddau a natur hardd

Fodd bynnag, mae gan reoli tirwedd hefyd rôl sylweddol mewn gwasanaethau a systemau eraill. Mae gweithio ar raddfa tirwedd yn darparu cyfleoedd i gydweithio i ddarparu cysylltedd a chynnal cynefinoedd a rhywogaethau.

Mae'r Polisi presennol ar Adnoddau Naturiol hefyd yn cydnabod pwysigrwydd Parciau Cenedlaethol fel elfen hanfodol o arlwy twristiaeth Cymru a'r angen i:

'... roi ystyriaeth lawn i amgylchedd naturiol Cymru, sy'n ased enfawr, ac ystyried sut i ddefnyddio'i bridweddau fel bod twristiaeth yn tyfu'n gynaliadwy.'

Mae'r Polisi ar Adnoddau Naturiol yn rhan o'r ystyriaethau o ran y fframwaith amgylcheddol ehangach y bydd APCau presennol a'r APC newydd yn gweithredu ynddo.

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) CNC

Canfu SoNaRR 2020 nad oes unrhyw ecosystemau yn dangos gwytnwch. Mae'r diweddariad ar ffurf Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025 (SoNaRR 2025) yn adnabod newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth a llygredd fel yr heriau amgylcheddol mwyaf dybryd a systemig sy'n wynebu Cymru. Mae'r pwysau hyn eisoes yn effeithio ar ecosystemau, yr economi a gwydnwch cymunedol. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad nad yw Cymru eto yn cyflawni'r amcanion hirdymor ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac mae'n tynnu sylw at yr angen i benderfyniadau polisi yn y dyfodol fod wedi'u gwreiddio gadarn yn y dystiolaeth hon i ddiogelu systemau naturiol a chefnogi llesiant cymunedol.

Pe bai'n cael ei ddynodi a'i sefydlu, byddai APC newydd yn gweithredu o fewn y fframwaith statudol presennol, sydd wedi'i fwriadu i warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal, ac i hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardal. Bydd adfer natur a lliniaru ac addasu i

effeithiau newid hinsawdd, trwy gyflawni dibenion statudol y Parc Cenedlaethol, yn ffocws pwysig i'r Parc Cenedlaethol newydd.

Mae adran 66(7A)(a) Deddf yr Amgylchedd 1995 yn nodi y dylai APCau roi sylw i SoNaRR wrth gyhoeddi, mabwysiadu neu adolygu eu cynlluniau rheoli Parc Cenedlaethol statudol. Mae APCau yn defnyddio tystiolaeth o SoNaRR i adnabod ac ymdrin â materion systemig sy'n effeithio ar eu hardaloedd i oleuo camau gweithredu yn eu cynllun rheoli Parc Cenedlaethol.

Datganiadau Ardal

Mae'n ofynnol yn ôl adran 66(7A)(b) Deddf yr Amgylchedd 1995 bod APCau yn rhoi sylw i ddatganiadau ardal perthnasol a gyhoeddwyd o dan adran 11 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wrth gyhoeddi, mabwysiadu neu adolygu eu cynlluniau rheoli Parc Cenedlaethol statudol. Mae APCau yn defnyddio tystiolaeth o Ddatganiadau Ardal i ddeall tueddiadau, heriau a chyfleoedd i fwydo i mewn i'w prosesau rheoli a gwneud penderfyniadau. Mae gan APCau hanes o gynnull ac arwain partneriaethau i gefnogi ymateb ar y cyd i faterion a adnabuwyd mewn Datganiadau Ardal. Fel rhan o'r ddyletswydd adran 6 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau, rhaid i APC roi sylw i unrhyw Ddatganiadau Ardal a gyhoeddwyd ar gyfer ardal sy'n cynnwys y cyfan neu ran o'r ardal y mae'r APC yn arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â hi.

Cynlluniau Gweithredu Adfer Natur

Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn adnabod chwe amcan a fydd yn cyfrannu at wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru, gan gynnwys mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd.

Mae APCau presennol Cymru'n cynhyrchu Cynlluniau Gweithredu Adfer Natur¹⁹⁹ i gynllunio a llywio gwaith Partneriaethau Natur Lleol. Mae'r rhain yn elfen allweddol o'u gweithgarwch a'u cymorth ar gyfer cyflawni mewn partneriaeth ehangach lle mae camau gweithredu adfer natur yn y cwestiwn.

Ceir ystod o gyfleoedd i'r APC newydd gyfrannu at gynnal a gwella bioamrywiaeth trwy ddarpariaethau statudol ac anstatudol presennol gan gynnwys:

- diben statudol y Parc Cenedlaethol i warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol.

¹⁹⁹ Enghreifftiau o Gynlluniau Gweithredu Adfer Natur APCau - [BBNPA-Nature-Recovery-A4-WEL-WEB.pdf](#) a [DRAFFT_Cynllun-Gweithredu-Adfer-Natur-Eryri.pdf](#)

- diben statudol y Parc Cenedlaethol i hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.
- y ddyletswydd statudol o dan adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ar awdurdodau cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, a thrwy wneud hynny hyrwyddo gwydnwch ecosystemau, hyd y bo'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.
- APC yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol sydd â swyddogaeth rheoli datblygu statudol, gan baratoi a chyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol.
- y Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol statudol a fydd yn asesu cyflwr sylfaenol presennol y Parc Cenedlaethol, gan nodi'r polisïau a'r camau gweithredu i gynllunio, llywio a rheoli ardal y Parc Cenedlaethol gan weithio mewn partneriaeth a chanolbwyntio ar fynd i'r afael ag adferiad natur a newid hinsawdd. Bydd hyn yn cynnwys mynd i'r afael â materion fel rheoli dalgylchoedd, yn enwedig yn yr ucheldiroedd, polisïau²⁰⁰/strategaethau Rhywogaethau Estron Goresgynnol a gweithredu ar lawr gwlad a darparu datrysiadau sy'n seiliedig ar natur.
- Cynhyrchu Cynllun Gweithredu Adfer Natur.
- Bydd rhai ardaloedd yn y Parc Cenedlaethol newydd yn cyfrif tuag at dargedau 30 erbyn 30.

Y Targed 30 erbyn 30 a'r Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth

Mae'r Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth wedi bod yn rhan allweddol o ymateb Cymru i darged byd-eang y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a adwaenir fel 30 erbyn 30, sef diogelu a rheoli 30 y cant o'n tir, ein dyfroedd croyw a'n moroedd erbyn 2030. Mae Fframwaith 30 erbyn 30 Cymru²⁰¹ (2025) yn amlinellu rôl estynedig o ran adfer natur a ddisgwylir gan Dirweddau Dynodedig (Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol/AHNEoedd) fel Ardaloedd Gwarchodedig Categori V²⁰².

Mae Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol yn rhan annatod o Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru, a gydnabu fod ganddynt 'rôl hanfodol i gefnogi adferiad natur'. Mae'r APCau ac Awdurdodau'r Tirweddau Cenedlaethol wedi bod yn gweithio ar y cyd i fwrw ymlaen â gwahanol ffrydiau gwaith o dan Grŵp Arbenigol Tirweddau Dynodedig yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth i ymdrin â rhwystrau, a bylchau mewn tystiolaeth i gefnogi uchelgeisiau i gyflawni mwy ar gyfer adferiad natur.

²⁰⁰ Polisi Rhywogaethau Estron Goresgynnol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro [Polisi Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr APC - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro](#)

²⁰¹ [Fframwaith 30 erbyn 30 i Gymru \[HTML\] | LLYW. CYMRU](#)

²⁰² Categoriâu Ardaloedd Gwarchodedig yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur. Mae Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn cael eu dosbarthu gan yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur fel Ardaloedd Gwarchodedig Categori V [IUCN-Protected-Areas-Categories-.pdf](#)

Roedd Argymhellion Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth 2022²⁰³ yn cynnwys argymhelliaid penodol a oedd yn ymwneud â'r Parc Cenedlaethol newydd, sef:

- Sicrhau bod dynodi Parc Cenedlaethol posibl newydd yng ngogledd-ddwyrain Cymru yn cynnig cyfleoedd i liniaru ar effeithiau newid hinsawdd ac adfer natur fel blaenoriaethau cyflawni allweddol i'r Parc newydd.

Mae Grŵp Arbenigol Tirweddau Dynodedig yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithas Ecologol Prydain ar sut y gall Tirweddau Dynodedig wneud mwy i gyfrannu at 30 erbyn 30. Mae'r adroddiad diweddaraf²⁰⁴ (Hydref 2025) yn nodi pam fod Tirweddau Dynodedig yn allweddol i adferiad natur yng Nghymru.

Un o ganlyniadau allweddol yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth yw bod rôl Rheolwr Adfer Natur ar y cyd wedi cael ei datblygu i weithio ar draws y Tirweddau Dynodedig i gynghori, cefnogi a helpu i gyflawni gweithgareddau adfer natur. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cefnogi'r gwaith hwn trwy'r Gronfa Gyfalaf Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy (SLSP):

Hyrwyddo bioamrywiaeth ac adfer byd natur – gan gynnwys prosiectau sy'n gwella cysylltedd a chydnerthedd ecosystemau mewn ardaloedd dynodedig, gan ddefnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur i liniaru yn erbyn effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Mae crynodebau o brosiectau bioamrywiaeth ac adfer natur a ariennir gan Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy ar gael ar wefan Tirweddau Cymru Landscapes Wales²⁰⁵

Mae Parciau Cenedlaethol wedi bod yn bartneriaid cyflawni allweddol ar gyfer mentrau fel y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, a'r Goedwig Genedlaethol, sydd i gyd yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng natur yn ogystal â'r argyfwng hinsawdd sy'n sbardun allweddol i golli bioamrywiaeth.

Mae Tirweddau Dynodedig yn darparu cyfle gwahanol ond ategol fel cyfrwng i gyrraedd y targed 30 erbyn 30. Diffinnir Tirweddau Dynodedig gan y rhyngweithio deimamig rhwng pobl, bywyd gwyllt, a systemau naturiol dros amser. Maent yn wahanol i safleoedd gwarchodedig, fel tirweddau sy'n gweithio, y mae pobl yn byw ynddynt sy'n cynnig cyfleoedd pwerus i sicrhau adferiad natur trwy ddulliau cynhwysol, seiliedig ar leoedd. Eu cryfder yw eu gallu i integreiddio nodau ecolegol â threftadaeth ddiwylliannol, gwybodaeth leol, a gweithgarwch economaidd-gymdeithasol sy'n galluogi llywodraethu cydweithredol,

²⁰³ Archwiliad dwfn bioamrywiaeth: argymhellion [HTML] | LLYW. CYMRU

²⁰⁴ <https://www.britishecologicalsociety.org/content/why-designated-landscapes-hold-the-key-to-nature-recovery-in-wales/>

²⁰⁵ Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy - Tirweddau Cymru

rheoli addasol, ac ymgysylltu cyhoeddus dyfnach i ddigwydd. Mae hyn yn eu gwneud yn arbennig o addas i lywio newid systemig, ar raddfa tirwedd sy'n adlewyrchu gwerthoedd a dyheadau'r cymunedau ynddynt.

Gwreiddio bioamrywiaeth

1. Sut fydd eich cynnig yn integreiddio bioamrywiaeth fel rhan o wneud penderfyniadau?

Mae'r cynnig yn un i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd ac os bydd Gweinidogion Cymru'n cytuno ag ef ar ôl ei ystyried, bydd yn creu APC newydd. Mae APCau yn cyflawni dibenion statudol y Parc Cenedlaethol, y mae un ohonynt yn golygu gwarchod a gwella harddwch naturiol (sy'n cynnwys fflora a ffawna), bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol, felly mae ystyriaethau ynghylch bioamrywiaeth yn ganolog i wneud penderfyniadau gan APCau fel rhan o'u dyletswyddau cyfreithiol.

Mae gan weinidogion, cyrff cyhoeddus a rhai ymgymrwyr statudol penodol ddyletswydd gyfreithiol i roi sylw i ddibenion y Parc Cenedlaethol (a11A(2) Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949)) wrth arfer neu gyflawni unrhyw swyddogaethau mewn perthynas â thir mewn Parc Cenedlaethol yng Nghymru, neu sy'n effeithio arno.

Mae paratoi a chyhoeddi cynllun rheoli Parc Cenedlaethol yn ofyniad statudol a rhaid ei adolygu bob pum mlynedd. Fel rhan o'r broses adolygu, mae'n ofynnol yn gyfreithiol bod APC yn rhoi sylw i SoNaRR, Datganiadau Ardal a'r adroddiad rheoli tir yn gynaliadwy a gyhoeddwyd o dan adran 6 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Adlewyrchir y broses cynllun rheoli yng Nghannllawiau Cynlluniau Rheoli diwygiedig CNC (2024),²⁰⁶ sy'n ymlynu wrth ganllawiau'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur ar gyfer Rheoli Ardaloedd Gwarchodedig Categori V. Mae Canllawiau Cynlluniau Rheoli CNC yn canolbwyntio ar sut y gall offeryn y Cynllun Rheoli helpu i ymdrin â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Conglfaen y broses yw asesiad Cyflwr y Parc Cenedlaethol sy'n gwerthuso'r ecosystemau, cynefinoedd a rhywogaethau yn erbyn llinellau sylfaen presennol ac adroddiadau Cyflwr y Parc Cenedlaethol blaenorol. Mae hyn yn helpu i nodi materion a thueddiadau, sy'n goleuo'r amcanion polisi a'r camau gweithredu yn y cynllun rheoli i ymdrin â'r materion hyn. Mae penderfyniadau a chynghor ar reoli tir yn cael eu goleuo gan y ddealltwriaeth fanwl hon am werth bioamrywiaeth i gyflawni camau gweithredu ar lawr gwlad.

Bydd gan APCau ofynion newydd o dan gynigion a gynhwysir ym Mil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru). Yn hollbwysig, mae APCau hefyd yn ddarostyngedig i ofynion adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ac yn adrodd arnynt sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r APC, fel awdurdod cyhoeddus, geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau. Fel rhan o gydymffurfio â dyletswydd ADRAN 6, rhaid i APC roi sylw i restrau adran 7 o'r

²⁰⁶ [Canllawiau Cynllun Rheoli Tirwedd Dynodedig CNC 2024](#)

rhywogaethau a chynefinoedd mwyaf pwysig, yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ac unrhyw Ddatganiad Ardal sy'n cynnwys y cyfan neu rywfaint o arwynebedd y Parc Cenedlaethol a'r adroddiad rheoli tir yn gynaliadwy.

Mae'r sail gyfreithiol hon, gan gynnwys gofynion ar gyfer y cynllun rheoli, yn darparu fframwaith cydlynol lle mae ystyriaethau i fioamrywiaeth yn rhan annatod o'r prosesau cynllunio a phenderfynu o fewn APCau presennol a disgwylir y bydd y Parc Cenedlaethol newydd hefyd yn adlewyrchu'r sefyllfa hon yn unol ag argymhellion a nodir yn Adroddiad yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth 2018²⁰⁷.

2. A yw eich cynnig wedi sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried mewn penderfyniadau busnes?

Fel a nodwyd, bydd gan Barc Cenedlaethol ac APC newydd ystod o ofynion statudol ac anstatudol mewn perthynas â bioamrywiaeth. Rhagwelir hefyd y bydd rhannau o'r Parc Cenedlaethol newydd yn gymwys i gyfrif tuag at Dargedau 30 erbyn 30 Cymru.

Rhan o'r rhesymeg a'r Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer dynodi Parc Cenedlaethol newydd oedd er mwyn cefnogi ein hymateb ar y cyd i liniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd, cefnogi adferiad natur, a datblygu gwydnwch ecosystemau.

Mae Rhan 1 o'r broses ddynodi'n cael ei chynnal gan CNC fel yr awdurdod dynodi. Mae CNC wedi casglu amrywiaeth o dystiolaeth i oleuo'r asesiadau ar gyfer harddwch naturiol a hamdden. Fel rhan o'r asesiad o harddwch naturiol, mae pob Ardal Werthuso wedi cael ei hasesu ar gyfer gwerth cadwraeth, gan ddefnyddio setiau data ac arbenigedd CNC. Mae'r asesiadau hyn yn bwydo i mewn i asesiad cyffredinol o harddwch naturiol ar gyfer pob Ardal Werthuso, sydd wedyn yn cael ei asesu yn erbyn y profion statudol sy'n penderfynu a yw'n bodloni'r gofynion cyfreithiol. Mae'r dystiolaeth hon yn goleuo'r broses benderfynu o ran pa ardaloedd y gellir eu hystyried ar gyfer dynodiad Parc Cenedlaethol.

Roedd rhan o'r ystyriaethau hyn yn cynnwys comisiynu amrywiaeth eang o adroddiadau a thystiolaeth, a lle'r oedd yn berthnasol roedd y rhain yn ystyried bioamrywiaeth. Roedd hyn yn cynnwys Adroddiad Manteision Natur penodol²⁰⁸, a oedd yn manylu ar sut y bydd y Parc Cenedlaethol newydd o fudd i natur a phobl. Mae'r adroddiad yn cyflwyno dadansoddiad strategol o fanteision natur, yn adnabod cyfleoedd i gefnogi ei hadferiad, i gefnogi'r amcan cyffredinol o ran datblygu Bioamrywiaeth ac Ecosystemau gwydn. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r ystod o rywogaethau Rhestr Ddata Goch a chynefinoedd dan fygythiad yn yr ardal arfaethedig a fyddai'n cael budd o'r gweithgarwch rheoli a'r adnoddau y gallai dynodiad Parc Cenedlaethol eu darparu.

Felly, trwy gydol Rhan 1 o'r broses ddynodi, oherwydd ystyriaethau statudol sy'n ofynnol gan y broses ddynodi ei hun ac uchelgeisiau'r Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth, mae bioamrywiaeth wedi bod yn rhan annatod o'r broses o wneud penderfyniadau gan CNC ac yn Rhan 2 mae angen i Weinidogion Cymru ystyried y gorchymyn dynodi a gyflwynir

²⁰⁷ [Archwiliad dwfn bioamrywiaeth: argymhellion \[HTML\] | LLYW. CYMRU](#)

²⁰⁸ Adroddiad Manteision Natur, CNC 2025 [benefits-of-nature-report-2025.pdf](#)

iddynt, yng nghyd-destun y profion statudol, a ffurfio eu barn eu hunain ynglŷn â sut y gallai Parc Cenedlaethol newydd ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd er mwyn byd natur a phobl Cymru.

Wrth i ni symud tuag at Ran 2 o'r broses o sefydlu APC newydd a'i roi ar waith o bosibl, rydym wedi sefydlu Grŵp Cyngori Mewnol, lle bydd cydweithwyr Bioamrywiaeth yn darparu cyfraniad pwysig i'r camau ffurfiannol hyn o ran sefydlu APC newydd.

Bydd bioamrywiaeth hefyd yn ystyriaeth sylweddol fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig hwn ac asesiadau effaith eraill, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

3. Sut mae eich cynnig yn gwella dealltwriaeth ac yn codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd bioamrywiaeth, gan annog eraill i weithredu?

Yn dilyn rhoi ystyriaeth briodol i'r cynnig, os bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu cadarnhau'r Gorchymyn Dynodi, yna yn Rhan 2 o'r broses, byddai APC newydd yn cael ei greu gyda dyletswyddau a chyfleoedd penodol sy'n ymwneud â chyflawni bioamrywiaeth fel a amlinellir uchod. Gall yr APC newydd hefyd ymgymryd â rôl addysg amgylcheddol fel rhan o'i ail ddiben statudol:

'Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardaloedd hynny'.

Mae'r APCau presennol yn defnyddio cyfleoedd ymgysylltu i:

- Ddarparu cyfleoedd i bawb gael mynediad at gefn gwlad a'i fwynhau.
- Codi ymwybyddiaeth o faterion, hysbysu a cheisio dylanwadu ar ymddygiad.
- Cefnogi ymweliadau addysg â'u hardaloedd trwy ddarparu pecynnau adnoddau i athrawon a wardeniaid i roi arweiniad ar gyfer gwaith maes myfyrwyr.
- Cefnogi dysgu trwy'r Cwricwlwm Cenedlaethol sydd newydd gael ei lansio trwy 'Tirlun,' adnodd porth dysgu awyr agored i athrawon²⁰⁹.
- Darparu cyfleoedd gwirfoddoli i gymunedau a busnesau gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored a datblygu dysgu.
- Cefnogi arolygon a gweithgarwch casglu data i gyfrannu at Wyddor Dinasyddion a Chanolfannau Cofnodion Lleol.
- Darparu Grwpiau Ceidwaid Ifainc i ddatblygu hyder a dealltwriaeth lle mae'r awyr agored yn y cwestiwn.

Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gweithgarwch monitro

²⁰⁹ Hafan | Tirlun

4. Ydych chi wedi defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael o fioamrywiaeth i oleuo eich cynnig a'r asesiad hwn?

Ar gyfer Rhan 1 mae CNC wedi defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i oleuo eu gwaith. Bu ymgynghori helaeth hefyd ag Awdurdodau Lleol a'r cyhoedd. Nododd yr ymgynghoriad cyhoeddus y themâu allweddol perthnasol canlynol:

1. Gwarchod y dirwedd, cydnabyddiaeth i'r ardal, tawelwch.
2. Bywyd gwyllt, amaethyddiaeth a rheoli tir, yr amgylchedd a chynaliadwyedd.
3. Twristiaeth, gwasanaethau cyhoeddus, a seilwaith.
4. Angen am newid, rheoli a rheolaethau, costau, cyllid, biwrocratiaeth.

Mae CNC wedi cynnal ymarfer casglu dystiolaeth helaeth i oleuo'r broses ddynodi. Y rhan fwyaf perthnasol yw'r Adroddiad Manteision Natur sydd wedi tynnu ar ystod eang o setiau data, ac arbenigedd o fewn CNC, yr Awdurdodau Lleol ac chyrff anllywodraethol amgylcheddol. Trwy ymgynghori, cafodd yr adroddiad fewnbn gan ystod o randdeiliaid ac mae wedi'i fframio o fewn dull CNC o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'i ddealltwriaeth ddofn am y cyd-destun amgylcheddol.

Mae hyn wedi rhoi mewnwelediad unigryw i arwyddocâd ardal arfaethedig y Parc Cenedlaethol ar gyfer bioamrywiaeth. Darperir astudiaethau achos i ddangos gwaith presennol ar adferiad natur. Mae'r Adroddiad Manteision Natur hefyd yn adnabod y manteision posibl y gallai dynodiad Parc Cenedlaethol eu darparu i gefnogi a chyflawni adferiad natur.

5. Ydych chi wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth?

Fel a amlinellwyd, mae CNC wedi comisiynu amrywiaeth eang o dystiolaeth er mwyn goleuo a chefnogi proses benderfynu sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae sicrwydd ynghylch y dystiolaeth wedi cael ei ddarparu trwy ymgynghori ac adolygu gan arbenigwyr cymwys a'r Grŵp Cyngor Tystiolaeth. Fe graffwyd trwy brosesau llywodraethu CNC gan Fwrdd y Rhaglen Tirweddau Dynodedig a Bwrdd CNC.

6. A all eich cynnig gyfrannu at ein corff o wybodaeth ar gyfer bioamrywiaeth?

Bydd y cynnig yn cyfrannu at y corff o wybodaeth ar gyfer bioamrywiaeth gan y bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn rhoi cyfle i ganolbwyntio ar adferiad natur. Fel rhan o'r gwaith hwn a phroses Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, bydd adroddiad manwl ar gyflwr yr amgylchedd ar gyfer yr ardal yn cael ei lunio. Bydd hyn yn asesu ac yn dwyn ynghyd dystiolaeth berthnasol ond gall hefyd gomisiynu arolwg ac asesiad ychwanegol i lenwi unrhyw fylchau yn y data.

Llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni camau gweithredu ar fioamrywiaeth

7. A all eich cynnig gefnogi camau gweithredu ar fioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd?

Bydd Cam 2 y cynnig yn rhoi cymorth uniongyrchol i reoli a chyflawni camau gweithredu ar gyfer bioamrywiaeth trwy waith yr APC. Mae dyletswyddau cyfreithiol ar yr APC newydd a dibenion statudol y Parc Cenedlaethol yn hwyluso gweithredu ar fioamrywiaeth, ochr yn ochr ag ymyriadau a mecanweithiau eraill. Mae ffyrdd y bydd sefydlu Parc Cenedlaethol newydd yn cefnogi bioamrywiaeth yn cynnwys:

- Gwaith sy'n ymwneud â dibenion statudol y Parc Cenedlaethol i warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol a hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau'r ardal.
- Cyflawni'r camau gweithredu a adnabwyd ar gyfer bioamrywiaeth trwy'r Cynllun Rheoli.
- Cyflawni swyddogaeth polisi cynllunio i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau pwysig, gan gynnwys y gofyniad mewn polisi cynllunio cenedlaethol bod pob datblygiad yn dwyn budd net i fioamrywiaeth, yr egwyddor y dylai datblygu adael bioamrywiaeth ac ecosystemau mewn cyflwr gwell nag o'r blaen, trwy welliannau hirdymor, mesuradwy, ar y safle yn bennaf.
- Defnyddio cynllunio ac adrodd dan adran 6 (Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) i fesur a llywio camau gweithredu.
- Datblygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur, yr ydym yn rhagweld y bydd yn flaenoriaeth i'r APC newydd.
- Cydweithio gyda sefydliadau eraill ar gyfer deilliannau bioamrywiaeth.
- Mynediad at ffrydiau cyllid gan gynnwys prosiectau hirdymor gwerth £150m Cysylltiadau Tirwedd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, a'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd.
- Cyllid Preifat – mae Parciau Cenedlaethol presennol eisoes yn tynnu cyllid gwyrdd i lawr gan weithio gyda BMW Recharge, Revere UK²¹⁰ ar ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur

8. A all eich cynnig helpu i feithrin capasiti ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth?

Fel a amlinellwyd, mae gan y Parciau Cenedlaethol rôl bwysig wrth weithredu ar fioamrywiaeth ar lawr gwlad ac mae disgwyl i'r Parc Cenedlaethol newydd ganolbwyntio'n sylweddol ar adferiad natur.

Bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn ddarostyngedig i'r un gofynion statudol â'r tri Pharc Cenedlaethol presennol i gyflawni ei swyddogaethau o safbwynt amgylcheddol.

Hefyd, bydd sefydlu APC yng Ngham 2 yn golygu bod angen gweithlu i gyflawni cylch gwaith y Parc. Mae APCau fel arfer yn cyflogi tua 100-150 o staff, ac mae nifer o'r rolau hyn yn canolbwyntio ar gefnogi cadwraeth ac adferiad natur. Mewn perthynas ag APC

²¹⁰ [Home - Revere](#)

newydd, mae'r rhain yn debygol o gynnwys sefydlu gwasanaeth ceidwaid, ochr yn ochr â swyddi allweddol sy'n cwmparu meysydd fel ecoleg, adfer natur, rheoli tir amgylcheddol a newid hinsawdd a Phenaeithiaid Gwasanaethau a fydd yn gyfrifol am feysydd gwaith allweddol gan gynnwys gweithgareddau cadwraeth natur. Bydd hyn yn darparu gwell capasiti o'i gymharu â Thîm Tirwedd Genedlaethol presennol Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy o 15-20 o bobl. Gallai Parc Cenedlaethol newydd hefyd ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli a Gwasanaeth Ceidwaid Ifanc gwell i gynnwys pobl ifanc a chymunedau lleol.

Byddai gan Barc Cenedlaethol newydd fynediad at ffrydiau cyllid i dynnu adnoddau ychwanegol i lawr ar gyfer yr ardal gan gynnwys er enghraifft Rhwydweithiau Natur, Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a chyllid y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd. Mae'r gyllideb graidd ar gyfer Parc Cenedlaethol, sef tua £3-4m, yn sylweddol fwy nag ar gyfer Tirwedd Genedlaethol, sef tua £70k-£1m. Mae APCau hefyd yn cynnull, yn arwain ac yn cefnogi partneriaethau i gael gafael ar gyllid ar gyfer gweithio ar y cyd.

Mae'r holl elfennau hyn yn helpu i feithrin capasiti ar lawr gwlad o ran gweithredu ar fioamrywiaeth a galluogi eraill i gyflawni adferiad natur.

9. Ydych chi wedi cofnodi penderfyniadau a chymau gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth?

Fel a amlinellwyd, mae Cam 1 o'r gwaith wedi cael ei gynnal gan CNC, ac fe roddwyd ystyriaeth benodol i fioamrywiaeth o fewn yr asesiadau a'r dystiolaeth i oleuo'r profion statudol a'r prosesau penderfynu.

Fel rhan o Gam 2 a rhoi APC newydd ar waith, bydd yr APC yn ymgymryd â'r gofynion adrodd arferol sy'n ofynnol.

Os yw'ch cynnig yn ymwneud ag adeiladu neu reoli tir a/neu fôr, ystyriwch hefyd Gwestiynau 10 – 16:

Diogelu'r rhywogaethau a chynefinoedd mwyaf pwysig

10. A gydymffurfir â'r holl ddeddfwriaeth i sicrhau bod rhywogaethau a chynefinoedd y môr a'r tir yn cael eu diogelu?

Bydd yr ystyriaethau hyn yn fwy perthnasol i Gam 2 gyda sefydlu APC newydd. Ceisiwyd cyngor, a chytunwyd nad oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol / Asesiad Amgylcheddol Strategol / Asesiad Amgylcheddol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar hyn o bryd.

11. A yw'r cynnig yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth yn gyntaf?

Bydd yr ystyriaethau hyn yn fwy perthnasol i Gam 2 gyda sefydlu APC newydd. Fel a amlinellwyd, mae gan APC newydd rôl i gynnal a gwella bioamrywiaeth ledled Cymru trwy fframweithiau adrodd presennol ac arfaethedig a chyfrannu at 30 erbyn 30.

12. Cynyddu gwydnwch ein hamgylchedd naturiol

Bydd yr ystyriaethau hyn yn fwy perthnasol i Gam 2 gyda sefydlu APC newydd. Fel a amlinellwyd, mae APCau presennol yng Nghymru'n gweithio ar draws pob un o'r meysydd hyn yn meithrin ac yn adfer rhwydweithiau ecolegol gwydn (gan gynnwys defnyddio dull rhwydweithiau ecolegol gwydn²¹¹), cysylltedd, yn datblygu'r sylfaen dystiolaeth, yn cynnal arolygon a gwaith monitro ecolegol, yn datblygu datrysiadau sy'n seiliedig ar natur trwy ddatblygu cynlluniau a chyflawni rhaglenni gwaith ar lawr gwlad, yn galluogi partneriaid ac yn rhoi cyngor, cyllid a thystiolaeth i gefnogi eraill.

13. A yw eich cynnig yn cyfrannu at greu cynefin newydd?

Bydd yr ystyriaethau hyn yn fwy perthnasol i Gam 2 gyda sefydlu APC newydd. Yn seiliedig ar weithgareddau'r APCau presennol, disgwylir y bydd yr APC newydd yn cyfrannu at greu cynefin newydd trwy, er enghraifft, Ffermio Bro, gan roi cyngor ynghylch y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, datblygu a chyflwyno Cynlluniau Gweithredu Adfer Natur a rheoli'r tir y mae'n berchen arno mewn modd gwell.

Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

14. A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar gynefinoedd neu rywogaethau trwy:

Mae'n annhebygol y bydd Parc Cenedlaethol newydd yn cael effeithiau negyddol ar gynefinoedd na rhywogaethau, ac nid oes ganddo unrhyw bwerau rheoleiddio mewn perthynas â defnydd tir. Disgwylir y bydd gwaith APC newydd yn cael effaith gadarnhaol yn hyn o beth. Er enghraifft, mae APCau presennol wedi gwneud gwaith sylweddol ar Awyr Dywyll a thawelwch fel rhan o warchod eu nodweddion arbennig sy'n aml yn canolbwyntio ar yr adnoddau naturiol hyn. Mae dau o'r Parciau Cenedlaethol presennol yn cael eu cydnabod fel Gwarchodfeydd Awyr Dywyll Rhyngwladol. Mae'r Tirweddau Dynodedig gyda'i gilydd yn cyflogi Swyddog Awyr Dywyll i hyrwyddo cyfleoedd i leihau llygredd golau er mwyn bioamrywiaeth a manteision dynol.

15. A gydymffurfir â'r holl ddeddfwriaeth ynglŷn â'r pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd? Byddai hyn yn cynnwys:

Bydd yr ystyriaethau hyn yn berthnasol i Gam 2 gyda sefydlu APC newydd, y bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

16. Sut fydd unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lliniaru?

Unwaith eto, bydd yr ystyriaethau hyn yn berthnasol i Gam 2 gyda sefydlu APC newydd a bydd angen rhoi ystyriaeth lawn ar yr adeg hon. Mae canllawiau CNC ynghylch y broses

²¹¹ Canllaw i Rwydweithiau Ecolegol Cadarn, CNC [CNC / Canllaw i Ymarferwyr ar Rwydweithiau Ecolegol Cadarn](#)

cynllun rheoli ar gyfer APCau yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio dull fframwaith system gyfan DPSIR (Driver, Pressure, State, Impact, Response) a gydnabyddir yn rhyngwladol i adnabod statws presennol, tueddiadau'r gorffennol, a rhagolygon ar gyfer y dyfodol.

Gallai effeithiau negyddol gynnwys:

Gallai cyllid annigonol olygu nad yw disgwyliadau'r cyhoedd o Barc Cenedlaethol newydd yn cael eu bodloni. Mae mesurau lliniaru'n cynnwys cynllunio cyllidebol cynnar a rhoi sicrwydd y byddai angen buddsoddiad newydd ar yr APC newydd.

O dan bolisiâu presennol Polisi Cynllunio Cymru²¹², mae'n annhebygol y bydd prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yn cael caniatâd cynllunio yn y Parc Cenedlaethol newydd neu ei leoliad, er y bydd unrhyw geisiadau yn y dyfodol yn cael eu penderfynu fesul achos unigol. Gallai hyn effeithio ar gyrraedd targedau carbon a lliniaru effeithiau newid hinsawdd. Fodd bynnag, mae'r cyfyngiadau hyn eisoes yn berthnasol i Dirwedd Genedlaethol bresennol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a'i lleoliad, yn ogystal â therfyn golygfeydd Parc Cenedlaethol presennol Eryri sydd gerllaw. O ganlyniad, mae'r ardal ychwanegol y byddai'r polisiâu hyn yn berthnasol iddi'n gymharol gyfyngedig, ac mae ffigyrau CNC yn dangos cynnydd o tua 2.6% yn unig o Gymru dan fesurau diogelu o'r fath.

Cwestiynau Ychwanegol am yr Effaith ar Fioamrywiaeth

Mae'r Asesiad Effaith hwn hefyd wedi ystyried rhai effeithiau ychwanegol pellach fel a ganlyn. Yn seiliedig ar arfer da gan APCau presennol yng Nghymru, gall APC newydd gyfrannu tuag at ddiogelu bioamrywiaeth a chyflawni adferiad natur trwy'r canlynol:

Rheoli Caffael ar gyfer adeiladau

Mae'r APCau presennol yn chwilio am ffyrdd o leihau i'r eithaf effaith eu hadeiladau trwy er enghraifft ôl-osod deunydd inswleiddio, cynhyrchu ynni adnewyddadwy neu ddefnyddio cyflenwyr ynni cynaliadwy, darparu mannau gwefru cerbydau trydan, cyfleoedd i leihau'r defnydd o ddŵr ac ynni, diogelu bioamrywiaeth megis clwydau ystlumod.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhaglen o waith cyfalaf a ariennir, Tirweddau Cynaliadwy, Lleodedd Cynaliadwy²¹³ dros nifer o flynyddoedd i gefnogi:

- Cyflymu datgarboneiddio – trwy ddatgarboneiddio gweithgarwch ac asedau tuag at nod carbon sero net.
- Gweithredu cynlluniau cymunedol i alluogi datgarboneiddio yn lleol gan gynnwys gosod mesurau priodol i ddal ynni adnewyddadwy, a chynlluniau dal a storio carbon yn y dirwedd.

Mae APCau yn ystyried cyfleoedd i wella bioamrywiaeth a chysylltedd megis wrth roi gwaith i reoli mannau gwyrdd o amgylch adeiladau ar contract allanol, er mwyn sicrhau

²¹² Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12 6.3 Tirwedd [Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 12](#)

²¹³ [Tirweddau Cynaliadwy, Lleodedd Cynaliadwy - Tirweddau Cymru](#)

bod amodau priodol yn cael eu cynnwys fel eu bod yn cael eu rheoli er budd bioamrywiaeth megis cyfundrefnau plannu, torri glaswellt a rheoli addas.

Y potensial ar gyfer codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant.

Darparu hyfforddiant ar gyfer eu staff eu hunain a chodi ymwybyddiaeth o arferion cynaliadwy, gan gynnwys ymwelwyr â'u safleoedd a'u cyfleusterau. Gweithio gyda rheolwyr tir a busnesau twristiaeth i gynyddu arferion gweithio cynaliadwy. Rhoi cyngor arbenigol ynghylch bioamrywiaeth i reolwyr tir trwy'r cynllun amaeth-amgylcheddol wedi'i dargedu, Ffermio Bro, sydd ar gael dim ond mewn Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol (AHNEoedd).

Mae gan APCau hefyd ddyletswydd statudol mewn perthynas ag addysg amgylcheddol y maent yn ei chyflawni trwy ymgysylltu â dysgwyr, cymunedau a busnesau mewn ffyrdd ffurfiol ac anffurfiol, sy'n cynnwys teithiau tywys, gwirfoddoli, croesawu ymweliadau gan ysgolion a darparu porth dysgu gyda mynediad at adnoddau addysgu.²¹⁴

Y potensial i gefnogi cymunedau a phartneriaethau, gan ddylanwadu ar eraill yr ydym yn eu hariannu e.e. ymgynghorwyr, contractwyr, cynlluniau grantiau.

Mae APCau presennol yn defnyddio llwybrau caffael cynaliadwy lle y bo'n bosibl o fewn rheoliadau presennol y Trysorlys a Chyllid Cyhoeddus. Mae APCau yn cael grantiau craidd gan Lywodraeth Cymru yn ogystal â sicrhau cyllid ychwanegol trwy Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, Rhwydweithiau Natur, cyllid preifat a chronfeydd eraill a fydd, gan ddibynnu ar nodau'r cyllid, yn aml o fudd uniongyrchol i'w cymunedau lleol. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu grantiau cyfalaf Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy i APCau presennol i gyflawni deilliannau adfer natur a lliniaru carbon.

Mae APCau yn darparu opsiynau cyflawni pwysig ar gyfer cyllid y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd a Rhwydweithiau Natur a hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff anllywodraethol amgylcheddol a grwpiau cymunedol. Lle y bo'n bosibl, mae APCau yn defnyddio contractwyr lleol i wneud gwaith, er enghraifft cynnal a chadw waliau, camfeydd, a ffensys gwerinol. Maent yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli i gymunedau lleol fel arolygon bywyd gwyllt neu glirio Rhywogaethau Estron Goresgynnol.

Trwy reoli tir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol:

Y gwerth y mae bioamrywiaeth, a'r gwasanaethau ecosystemau sy'n dibynnu arni, yn ei ddarparu mewn penderfyniadau busnes – e.e., y costau a arbedwyd, a'r manteision a gafwyd trwy reoli pridd yn gynaliadwy.

Bydd yr ystyriaethau hyn yn berthnasol yng Ngham 2 gyda sefydlu APC newydd.

²¹⁴ Hafan | Tirlun – Adnoddau Dysgu

Mae CNC wedi ystyried manteision economaidd posibl sy'n gysylltiedig â'r Parc Cenedlaethol newydd. Mae'r Adolygiad o'r Effaith Economaidd²¹⁵ a gomisiynwyd gan CNC yn darparu rhywfaint o ddadansoddiad ansoddol ac yn awgrymu:

‘Amgylchedd – Mae gan APC y potensial i ddenu cyllid ychwanegol ar gyfer mentrau adfer natur i wella bioamrywiaeth. Gallai'r APC fabwysiadu dulliau naturiol o reoli llifogydd fel amcan yn ei Gynllun Rheoli.’

Rhaid i APCau presennol arfer eu swyddogaethau at ddibenion y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys gwarchod a gwella bywyd gwyllt. Lle ymddengys fod gwrthdaro rhwng harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ar y naill law a hamdden ar y llaw arall, yna rhaid blaenoriaethu ystyriaethau i harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol. Adwaenir hyn fel Egwyddor Sandford²¹⁶.

Rhif y cwestiwn	Cyfleoedd ar gyfer gweithredu cadarnhaol	Effeithiau negyddol y cynnig	Camau gweithredu y mae eu hangen i gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd cadarnhaol ac atal effeithiau negyddol
1. Sut fydd eich cynnig yn integreiddio bioamrywiaeth fel rhan o wneud penderfyniadau?	Mae APCau yn cefnogi dibenion y Parc Cenedlaethol, sy'n cynnwys gwarchod a gwella harddwch naturiol (sy'n cynnwys fflora a ffawna), bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol, felly mae ystyriaethau ynghylch bioamrywiaeth yn ganolog i wneud penderfyniadau gan	Bydd angen cyllid digonol ar y cynnig i gyflawni'r potensial llawn i gefnogi uchelgeisiau adfer natur a nodir yn Argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth.	Cyllid a chymorth digonol ar gyfer APC newydd mewn perthynas â dibenion a dyletswyddau cyfreithiol y Parc Cenedlaethol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r ddeddfwriaeth amgylcheddol sydd ar ddod.

²¹⁵ Cyflwyniad PowerPoint

²¹⁶ 11A(2) Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949

	APCau fel rhan o arfer eu swyddogaethau.		
2. A yw eich cynnig wedi sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried mewn penderfyniadau busnes?	Ydy, mae ystyriaeth lawn i fioamrywiaeth wedi bod yn ysgogydd allweddol ar gyfer penderfyniadau a chefnogaeth i'r Parc Cenedlaethol newydd. Rhagwelir y bydd rhannau o'r Parc Cenedlaethol newydd yn gymwys i gyfrif tuag at Dargedau 30 erbyn 30 Cymru.	Risgiau nad oes cyllid ar gael i ddwyn manteision posibl.	Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol a dadansoddiad llawn o gostau a manteision yn cael eu cwblhau i sicrhau bod costau llawn ar gael ar gyfer trefniadau cyllido posibl yn y dyfodol.
1. Sut mae eich cynnig yn gwella dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd bioamrywiaeth, gan annog eraill i weithredu?	Yn Rhan 2 o'r broses wrth i'r APC newydd gael ei roi ar waith bydd ganddo ddyletswyddau penodol sy'n ymwneud â bioamrywiaeth fel a amlinellir uchod. Byddai gan yr APC newydd hefyd rôl o ran addysg amgylcheddol trwy ail ddiben statudol y Parc Cenedlaethol:	Risgiau nad oes cyllid ar gael i ddwyn manteision posibl.	Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol a dadansoddiad llawn o gostau a manteision yn cael eu cwblhau.
4. Ydych chi wedi defnyddio'r dystiolaeth orau o fioamrywiaeth sydd ar gael i oleuo	Do. Mae CNC wedi cynnal ymarfer casglu dystiolaeth helaeth i oleuo'r	Gan bod hon yn ardal newydd nad yw'n rhan o ardal weinyddol	Mae data pwrpasol wedi cael ei gomisiynu gan CNC a Llywodraeth Cymru

eich cynnig a'r asesiad hwn?	broses ddynodi a goleuo ystyriaeth gan Weinidogion Cymru ar gyfer eu penderfyniad.	bresennol, sy'n cwmpasu rhannau o bum sir wahanol, gall fod yn anodd cael data wedi'i deilwra i'r ardal.	gan y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi.
5. Ydych chi wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth?	Do. Mae CNC fel yr ymgynghorydd amgylcheddol statudol a Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r data diweddaraf a'r dystiolaeth ddiweddaraf.	Mae data newydd ar gael drwy'r amser.	Bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu'r Asesiad Effaith Integredig ac yn ei ddiweddarau, yn ôl yr angen.
6. A all eich cynnig gyfrannu at ein corff o wybodaeth ar gyfer bioamrywiaeth?	Gall, bydd yr APC newydd yn gwneud gwaith monitro ac adrodd amgylcheddol helaeth i fwydo i mewn i Ganolfannau Cofnodion Lleol, SoNaRR a rhaglenni monitro eraill.	Diffyg dull safonedig o adrodd ar 30 erbyn 30 a diffyg targedau cenedlaethol.	Mae Llywodraeth Cymru a CNC yn mynd i'r afael ag adrodd ar 30 erbyn 30 a byddai'r ddeddfwriaeth amgylcheddol newydd arfaethedig yn cyflwyno targedau cenedlaethol.
7. A all eich cynnig gefnogi gweithredu ar fioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd?	Gall, bydd y cynnig hwn yn rhoi cymorth uniongyrchol i weithredu ar fioamrywiaeth a dyna un o'r ysgogiadau polisi.	Byddai diffyg cyllid neu arbenigedd yn lleihau'r gallu i gyflawni'n effeithiol.	Mae Llywodraeth Cymru a CNC yn gweithio i fynd i'r afael â'r rhain trwy roi Strategaeth Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru ar waith. Ystyried a oes newid mewn polisi neu newid

			deddfwriaethol yn ofynnol i wella'r modd y mae APCau yn cyflawni ar gyfer adferiad natur.
8. A all eich cynnig helpu i feithrin capasiti ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth?	Gall, fe all yr APC newydd arwain wrth feithrin capasiti ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth trwy gyflawni ei ddibenion statudol trwy fecanweithiau rheoli tir.	Byddai diffyg cyllid neu arbenigedd yn lleihau'r gallu i gyflawni'n effeithiol.	Mae Llywodraeth Cymru a CNC yn gweithio i fynd i'r afael â'r rhain trwy roi Strategaeth Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru ar waith. Ystyried a oes newid mewn polisi neu newid deddfwriaethol yn ofynnol i wella'r modd y mae APCau yn cyflawni ar gyfer adferiad natur.
9. Ydych chi wedi cofnodi penderfyniadau a chamau gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth?	Mae gwaith Cam 1 a wnaed gan CNC wedi rhoi ystyriaeth i fioamrywiaeth. Yn ystyriaethau Cam 2 gan Weinidogion Cymru, bydd penderfyniadau a chamau gweithredu yn cael eu cofnodi.	Byddai penderfyniad i beidio â dynodi Parc Cenedlaethol yn cyfyngu ar y cyfle hwn.	Bydd angen i gam 2 gyda sefydlu APC newydd ymdrin â'r materion hyn.
10. A gydymffurfiwyd â'r holl ddeddfwriaeth i sicrhau bod rhywogaethau a chynefinoedd y tir a'r	Do, yng Ngham 2 bydd APC newydd yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.	Gall diffyg cyllid leihau effeithiolrwydd.	Defnyddio proses lawn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Achos Busnes Amlinellol i sicrhau ystyriaethau i gyllid

môr yn cael eu diogelu?			digonol ar gyfer yr APC.
11. A yw'r cynnig yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth yn gyntaf?	Ydy, yng Ngham 2 bydd yn ofynnol i'r APC newydd warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol.	Yng Ngham 2 gall fod gwrthdaro â phwysau hamdden neu bwysau economaidd-gymdeithasol.	Pan geir gwrthdaro mae egwyddor Sanford yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddiben cyntaf y Parc Cenedlaethol gael blaenoriaeth dros hamdden. O ran pwysau arall, yr APC fydd i farnu. Ystyried a oes newid mewn polisi neu newid deddfwriaethol yn ofynnol i wella'r modd y mae APCau yn cyflawni ar gyfer adferiad natur.
12. Cynyddu gwydnwch ein hamgylchedd naturiol	Ydy, yng Ngham 2 bydd yr APC newydd yn ddarostyngedig i ofynion adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ynghylch ecosystemau gwydn.	Gall diffyg cyllid, data ac arbenigedd leihau effeithiolrwydd.	Mae Llywodraeth Cymru a CNC yn gweithio i fynd i'r afael â'r rhain trwy roi Strategaeth Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru ar waith. Ystyried a oes newid mewn polisi neu newid deddfwriaethol yn ofynnol i wella'r modd y mae APCau yn cyflawni ar gyfer adferiad natur.

13. A yw eich cynnig yn cyfrannu at greu cynefin newydd?	Ydy, yng Ngham 2 gallai APC newydd gefnogi neu ddatblygu cynefin newydd.	Gallai diffyg cyllid, data neu gynllun amaeth-amgylcheddol pwrpasol fod yn rhwystr i gyflawni'n effeithiol.	Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r cynllun pwrpasol Ffermio Bro ar sail dros dro y gellid ei estyn neu ei integreiddio fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
14. A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar gynefinoedd neu rywogaethau drwy: • newid mewn defnydd tir? • achosi llygredd aer, dŵr, golau, sŵn, neu ddirgryniad?	Na, mae'n annhebygol iawn fel sefydliad amgylcheddol y bydd yr APC newydd yn cael effeithiau negyddol ar gynefinoedd neu rywogaethau.	Gall diffyg cyllid leihau effeithiolrwydd.	Defnyddio proses lawn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Achos Busnes Amlinellol i sicrhau ystyriaethau i gyllid digonol ar gyfer yr APC.
15. A gydymffurfiwyd â'r holl ddeddfwriaeth ynglŷn â'r pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd?	Do, yng Ngham 2 bydd yr APC newydd yn cydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol.	Gallai diffyg cyllid neu arbenigedd leihau'r gallu i gyflawni'n effeithiol.	Defnyddio proses lawn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Achos Busnes Amlinellol i sicrhau ystyriaethau i gyllid digonol ar gyfer yr APC.
16. Sut fydd unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lliniaru?	Mae'n annhebygol iawn fel sefydliad amgylcheddol y bydd yr NPA newydd yn cael effeithiau negyddol ar	Gallai diffyg cyllid neu arbenigedd leihau'r gallu i gyflawni'n effeithiol.	Defnyddio proses lawn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Achos Busnes Amlinellol i sicrhau ystyriaethau i gyllid

	gynefinoedd neu rywogaethau		digonol ar gyfer yr APC. Gweithredu Strategaeth Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru ac Argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth. Ystyried a oes newid mewn polisi neu newid deddfwriaethol yn ofynnol i wella'r modd y mae APCau yn cyflawni ar gyfer adferiad natur.
--	-----------------------------	--	---

Pa dystiolaeth a ystyriwyd i ddeall sut y mae'r cynnig yn cyfrannu at anghydraddoldebau deilliannau a brofir o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys APCau yng Nghymru, wrth wneud penderfyniadau strategol ynghylch sut i arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyladwy i ddymunoldeb eu harfer mewn ffordd sydd wedi'i bwriadu i leihau'r anghydraddoldebau deilliannau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae APCau yn ddarostyngedig i ddyletswydd y sector cyhoeddus ynghylch anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ac felly bydd yr effaith lawn yn cael ei ystyried ymhellach yng Ngham 2 wrth i APC newydd gael ei sefydlu.

Trwy gyflawni eu swyddogaethau wrth fynd ar drywydd dibenion y Parc Cenedlaethol, mae gan APCau ddyletswydd i:

- **geisio meithrin llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y Parc Cenedlaethol ac at y diben hwnnw byddant yn cydweithredu gydag awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus y mae eu swyddogaethau'n cynnwys hyrwyddo datblygu economaidd neu gymdeithasol yn ardal y Parc Cenedlaethol²¹⁷.**

Mae APCau hefyd yn ddarostyngedig i ofynion o dan Adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) i gyflawni datblygu cynaliadwy a gweithredu mewn ffordd sy'n sicrhau bod anghenion heddiw'n cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

Wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i APCau ystyried y pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf: meddwl am yr hirdymor, atal, integreiddio, cydlafurio a chynnwys. Mae hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol iddynt ystyried effeithiau hirdymor penderfyniadau, gweithio i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, integreiddio amcanion ar draws nodau llesiant, cydweithio gyda chyrrff eraill, a chynnwys pobl sydd â buddiant mewn cyflawni amcanion llesiant. Mae'r dyletswyddau hyn yn siapio sut mae APCau yn cynllunio, yn gwneud penderfyniadau ac yn cyflawni eu dibenion statudol fel cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

²¹⁷ 11A(1) Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 [Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949](#)

Rhoddir ystyriaeth lawnach i'r materion hyn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac Asesiadau perthnasol eraill fel yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a'r Asesiad o'r Effaith ar Brawfesur Gwledig. Mae tystiolaeth bellach fel Adroddiad ARUP ar yr Adolygiad Economaidd yn 2025 a gomisiynwyd gan CNC²¹⁸ wedi cael ei hystyried fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac Asesiadau Effaith perthnasol eraill.

Pa wybodaeth a gafwyd trwy ymgysylltu â'r rhai yr effeithir arnynt gan y cynnig/penderfyniad ac yn benodol y rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol?

Mae CNC fel yr awdurdod dynodi wedi ymgynghori ac ymgysylltu'n helaeth yn y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig. Roedd hyn yn cynnwys cyfnod ymgysylltu o chwe wythnos yn 2023, ac yna cyfnodau ymgynghori yn 2024 a 2025 a oedd yn cynnwys digwyddiadau yn y cawd ac ar-lein ar wahanol adegau o'r dydd i hwyluso cyfranogiad. Roedd y digwyddiadau a'r ymgynghori hyn ar gael i bawb, a rhoddwyd ystyriaeth i'w hamseriad a'u lleoliad er mwyn eu gwneud mor hygyrch â phosibl. Darperir manylion llawn gan gynnwys Adroddiadau Ymgynghori ar wefan CNC:

- Adroddiad Ymgysylltu â'r Cyhoedd CNC 2023²¹⁹
- Adroddiad Ymgynghori CNC 2024²²⁰
- Dadansoddiad Cryno o Ymgynghoriad Statudol CNC 2026²²¹
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan CNC²²²
- Adroddiad Effaith Economaidd CNC²²³
- Rhoddir ystyriaeth bellach i'r materion hyn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

A yw nodweddion gwarchodedig wedi cael eu hystyried?

- Mae nodweddion gwarchodedig wedi cael eu hystyried a'u hasesu'n llawn yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

A yw cymunedau buddiant a lleoedd o ddiddordeb wedi cael eu hystyried.

Rhoddwyd ystyriaeth i rai agweddau ar y rhain yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a'r Asesiad o'r Effaith ar Brawfesur Gwledig. Fodd bynnag, gall ystyriaeth bellach fod yn berthnasol yng Ngham 2 y prosiect gyda sefydlu APC newydd.

²¹⁸ Cyflwyniad PowerPoint

²¹⁹ - [cynnig-parc-cenedlaethol-newydd-cymru---adroddiad-cyfnod-ymgysyllt.pdf](#)

²²⁰ - [cynnig-parc-cenedlaethol-newydd-cymru/user_uploads/cynnig-parc-cenedlaethol-cymru---adroddiad-ymgynghori-cyhoeddus-2024.pdf](#)

²²¹ [26-01-b01-a2-annex-2-proposed-glyndwr-national-park-analysis-summary.pdf](#)

²²² [asesiad-o---r-effaith-ar-gydraddoldeb-1-1.pdf](#)

²²³ Cyflwyniad PowerPoint

Pa wybodaeth sydd wedi cael ei hystyried ynglŷn â thueddiadau'r dyfodol?

Mae CNC fel yr awdurdod dynodi wedi ystyried tueddiadau'r dyfodol fel rhan o ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth. Mae eu hasesiad o dueddiadau'r dyfodol yn tynnu ar ddadansoddiad cynhwysfawr o ysgogiadau amgylcheddol, economaidd-gymdeithasol a defnydd tir hirdymor a adnabuwyd yn yr astudiaeth 'Grymoedd dros Newid'.²²⁴ Mae hyn yn cynnwys archwiliad manwl o effeithiau newid hinsawdd a ragwelir, megis mwy o berygl llifogydd, newidiadau yn nosbarthiad rhywogaethau, a phwysau ecolegol ar raddfa tirwedd a'u goblygiadau ar gyfer gwydnwch ardal y Parc Cenedlaethol arfaethedig. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried tueddiadau'r dyfodol mewn datblygu adeiledig, gan gynnwys y galw disgwylidig am dai a seilwaith ynni adnewyddadwy, ochr yn ochr â phwysau sy'n gysylltiedig â mwynau, chwareli a rheoli gwastraff. Hefyd, dadansoddwyd tueddiadau sy'n dod i'r amlwg mewn rheoli tir, arallgyfeirio amaethyddol, polisi coedwigaeth, a disgwyliadau esblygol ar gyfer gwasanaethau ecosystemau i ddeall sut y gall y dirwedd newid dros amser. Gwerthuswyd y grymoedd hyn dros newid yn erbyn nodweddion arbennig yr ardal i ddeall risgiau a chyfleoedd hirdymor ar gyfer y dirwedd, bioamrywiaeth, treftadaeth ddiwylliannol a llesiant cymunedol.

Mae'r 'Adroddiad Opsiynau Rheoli'²²⁵ hefyd yn ymgorffori tystiolaeth o dueddiadau'r dyfodol trwy ddefnyddio'r grymoedd dros newid a adnabuwyd fel sail ar gyfer gwerthuso modelau llywodraethu a rheoli sy'n addas i bwysau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd hirdymor. Mae'n tynnu sylw at sut y bydd materion fel newid hinsawdd, pwysau datblygu, pontio defnydd tir ac anghenion cymunedol yn galw am fframweithiau rheoli hyblyg, sy'n addas i'r dyfodol. Mae tueddiadau sy'n gysylltiedig â newid demograffig, trawsnewid economaidd gwledig, twf twristiaeth, a chymhlethdod cynyddol polisi amgylcheddol yn cael eu hystyried wrth asesu capasiti gwahanol fodolau rheoli—gan gynnwys "busnes fel arfer," dulliau parciau rhanbarthol, byrddau cadwraeth, a dynodiad Parc Cenedlaethol i ymateb i heriau hirdymor. Mae'r adroddiad hefyd yn pwysleisio'r angen i gynllunio ar gyfer sefydlogrwydd cyllid yn y dyfodol, swyddogaethau statudol ac anstatudol, graddfa'r dylanwad sy'n ofynnol, a phwysigrwydd blaengynllunio strategol i gyrraedd nodau amgylcheddol a llesiant hirdymor.

Gyda'i gilydd, mae'r adroddiadau'n darparu sylfaen dystiolaeth gadarn trwy syntheseiddio ysgogiadau presennol newid ag amodau a ragwelir yn y dyfodol. Mae hyn yn sicrhau bod penderfyniadau dynodi a llywodraethu ar gyfer y Parc Cenedlaethol arfaethedig yn adlewyrchu cynaliadwydd amgylcheddol hirdymor, gwydnwch cymunedol ac aliniad polisi, mewn modd sy'n gyson ag ymrwymadau strategol Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a blaenoriaethau hinsawdd ac adfer natur cenedlaethol ehangach.

Pa ddata a ystyriwyd (Cenedlaethol a lleol)

²²⁴ Grymoedd dros Newid ar gyfer Ardal Chwilio Parc Cenedlaethol Gogledd Ddwyrain Cymru

²²⁵ Gwerthuso opsiynau rheoli

Gweler tudalennau gwe CNC am ragor o fanylion am setiau data a ddefnyddiwyd
[Gorchymyn Arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr \(Dynodi\) – WEDI CAU](#)
[Ymgynghoriad Statudol 2025 - Citizen Space CNC - Citizen Space](#)

Darparwch grynodedb o'r dystiolaeth a dolenni

Mae'r sylfaen dystiolaeth yn tynnu ar ystod eang o **setiau data a fframweithiau polisi cenedlaethol**, gan gynnwys *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)*, yr *Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR 2020)*, y *Polisi ar Adnoddau Naturiol*, amcanestyniadau hinsawdd cenedlaethol, a setiau data demograffig a defnydd tir ac ystod eang o setiau data gofodol cenedlaethol.

Mae'r ffynonellau hyn yn darparu gwybodaeth am dueddiadau hirdymor o ran newid hinsawdd, cyflwr bioamrywiaeth, pwysau adnoddau naturiol, galw am ddatblygu, a newid economaidd-gymdeithasol ledled Cymru. Mae'r adroddiadau hefyd yn ymgorffori tystiolaeth genedlaethol ar gapasiti ynni adnewyddadwy, diwygio polisi amaethyddol, newid yn y boblogaeth a'r galw o du ymwelwyr i sicrhau bod yr asesiad yn adlewyrchu ysgogiadau strategol ehangach.

Ar lefel leol, mae'r adroddiadau'n defnyddio data gofodol a chyd-destunol manwl o'r Ardal Chwilio arfaethedig, gan gynnwys asesiadau o gymeriad y dirwedd leol, dynodiadau ecolegol, asedau treftadaeth, patrymau rheoli tir, patrymau anheddu, cyfyngiadau seilwaith, a materion wedi'u hadnabod gan y gymuned a gasglwyd trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid gan CNC. Mae gwybodaeth leol am fynediad, pwysau twristiaeth, cynigion datblygu, newid defnydd tir, a dangosyddion llesiant cymunedol hefyd wedi cael eu hymgorffori i ddeall pwysau a chyfleoedd penodol sy'n unigryw i'r rhanbarth.

Gyda'i gilydd, mae'r setiau data cenedlaethol a lleol hyn yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn, lle-benodol i oleuo'r asesiad o rymoedd dros newid a'r gwerthusiad o opsiynau rheoli yn y dyfodol.

Gweler tudalennau gwe CNC am ragor o fanylion am setiau data a ddefnyddiwyd
[Gorchymyn Arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr \(Dynodi\) – WEDI CAU](#)
[Ymgynghoriad Statudol 2025 - Citizen Space CNC - Citizen Space](#)

Sut allai'r cynnig o bosibl waethygu anghydraddoldeb deilliannau a brofir o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Er y ceir y potensial y gallai'r cynnig ar gyfer Parc Cenedlaethol Glyndŵr waethygu anghydraddoldeb, byddai hynny'n cael ei wrthbwysu gan gyfleoedd i gefnogi deilliannau mwy teg trwy gyflwyno buddsoddiad hirdymor, gwell arferion rheoli tirwedd, a gwell mynediad at fyd natur i gymunedau. Fe wnaeth adborth ymgynghori adnabod rhai pryderon sylweddol ond hefyd dyheadau lleol cryf ar gyfer rheoli twristiaeth yn well, gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus, a mwy o gydnabyddiaeth i asedau naturiol a diwylliannol yr ardal. Gallai newidiadau o'r fath helpu i arallgyfeirio'r economi wledig a chreu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau newydd, cyflogaeth a chyfleoedd cyllido i drigolion lleol. Mae CNC yn pwysleisio y gallai Parc Cenedlaethol newydd "ddwyn manteision gwirioneddol i bobl, bywyd gwyllt a'r economi leol", gan helpu i sicrhau bod gwerth y dirwedd yn cael ei rannu'n ehangach.

Trwy ymgynghoriadau CNC codwyd rhai risgiau a phryderon, gan gynnwys pwysau tai, capasiti gwasanaethau a newidiadau i reoli tir. Mae'r deunyddiau ymgynghori hefyd yn tynnu sylw at lwybrau lliniaru clir. Gallai mesurau wedi'u targedu gynnwys:

- Polisiâu tai fforddiadwy sy'n blaenoriaethu anghenion lleol ac yn atal dadleoli, a ategir gan reolaethau cynllunio cryfach.
- Rheoli twristiaeth yn gynaliadwy, megis strategaethau gwasgaru ymwelwyr, buddsoddi mewn seilwaith, ac ailfuddsoddi refeniw twristiaeth mewn gwasanaethau cymunedol o bosibl trwy'r Ardoll Ymwelwyr ac ymyriadau eraill.
- Cymorth i fusnesau ar y tir, gan gynnwys cyllid pontio, cynlluniau amaethyddol wedi'u teilwra (megis cyfleoedd trwy Ffermio Bro), a gwasanaethau cynghori i sicrhau bod ffermydd llai yn gallu addasu heb faich ariannol anghymesur.
- Strwythurau llywodraethu cynhwysol, gan sicrhau bod gan drigolion, ffermwyr a busnesau lleol rôl ffurfiol wrth siapia penderfyniadau a rhannu manteision dynodiad.

Mae adroddiadau tystiolaeth CNC yn dangos y gellir ymdrin â llawer o bryderon, megis yr effaith ar fywoliaethau gwledig, straen ar seilwaith, neu bwysau ymwelwyr, trwy gyd-dylunio cryf, buddsoddiad teg, a chynlluniau rheoli rhagweithiol. Mae'r asesiadau statudol (Cydraddoldeb, Economaidd, a Chynllunio) yn darparu fframweithiau pellach i adnabod a lliniaru effeithiau anghyfartal posibl a bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus bellach i'r pryderon hyn yng Ngham 2 y prosiect hwn. Gyda'r mesurau hyn ar waith, gallai dynodiad y Parc Cenedlaethol nid dim ond osgoi gwaethygu anghydraddoldeb ond cyfrannu'n weithredol at ddeilliannau economaidd ac amgylcheddol tecach i gymunedau.

Rhowch fanylion ynglŷn ag anghydraddoldebau deilliannau y mae'n debygol yr effeithir arnynt a'r bobl a'r cymunedau hynny y mae'n debygol yr effeithir arnynt

Mae adroddiadau Grymoedd dros Newid ac Opsiynau Rheoli CNC yn nodi y gallai dynodiad Parc Cenedlaethol effeithio ar nifer o anghydraddoldebau strwythurol a seiliedig-ar-leoedd.

- **Anghydraddoldeb tai ac economaidd:** Gall pwysau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â newid defnydd tir, gofynion cadwraeth, a newidiadau mewn patrymau datblygu ddwysáu heriau fforddiadwyedd mewn ardaloedd lle mae lefelau incwm yn is ac opsiynau tai eisoes yn gyfyngedig. Mae'r adroddiadau'n amlygu y gallai cyfyngiadau cynllunio a sensitifrwydd amgylcheddol ddylanwadu ar gyflenwad tai a chyfleoedd economaidd lleol, a allai effeithio ar aelwydydd incwm is.
- **Anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â bywoliaethau tir:** Gall ffermwyr a busnesau gwledig bach wynebu effeithiau anghyfartal oherwydd newidiadau ehangach mewn polisi amaethyddol, disgwyliadau rheoli amgylcheddol, a chydymffurfio rheoleiddiol.
- **Mynediad at wasanaethau a symudedd:** Adnabuwyd cyfyngiadau strwythurol mewn trafnidiaeth wledig, cysylltedd digidol, a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus fel cyfyngiadau rhanbarthol parhaus.

Mae llawer o'r rhain yn adlewyrchu materion gwledig ehangach, pwysau presennol ar wasanaethau ac ansicrwydd byd-eang gan gynnwys newid hinsawdd. Byddai angen i APC newydd roi ystyriaeth ofalus i'r rhain a pha gymorth y gallai ei roi i helpu i fynd i'r afael â materion perthnasol.

Darparwch grynodeb o'r dystiolaeth a dolenni

- Adroddiad Grymoedd dros Newid CNC
- Adroddiad Opsiynau Rheoli CNC
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Sut allai'r penderfyniad o bosibl wella deilliannau i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol?

Rhowch fanylion ynglŷn â deilliannau a fydd yn cael eu gwella ac i bwy.

Mae dynodi fel Parc Cenedlaethol yn cynnig y potensial i gryfhau deilliannau hirdymor ar gyfer cymunedau gwledig difreintiedig trwy gyfeirio buddsoddiad cydgysylltiedig, gwella gwydnwch amgylcheddol, a gwella mynediad at gyfleoedd economaidd. Mae'r adroddiad Grymoedd dros Newid yn tynnu sylw at y ffaith bod llawer o gymunedau yn yr ardal arfaethedig yn wynebu heriau sy'n gysylltiedig â bygythiadau'r hinsawdd, gwasanaethau cyhoeddus cyfyngedig, ac opsiynau economaidd cyfyngedig. Mae model llywodraethu

Parc Cenedlaethol, a werthuswyd yn yr Adroddiad Opsiynau Rheoli, yn cynnig cynllunio statudol cryfach, dyrannu adnoddau'n fwy strategol, a rheoli'r dirwedd yn yr hirdymor, a all helpu i ymdrin â'r anghydraddoldebau strwythurol hyn.

Deilliannau y gellid eu gwella

- Gwell cyfleoedd economaidd i weithwyr ar y tir

Gallai ffermwyr, tenant-ffermwyr, a mentrau gwledig bychain elwa o gyfleoedd ar gyfer arallgyfeirio cynaliadwy, a gwell mynediad at gyllid amgylcheddol fel Ffermio Bro. Mae'r adroddiadau'n amlygu y gall newid defnydd tir mewn modd sy'n cyd-fynd â'r hinsawdd, os caiff ei gefnogi'n dda, gryfhau gwydnwch a chynhyrchu llwybrau incwm newydd.

- Gwell seilwaith gwyrdd a gwydnwch hinsawdd ar gyfer cymunedau gwledig ynysig

Gall aneddiadau mewn ucheldiroedd a dyffrynnoedd fod yn agored i lifogydd, erydiad, a dirywiad cynefinoedd. Byddai APC newydd yn ceisio gwella arferion rheoli llifogydd yn naturiol, adfer cynefinoedd, gan leihau risg amgylcheddol a gwella llesiant cyffredinol. Mae'r gwelliannau hyn o fudd i gymunedau yn yr ardal.

- Mwy o fynediad at gyfleoedd economaidd cynaliadwy

Gall rheoli cryfach a buddsoddi cryfach mewn prosiectau hamdden, adfer natur, a phrosiectau ar raddfa tirwedd gefnogi cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant lleol, yn enwedig mewn cadwraeth, twristiaeth, adfer tir, a rheoli treftadaeth. Mae'r rhain yn feysydd a adnabuwyd fel sectorau twf yn y dyfodol yn y sylfaen dystiolaeth.

Ar y cyfan, mae'r adroddiadau'n nodi y gallai Parc Cenedlaethol wedi'i ddylunio'n dda wella deilliannau i grwpiau difreintiedig trwy gynyddu gwydnwch economaidd, lleihau risg amgylcheddol, ac ehangu mynediad at asedau naturiol a diwylliannol o ansawdd da – ar yr amod bod y cynnig yn cael ei weithredu mewn modd cynhwysol a'i gefnogi gan fuddsoddiad wedi'i dargedu.

Darparwch grynodeb o'r dystiolaeth ar dolenni

- Adroddiad Grymoedd dros Newid CNC
- Adroddiad Opsiynau Rheoli CNC
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Sut fyddwch chi'n monitro effaith y penderfyniad hwn? (Ystyriwch ganlyniadau ehangach)

Bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi yng Ngham 2, os bydd Gweinidogion Cymru wedi penderfynu symud ymlaen i ddynodi a chreu APC newydd.

A oes angen casglu gwybodaeth fonitro newydd? Os felly, beth?

Fel uchod, bydd angen ystyriaeth fanwl yng Ngham 2.

Sut all Parc Cenedlaethol newydd yng Nghymru Gefnogi Pontio Cyfiawn i Sero Net

Yng Ngham 2 byddai NPA newydd, fel yr APCau presennol, yn cefnogi nodau lleihau carbon ac addasu i newid hinsawdd Llywodraeth Cymru. Mae Datganiad Sefyllfa Newid Hinsawdd Parciau Cenedlaethol Cymru yn cydnabod bod gan APCau "gyfrifoldebau hanfodol i helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyrraedd eu targedau lleihau carbon" a bod rhaid iddynt ddyfnhau eu gwaith sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar draws pob swyddogaeth. Fodd bynnag, er mwyn gwarchod a gwella harddwch naturiol y dirwedd, mae Polisi Cynllunio presennol Cymru yn nodi rhagdybiaeth yn erbyn datblygiadau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr ac, mewn rhai achosion, seilwaith trawsyrru. Rhaid i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fabwysiadu dulliau creadigol ac arloesol i gefnogi mesurau i liniaru effeithiau newid hinsawdd a chyfrannu at dargedau lleihau allyriadau cenedlaethol trwy ddulliau amgen sy'n cynnwys y canlynol:

- **Cyfrannu at Leihau Allyriadau Cenedlaethol ac Addasu i Newid Hinsawdd**

Disgwylir i APCau gefnogi nodau lleihau carbon ac addasu i newid hinsawdd Llywodraeth Cymru. Mae Datganiad Sefyllfa Newid Hinsawdd Parciau Cenedlaethol Cymru yn cadarnhau bod gan NPAs "gyfrifoldebau hanfodol i helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyrraedd eu targedau lleihau carbon" a bod rhaid iddynt ddyfnhau eu gwaith sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar draws pob swyddogaeth.

- **Arwain Arferion Rheoli Tir Carbon Isel ac Adferiad Natur**

Mae APCau yn gweithio gyda rheolwyr tir i gefnogi newid i arferion rheoli tir mwy cynaliadwy trwy amrywiaeth o ymyriadau gan gynnwys Ffermio Bro, hyfforddiant, cyllid a chyingor. Mae APCau yn defnyddio dyletswyddau cynllunio a chadwraeth i leihau allyriadau, adfer ecosystemau a meithrin gwydnwch sy'n rhannau allweddol o'r llwybr Sero Net cenedlaethol ac yn hanfodol i bontio teg sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.

- **Ymgorffori Tegwch, Partneriaeth Gymdeithasol ac Ymgysylltu â'r Gymuned**

Mae Fframwaith Pontio Cyfiawn Llywodraeth Cymru yn pwysleisio bod yn rhaid i'r newid i Sero Net ddosbarthu costau a manteision yn deg ar draws cymdeithas a chynnwys cymunedau wrth siapio penderfyniadau. Rhaid i APCau gymhwyso hyn trwy lywodraethu cyfranogol, cynnwys y gymuned mewn prosesau cynllunio, a darparu manteision yn lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

- **Cefnogi Pontio Economaidd sy'n Seiliedig ar Leoedd a Swyddi Gwyrdd**

Mae APCau yn cyfrannu at economïau carbon isel lleol trwy gefnogi sgiliau gwledig, arloesi (trwy bwerau arbrofol a chefnogi prosiectau trwy, er enghraifft, y Gronfa Datblygu Cynaliadwy a Chyllid Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy sydd wedi'i dargedu at brosiectau datgarboneiddio²²⁶), cyflogaeth, twristiaeth gynaliadwy a phrosiectau sy'n seiliedig ar natur. Mae tystiolaeth Pontio Cyfiawn yn pwysleisio bod yn rhaid i swyddi gwyrdd newydd fod yn hygyrch a lleihau anghydraddoldebau - maes lle gall APCau ddefnyddio eu rolau fel rheolwyr tir pwysig ac awdurdodau cynllunio.

- **Lleihau Anghydraddoldebau a Diogelu Cymunedau Agored i Niwed**

Mae'r Fframwaith Pontio Cyfiawn yn nodi y gall effeithiau newid hinsawdd a datgarboneiddio effeithio'n anghyfartal ar gymunedau. Rhaid i APCau, sydd â dyletswyddau i gefnogi llesiant cymunedau lleol, sicrhau nad yw gweithredu ar yr hinsawdd yn peri anfantais i grwpiau gwledig a grwpiau ar incwm isel ac yn hytrach darparu mynediad teg i fanteision megis datrysiadau sy'n seiliedig ar natur, sgiliau gwyrdd, a phrosiectau gwydnwch.

- **Dangos Arweinyddiaeth gan y Sector Cyhoeddus wrth Ymateb i Newid Hinsawdd**

Mae APCau presennol wedi lleihau eu hallyriadau gweithredol eu hunain yn sylweddol ac wedi ymrwymo i dargedau hinsawdd cenedlaethol gan gynnwys Sero Net a Race to Zero²²⁷. Mae'r rôl arwain hon yn cyd-fynd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru bod cyrff cyhoeddus yn modelu ymddygiad Sero Net ac yn gwreiddio ystyriaethau i'r hinsawdd ym mhob penderfyniad.

Yn gwyno, disgwylir i APCau yng Nghymru:

- Helpu i gyrraedd targedau Sero Net Llywodraeth Cymru trwy leihau allyriadau gweithredol, cynllunio a rhoi cymorth i reoli tir yn gynaliadwy.
- Rhoi cymorth i addasu i newid hinsawdd ac adfer ecosystemau ar raddfa tirwedd, gan gynnwys profi a darparu datrysiadau sy'n seiliedig ar natur.
- Cynnwys cymunedau mewn pontio teg, cynhwysol.
- Creu a chefnogi swyddi gwyrdd, sgiliau gwyrdd ac economi wledig carbon isel.
- Sicrhau bod cymunedau agored i niwed ac anghysbell yn cael budd yn aml trwy gynlluniau ynni lleol a arweinir gan y gymuned.
- Dangos arweinyddiaeth fel cyrff cyhoeddus sy'n cyd-fynd â pholisi hinsawdd cenedlaethol.

²²⁶ Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy - Tirweddau Cymru

²²⁷ Race To Zero - National Parks